Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
2006 - 2026

Cynllun a Fabwysiadwyd

Ionawr 2016

CARDIFF
CAERDYDD

Rhagair

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 - 2026 Cynllun a Fabwysiadwyd

Rhagair

Am fod Caerdydd yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Unedig, mae'n hanfodol bod Cynllun Datblygu cyfredol ar gael i arwain unrhyw ddatblygiadau newydd. Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith a'r sicrwydd angenrheidiol i ddatblygu'r cartrefi newydd (yn enwedig tai fforddiadwy/i'r teulu) a'r swyddi sy'n ofynnol mewn dull wedi'i reoli.

Mae cynllun newydd i Gaerdydd hyd yn oed yn fwy hanfodol o gofio'r ffaith fod y Cynllun Lleol blaenorol wedi'i gymeradwyo yn 1996- rhyw 19 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r ffaith nad oedd Cynllun cyfredol ar gael wedi cael canlyniadau negyddol difrifol ac wedi golygu nad oes digon o dir wedi'i ddarparu i gwrdd â'r angen brys am dai.

O'i roi'n weddol syml, dydy peidio â chael cynllun yn ei le ddim yn atal datblygiad. Y cwbl sy'n digwydd yw bod datblygiad yn dal i ddigwydd, ond mae'n digwydd mewn sefyllfa lle nad oes polisïau ac nad oes fawr reolaeth gan y Cyngor a'i drigolion. Collwyd apeliadau am ddatblygiad mewn ardaloedd agored o gefn gwlad a gadawyd y Cyngor mewn sefyllfa wan o ran sicrhau cyfleusterau cymunedol a seilwaith cefnogol. Yr unig ffordd ymlaen yw dull wedi'i arwain gan gynllun lle mae'r Cyngor yn gosod strategaeth glir ar gyfer y dyfodol.

Mae'r weinyddiaeth yma wedi dangos arweiniad cryf drwy symud y Cynllun Datblygu Lleol yn ei flaen drwy broses baratoi gymhleth yn dynn wrth yr amserlen gymeradwy. Mae'r broses hon wedi cynnwys nifer o gamau o ymgynghori ac, yn ogystal, broses arholi ffurfiol hir dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf. Ga i gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymarfer hwn sydd mor bwysig i ddyfodol ein dinas.

Mae hefyd wedi ymateb i faterion a godwyd yn ystod y broses ac wedi cynnwys fframwaith uwchgynllunio cryf o fewn y Cynllun. Yn y ffordd yma, bydd datblygiad newydd yn dod â chyflwyniad graddol y seilwaith cefnogi angenrheidiol sy'n cynnwys ysgolion, cyfleusterau iechyd a manteision cymunedol eraill. Cydnadyddir bwysigrwydd seilwaith cludiant hefyd gyda'r Cynllun yn gosod dull newydd o gludiant cynaliadwy strategol fel bod ein dinas yn gallu parhau i symud a gwella cysylltiadau gydag ardaloedd cyfagos.

Yn gyffredinol, mae'r Cynllun yn darparu ymateb cytbwys i gwrdd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd, ond mewn ffordd sy'n amddiffyn ein mannau agored gwerthfawr, ein coridorau afonydd a chefnlun ein cefn gwlad yn y ffordd orau bosib.

Heb os nac oni bai, mae oes gyffrous newydd o'n blaenau yn natblygiad Caerdydd. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweld pencadlys newydd y BBC yn agor ynghyd â chyfnewidfa gludiant yng nghalon ein dinas. Mae cynlluniau adfywio tir llwyd eraill yn parhau i gael eu cyflwyno gan gynnwys prosiectau tai fforddiadwy wedi'u harwain gan y cyngor ochr yn ochr â chyfleoedd maes glas newydd sydd wedi eu disgrifio yn y Cynllun. Ar raddfa prifddinas-ranbarth, mae cyfleoedd sylweddol o'n blaenau drwy'r Fargen Metro a Dinas newydd.

Felly, mae mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol nid yn unig yn amserol ond yn hanfodol hefyd i helpu i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i ddenu a chynnal buddsoddiadau newydd. Yn y ffordd yma, gall Caerdydd barhau i ddod â'r cartrefi a'r swyddi newydd y mae eu hangen a gwella ei rôl ymhellach fel un o'r prifddinasoedd gorau i fyw ynddi yn Ewrop.

Y Cynghorydd Ramesh Patel

Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd

Rhagair

Crynodeb

Crynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r Cynllun Datblygu Lleol.

1. Gwneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd

- Mae angen mawr am gartrefi newydd yng Nghaerdydd gan gynnwys cartrefi i deuluoedd, tai fforddiadwy ynghyd â darparu ar gyfer yr amrediad cyfan o anghenion.
- Mae Caerdydd yn chwarae rôl allweddol hefyd fel gyrrwr economaidd y brifddinas-ranbarth ehangach, gan ddarparu swyddi y mae angen mawr amdanynt i'r rhanbarth cyfan.
- Nod y Cynllun yw ymateb mewn ffordd gytbwys i'r anghenion cymdeithasol ac economaidd hyn y mae tystiolaeth ohonynt – gan barchu nodweddion amgylcheddol, darparu fframwaith i reoli darpariaeth a chynnig seilwaith newydd ynghyd â rheoli effeithiau'n ofalus.
- Ystyrir bod lefel gyffredinol y tyfiant yn cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol gan gymryd yr holl ffactorau perthnasol i ystyriaeth ynghyd â chyngor arbenigwyr annibynnol sy'n rhagweld y boblogaeth.
- Mae'n gosod Strategaeth i ddarparu 41,415 o anheddau newydd a 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y Cynllun gan gynnwys ffyrdd o ddarparu hyblygrwydd os bydd y cyfraddau adeiladu'n uwch na'r disgwyl.
- Ystyrir y lefel yma o dyfiant yn briodol ar gyfer gweithredu amcanion Cynllun Gofodol Cymru, gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.
- Bydd cartrefi, swyddi a chyfleusterau cefnogi newydd wedi eu darparu o nifer o ffynonellau gan gynnwys:
    - Y rheiny a adeiladwyd yn barod ers cychwyn cyfnod y Cynllun yn 2006;
    - Addasiadau bychain i'r stoc tai presennol – gan gymryd i ystyriaeth y dymchweliadau a ragwelir a'r newid defnydd ar sail cyfraddau'r gorffennol;
    - Ymrwymiadau – Safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio arnynt yn barod neu gynnig i roi caniatâd yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol;
    - Darpariaeth ffawdelw a ddisgwylir - y safleoedd hynny sy'n debygol o ddod yn eu blaenau dros gyfnod y Cynllun drwy newid naturiol mewn ardal ddinesig o faint Caerdydd; a
    - Dyraniadau newydd gan gynnwys safleoedd tir llwyd, safleoedd maes glas o wahanol feintiau a chyfuniadau o ffyrdd o ddefnyddio tir.

- Yn gyffredinol, ar gyfer cyfnod cyfan y Cynllun, mae hyn yn cynrychioli oddeutu 65% o'r holl gartrefi newydd sy'n cael eu darparu ar safleoedd tir llwyd a 35% a ddarperir ar safleoedd maes glas.

- Mae'n hanfodol darparu ystod a dewis go iawn o safleoedd newydd er mwyn darparu'r lefel ofynnol o dyfiant yn effeithiol, gan ddarparu amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a darparu hyblygrwydd a'r gallu i ateb amrediad eang o anghenion y mae tystiolaeth ohonynt am gartrefi a swyddi newydd.

- Cynigir y safleoedd strategol allweddol a ganlyn ar gyfer darparu'r angen yma:
    - Ardal Fenter Canol Caerdydd
    - Yr Hen Waith Nwy, Ferry Road
    - Gogledd Orllewin Caerdydd
    - I'r Gogledd o Gyffordd 33
    - I'r De o'r Creigiau
    - Gogledd Ddwyrain Caerdydd (i'r Gorllewin o Bontprennau)
    - I'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontprennau
    - I'r De o Barc Busnes Llaneirwg

2. Rhoi fframwaith yn ei le i reoli tyfiant yn y dyfodol ac annog cynllun cynaliadwy o safon uchel

- Mae polisïau a mecanweithiau wedi eu rhoi ar waith i ddarparu fframwaith a fydd yn rheoli tyfiant yn effeithiol yn y dyfodol.

- Mae'n esbonio'n eglur pa ardaloedd sydd i gael eu cadw'n rhydd o ddatblygiad er mwyn osgoi'r hinsawdd bresennol o ansicrwydd sy'n bodoli am nad oes Cynllun mabwysiedig yn ei le.

- Mae'r ardaloedd sydd wedi eu diogelu'n cynnwys dynodiad Lletem Las i'r Gogledd o Briffordd yr M4 ynghyd â'r polisi am ffiniau tynn ar anheddau drwy'r sir gyfan a diogelu dyffrynnoedd afon a'r tir agored.

- Mae'r dull o lunio uwchgynlluniau'n darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer datblygu ardaloedd newydd sy'n nodi'r gofynion allweddol yn ymwneud â defnyddio'r tir, dwyseddau, cyfleusterau cymunedol, cludiant, tir agored a chyflwyno graddol.

- Bydd rhagor o waith ar uwchgynllunio ardaloedd yn fanwl yn digwydd o fewn y cyd-destun trosfwaol yma.

- Mae polisïau ac arweiniad ynglŷn â dyluniad yn nodi'r disgwyliadau gan annog mathau mwy cynaliadwy o ddatblygiad.

3. Dod â seilwaith newydd yn ei flaen

- Mae'n amlwg y bydd y datblygiad newydd yn creu'r angen am seilwaith newydd.

- Mae'r Cynllun yn nodi dull sy'n gofyn darparu seilwaith newydd yn brydlon gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, cludiant a gwasanaethau eraill.

- Er ei fod yn cydnabod bod rhai elfennau sylweddol o'r seilwaith yn gallu cymryd llawer o flynyddoedd i'w cwblhau, mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau fod pob cam o'r datblygiad newydd wedi'i glymu at ddarparu seilwaith angenrheidiol gyda phob cam o'r datblygiad yn dangos lefel dderbyniol o gyfleusterau cefnogol.

- Mae'r Cynllun Seilwaith yn nodi'r gofynion ar gyfer y dyfodol.

- Bydd deialog pellach a chanfyddiadau ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu ymhellach y rhestr fanwl o seilwaith sy'n ofynnol ynghyd â chyfleoedd cyllido sy'n cynnwys rolau cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) ar gyfer prosiectau strategol a chyfraniadau Cytundeb Adran 106 ar gyfer blaenoriaethau lleol ynghyd â ffrydiau ariannu posibl eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

4. Darparu atebion cynaliadwy o ran cludiant

- Mae'r dull cyffredinol yn ceisio lleihau'r galw am deithio ac yn darparu amrediad o fesurau a chyfleoedd sy'n gostwng dibyniaeth ar y car.

- Rhaid integreiddio datblygiad newydd yng Nghaerdydd gyda darparu seilwaith cludiant newydd sy'n gallu helpu i gyfrannu at yr amcan yma drwy roi atebion cynaliadwy o ran cludiant yn eu lle sydd hefyd yn darparu gwell dewisiadau teithio i'r gymuned ehangach.

- Mae'r dull yma'n hollol gyson â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar raddfa prifddinas-ranbarth i geisio datblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus mwy effeithiol ar draws y rhanbarth cyfan, gan helpu pobl i deithio o lle maent yn byw i'w gwaith a thrwy hynny helpu i ledaenu ffyniant o amgylch y brifddinas-ranbarth gyfan.

5. Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt

- Rhaid cynnal a gwella'r rôl economaidd allweddol a wneir gan Gaerdydd er budd Caerdydd, y brifddinas-ranbarth a Chymru gyfan.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod Caerdydd wedi darparu cyfran uchel o swyddi yn gyson yn y brifddinas-ranbarth.
- Mae'r Strategaeth yn ymateb i hyn drwy sicrhau dewis ac ystod lawn o gyfleoedd economaidd ar draws yr holl sectorau perthnasol.
- Bydd Ardal Fenter Canol Caerdydd yn elfen allweddol o'r dull ond mae hefyd angen cynnal rolau Canol y Ddinas, Bae Caerdydd, safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli'n barod ynghyd â darparu ystod a dewis o safleoedd i ateb y galw ar draws y sectorau.

6. Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt

- Mae Caerdydd yn dioddef rhai anghenion cymdeithasol arwyddocaol, ac mae'r rhagolygon yn darogan y bydd y galw arbennig o uchel am dai yn parhau dros gyfnod y Cynllun.
- Nod y Strategaeth yw ymateb yn bositif i'r anghenion hyn drwy ddarparu amrediad a dewis eang o safleoedd i ymateb i'r amrywiaeth cyfan o anghenion, gan gynnwys y rheiny o du'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr fel sy'n ofynnol mewn polisi ac arweiniad cenedlaethol.
- Yn gyffredinol, mae'r Cynllun yn hybu cymunedau mwy cynaliadwy lle rhoddir pwyslais ar gefnogi Canolfannau Ardal a Lleol, gan annog yr amrediad llawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd ac addysg ynghyd â chefnogi mentrau adfywio a defnyddio'r manteision positif posibl y gallai datblygiadau eu cyflwyno i ardaloedd cyfagos.

7. Parchu amgylchedd Caerdydd ac ymateb i newid yn yr hinsawdd

- Mae gan Gaerdydd dreftadaeth adeiledig a naturiol unigryw ac arbennig o nodedig.
- Mae'r Cynllun yn darparu datblygiad cynaliadwy drwy gwrdd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd, ond mewn ffordd wedi'i rheoli sy'n cynnal, rheoli a gwella nodweddion pwysig y dreftadaeth naturiol ac adeiledig.
- Yn ganolog i'r dull yma mae dynodiad Lletem Las i'r Gogledd o Briffordd yr M4, polisi ffin anheddiad tynn ynghyd ag amddiffyn dyffrynnoedd afon a mannau agored. Yn y ffordd yma, gellir cynnal nodweddion amgylcheddol nodedig Caerdydd yn llwyddiannus gyda chyfleoedd pellach i wella eu rheolaeth a chynyddu mwynhad y cyhoedd.
- Mae polisïau manwl yn rhoi arweiniad clir ar elfennau pwysig o fioamrywiaeth, tirlun a threftadaeth adeiledig Caerdydd.

1 Cyflwyniad	**16**
2 Cyd-destun Caerdydd a'r Materion Allweddol	**20**
3 Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol	**26**
4 Y Strategaeth, Polisïau Allweddol a'r Diagram Allweddol	**38**
Y Strategaeth	**38**
Polisïau Allweddol	**42**
KP1: LEFEL Y TYFIANT	42
KP2: SAFLEOEDD STRATEGOL	50
KP2 (A): ARDAL FENTER CANOL CAERDYDD A'R HYB TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL	53
KP2 (B): YR HEN WAITH NWY, FERRY ROAD	58
KP2 (C): GOGLEDD ORLLEWIN CAERDYDD	61
KP2 (D & E): I'R GOGLEDD O GYFFORDD 33 YR M4 A DE CREIGIAU	67
KP2(F): GOGLEDD DDWYRAIN CAERDYDD (GORLLEWIN PONTPRENNAU)	74
KP2 (G): I'R DWYRAIN O FFORDD GYSWLLT PONTPRENNAU	79
KP2 (H): I'R DE O BARC BUSNES LLANEIRWG	84
KP3 (A): LLETEM LAS	88
KP3 (B): FFINIAU'R ANHEDDIAD	88
KP4: Y DULL O UWCHGYNLLUNIO	90
KP5: CYNLLUN CYNALIADWY AC ANSAWDD DA	92
KP6: SEILWAITH NEWYDD	94
KP7: GOBLYGIADAU CYNLLUNIO	97
KP8: CLUDIANT CYNALIADWY	98
KP9: YMATEB i ANGHENION ECONOMAIDD Y MAE TYSTIOLAETH OHONYNT	102
KP10: ARDALOEDD BUSNES CANOLOG A'R BAE	105
KP11: AGREGAU CARREG MÂL A MWYNAU ERAILL	107
KP12: GWASTRAFF	108
KP13: YMATEB I ANGHENION CYMDEITHASOL Y MAE TYSTIOLAETH OHONYNT	110
KP14: BYW'N IACH	112
KP15: NEWID YN YR HINSAWDD	113
KP16: SEILWAITH GWYRDD	116
KP17: TREFTADAETH ADEILEDIG	117

Cynnwys

KP18: ADNODDAU NATURIOL 119

5 Polisïau Manwl 122

1. TAI 122

H1: SAFLEOEDD TAI ANSTRATEGOL 122

H2: CYFNEWIDIAD I DDEFNYDD PRESWYL 123

H3: TAI FFORDDIADWY 123

H4: NEWID DEFNYDD EIDDO NEU DIR PRESWYL 125

H5: RHANNU NEU GYFNEWID EIDDO PRESWYL 127

H6: NEWID DEFNYDD NEU AILDDATBLYGU I GREU DEFNYDD PRESWYL 128

H7: SAFLEOEDD AR GYFER CARAFANAU TEITHWYR A SIPSIWN 129

2. ECONOMI 131

EC1: TIR CYFLOGAETH CYFREDOL 131

EC2: DARPARU CYFLEUSTERAU CYFLENWOL I WEITHWYR CYFLOGEDIG MEWN DATBLYGIADAU BUSNES, DIWYDIANNOL A WARYSAU 134

EC3: DEFNYDD AMGEN O DIR A SAFLEOEDD CYFLOGAETH 135

EC4: AMDDIFFYN SWYDDFEYDD YN ARDALOEDD BUSNES CANOL Y DDINAS A'R BAE 137

EC5: DATBLYGU GWESTAI 138

EC6: SAFLE CYFLOGAETH ANSTRATEGOL 139

EC7: CYNIGION AM GYFLOGAETH AR DIR NAD YW WEDI'I BENNU AR GYFER DEFNYDD CYFLOGAETH 140

3. YR AMGYLCHEDD 141

EN1: DIOGELU CEFN GWLAD 141

EN2: CYFNEWID, YMESTYN AC ADNEWYDDU ADEILADAU YNG NGHEFN GWLAD 143

EN3: AMDDIFFYN Y TIRLUN 145

EN4: CORIDORAU AFONYDD 147

EN5: SAFLEOEDD DYNODEDIG 149

EN6: RHWYDWEITHIAU ECOLEGOL A NODWEDDION O BWYSIGRWYDD AR GYFER BIOAMRYWIAETH 152

EN7: RHYWOGAETHAU A CHYNEFINOEDD GYDA BLAENORIAETH 153

EN8: COED, COEDWIGOEDD A GWRYCHOEDD 155

EN9: CADWRAETH YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL 156

EN10: CYNLLUN SENSITIF i DDŴR 160

EN11: DIOGELU ADNODDAU DŴR 161

EN12: TECHNOLEGAU CARBON ISEL AC YNNI ADNEWYDDADWY 163

EN13: AWYR, SŴN, LLYGREDD GOLAU A HALOGIAD Y TIR 165
EN14: RISG LLIFOGYDD 169
4. CLUDIANT 172
T1: CERDDED A SEICLO 172
T2: TRAMWY CYFLYM STRATEGOL A CHORIDORAU BYSIAU 174
T3: CYFNEWID CLUDIANT 178
T4: HYB TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL 179
T5: RHEOLI EFFEITHIAU CLUDIANT 180
T6: YR EFFAITH AR WASANAETHAU A RHWYDWEITHIAU CLUDIANT 182
T7: Y SEILWAITH CLUDIANT STRATEGOL 183
T8: LLWYBRAU ADLONIANT STRATEGOL 184
T9: RHWYDWAITH 'METRO' PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD 186
5. MANWERTHU 188
R1: HIERARCHAETH MANWERTHU 188
R2: DATBLYGIAD YN YR ARDAL SIOPA GANOLOG 189
R3: FFRYNTIADAU SIOPAU A DDIOGELIR 190
R4: CANOLFANNAU ARDAL 192
R5: CANOLFANNAU LLEOL 195
R6: DATBLYGIAD MANWERTHU (TU ALLAN I'R CANOL) 198
R7: DARPARIAETH MANWERTHU MEWN SAFLEOEDD STRATEGOL 200
R8: DEFNYDDIAU BWYD A DIOD 201
6. CYMUNED 203
C1: ADNODDAU CYMUNEDOL 203
C2: AMDDIFFYN CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL CYFREDOL 204
C3: DIOGELWCH Y GYMUNED/CREU AMGYLCHEDDAU DIOGEL 205
C4: AMDDIFFYN TIR AGORED 207
C5: Y DDARPARIAETH AR GYFER LLE AGORED, HAMDDEN AWYR AGORED, CHWARAEON A CHWARAE PLANT 209
C6: IECHYD 211
C7: CYNLLUNIO I YSGOLION 212
7. MWYNAU 215
M1: ADNODDAU A CHRONFEYDD CALCHFAEN MWYNOL 215
M2: GORCHYMYN A FFEFRIR AM RYDDHAU ADNODDAU MWYNAU 216
M3: CAU CHWAREL A CHYFYNGIADAU ESTYNIADAU 217
M4: PARTHAU CLUSTOGI MWYNAU 218
M5: ADFERIAD A THU HWNT – DEFNYDDIO GWAITH MWYNAU 220

Cynnwys

M6: ARDALOEDD AMDDIFFYN Y LANFA DYWOD 221
M7: DIOGELU TYWOD A GRAEAN, GLO AC ADNODDAU CALCHFAEN 222
M8: ARDALOEDD LLE NA FYDD GWAITH GLO YN DDERBYNIOL 225
8. GWASTRAFF 227
W1: SAFLEOEDD AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF 227
W2: DARPARIAETH AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF MEWN DATBLYGIAD 229

6 Monitro a Gweithredu 232

7 Rhestr o Atodiadau 236

Atodiad 1: Rhestr o Bolisïau Manwl ac Allweddol 238

Atodiad 2: Fframwaith Polisi Cenedlaethol a Rhanbarthol 246

Atodiad 3: Cyd-destun Caerdydd a'r Materion Allweddol 252

Atodiad 4: Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 266

Atodiad 5: Safleoedd gyda Mwy na 10 o Anheddau 278

Atodiad 6: Ardaloedd o Warchodaeth Asedau Treftadaeth 290

Atodiad 7: Safleoedd Dynodedig 296

Atodiad 8: Canolfannau Ardal a Lleol 306

Atodiad 9: Fframwaith Monitro 346

Atodiad 10: Crynodeb o'r broses CDLI 390

Atodiad 11: Profion Hunanasesu Cadernid 408

Atodiad 12: Rhestr o Ddogfennau Cefnogol 416

Atodiad 13: Rhestr o'r Sail Dystiolaeth 420

Atodiad 14: Llyfryddiaeth 424

1 Cyflwyniad

1 Cyflwyniad

Pwrpas a statws y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig

1.1 Mae dinasoedd yn newid. Mae hyn yn wir am Gaerdydd hefyd ac mae wedi tyfu o flwyddyn i flwyddyn am genedlaethau. O ganlyniad i hynny daeth Caerdydd yn Brifddinas Cymru ac yn ganolbwynt i brifddinas-ranbarth ehangach sy'n ffynhonell bwysig o swyddi a gwasanaethau i Dde Ddwyrain Cymru gyfan.

1.2 Mae angen cartrefi newydd, swyddi newydd, cludiant cefnogol a chyfleusterau eraill i gwrdd ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid cydbwyso'r anghenion yma'n ofalus yn erbyn ffactorau amgylcheddol a safonau byw.

1.3 Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Caerdydd yw'r erfyn i ymdrin â'r materion yma. Mae'n cynrychioli dull 'dan arweiniad cynllun' o gwrdd ag angenion y dyfodol.

1.4 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghaerdydd dros gyfnod y Cynllun (2006-2026). Mae hyn yn cyflawni gofynion y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n ei gwneud hi'n ofyniad i'r Cyngor baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n cymryd lle'r Cynlluniau Strwythur a Chynlluniau Lleol cyfredol sy'n ymwneud â Chaerdydd a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i arwain a rheoli datblygiad a darparu'r cyd-destun polisi lleol statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.5 Paratowyd y Cynllun yn unol â rheoliadau ffurfiol a'r 'Cytundeb Darparu Cynllun Datblygu Lleol' sy'n nodi amserlen ar gyfer ei baratoi ynghyd â manylion ymgynghoriad wrth i'r Cynllun symud yn ei flaen. Cytunwyd ar hwn gyda Llywodraeth Cymru ar Ragfyr 5ed, 2011.

1.6 Mae'r Cynllun yn cynnwys yr adrannau a ganlyn:

- Rhagair;
- Crynodeb;
- Cyflwyniad;
- Amcanion a Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol;
- Strategaeth, Polisïau Allweddol a Diagram Allweddol;
- Polisïau Manwl;
- Monitro a Gweithrediad;
- Map Cynigion a Map Cyfyngiadau;
- Atodiadau.

Monitro ac Adolygu

1.7 Bydd y Cyngor yn gweithio gydag eraill i weithredu'r Cynllun ac yn gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith polisi newydd a fabwysiadwyd.

1.8 I asesu pa mor effeithiol yw gweithrediad y Cynllun, rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol. Bydd yr adroddiad wedi ei seilio ar y Fframwaith Monitro fel y mae wedi ei nodi yn Atodiad 9 i'r ddogfen hon. Mae hon yn agwedd bwysig o broses y Cynllun Datblygu Lleol am fod modd defnyddio tystiolaeth a gesglir drwy fonitro blynyddol i hysbysu adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n digwydd bob 4 blynedd.

Canllawiau Cynllunio Atodol

1.9 Mae'r rhain yn ddogfennau anstatudol sydd wedi'u bwriadu i roi cyngor ac arweiniad defnyddiol sy'n ehangu ar bolisïau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Rhaid iddynt fod yn atebol i ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Atodiad 4 y ddogfen hon yn rhestru'r holl Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd a/neu sydd wedi'u diweddaru y bwriadwyd iddynt gael eu paratoi ynghyd ag amseriadau.

Prosesau asesu sydd wedi hysbysu'r Cynllun

1.10 Yn ogystal â'r archwiliad annibynnol cyffredinol o'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Cynllun wedi bod trwy ddwy broses asesu ffurfiol pellach hefyd. Mae prosesau'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofynnol dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol i sicrhau fod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd ac yn ystyried yr effeithiau ar yr amgylchedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) – mae gofyn i'r broses hon benderfynu ar effeithiau arwyddocaol tebygol y Cynllun ar Safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur.

1.11 Ymhellach, mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig wedi derbyn yr asesiadau ychwanegol a ganlyn a luniwyd i graffu ymhellach ar gynnwys y Cynllun: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd - proses sy'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol mewn asesu goblygiadau iechyd y Cynllun; ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - proses sy'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol mewn asesu goblygiadau cydraddoldeb y Cynllun.

1.12 Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant ac etifeddiaeth Gymreig, ond ar ôl asesu dwysedd y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg ar draws y Ddinas, ni ystyrir hwn yn fater sydd angen sylw yn y Cynllun. O ganlyniad, ni ystyrir bod y cynigion sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn mynd i gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru nac effaith faterol ar gydbwysedd ieithyddol Caerdydd neu gymunedau yng Nghaerdydd.

1 Cyflwyniad

2 Cyd-destun Caerdydd a’r Materion Allweddol

2 Cyd-destun Caerdydd a’r Materion Allweddol

Cyd-destun Caerdydd a'r Maerion Allweddol y mae'n rhaid i'r Cynllun ymdrin â nhw

2.1 Mae’r adran hon yn rhoi crynodeb o gyd-destun Caerdydd a rhai o’r materion allweddol sydd wedi hysbysu’r Cynllun. Mae fersiwn llawnach yn Atodiad 3 y ddogfen hon ynghyd â chrynodeb o’r fframwaith polisi cenedlaethol a rhanbarthol.

Cyd-destun Caerdydd

- Yr ardal ddinesig fwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 345,400.
- Gyrrwr allweddol economi’r brifddinas-ranbarth yn Ne Ddwyrain Cymru.
- Mae 1.4 miliwn yn byw o fewn 45 munud mewn car o’r ddinas.
- Prifddinas Cymru, canolfan Llywodraeth Cymru.

Materion a thueddiadau cymdeithasol allweddol

- Mae poblogaeth Caerdydd wedi codi’n raddol dros yr 20 mlynedd ddiwethaf – dros 3,500 bob blwyddyn ers 2001.
- Mae rhagolygon swyddogol yn dynodi tyfiant parhaus mewn poblogaeth dros gyfnod y Cynllun.
- Mae angen sylweddol am dai fforddiadwy – mae 9,710 o bobl ar y rhestr aros gyfunedig am dai ar hyn o bryd.
- Mae Asesiad o’r Farchnad Tai Lleol (2013) yn dangos bod angen mwy na 3,989 o anheddau fforddiadwy ymhob un o’r cyfnodau 5 mlynedd nesaf i ymdrin ag angen. I ymdrin â’r angen yma bydd raid i’r Cyngor ystyried y diwygiadau lles diweddaraf a’r angen am ddarparu anheddau llai.
- Mae tai teulu’n angen allweddol.
- Mae angen 108 o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a bydd angen rhanbarthol am safle tramwy 10 llain dros gyfnod y Cynllun hyd 2026.
- Mae oddeutu 10.8% o boblogaeth Caerdydd yn fyfyrwyr.
- Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfri am 15.5% o boblogaeth Caerdydd, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru ond yn debyg i gyfartaledd Cymru/Lloegr.

- Mae llai o siaradwyr Cymraeg yma na chyfartaledd Cymru ond mae amrywiadau sylweddol o fewn y cymunedau.
- Mae anghydraddoldeb iechyd sylweddol yn y ddinas.
- Er bod gan Gaerdydd safon o fyw sy'n gyffredinol uchel, mae ardaloedd o amddifadedd dwys yn ddaearyddol yn y 'bwa deheuol' gan fwyaf.
- Mae diogelwch cymunedol yn fater allweddol yn ôl arolygon trigolion.
- Mae Caerdydd yn perfformio'n dda o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig o ran cael dysgu sgiliau lefel uchel ac mae 39% o'i weithlu wedi eu haddysgu i lefel gradd neu'n uwch.

Materion a thueddiadau economaidd allweddol

- Mae Caerdydd yn cyfrif am 32% o gyflogaeth cyfan De Ddwyrain Cymru ac mae ei heconomi'n gyffredinol gryf a bywiog.
- Mae bron i 189,000 yng ngweithlu cyflogedig Caerdydd gydag 88% o'r swyddi yn y sector gwasanaethu.
- Mae Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynhyrchu 22% o Werth Ychwanegol Gros (GVA) Cymru.
- Roedd diweithdra yng Nghaerdydd yn 4.5% ym mis Mawrth 2013.
- Mae'r dirwasgiad wedi achosi colli oddeutu 4,700 o swyddi rhwng 2008 a 2010.
- Mae gan Gaerdydd un o'r canrannau uchaf o gwmnïau tyfant uchel yn y Deyrnas Unedig rhwng 2002 a 2010.
- Mae tueddiadau mewnfuddsoddi'n gwella ond maent yn dal i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â dinasoedd craidd eraill.
- Canol y Ddinas a Bae Caerdydd yw prif leoliadau'r swyddfeydd o hyd gyda safleoedd y tu allan i'r ganolfan yn eu hategu, ond mae prinder cyflenwad da o swyddfeydd Graddfa A yng Nghaerdydd ac mae'r Cynllun yn cefnogi adfywiad parhaus Ardal Fusnes y Bae, gan gynnwys Mount Stuart Square.
- Maint y stoc diwydiannol cyfan yng Nghaerdydd yw oddeutu 19.2 miliwn troedfedd sgwar ac mae wedi'i grynhoi yn bennaf yn ardal de-ddwyreiniol y ddinas ond dim ond 6.1% o'r stoc sy'n llai na 5 mlwydd oedd.

- Canol Dinas Caerdydd yw prif ganolfan siopa De Ddwyrain Cymru ac mae'n 6ed yn y canolfannau gwerthu uchaf ym Mhrydain.
- Mae'r sector hamdden a thwristiaeth yn dod â manteision economaidd a diwylliannol sylweddol i'r ddinas.

Tueddiadau a materion allweddol o ran cludiant

- Cynyddodd y traffig ar ffyrdd Caerdydd o 9% rhwng 2002 a 2012.
- Mae 56% o drigolion Caerdydd yn teithio i'r gwaith yn y car.
- Mae bron i 77,900 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob dydd ar bob dull o gludiant (37% o weithlu Caerdydd). Mae Cyfrifiad 2001 yn nodi bod oddeutu 80% o gymudwyr yn teithio i Gaerdydd yn y car.
- Mae teithio ar y gwasanaethau rheilffyrdd wedi cynyddu'n sylweddol – mae'r defnydd a wneir o Orsafoedd Canol Caerdydd a Heol-y-Frenhines wedi cynyddu o 82% rhwng 2001 a 2011.
- Mae'r defnydd o feiciau wedi cynyddu o 10% rhwng 2001 a 2011 ond mae'r defnydd o fysiau wedi gostwng ychydig dros yr un cyfnod.
- Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd wedi'i leoli ym Mro Morgannwg ac mae'n darparu'r cysylltiadau rhyngwladol agosaf at Gaerdydd.
- Mae'r porthladd gweithredol yng Nghaerdydd yn gwneud rôl bwysig o ran symud cargo.

Tueddiadau a materion allweddol o ran yr amgylchedd

- Mae Caerdydd mewn darn o dirlun sydd wedi'i ddiffinio'n dda gyda chefnennau amlwg i'r gorllewin a'r gogledd ac Aber yr Afon Hafren i'r de.
- Mae'r ardal ddinesig a gwledig yn cynnwys cyfoeth o elfennau hanesyddol a naturiol diddorol. Er enghraifft, mae bron i 1,000 o Adeiladau Rhestredig, 27 o Ardaloedd Cadwraeth, 2 safle sy'n nodedig am eu bioamrywiaeth ryngwladol (Ardal Cadwraeth Arbennig Beechwood Caerdydd ac Ardal Diogelu Arbennig/RAMSAR/Ardal Cadwraeth Arbennig Aber yr Afon Hafren.
- Mae gan y ddinas dreftadaeth arbennig o gyfoethog o oesoedd Fictoria ac Edward.

- Mae gan Gaerdydd fwy na 400 hectar o le hamdden agored a 2000 hectar o le amwynder. Mae pedwar dyffryn afon yr Elái, Taf, Rhymni a Nant Fawr yn darparu coridorau eang a pharhaus sy'n rhedeg o gefn gwlad a thrwy'r ardal ddinesig.
- Mae'n hysbys bod tir amaethyddol o safon yn bodoli mewn rhai ardaloedd.
- Mae'n hysbys bod risg o lifogydd mewn perthynas â dŵr wyneb, dŵr llanw a dŵr afonol.
- Gwnaed astudiaethau manwl i asesu graddau'r risg yma ac i hysbysu'r Cynllun.
- Prif ffynhonnell allyriadau CO2 yng Nghaerdydd yw byd diwydiant (45%) ac mae ffynonellau domestig yn cyfrannu 30%.
- Prif ffynhonnell allyriadau sy'n effeithio ar ansawdd yr awyr yw traffig y ffordd (nitrogen ocsid yw'r prif lygrydd).
- Mae cynhyrchiad ynni adnewyddadwy yng Nghaerdydd yn isel ar hyn o bryd.
- Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cyfraddau ailgylchu yng Nghaerdydd wedi codi o 4% i 55%.
- Mae gan Gaerdydd gronfeydd sylweddol o fwynau o safon da.
- Mae ansawdd y dŵr yn y prif afonydd yn gwella ond yn dal i fod yn is na gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

2 Cyd-destun Caerdydd a’r Materion Allweddol

3 Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

3 Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

Cefndir

3.1 Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer y Cynllun sy'n dangos sut mae modd cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i ddarparu datblygiad cynaliadwy Caerdydd hyd at 2026. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i'r materion strategol sy'n berthnasol i Gaerdydd a'r cyd-destun o ran polisïau sy'n cael eu darparu gan Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig' y Cyngor (2010-2020) sy'n dod â'r Strategaeth Gymunedol; y Cynllun Plant a Phobl Ifanc; y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ac Asesiad Strategol Diogelwch y Gymuned oll i mewn i un ddogfen. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghaerdydd i osod y weledigaeth gyfunol ar gyfer y ddinas sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon. Ymhellach, mae'r weledigaeth a'r amcanion yn rhoi ystyriaeth hefyd i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor sy'n nodi amcanion cydraddoldeb strategol y Cyngor a Chynllun Gofodol Cymru (WSP) sy'n cydnabod y rôl a chwaraeir gan Gaerdydd i helpu i ledaenu ffyniant yn yr ardal a darparu bywyd o safon uchel.

Gweledigaeth

3.2 Mae gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol fel y mae wedi'i osod yn y Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig' 10 mlynedd (2010-2020) yn dweud fel hyn:

> **"Erbyn 2020…bydd Caerdydd yn brifddinas Ewropeaidd o'r radd flaenaf gyda safon o fyw sy'n eithriadol ac wrth galon prifddinas-ranbarth sy'n ffynnu".**

3.3 Mae partneriaid wedi cytuno ar saith canlyniad strategol a fydd, os cânt eu cyflawni, yn cynrychioli'r llwyddiant pennaf a gwireddiad y weledigaeth. Dyma'r canlyniadau hynny:

- **Mae'r bobl yng Nghaerdydd yn iach;**
- **Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, atyniadol a chynaliadwy;**
- **Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;**
- **Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llwyddiannus;**
- **Mae'r bobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu potensial llawn;**
- **Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo; ac**
- **Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol.**

3.4 Mae'n bwysig cydnabod na all y Cynllun Datblygu Lleol ddarparu pob un o'r canlyniadau hyn ar ei ben ei hun am fod nifer o'r materion yn ymestyn y tu hwnt i faterion cynllunio defnydd tir a chylch gwaith y ddogfen. Fodd bynnag, mae'r

Cynllun Datblygu Lleol yn ddogfen strategol hanfodol bwysig sy'n gorfod creu'r amodau cywir i helpu a chefnogi darpariaeth y canlyniadau hyn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

3.5 Pennwyd blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob un o'r canlyniadau. Dyma nhw:

Mae'r bobl yng Nghaerdydd yn iach

- Gostwng anghydraddoldeb mewn iechyd ac ymdrin â'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes ar draws y ddinas;
- Hybu dulliau iach o fyw ac atal iechyd gwael; a
- Gwneud y ffordd y darparwn ein gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn fwy effeithiol.

Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, atyniadol a chynaliadwy

- Sefydlu Caerdydd yn ddinas 'Carbon Ysgafn';
- Gwella ansawdd yr amgylchedd yng Nghaerdydd; a
- Sefydlu Caerdydd fel dinas deithio gynaliadwy.

Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

- Sicrhau fod pobl yn ddiogel rhag niwed, camdriniaeth ac ecsbloetiaeth;
- Datblygu cymunedau a chymdogaethau cydlynol yng Nghaerdydd;
- Sicrhau nad yw pobl yn gorfod dioddef trosedd ac effeithiau trosedd; a
- Sicrhau fod pobl yn ddiogel yn eu hamgylchedd.

Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llwyddiannus

- Adeiladu dyfodol cryf i'r plant a'r bobl ifanc drwy ganolbwyntio ar addysg, hyfforddiant a chyfleoedd i gael swydd;
- Gwella'r cyfleoedd i greu cyflogaeth gynaliadwy o safon; a
- Chreu amgylchedd sy'n datblygu, yn denu ac yn cadw gweithwyr medrus, busnesau a mentrwyr yng Nghaerdydd.

Mae'r bobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu potensial llawn

- Annog cyfranogaeth a dinasyddiaeth weithredol ymhob agwedd o fywyd;
- Cefnogi teuluoedd ac unigolion bregus i gyflawni a chynnal eu hannibyniaeth a'u huchelgais; a
- Chefnogi a darparu mynediad i ddarpariaeth hyfforddi a dysgu priodol i bawb.

Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo

- Darparu'r lefel o gysylltedd a seilwaith cynllun dinesig sy'n ofynnol i wneud Caerdydd yn lle gwych i weithio a gwneud busnes ynddo;

- Cefnogi a chynnal cymdogaethau diogel, cryf a chynaliadwy;
- Sicrhau darpariaeth o dai fforddiadwy a chynaliadwy o safon; a
- Datblygu cyfleusterau hamdden, diwylliannol a chwaraeon o'r radd flaenaf sy'n adlewyrchu yr hyn mae dinasyddion ac ymwelwyr ei eisiau.

Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol

- Galluogi holl bobl Caerdydd i ymgysylltu a chyfranogi'n ystyrlon yn y prosesau gwneud penderfyniadau;
- Symleiddio materion cydraddoldeb ar lefelau strategol a gweithredol; a
- Gostwng anghydraddoldeb drwy ddull unedig sydd wedi ei dargedu.

Amcanion

3.6 Mae amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'n fanylach sut mae modd ymdrin â gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol drwy'r system gynllunio. Maent yn ymateb i elfennau gofodol sydd i'w cael yn y weledigaeth ynghyd â llinynnau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wedi'u nodi yn y canlyniadau strategol.

3.7 Mewn termau gofodol, mae'r weledigaeth yn cydnabod y rôl allweddol y mae Caerdydd yn ei chwarae fel calon prifddinas-ranbarth ffyniannus. Mae bron i 77,900 o bobl yn cymudo i mewn i'r ddinas bob dydd sy'n dangos y rôl gymdeithasol ac economaidd bwysig y mae Caerdydd yn ei chwarae mewn perthynas â'r rhanbarth ehangach.

3.8 Mae'r weledigaeth yn cydnabod yn llawn y materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â chynaliadwyedd. Nod amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yw ymateb i'r anghenion economaidd a chymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt ond mewn ffordd sydd wedi'i chydlynu, sy'n parchu ac sy'n gwella amgylchedd Caerdydd ac yn nodi fframwaith ar gyfer darparu cymdogaethau cynaliadwy'r dyfodol. Mae hyn yn darparu datblygiad cynaliadwy yn lleol ac yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir pobl a chymunedau yng Nghaerdydd. Yn y ffordd yma gall y Cynllun Datblygu Lleol helpu i greu cymdogaethau cynaliadwy sy'n rhan o ddinas gynaliadwy sydd wrth galon prifddinas-ranbarth gynaliadwy.

3.9 Mae'r amcanion wedi eu nodi o dan 4 prif bennawd:

1. Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt a darparu'r seilwaith angenrheidiol i ddarparu datblygiad;
2. Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt;
3. Darparu anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydlynol sy'n parchu ac yn gwella amgylchedd Caerdydd; a
4. Chreu cymdogaethau cynaliadwy sy'n rhan o ddinas gynaliadwy.

1. Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt a darparu'r seilwaith angenrheidiol i ddarparu datblygiad.

a. Ymateb yn effeithiol i rôl Caerdydd fel prifddinas Cymru, canolfan y Llywodraeth Genedlaethol a chanolbwynt y brifddinas-ranbarth o ran darparu ystod a dewis o gyfleoedd economaidd a fydd yn gyrru ffyniant y rhanbarth

b. Gwneud yn fawr o botensial economaidd canol dinas Caerdydd fel cyfle mawr i'r sector gwasanaethu ac ariannol sy'n adeiladu ar ei leoliad drws nesaf i ganolfan gludiant o arwyddocad cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n hygyrch iawn o bob ardal o fewn y ddinas ac sydd â chysylltiadau da â dinasoedd eraill Prydain.

c. Cynnal a gwella egni, dengarwch a hyfywedd canol y ddinas fel cyrchnod diwylliannol a manwerthu mawr ac felly i weithio, i ymweld ac i fyw yno.

d. Parhau ag adfywiad llwyddiannus ardal Bae Caerdydd, gan wneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer cael adeiladau masnachol o safon a datblygiad pellach, yn arbennig datblygiadau'r glannau a'r afon sy'n gallu darparu amgylcheddau atyniadol a nodedig.

e. Hybu clystyrau o sectorau arbenigol ac arbenigedd mewn datblygiad ac ymchwil gan gynnwys y sectorau allweddol a ganlyn:

- TGCh;
- Ynni a'r amgylchedd;
- Gweithgynhyrchu a deunyddiau lefel uwch;
- Diwydiannau creadigol;
- Gwyddorau bywyd; a
- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

f. Sicrhau bod ystod a dewis o safleoedd busnes a thir cyflogaeth wedi eu darparu mewn lleoliadau cynaliadwy ar draws y ddinas i helpu gyda chystadleurwydd economaidd, i annog mentergarwch, i hybu tyfiant busnesau brodorol o bob math a maint ac i ddenu mewnfuddsoddiad.

g. I helpu i hybu Caerdydd fel cyrchnod pwysig i dwristiaid yn cynnwys darparu datblygiad amrywiaeth o gyfleusterau o safon i dwristiaid a lletai da i ymwelwyr.

h. I greu amgylchedd ffisegol ac economaidd sy'n datblygu, denu a chadw gweithwyr medrus, busnesau a mentrwyr gyda sgiliau da yng Nghaerdydd ynghyd â gwella'r cysylltiadau gyda Phrifysgolion a chefnogi sgiliau a mentrau brodorol.

i. Mesur y seilwaith strategol critigol sydd ei angen i wireddu'r uchelgeisiau am ddatblygiad a nodi mecanweithiau clir ar gyfer eu darparu yn cynnwys gwasanaethau cludiant cynaliadwy ar gyfer safleoedd strategol.

j. Sefydlu Caerdydd fel dinas deithio gynaliadwy drwy ostwng yr angen i deithio, cynyddu'r defnydd o rwydweithiau a dulliau cynaliadwy o deithio (yn arbennig cerdded a beicio), gostwng y defnydd o geir preifat a gwella canolfan gludiant allweddol y ddinas sydd wedi'i seilio yn y gorsafoedd bysiau a threnau canolog gerllaw.

k. Amddiffyn adnoddau mwynau cyfredol a sicrhau bod cyflenwad digonol o agregau calchfaen yng ngogledd orllewin y ddinas ar gyfer y diwydiant adeiladu a hybu eu defnydd effeithlon a phriodol, gan gynnwys defnyddio agregau wedi'u hailgylchu lle bo'n bosibl.

l. Cefnogi dulliau ailgylchu a chasglu cynaliadwy ar gyfer Gwastraff y Ddinas drwy gynnal a gwella rhwydwaith integredig o adnoddau yng Nghaerdydd.

m. Arwain a chyfranogi mewn sicrhau cyfleusterau rhanbarthol ar gyfer trin a chael gwared â Gwastraff Dinesig mewn ffordd gynaliadwy yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ac mewn ffordd sy'n dilyn yr hierarchaeth gwastraff sy'n ceisio gostwng gwastraff cymaint ag sy'n bosib yn y lle cyntaf ac wedyn ystyried opsiynau ail ddefnyddio, adfer ac ailgylchu cyn cael gwared â defnydd gwastraff.

n. Hwyluso rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy masnachol a diwydiannol sy'n gyson gydag anghenion ardal De Ddwyrain Cymru ac mewn ffordd sy'n dilyn yr hierarchaeth gwastraff sy'n ceisio sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl mewn gwastraff yn y lle cyntaf cyn ystyried opsiynau ail ddefnyddio, adfer ac ailgylchu i gael gwared â defnydd gwastraff.

2. Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt.

a. Darparu cartrefi newydd sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad economaidd y ddinas ac i ymateb i newid yn y boblogaeth, mewn-fudiad parhaus a'r galw y mae tystiolaeth ohono am dai fforddiadwy a thai i'r teulu fel bod modd ymdrin ag anghenion cymdeithasol.

b. Darparu ystod a dewis o gartrefi newydd o wahanol ddaliadaeth, math a lleoliad, sy'n cwrdd ag anghenion penodol megis darparu tai fforddiadwy, lle byw i deuluoedd, tai i'r henoed, yr anabl a myfyrwyr a mannau aros i'r gymuned sipsiwn a theithwyr.

c. Gwneud y defnydd gorau o'r stoc adeiladau presennol drwy fentrau adnewyddu, ôl-osod a chartrefi gwag.

d. Creu newidiadau yn amgylchedd a chymdogaethau Caerdydd sy'n helpu i ymdrin ag anghydraddoldeb mewn iechyd, yn hybu iechyd da ac yn galluogi i boblogaeth y ddinas arwain dulliau mwy iach o fyw yn unol â statws Caerdydd fel Sefydliad Iechyd y Byd, 'Dinas Iach'.

e. Dod â newidiadau i amgylchedd Caerdydd sy'n creu dinas fwy diogel ac yn gostwng tebygolrwydd, ofn a chanlyniadau troseddau.

f. Creu amgylchedd sydd wedi'i wneud yn fwy hygyrch i bob grŵp mewn cymdeithas fel bod modd i bawb allu defnyddio a mwynhau cyfleoedd cyflogaeth, adnoddau a gwasanaethau'r ddinas yn haws.

g. Gwneud yn fawr o'r rôl aml-swyddogaethol a chwaraeir gan barciau, mannau agored a lotments Caerdydd, ynghyd â'u gwneud yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfan.

h. Cydnabod, cefnogi a gwella'r rôl allweddol a chwaraeir gan Ganolfannau Ardal, Lleol a Chymdogaeth cyfredol fel canolfannau lleol hygyrch sy'n darparu gwasanaethau cymunedol, siopau lleol, dewisiadau bwyd iach, busnesau, cyflogaeth a mynediad at gludiant cyhoeddus.

i. Cefnogi adfywiad cymdogaethau lleol gan gynnwys gostwng anghydraddoldeb, yn arbennig mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd, ardaloedd sy'n agored i ddirywiad ac ardaloedd lle mae cyfleoedd i newid.

j. Sicrhau bod y cyfleusterau addysg a hyfforddiant angenrheidiol ar gael ac yn hygyrch i bawb: i greu dyfodol cryf i blant, darparu amrywiaeth mawr o gyfleoedd dysgu i bawb a helpu cynnydd economaidd drwy ddatblygu'r sgiliau gofynnol.

k. Datblygu cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon newydd i ateb anghenion a gwella rôl Caerdydd fel cyrchnod blaenllaw ar gyfer diwylliant a chwaraeon.

l. Sicrhau bod y cyfleusterau cymunedol a diwylliannol angenrheidiol (canolfannau cymunedol, siopau gyda dewisiadau bwyd iach, cyfleusterau ieuenctid, gofal plant, adeiladau ffydd, canolfannau iechyd ac ati) yn cael eu darparu sy'n hygyrch i bawb yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

m. Ymdrin â diweithdra sy'n cynyddu a darparu cyfleoedd cyflogaeth yn lleol sy'n hygyrch, yn arbennig yn yr ardaloedd lle mae'r anghenion mwyaf.

n. Hybu cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a mynediad i bawb.

3.5 3. Darparu anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydlynus sy'n parchu amgylchedd Caerdydd ac yn ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd.

a. Lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy ostwng y galw am ynni a chynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy.

b. Sicrhau bod Caerdydd yn addasu i'r effeithiau llawn a ragwelir o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd a bod datblygiad a seilwaith wedi ei lunio i allu gwrthsefyll y canlyniadau posibl.

c. Amddiffyn, rheoli a gwella asedau amgylcheddol naturiol Caerdydd, yn cynnwys:

- Y parciau, mannau agored a lotments yn y ddinas sy'n werthfawr iawn i gymunedau lleol ac sy'n rhan bwysig o ansawdd bywyd Caerdydd;
- Dyffrynnoedd afon strategol bwysig yr Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni sy'n cysylltu'r ddinas gyda chefn gwlad ac yn darparu adnodd amwynder, bioamrywiaeth a hamdden gwerthfawr;
- Mae cefn gwlad Caerdydd, yn arbennig ei ardaloedd o werth tirlun uchel a'r arfordir sy'n darparu lleoliad pwysig i'r ardal ddinesig, yn darparu adnodd amaethyddol a chyfle ar gyfer adloniant;
- Mae bioamrywiaeth y ddinas, ei safleoedd dynodedig yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, cynefinoedd bywyd gwyllt a nodweddion sy'n cynnwys rhywogaethau pwysig a rhwydweithiau sy'n cysylltu ardaloedd gwerthfawr â'i gilydd;
- Adnoddau naturiol, yn cynnwys geoamrywiaeth, y priddoedd gorau, ansawdd y dŵr ac awyr yn cynnwys gostwng llygredd; ac
- Y rôl y mae llysiau'n ei chwarae mewn brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd drwy ddarparu dalfeydd carbon, oeri a chysgod.

d. Cadw a gwella asedau adeiledig a hanesyddol Caerdydd sy'n diffinio cymeriad nodedig ac yn adlewyrchu ei datblygiad yn y gorffennol yn cynnwys:

- Ardal Gadwraeth y ddinas;
- Ei Henebion ac Adeiladau Rhestredig;
- Tirluniau Hanesyddol Cofrestredig ac ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol; a
- Mannau a gwagleoedd cyhoeddus gwerthfawr eraill, yn cynnwys parciau a mannau amwynder, sy'n gwneud yr ardal leol yn nodedig.

e. Wrth bennu safleoedd newydd i gwrdd ag anghenion economaidd/cymdeithasol, i ddilyn dilyniant lle gwneir yn fawr i ddechrau o gyfraniad safleoedd tir llwyd, yna bennu meysydd maes glas yr ystyrir eu bod yn cynrychioli'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy i roi lle i ddatblygiad newydd.

f. Rhoi ystyriaeth lawn i'r risg o lifogydd wrth ystyried pa mor dderbyniol yw cynigion am ddatblygiad ac wrth ystyried mesurau lliniaru ac addasu.

g. Gwneud yn fawr o gyfleoedd i greu amgylchedd glanach a mwy atyniadol sy'n gwella ansawdd bywyd ac yn helpu Caerdydd i ddod yn brifddinas Ewropeaidd o'r radd flaenaf.

4. Creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n rhan o ddinas gynaliadwy.

a. Sicrhau bod yr holl ardaloedd datblygu newydd (p'un a ydynt yn rhai maes glas neu dir llwyd) yn creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n dilyn yr egwyddorion dilynol:

- Lleihau'r galw am ynni a gwneud yn fawr o'r atebion adnewyddadwy – i ddarparu cymdogaethau mwy ynni-effeithiol sy'n defnyddio'r arferion gorau ac yn croesawu cysyniadau a thechnolegau adnewyddadwy;
- Gostwng teithio mewn car, gwneud y defnydd gorau o gludiant cynaliadwy a gostwng llygredd awyr drwy greu mannnau hygyrch, athraidd ac eglur, atal datblygiadau sydd wedi'u seilio'n bennaf mewn car, a chanolbwyntio datblygiad newydd mewn lleoliadau hygyrch sydd wedi'u cysylltu at y rhwydwaith beicio strategol ac y gellir eu

gwasanaethu'n bennaf gan rwydweithiau effeithiol o gludiant cynaliadwy - cerdded a seiclo a chludiant cyflym a rheolaidd o amgylch a thu hwnt i'r ddinas;

- Manteisio i'r eithaf ar ailgylchu – manteisio i'r eithaf ar werth cyffredinol gwastraff fel adnodd, cynllunio'n effeithiol ar gyfer y ffordd y gall datblygiadau newydd drefnu a storio gwastraff ar gyfer ei gasglu at ddefnydd cynhyrchiol arall a lleihau cymaint ag sy'n bosibl faint o ddefnydd sydd angen ei drin a mynd i safle tirlenwi terfynol;

- Lleihau'r defnydd o ddŵr a gwneud yn fawr o ddraeniad cynaliadwy - i reoli'n ofalus y defnydd a wneir o ddŵr a draeniad dŵr i osgoi gwastraff dianghenraid a lleihau dŵr ffo cyflym. Ceisio cyfleoedd i wneud yn fawr o amwynder positif a manteision bioamrywiaeth y gall gwasanaethau draeniad cynaliadwy eu cynnig;

- Manteisio i'r eithaf ar ddarpariaeth gynnar o ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol a seilwaith cymunedol - i ddarparu'r ystod lawn o gyfleusterau angenrheidiol sy'n hygyrch i bob aelod o'r gymdeithas ac y gellir eu cyrraedd o fewn taith gerdded 15 munud. Yn cynnwys yr ystod o elfennau addysgol, cymdeithasol, iechyd a hamdden sy'n angenrheidiol ar gyfer y raddfa o ddatblygiad a gynigir a chan hefyd gymryd i ystyriaeth anghenion eraill o fewn yr ardal ehangach;

- Gwneud yn fawr o'r manteision ychwanegol a ddaw gyda chymunedau newydd i gymunedau cyfagos neu oddi amgylch a lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl – pennu'n ofalus unrhyw gyfraniadau positif y gellir eu gwneud a chynnwys cymunedau lleol yn broses hon;

- Gwneud yn fawr o amrywiaeth y defnydd a wneir o'r tir yn yr ardaloedd datblygiad newydd - i greu cymunedau mwy cytbwys sy'n cynnig opsiynau nad ydynt wedi eu seilio ar y car i gymryd rhan yn llawn ym mywyd y gymuned. Sicrhau ystod a dewis o ddaliadaethau tai ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth lleol a'r ystod lawn o seilwaith cymunedol;

- Sicrhau'r cyfraniad gorau o rwydweithiau o dir agored cysylltiedig ac amlswyddogaethol i gynllunio'n strategol rwydweithiau o dir agored sy'n gyfoethog yn eu bioamrywiaeth ac sy'n darparu llwybrau diogel rhwng lleoliadau allweddol i annog dulliau mwy iach o fyw drwy hybu cerdded a beicio. Annog dulliau iach o fyw ymhellach drwy ddarparu lotments ynghyd â hyrwyddo bwyta iach yn ehangach;

- Gwneud yn fawr o egwyddorion cynlluniau da - creu lleoedd sy'n edrych yn dda, sydd o ddwysedd effeithiol a phriodol, sy'n parchu eu cyd-destun lleol yn llawnach sydd wedi eu hintegreiddio'n llwyddiannus gydag

ardaloedd cyfagos. Cynllunio adeiladau sy'n wydn ac sy'n gallu addasu'n hawdd i anghenion newidiol y dyfodol. Dylunio ardaloedd glân ac atyniadol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a chanddynt synnwyr o berchnogaeth; a

- Gwneud yn fawr o gyfranogaeth y gymuned yng ngwaith cynllunio, dylunio a rheoli/cynnal cymdogaethau newydd yn y dyfodol. Defnyddio'r broses uwchgynllunio i sefydlu egwyddorion cynllunio cadarn ond hefyd i gydnabod yr angen am ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd a gallu i newid sydd wedi'i reoli, yn arbennig mewn ardaloedd datblygu mwy.

b. Cymryd cyfleoedd i weithredu'r egwyddorion uchod mewn cymdogaethau cyfredol er mwyn creu dinas fwy cynaliadwy.

3 Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

4 Y Strategaeth, Polisïau Allweddol a'r Diagram Allweddol

Y Strategaeth

Trosolwg

4.1 Mae'r adran hon yn gosod Strategaeth gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol i ddarparu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun. Mae'r Strategaeth yn cynnwys y 7 elfen sydd wedi eu disgrifio isod ynghyd â Diagram Allweddol sy'n crynhoi prif gydrannau gofodol y Strategaeth. Ar y cyd, mae'r elfennau hyn yn darparu gweledigaeth drosfwaol y Cynllun a'r amcanion a nodwyd yn yr adran flaenorol. Maent yn darparu dull cydlynol wedi'i seilio ar dystiolaeth o gwrdd ag anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd sy'n parchu nodweddion amgylcheddol Caerdydd ac yn annog datblygiad cymdogaethau cynaliadwy yn rhan o ddinas gynaliadwy.

4.2 Prif elfennau'r Strategaeth:

1. Gwneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd.
2. Rhoi fframwaith yn ei le ar gyfer rheoli tyfiant y dyfodol ac annog cynllun cynaliadwy o safon uchel.
3. Dod â seilwaith newydd yn ei flaen.
4. Darparu atebion cynaliadwy o ran cludiant.
5. Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt.
6. Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt.
7. Parchu amgylchedd Caerdydd ac ymateb i newid yn yr hinsawdd.

4.3 Yn gyffredinol, mae Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn ymateb i'r angen y mae tystiolaeth glir ohono i wneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd. Mae'n gosod lefel o dyfiant yr ystyrir ei fod yn cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol gan gymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau perthnasol yn cynnwys argymhellion a wnaed gan arbenigwyr annibynnol mewn rhagamcannu poblogaeth. Mae'r dull yma'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion o'r tu mewn i Gaerdydd ond mae darpariaeth swyddi newydd yn helpu hefyd i ledaenu ffyniant y tu hwnt i ffiniau gweinyddol. I'r perwyl hwn, mae'r Strategaeth yn amcannu i adeiladu ar rôl allweddol Caerdydd fel canol y brifddinas-ranbarth y mae tystiolaeth yn dangos ei fod o bwysigrwydd hanfodol i les ehangach De Ddwyrain Cymru.

4.4 Ond, mae'r Strategaeth yn nodi polisïau a mecanweithiau clir sy'n darparu fframwaith a luniwyd i reoli tyfiant y dyfodol yn effeithiol ac annog cynllun cynaliadwy o safon uchel. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull o uwchgynllunio sydd wedi ei seilio ar amcanion cymdogaeth cynaliadwy i ddatblygu safleoedd newydd sydd wedi eu cefnogi gan arweiniad cynllunio manwl. Yn ogystal, mae'r dull yn rheoli tyfiant yn strategol drwy ddynodi polisi ffiniau anheddiad tynn a

Lletem Las i ddiogelu darnau mawr o gefn gwlad. Yn y ffordd yma gellir cynllunio ar gyfer datblygiad newydd mewn ffordd raddol a'i lunio mewn ffordd fwy cynaliadwy i leihau effeithiau negyddol.

4.5 Mae darpariaeth seilwaith newydd yn elfen bwysig o'r strategaeth oherwydd cydnabyddir bod yn rhaid i ddatblygiad newydd ddod â darpariaeth amserol yr adnoddau cymunedol cefnogol newydd a'r gwasanaethau angenrheidiol. Cydnabyddir bod rhai elfennau arwyddocaol o'r seilwaith yn gallu cymryd nifer o flynyddoedd i'w cwblhau, mae'r Strategaeth yn ceisio sicrhau fod pob cam o'r datblygiad newydd wedi'i glymu i mewn â darpariaeth y seilwaith angenrheidiol gyda phob cam o'r datblygiad yn gallu dangos lefel dderbyniol o adnoddau cefnogol. Gallai hyn gynnwys darpariaeth gynnar o gyfleusterau newydd ynghyd â sicrhau cyfraniad potensial gorau'r cyfleusterau cyfredol gerllaw ar yr amod bod lle a hygyrchedd derbyniol.

4.6 Mae'r Cynllun Seilwaith yn nodi'r gofynion yn y dyfodol. Bydd deialog pellach a chanfyddiadau ymgynghoriaeth yn helpu i ddatblygu ymhellach restr fanwl o seilwaith gofynnol ynghyd â chyfleoedd cyllido yn cynnwys rolau cyfraniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i brosiectau strategol, cyfraniadau Cytundeb Adran 106 ar gyfer blaenoriaethau lleol ynghyd â phennu ffrydiau cyllido posibl eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

4.7 Mae rhoi Strategaeth ar waith i alluogi darpariaeth atebion cynaliadwy o ran cludiant yn integrol hefyd i'r dull cyffredinol. Mae hon yn cydnabod bod yn rhaid i ddatblygiad yng Nghaerdydd gael ei integreiddio gyda seilwaith cludiant, bod yn rhaid lleihau'r galw am deithio ynghyd â darparu ystod o fesurau a chyfleoedd sy'n gostwng dibyniaeth ar y car. Mae'r agwedd yma'n hollol gyson gyda gwaith parhaus ar raddfa prifddinas-ranbath sy'n ceisio datblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus mwy effeithiol ar draws y rhanbarth cyfan. Bydd y dull yma'n dod â manteision cymdeithasol sylweddol drwy ostwng rhwystrau cyfredol rhwng cartrefi, swyddi a theithiau eraill ac yn helpu i ledaenu ffyniant o amgylch y brifddinas-ranbarth gyfan.

4.8 Rhaid cynnal a gwella'r rôl economaidd allweddol a wneir gan Gaerdydd er budd Caerdydd, y brifddinas-ranbarth a Chymru gyfan. Mae tystiolaeth yn dangos bod Caerdydd wedi darparu cyfran uchel o swyddi yn gyson yn y brifddinas-ranbarth. Mae'r Strategaeth yn ymateb i hyn drwy sicrhau dewis ac ystod lawn o gyfleoedd economaidd ar draws yr holl sectorau perthnasol. Bydd Ardal Fenter Canol Caerdydd yn elfen allweddol o'r dull ond mae hefyd angen cynnal rolau Canol y Ddinas, Bae Caerdydd, safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli'n barod ynghyd â darparu ystod a dewis o safleoedd i ateb y galw ar draws y sectorau.

4.9 Mae Caerdydd yn dioddef rhai anghenion cymdeithasol arwyddocaol, ac mae'r rhagolygon yn darogan y bydd galw arbennig o uchel am dai yn parhau dros gyfnod y Cynllun. Nod y Strategaeth yw ymateb yn bositif i'r anghenion hyn drwy

ddarparu amrediad a dewis eang o safleoedd. Yn bwysig iawn, mae'r dull yn edrych ar ddarparu ar gyfer anghenion penodol felly mae targedau wedi eu gosod i ddarparu tai fforddiadwy, mae gwahanol leoliadau'n helpu i ddarparu cynigion amrywiol ac mae'n ymdrin yn uniongyrchol ag anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn unol â pholisi ac arweiniad cenedlaethol.

4.10 Mae'r Strategaeth hefyd yn ymdrin â materion cymdeithasol ehangach ac mae wedi elwa o'r Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Chydraddoldeb i'r Cynllun. Mae'r dull yn ymwneud yn fawr iawn â hybu cymunedau mwy cynaliadwy lle rhoddir pwyslais ar gefnogi Canolfannau Ardal a Lleol, ar annog yr ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd ac addysg hygyrch, ynghyd â chefnogi mentrau adfywio, gan ddefnyddio'r manteision positif potensial y gall datblygiadau newydd eu cyflwyno i ardaloedd cyfagos.

4.11 Mae gan Gaerdydd dreftadaeth adeiledig a naturiol unigryw a hynod nodedig. Mae'r Strategaeth yn darparu datblygiad cynaliadwy drwy gwrdd ag anghenion cymdeithasol ac economaidd, ond mewn ffordd wedi'i rheoli sy'n cynnal, rheoli a gwella nodweddion pwysig y dreftadaeth naturiol ac adeiledig. Yn ganolog i'r dull yma mae dynodi Lletem Las i'r Gogledd o Briffordd yr M4, polisi ffiniau anheddiad tynn ynghyd â diogelu'r dyffrynnoedd afon a'r mannau agored. Yn y ffordd yma, mae modd cynnal nodweddion amgylcheddol nodedig Caerdydd yn llwyddiannus gyda rhagor o gyfleoedd i wella eu rheolaeth a chynyddu mwynhad y cyhoedd.

DIAGRAM ALLWEDDOL CDLL CAERDYDD

Polisïau Allweddol

1. Gwneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd

KP1: LEFEL Y TYFIANT

Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer 45,415 o anheddau newydd (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd 4,000 o anheddau) i ddarparu ar gyfer gofyniad tai o 41,415 o anheddau newydd a 40,000 o swyddi newydd yng Nghaerdydd rhwng 2006 a 2026.

4.12 Wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol symud drwy ei gamau paratoi niferus, fe ystyriwyd lefelau amrywiol o opsiynau tyfiant, cafwyd ymgynghoriadau a cheisiwyd cyngor arbenigol. Ystyrir bod y lefel o dyfiant sydd wedi'i nodi yn y Polisi Allweddol yma yn adlewyrchu orau ddadansoddiad o'r holl ffactorau perthnasol. Yn bwysig, mae wedi'i seilio ar yr wybodaeth fwyaf diweddar sy'n adlewyrchu materion a godwyd yn ystod y broses arholiadau ac yn gwneud darpariaeth (gan gynnwys y lwfans hyblygrwydd) i ddarparu'r lefel a nodwyd yn wreiddiol yn y Strategaeth a Ffefrir.

4.13 Mae'r holl ffactorau perthnasol, fel y maent wedi eu gosod allan ym Mholisi Cynllunio Cymru a'u crynhoi isod, wedi cael eu hystyried yn ofalus hefyd. Yn y cyswllt hwn, dylid nodi bod arweiniad cenedlaethol yn datgan y dylai'r rhagolygon swyddogol fod yn fan cychwyn ar gyfer gosod lefelau o dyfiant mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n nodi'n glir y dylid cyfiawnhau unrhyw wyro oddi wrth y ffigurau yma gyda thystiolaeth ddangosadwy. Mae'r ffigurau swyddogol yma'n dangos cynnydd o 42% ym mhoblogaeth Caerdydd ar gyfer y cyfnod 2008-2033 a chynnydd o 33% ar gyfer cyfnod y Cynllun 2006-26 y mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer.

4.14 Ni ystyrir bod gan unrhyw ffactorau materol eraill ddigon o bwysau i warantu symud oddi wrth y lefel yma o dyfiant yr ystyrir ei fod yn:

- Cytuno gyda nodau Cynllun Gofodol Cymru drwy gefnogi rôl Caerdydd fel canol prifddinas-ranbarth wedi'i rhwydweithio ond nid i lefelau eithriadol a allai niweidio amcanion adfywiad yn rhywle arall;
- Cytuno gyda gweledigaeth y Cyngor ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol;
- Ymateb yn effeithiol i'r deialog cydweithredol rhanbarthol sy'n cydnabod peryglon atal tyfiant yn artiffisial yng Nghaerdydd - roedd cydnabyddiaeth glir o 'effeithiau tonni' darparu swyddi a chartrefi yng Nghaerdydd oedd yn gwella ffyniant yn y brifddinas-ranbarth ehangach;

- Ymateb yn effeithiol i'r angen yr oedd tystiolaeth glir ohoni am ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi a swyddi newydd. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i gynnig rhagolygon swyddogol ac ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir drwy ystyried yr amrediad llawn o ffactorau;

- Darparu cartrefi a swyddi angenrheidiol, ond mewn ffordd wedi'i rheoli gan ddiogelu elfennau allweddol o amgylchedd Caerdydd;

- Cwrdd â ffactorau capasiti a'r gallu i ddarparu - mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cynigion a mecanweithiau sy'n cyfiawnhau'r ffordd y mae materion capasiti a'r gallu i ddarparu'n gallu cael ei drin yn ddigonol. Mae'r dewis a'r ystod eang o safleoedd yn cyfrannu at y ddarpariaeth ynghyd â'r a gwedd uwchgynllunio, sy'n cynnwys ymdrin â pha mor hawdd yw hi i ddarparu seilwaith cefnogi, yn dangos sut y gellir dod â datblygiad yn ei flaen yn llwyddiannus mewn ffordd wedi'i rheoli. (Byddai lefel uwch o dyfiant wedi'i ystyried yn anodd ei gyfiawnhau yn nhermau ffactorau 'gallu ddarparu' ac yn gosod targed artiffisial o uchel ar gyfer y gofynion cyflenwad 5 mlynedd sydd wedi'u gosod yn TAN 1; ac

- Ymateb mewn ffordd wedi'i seilio ar dystiolaeth i'r amrywiaeth o safbwyntiau sydd wedi'u mynegi mewn prosesau ymgynghori.

4.15 Mae manylion manwl y ffordd y bwriedir darparu ar gyfer y 41,415 o gartrefi newydd dros gyfnod y Cynllun i'w gweld yn Nhabl 1.

Tabl 1: DARPARIAETH TAI DROS GYFNOD Y CYNLLUN			
Rhes	**Pwnc/Ffactor**	**Nodyn/Ffynhonnell**	**Anheddau**
Y GOFYNIAD O RAN ANHEDDAU NEWYDD 2006 – 2026			
1	**2006-2026 Y Gofyniad am Anheddau**	**Fel y cyfeiriwyd ato ym Mholisi KP1**	**41,415**
2	2006-2026 Y Gofyniad am Anheddau bob blwyddyn (20 mlynedd)	Rhes 1 wedi'i rannu gan 20 mlynedd	2,071
NEWID MEWN ANHEDDAU O2006 hyd 2014 A CHRONFA DIR PRESWYL AR EBRILL 1af 2014			
3	Newid mewn Anheddau'r Dreth Gyngor 31 Mawrth 2006 hyd 31 Mawrth 2014 (8 mlynedd) (138,735 hyd 150,990)	Data swyddogol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol/Asiantaeth Brisio http://www.voa.gov.uk	12,255

Tabl 1: DARPARIAETH TAI DROS GYFNOD Y CYNLLUN			
Rhes	**Pwnc/Ffactor**	**Nodyn/Ffynhonnell**	**Anheddau**
4	Cronfa Dir Gyfredol (Yn cael eu Hadeiladu, Heb eu Cychwyn a Safleoedd sy'n atebol i Gytundeb Cyfreithiol).		10,885
	ADDASIADAU AR GYFER NEWID YN Y STOC ANHEDDAU CYFREDOL		
5	Addasiadau (Dymchweliadau, Newid Defnydd o Breswyl i Ddefnyddiau Eraill ac Addasiadau Preswyl)		242
	LWFANSAU		
6	Ffawdelw (yn cynnwys Enillion o Newid Defnydd)		5,850
7	15% o Lwfans Hyblygrwydd ar gyfer cynnyrch anheddau is o bosibl ar safleoedd Tir Llwyd mewn cronfa dir a rhai safleoedd S106 ddim yn dod yn eu blaen		-1,043
	SAFLEOEDD STRATEGOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL*		
8	Unedau ar Safleoedd Strategol y Cynllun Datblygu Lleol	Ag eithrio Safle Strategol A - ymrwymiad cyfredol yn y gronfa dir	13,950
	SAFLEOEDD ANSTRATEGOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL*		
9	Unedau ar Safleoedd Anstrategol y Cynllun Datblygu Lleol		572
	*Lwfans i osgoi cyfri dwbl ar safleoedd Strategol ac Anstrategol yn y gronfa dir fel ydoedd ar Fawrth 31ain 2014:		-1,256
10	**Y Cyflenwad Cyfan**		**41,456**

Tabl 1: DARPARIAETH TAI DROS GYFNOD Y CYNLLUN			
Rhes	**Pwnc/Ffactor**	**Nodyn/Ffynhonnell**	**Anheddau**
11	**Lwfans hyblygrwydd o 10% yn ychwanegol, fel y mae cyfeiriad ato yn KP1.**		**4000**

4.16 Mae'r Cynllun yn darparu ystod a dewis eang o gyfleoedd ar gyfer creu cartrefi a swyddi newydd. Mae hyn yn hanfodol i ddarpariaeth gyffredinol cartrefi a swyddi drwy alluogi i wahanol safleoedd mewn gwahanol leoliadau gael eu datblygu ar yr un pryd. Mae hefyd yn sicrhau hyblygrwydd oherwydd byddai nifer gyfyngedig o safleoedd yn cario risgiau darparu os byddai problemau gweithredu'n codi ar safleoedd penodol. Mae'r dull uwchgynllunio, sydd hefyd yn ymdrin â darparu seilwaith a chyflwyno graddol, yn rhoi fframwaith yn ei le i sicrhau bod safleoedd yn datblygu'n drefnus. Mae Polisïau Allweddol ar uwchgynllunio, dylunio a seilwaith, ynghyd â dogfennaeth gefnogol, yn esbonio'r dull yma'n fanylach.

4.17 O ran darparu cartrefi newydd, mae safleoedd tir llwyd yn dal i gyfrannu dros hanner y ddarpariaeth, ond mae hyn wedi'i ategu gan gyfleoedd maes glas newydd sy'n cynnig ystod a dewis llawnach. Mae hyn yn darparu catalydd angenrheidiol iawn i'r farchnad dai leol sydd wedi gweld prinder safleoedd maes glas yn ddiweddar ac sy'n gallu helpu i gwrdd â galw cudd sy'n cynyddu. Ymhellach, gall safleoedd maes glas chwarae rôl allweddol mewn dod â lefelau uchel o dai teulu a thai fforddiadwy yn eu blaenau. Mae tystiolaeth wedi dangos bod ffactorau hyfywedd safleoedd yn ei gwneud hi'n anodd i safleoedd tir llwyd ddarparu lefelau uchel o dai fforddiadwy'n gyson.

4.18 Dylid nodi hefyd bod gan Gaerdydd gyflenwad gorffenadwy o safleoedd tir llwyd a bod y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol wedi cael ei dynnu yn ei ôl oherwydd pryderon yr Arolygydd mai Strategaeth 'tir llwyd yn unig' ydoedd.

4.19 Mae'r Cynllun yn cydnabod bod cyflenwad cyfyngedig o dir llwyd derbyniol. Mae'n cydnabod hefyd na fydd yr holl safleoedd tir llwyd presennol sydd â chaniatâd cynllunio'n cael eu datblygu oherwydd newid mewn amodau economaidd/marchnad.

4.20 Fodd bynnag, bydd safleoedd tir llwyd yn parhau i chwarae rôl bwysig a bydd darpariaethau ffawdelw'n rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer cartrefi newydd wrth i ddefnyddiau tir o fewn y ddinas barhau i esblygu. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn asesu ei ddaliadau tir yn strategol ar hyn o bryd sydd, dros gyfnod y cynllun, yn debygol o gynhyrchu amrywiaeth a dewis eang o gyfleoedd tai tir llwyd ar draws y ddinas.

4.21 Mae darpariaeth dewis ac ystod lawn o opsiynau tai'n cefnogi darpariaeth y Strategaeth Economaidd yn llawn hefyd – gall cartrefi newydd a chyfleusterau cymunedol cefnogol helpu i ddenu buddsoddiad newydd i'r ddinas ac ysgogi mwy o symudiad yn y farchnad dai. Byddai swyddi adeiladu cysylltiedig yn darparu mantais ychwanegol i'r economi lleol.

4.22 Mae rhyddhau tir maes glas newydd yn golygu bod modd cyfrannu hefyd tuag at ddarpariaeth ehangach y seilwaith strategol er budd y ddinas a'r brifddinas-ranbarth ehangach yn gyffredinol. Er enghraifft, bydd darparu atebion cynaliadwy o ran cludiant yn creu goblygiadau positif i'r gymuned ehangach. Yn y cyswllt hwn, mae manteision clir i leoliadau'r safleoedd strategol sy'n cynnig y cyfle i gael dull cyfunol o ddarparu seilwaith strategol bwysig yn y Gogledd Orllewin a'r coridorau Gogledd Orllewinol a Dwyreiniol/Gogledd Ddwyreiniol. Mae hyn yn helpu i flaenoriaethu'r ddarpariaeth seilwaith mewn ffordd gynlluniedig a gyda ffocws.

4.23 Er mwyn darparu'r lefel ofynnol o dyfiant dros gyfnod y Cynllun, bydd angen cael ystod a dewis o safleoedd ar gael dros weddill cyfnod y Cynllun. Mabwysiadwyd y dull uwchgynllunio i reoli'r broses hon yn ofalus gyda Pholisïau Allweddol KP2 (A) hyd KP2 (H) yn darparu fframwaith ar gyfer darparu pob Safle Strategol yn y cyswllt hwn. Yn y ffordd yma, gall bob safle a phob cam o'r datblygiad ddod â'r ystod angenrheidiol gydag ef o seilwaith cefnogol. Dylid nodi bod graddfa'r safleoedd strategol yn agor y cyfle i ddarparu manteision seilwaith sylweddol. Ond, gallai rhai elfennau mawr gymryd cyfnod hir i'w darparu. Felly, bydd angen i gamau cynnar ddarparu'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer y cam arbennig hwnnw ynghyd â chyfrannu at ddarpariaeth seilwaith strategol ehangach a allai gael ei ddarparu'n ffisegol ar ddyddiad ychydig bach hwyrach. Bydd darpariaethau manwl yn eu lle i sicrhau darpariaeth mewn sefyllfaoedd o'r fath.

4.24 Ystyrir y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amodau sy'n newid. Bydd hyn yn cael ei gadw o dan adolygiad yn y broses Adrodd ar Fonitro Blynyddol gan ganiatáu i adolygiadau'r dyfodol ymdrin â'r angen am newid. Os bydd y galw'n is na'r disgwyl, bydd y dilyniant o ddarpariaeth yn aros yn ei le, gan felly reoli'r datblygiad mewn ffordd drefnus a'i gysylltu gyda'r ddarpariaeth seilwaith. Fodd bynnag, byddai'r senario yma'n golygu bod y taflwybr yn cael ei ddilyn dros gyfnod hirach gan naill ai ganiatáu i adolygiad y Cynllun neu'r Cynllun nesaf roi barn briodol ar ddarpariaeth y dyfodol bryd hynny.

4.25 Hefyd mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffaith fod y galw'n uwch na'r disgwyl. Ystyrir bod hyn yn bosibilrwydd llai tebygol. Ond, mae profion o gadernid y Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn bod Cynlluniau'n ddigon hyblyg i allu ymateb yn bositif i newidiadau mewn amgylchiadau. Felly mae gan y Polisi yma lwfans hyblygrwydd o 10% wedi ei adeiladu i mewn.

4.26 Yn y ffordd yma, os pennir angen yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyn diwedd cyfnod y Cynllun, gellir dod â thir ychwanegol yn ei flaen i bwrpasau preswyl ar y pwynt hwnnw mewn amser mewn adolygiad o'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn dangos ymrwymiad clir i gyfeiriad y teithio yn y tymor hir drwy bennu ardaloedd wedi'u diffinio'n ddaearyddol sydd wedi bod yn atebol i ddadansoddiad SA/SEA ac maent mewn sefyllfa dda i gwrdd ag anghenion o'r fath, os oes angen hynny.

4.27 Mae'r gwaith a wnaed yn rhan o'r broses hon wedi dangos bod cwmpas cyfyngedig ar gyfer ardaloedd datblygu pellach oherwydd y cyfyngiadau amgylcheddol a'r cyfyngiadau eraill o amgylch y ddinas gyda'i gilydd. Mae teilyngdod ystyriol mewn canolbwyntio ardaloedd ychwanegol posibl wedi'u seilio ar Safleoedd Strategol arfaethedig lle mae tir ar gael i gymryd mantais o ddarpariaeth gynhwysfawr y seilwaith cludiant a chymuned newydd a lleihau'r effaith ar ardaloedd o sensitifrwydd amgylcheddol uwch yn cynnwys y tir a gynigir ar gyfer dynodiad Lletem Las.

4.28 Mae tair ardal wedi'u pennu i ddarparu hyblygrwydd oherwydd gallai dim ond un opsiwn gyfyngu'r sgôp i anheddau gael eu darparu os ceir problemau ar safle arbennig. Dylid nodi hefyd yn y cyswllt hwn fod pob ardal yn cynnig ardal gros mawr gyda'r potensial cyfunol i ddarparu mwy na dim ond 10% yn ychwanegol o hyblygedd. Bydd uwchgynllunio Safleoedd Strategol ffiniol yn sicrhau bod mynediad addas wedi'i sicrhau ac y bydd gwaith monitro'r Cynllun yn y dyfodol yn sbarduno unrhyw ystyriaeth fanwl o'r gofynion seilwaith ac uwchgynllunio yn y dyfodol os bydd yr angen am ryddhau cynnar yr Ardaloedd Chwilio a bennwyd yn cael ei sbarduno o fewn cyfnod y Cynllun.

4.29 Dyma'r ardaloedd a ystyrir yn fwyaf addas i ddarparu'r angen posibl yma:

i. Tir i'r Gogledd o Safle Strategol Gogledd Orllewin Caerdydd - Hyd at 57 hectar o dir rhwng Ffordd Llantrisant a Phriffordd yr M4 gydag ymylon Radur yn ei ffinio i'r Dwyrain a'r datblygiad diweddar ar yr hen Ysbyty Rhydlafar yn y Gorllewin. Ffigur gros yw hwn gyda'r ardal net y gellir ei ddatblygu yn debygol o fod yn ostyngiad sylweddol oherwydd y cyfyngiadau naturiol a seilwaith o fewn y safle. Gallai hyn ddarparu lleiafswm o 1,250 o anheddau ychwanegol os oes eu hangen yng nghamau hwyrach cyfnod y Cynllun ond mae uwchgynllunio pellach yn ymdrin â gallu tymor hir yn debygol o ddangos bod ffigur uwch yn bosibl a bod y tir wedi'i bennu'n Ardal Chwilio A ar y Map Cynigion;

ii. Tir i'r Gorllewin o'r Safle Strategol i'r Gogledd o Gyffordd 33 – Mae hyd at 41 hectar o dir yn cynrychioli estyniad rhesymegol o'r safle yma sy'n syrthio rhwng Priffordd yr M4 a Ffordd Llantrisant. Gallai hyn ddarparu o leiaf 1,250 o anheddau ychwanegol os oes eu hangen yng nghamau diweddaraf cyfnod

y Cynllun ond mae rhagor o uwchgynllunio i ymdrin â gallu tymor hir yn debygol o ddangos bod ffigur uwch yn bosibl. Mae'r tir wedi'i ddynodi fel Ardal Chwilio B ar y Map Cynigion; a

iii. Safle Strategol Gogledd Orllewin Caerdydd - ystyrir mai maint cyfan y safle yma yw oddeutu 6,500 – 7,000 o anheddau yn dibynnu ar union ffurfwedd y dwyseddau tai a'r defnydd o'r tir. Mae'r gwaith a wnaed hyd yn hyn yn awgrymu bod ffigur o 5,000 o anheddau'n briodol i gartrefi sy'n cael eu darparu o fewn cyfnod y Cynllun (erbyn 2026). Fodd bynnag, os bydd y cyfraddau adeiladu'n gyflymach na'r disgwyl, mae'r safle yma'n gyfle gwych i helpu i ateb unrhyw angen ychwanegol o fewn cyfnod y Cynllun ac yn elwa o uwchgynllunio cynhwysfawr yr ardal gyfan a welir fel dyraniad cyfan.

4.30 Mewn ffordd debyg i ddarparu cartrefi newydd, cynigir ystod a dewis o gyfleoedd swyddi newydd hefyd. Mae'n bwysig sicrhau bod ystod a dewis o safleoedd busnes a thir cyflogaeth wedi eu darparu er mwyn cynnal a gwella cystadleurwydd y ddinas, hybu ac amddiffyn busnes brodorol a denu mewnfuddsoddiad.

4.31 Mae'r dull yma'n ymateb i rôl Caerdydd fel prif yrrwr economaidd y brifddinas-ranbarth yn cyfrif am 32% o'r gyflogaeth gyfan yn Ne Ddwyrain Cymru. Yng nghalon y dull yma mae cydnabyddiaeth bod prifddinas-ranbarth Caerdydd yn amlwg yn ffurfio ardal economaidd naturiol ac mae wedi gwneud cyfraniad positif mawr yn gyson i dyfiant economaidd Cymru. Mewn dadansoddiad craidd o'r ddinas, mae Caerdydd yn perfformio'n dda ac mae cyfle i adeiladu ymhellach ar hyn drwy barhau i wella rôl Caerdydd ac hefyd i wella cysylltiadau a chysylltedd o fewn y brifddinas-ranbarth. Cydnabyddir hefyd bod manteision sylweddol i ardaloedd ffiniol o lwyddiant Caerdydd mewn sicrhau tyfiant economaidd.

4.32 Mae'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer cynnig dewis ac amrediad eang o safleoedd cyflogaeth mewn gwahanol leoliadau ac i wahanol sectorau gan gynnwys y sectorau allweddol hyn o'r farchnad: TGCh, technolegau amgylcheddol ac ynni, gweithgynhyrchu a deunyddiau lefel uwch, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Mae'r ystod o safleoedd newydd yn sicrhau bod Caerdydd yn gallu darparu'r lefel o dyfiant a nodwyd ar gyfer swyddi newydd. Yn bwysig iawn, bydd gwahanol safleoedd yn gwneud gwahanol rolau yn y strategaeth. Er enghraifft, mae gan Borth Teigr (Basn y Rhath) y potensial i ddod yn lleoliad pwysig ar gyfer y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau. Gallai lleoliadau eraill fod yn fwy addas i safleoedd cyflogaeth bach y tu allan i'r ganolfan, gan gynnwys swyddfeydd, diwydiannau creadigol, gweithdai bychain ac unedau cychwyn busnes.

4.33 Mae lledaeniad daearyddol 'cynnig Caerdydd' yn ymdrin hefyd â'r angen am ddarparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch. Yn y cyswllt hwn, mae'r cynnig strategol allweddol sy'n ymwneud ag Ardal Fenter Canol Caerdydd a Hyb

Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynrychioli lleoliad hynod hygyrch a chynaliadwy, yn agos at ardaloedd o ddiweithdra uchel yn y ddinas, ond hefyd yn hygyrch iawn i'r rhanbarth ehangach drwy foddau cynaliadwy o gludiant.

KP2: SAFLEOEDD STRATEGOL

Mae'r Safleoedd Strategol wedi'u dyrannu fel y gwelwch isod er mwyn helpu i ateb yr angen am anheddau a swyddi newydd:

Safleoedd Strategol Tir Llwyd:

(A) Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol;
(B) Yr Hen Waith Nwy, Ferry Road;

Safleoedd Maes Glas Strategol:

(C) Gogledd Orllewin Caerdydd;
(D) I'r Gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4;
(E) I'r De o'r Creigiau;
(F) Gogledd Ddwyrain Caerdydd (Gorllewin Pontprennau);
(G) I'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontprennau; a
(H) De Parc Busnes Llaneirwg–Cyflogaeth yn unig.

4.34 Mae safleoedd strategol wedi'u diffinio fel safleoedd o 500 o gartrefi neu fwy a/neu gyda defnydd cymysg/cyflogaeth sylweddol ac sydd â'r potensial i ddod â buddion sylweddol i'r ddinas.

4.35 Pwrpas y Polisi yma yw helpu i ddod â thir priodol ymlaen mewn lleoliadau cynaliadwy i fodloni'r angen a bennwyd am dai, cyflogaeth a defnyddiau eraill.

4.36 Mae'r ystod a'r dewis yma o safleoedd strategol yn dod â manteision sylweddol trwy ddarparu ystod a dewis go iawn, sy'n hanfodol i ddarpariaeth gyffredinol y Cynllun. Ymhellach, mae graddfa'r safleoedd yn galluogi i atebion mwy cynhwysfawr gael eu darparu sy'n gallu dod â gwelliannau sylweddol i'r seilwaith ar gyfer y ddinas ehangach a'r brifddinas-ranbarth.

4.37 Mae'r nifer a ragwelir o anheddau y gellir eu darparu o bob safle strategol wedi'i grynhoi yn Nhabl 1 (paragraff 4.15) yngyd â Thabl 2.

Tabl 2: CRYNODEB O SAFLEOEDD STRATEGOL

Cyf	Safle	Y Defnydd Arfaethedig
A	Ardal Fenter Canol Caerdydd a Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol	**Menter bwysig wedi'i harwain gan gyflogaeth yn cynnwys Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol ynghyd â defnyddiau cymysg eraill yng nghanol dinas Caerdydd er mwyn cyflawni rôl Caerdydd fel**

Cyf	Safle	Y Defnydd Arfaethedig
		gyrrwr economaidd y brifddinas-ranbarth, darparu cyfleoedd cyflogaeth mawr wedi'u canolbwyntio ar wasanaethau ariannol a busnes ac yn gwneud yn fawr o fanteision ei leoliad gerllaw'r Orsaf Ganolog a Gorsaf Fysiau Caerdydd. Oherwydd ymrwymiadau cyfredol y bydd cynigion newydd yn eu diweddaru, mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu nad oes unrhyw fanteision net mewn unedau i osgoi cyfri dwbl. Ond, bydd unrhyw unedau ychwanegol uwch ben yr ymrwymiadau'n cyfri fel ffawdelw
B	Yr Hen Waith Nwy, Ferry Road	Cynllun tai o 500 o dai a defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill
C	Gogledd Orllewin Caerdydd	Datblygiad cynhwysfawr o oddeutu 5,000 o gartrefi yng nghyfnod y Cynllun gan gynnwys cyflogaeth a defnyddiau cymunedol cyswllt eraill
D	I'r Gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4	Defnydd cymysg o oddeutu 2,000 o gartrefi, cyflogaeth, defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill a safle parcio a theithio strategol
E	I'r De o'r Creigiau	Cynllun tai o oddeutu 650 o gartrefi yn cynrychioli estyniad i'r de o'r pentref presennol
F	Gogledd-Ddwyrain Caerdydd (Gorllewin Pontprennau)	Datblygiad cynhwysfawr o oddeutu 4,500 o dai, swyddi a defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill
G	Dwyrain Ffordd Gyswllt Pontprennau	Cynllun tai o oddeutu 1,300 o ddefnyddiau cymunedol cysylltiedig
H	I'r De o Barc Busnes Llaneirwg	Safle cyflogaeth strategol

4.38 Bydd y cyfuniad o ddatblygiad ar y safleoedd hyn yn darparu oddeutu 13,950 o anheddau newydd ynghyd ag ystod a dewis o gyfleoedd cyflogaeth a nifer sylweddol o gyfleusterau cymunedol a seilwaith cefnogol.

4.39 Mae crynodeb o'r gofynion seilwaith allweddol sy'n ymwneud â'r Safleoedd Strategol i'w cael yn KP2(A) hyd KP2(H). Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei chroesgyfeirio yng Nghynllun Seilwaith Caerdydd sy'n 'ddogfen fyw' yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Seilwaith wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a'i ddiweddaru'n

rheolaidd er mwyn ymateb yn effeithiol i newidiadau mewn gwybodaeth gwaelodlin, gweithdrefnau a deddfwriaeth. Mae cyfeiriad at amcan gostau'r ddarpariaeth seilwaith ac amcan o fanylion troedfeddi sgwar llawr y cyfleusterau yn y Cynllun Seilwaith ar sail ystyriaethau cyfredol, gofynion, a'r wybodaeth sydd ar gael ar un pwynt mewn amser ac sydd felly'n cynrychioli ffigurau dangosol. Bydd diweddariadau i'r Cynllun Seilwaith yn y dyfodol yn caniatáu i wybodaeth o'r fath gael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchiadau ar y pryd ac i ddangos mwy o fanylder pan fydd yn hysbys. Mae Polisïau KP6 a KP7 yn ymwneud â goblygiadau cynllunio a seilwaith newydd yn darparu rhagor o arweiniad i bolisïau mewn perthynas â darparu'r seilwaith newydd ac maent wedi eu cysylltu hefyd gyda'r Cynllun Seilwaith a'r Fframwaith Monitro Blynyddol.

4.40 Bydd gofynion seilwaith ar gyfer y safleoedd hyn yn cael eu darparu'n bennaf drwy oblygiadau cynllunio/Cytundebau Adran 106 gyda pholisïau KP6 a K7 yn darparu'r fframwaith polisi. Mae Polisi KP6 hefyd yn amlinellu ffynonellau ariannu posibl eraill a allai fod yn ofynnol yn ychwanegol at gyfraniadau'r datblygwr. Wrth iddynt ddod i'r amlwg, bydd manylion pellach yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Seilwaith wrth iddo gael ei ddiweddaru yn y dyfodol yn rhan o broses fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol.

4.41 Bydd yr uwchgynllunio ac egwyddorion cynllunio cynaliadwy ac o ansawdd da sydd wedi eu gosod yn KP4 a KP5 yn cael eu defnyddio i ddarparu fframwaith i ystyried ceisiadau Cynllunio sy'n ymwneud â'r holl Safleoedd Strategol ynghyd â datblygiad arall fel y mae wedi'i ddiffinio yn y polisïau. Yn ogystal, mae'r gofynion uwchgynllunio sy'n benodol berthnasol i bob Safle Strategol wedi eu pennu yn KP2(A) hyd KP2(H) ac wedi eu dynodi, lle bo'n briodol, ar y Fframweithiau Sgematig. Er mai dim ond i bwrpasau dangosol y mae'r rhain, dylid darllen y Fframweithiau Sgematig ochr yn ochr â pholisïau perthnasol i ddarparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer datblygiad y Safleoedd Strategol yn y dyfodol.

KP2 (A): ARDAL FENTER CANOL CAERDYDD A'R HYB TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Mae tir wedi ei glustnodi yn Ardal Fenter Canol Caerdydd, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer menter fawr wedi'i hariannu gan gyflogaeth yn cynnwys Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol ynghyd â defnyddiau cymysg eraill yng Nghanol Dinas Caerdydd er mwyn cyflawni rôl Caerdydd fel gyrrwr economaidd y brifddinas-ranbarth, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth mawr sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ariannol a busnes ac yn manteisio ar ei leoliad canolog. Bydd yn darparu seilwaith hanfodol, angenrheidiol ac sy'n galluogi drwy ei gyflwyno'n raddol gyda gofynion penodol wedi'i sicrhau drwy ganiatadau cynllunio sy'n cynnwys:

Seilwaith Hanfodol/sy'n Galluogi

- **Cludiant a Phriffyrdd:**
  - **Hyb trafnidiaeth cyhoeddus a chanolog sy'n darparu mynediad i a chyfnewid rhwng y rhwydwaith rheilffyrdd, y coridorau tramwy cyflym a bws strategol y cyfeirir atynt ym Mholisi T2, y rhwydwaith bysiau drwy'r ddinas gyfan a'r rhwydwaith seiclo strategol;**
  - **Gwella'r teithiau bysiau presennol a'r gwasanaethau yn cynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau rhwng y safle, Bae Caerdydd a rhannau eraill o'r ddinas;**
  - **Tramwy Cyflym- Coridor Deheuol.**
- **Cerdded a beicio:**
  - **Gwella'r mynediad i feiciau ac i gerddwyr rhwng ochrau gogleddol a deheuol y brif reilffordd yn cynnwys gwella tanffyrdd y rheilffordd;**
  - **Gwella cysylltiadau dwyreiniol a gorllewinol drwy ddatblygiadau cysylltu'r ardal;**
  - **Gwella/ymestyn Parc y Gamlas fel llwybr beicio a cherdded, creu coridor gwyrdd newydd sy'n cysylltu Glannau'r Bae at Callaghan Square, Canol y Ddinas a thu hwnt;**
  - **Integreiddio'r safle gyda Rhwydwaith Seiclo Strategol Enfys, yn cynnwys Llwybrau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, 90, 34, 35, 50 llwybrau 'hyb' canol y ddinas, Taith Taf a Llwybr y Bae;**
  - **Darparu canolfan barcio beiciau ganolog gyda chyfleusterau cysylltiedig yn rhan integral o'r hyb trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol ac o faint sy'n addas i'w bwrpas rhanbarthol ac ar gyfer y brifddinas;**

- Darparu cyfleusterau parcio beiciau diogel a chyfleusterau cysylltiedig mewn lleoliadau sy'n annog pobl i feicio i ganol y ddinas ac integreiddio gyda'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus;
- Gwella cysylltiadau â Stadiwm y Mileniwm yn cynnwys Porth 5;
- Creu taith gerdded barhaus ar yr afon ar lan Ddwyreiniol y Taf.

Y Seilwaith Angenrheidiol:

- **Addysg – 1 Ysgol Gynradd newydd a chyfraniad at Ysgolion Uwchradd presennol;**
- **O leiaf 7ha yn fras o Dir Agored yn cynnwys oddeutu 3.5ha o adloniant ffurfiol, 1 cae chwarae, 1 cyfleuster i bobl ifanc yn eu harddegau, 1 safle lotment x 40 llain;**
- **Cyfraniad at ddarpariaeth adnoddau cymunedol oddi ar y safle.**

Bydd y datblygiad yn cyfateb gyda'r gofynion uwchgynllunio allweddol a ganlyn (fel y maent wedi'u dynodi, lle bo'n briodol ar y Fframwaith Sgematig):

- **Gwneir y defnydd gorau o ddwyseddau i wneud defnydd effeithlon o dir canol y ddinas mewn lleoliad hygyrch iawn. Anogir datblygiadau o uchder a dwysedd uchel mewn lleoliadau priodol o fewn y safle ac ni ystyrir dwyseddau trigolion o fwy na 100 annedd yr hectar yn afresymol mewn egwyddor. Disgwylir i ddwyseddau cyflogaeth ar gyfer datblygiad swyddfa B1 fod o leiaf 14.5 metr sgwar i bob cyflogai (ardal allanol gros):**
  - **Y ddarpariaeth cyflogaeth i gynnwys swyddfa Graddfa A a datblygu Callaghan Square fel prif leoliad busnes Cymru. Bydd y safle hefyd yn darparu amrywiaeth a dewis o gyfleoedd i gwrdd ag anghenion busnes yn cynnwys busnesau sy'n cychwyn, gweithdai creadigol ac unedau deori;**
  - **Creu cyrchnodau sydd â phwrpasau gweithredol sy'n cyd-fynd yn dda â'r cynnig busnes yn cynnwys y Sgwâr Canolog (piatsa cyhoeddus newydd sy'n gwneud defnydd da o'r llawr gwaelod), Southern Gateway (lle cyhoeddus newydd i'r de o'r Orsaf Ganol), Callaghan Square (gwyrddio'r tir gan hefyd gadw presenoldeb 'dinesig'), a Taff East Bank (creu defnyddiau gweithredol a chyrchnod hamdden newydd);**
  - **Gwneud gwelliannau i ardal yr Arena gyda chysylltiadau â Gorsaf Stryd y Frenhines;**
  - **Sicrhau nad yw'r datblygiad yn niweidio darpariaeth y Metro yn y dyfodol drwy gadw'r tir yn rhydd sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect unwaith mae'n hysbys pa dir sy'n ofynnol;**

- **Darparu arwyddion cyfeirio o safon a llwybrau cerddwyr wedi'u diffinio'n glir i gyrchnodau allweddol;**
- **Sicrhau agwedd gyson yn y ffordd y defnyddir deunyddiau pafin a dodrefn stryd o safon uchel;**
- **Gwella llwybrau a chysylltiadau i gefnogi Adferiad Butetown gyda chysylltiadau at gyfleusterau cymunedol a gwasanaethau yn cynnwys Loudon Square fel 'canolfan' gymunedol;**
- **Sicrhau'r cysylltiadau gorau i Barc y Gamlas a Thaith Taf;**
- **Integreiddio datblygiad newydd mewn ffordd sensitif gyda datblygiadau newydd a chyfredol a chymryd cyfleoedd i gael gweithgareddau masnachol ar hyd Dumballs Road;**
- **Gwella safon y pyrth i'r safleoedd, pontydd rheilffyrdd /tanffyrdd a thir y cyhoedd;**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau tirlun a bioamrywiaeth drwy:**
  - **Wneud yn fawr o ased ffryntiad yr Afon Taf;**
  - **Datblygu cyfleoedd ar gyfer mannau gwyrdd naturiol i greu lleoliadau parcdir dinesig.**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau treftadaeth drwy:**
  - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol ag effeithiau posibl ar Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig o fewn y safle ac yn ffinio â'r safle;**
  - **Integreiddio celf gyhoeddus a dehongliad treftadaeth yn rhan o'r cynigion.**
- **Archwilio'r cyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd yn Dumballs Road i gael system ddraenio ar wahân, yn cynnwys dŵr wyneb sy'n rhedeg i'r afon ac yn integreiddio ardaloedd wedi'u tirlunio;**
- **Ceisio datblygu cyfleoedd i SUDS i ymwneud â/ymestyn y cynllun "Greener Grangetown".**

4.42 Mae Ardal Fenter Canol Caerdydd yn un o'r wyth Safle Strategol sy'n chwarae rôl hanfodol ar y cyd i ddarparu Strategaeth y Cynllun. Dyma'r safle tir llwyd mwyaf o fewn y Cynllun(78.8 ha) ac mae'n cymryd lleoliad arbennig o hygyrch yng nghanol Caerdydd yn cynnwys y ganolfan gludiant fawr o amgylch gorsaf Canol Caerdydd, Yn gyffredinol, mae'n cynrychioli cyfle sylweddol i adfywio'n gynaliadwy yng nghalon y ddinas ac mae'n hollol gyson gyda darparu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun.

4.43 Mae'r tir yn eiddo i nifer o berchnogion a bydd yn cael ei ddarparu gan nifer o wahanol ddatblygwyr yn gweithredu allan o wahanol safleoedd. Bydd y polisi yma, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill, yn darparu'r fframwaith cynllunio seilwaith ac uwchgynllunio trosfwaol i berchnogion tir a datblygwyr i baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad. I'r perwyl hwn dylid nodi bod gwahanol brosiectau potensial yn yr ardal yn gweithredu i wahanol amserlenni felly ni fyddai agwedd rhy ragnodol yn briodol.

4.44 Bydd amodau cynllunio a Goblygiadau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) yn cael eu defnyddio glymu i mewn gyflwyniad graddol y seilwaith cefnogi angenrheidiol gyda mecanweithiau sbarduno a'r trothwyon a ddefnyddir i sicrhau darpariaeth amserol.

4.45 Mae'r safle mewn lleoliad canolog gyda lefel dda o hygyrchedd i rai sy'n teithio trwy ddulliau heblaw mewn car. Bydd cynaliadwyedd cludiant y safle wedi'i wella ymhellach drwy ddatblygiad y ganolfan gludiant ranbarthol sy'n cysylltu gwahanol ffurfiau cynaliadwy o gludiant a'r gwelliannau ehangach i'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus strategol a'r rhwydweithiau cerdded a beicio a fydd yn cael eu sicrhau yn unol â datblygiad Safleoedd Strategol eraill a thrwy raglenni seilwaith y Cyngor ei hun.

4.46 Er nad yw manylion modd ac aliniadau posibl y Metro yn hysbys eto, mae'n debygol y bydd y prosiect yn darparu mynediad i'r Safle Strategol yma. Nid yw'r gwaith a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cynigion manwl ac nid oes sicrwydd ar hyn o bryd am unrhyw aliniadau manwl, felly byddai'n amhriodol dyrannu aliniad union gywir ar y Map Cynigion ond mae angen sicrhau nad yw opsiynau'n cael eu niweidio yn y dyfodol. Felly, mae'r polisi yma'n cyfeirio at yr angen posibl yn y dyfodol i ddiogelu'r tir sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect Metro unwaith mae unrhyw ofynion yngylch y tir yn hysbys. Mae adolygiadau i'r Cynllun yn y dyfodol a'r fframwaith monitro blynyddol sydd wedi'i gysylltu â'r Cynllun Seilwaith 'byw' yn darparu mecanweithiau i sicrhau bod modd diweddaru'r broses Cynllun Datblygu Lleol ymhellach yn y cyswllt hwn.

Fframwaith Sgematic: Safle Strategol A
Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol

KP2 (B): YR HEN WAITH NWY, FERRY ROAD

Dyrennir tir yn yr hen Waith Nwy, Ferry Road, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer cynllun tai o 500 o gartrefi a defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill, ynghyd â seilwaith cefnogi angenrheidiol sy'n hanfodol ac sy'n galluogi a fydd yn cael ei ddarparu gam wrth gam gyda manylion penodol wedi'u clymu'n ffurfiol i mewn i ganiatadau cynllunio sy'n cynnwys:

Seilwaith Hanfodol/ sy'n Galluogi

- **Cerdded a seiclo:**
  - **Gwella mynediad i gerddwyr at y cyfleusterau cludiant cyhoeddus gerllaw'r safle;**
  - **Darparu cysylltiadau cerdded/seiclo newydd a gwella'r rhai cyfredol o'r safle i Lwybr Elái, Parc Grangemoor, Parc Siopa Bae Caerdydd a chyfleusterau cymunedol eraill yn yr ardal gan gynnwys Canolfan Channel View.**

Y Seilwaith Angenrheidiol:

- **Cyfraniad at ddarpariaeth cyfleusterau cymunedol oddi ar y safle;**
- **Addysg- Cyfraniad at Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfredol;**
- **O leiaf 1.2 ha o Le Agored yn cynnwys 1 lle chwarae, 1 cyfleuster i bobl yn eu harddegau a chyfraniadau i le agored ffurfiol, darpariaeth lotments a darpariaeth chwarae.**

Gwneir gwaith datblygu mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol a ganlyn (fel y mae wedi'i ddangos, lle bo'n briodol, ar y Fframwaith Sgematig):

- **Bydd y dwyseddau wedi'u cynyddu i'r eithaf i wneud defnydd effeithlon o'r safle tir llwyd yma ac ystyrir lle byw dwysedd uchel o 50 o anheddau o leiaf i bob hectar yn briodol ac yn gyfatebol â nodweddion yr ardal;**
- **Dylai dwysedd, cynllun, graddfa a dyluniad pen gogleddol y safle ymateb yn effeithiol i'r adeilad Ikea gerllaw;**
- **Dylai'r dyluniad gyfateb yn effeithiol â'r rheilffordd sy'n ffurfio ffin gorllewinol y safle, gan gynnwys lleihau unrhyw effeithiau acwstig;**
- **Sicrhau bod y llwybr beisiau sy'n cysylltu Llwybr Elái gyda Ferry Road yn argadwedig a bod y cynllun yn darparu ateb diogel y mae modd ei oruchwylio;**

- **Gwneud yn fawr o'r berthynas rhwng y safle, yr Afon Elái a Pharc Grangemoor gan gynnwys ymestyn y parc hyd blaen yr afon i greu parc glan yr afon gyda chyfleoedd chwarae anffurfiol;**
- **Ymateb yn effeithlon i asedau bioamrywiaeth a thirlun drwy:**
  - **Liniaru ac ystyried yr ymlusgiaid a'r ystlumod;**
  - **Gwella'r glustogfa goed ar hyd y rheilffordd;**
  - **Sicrhau clustogfa ddigonol rhag y Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur Afon Elái i amddiffyn glan yr afon a'r tyfiant cysylltiedig.**
- **Ymateb yn effeithlon i asedau treftadaeth drwy:**
  - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol ag effeithiau posibl ar gymeriad a gosodiad y Daliwr Nwy Rhestredig a dangos sut y gall y cynigion integreiddio'r ased hanesyddol yma'n llwyddiannus.**
- **Archwilio'r posibilrwydd o gasglu nwy methan o Barc Grangemoor i greu system wres a phwer ynghyd ag archwilio cyfleoedd posibl eraill megis biomas i greu trydan ac i wresogi adeiladau'r safle.**

4.47 Mae'r hen Waith Nwy, Ferry Road, yn un o wyth Safle Strategol sy'n chwarae rôl hanfodol ar y cyd i ddarparu Strategaeth y Cynllun. Mae'n safle tir llwyd (9.9ha) mewn lleoliad da o fewn yr ardal ddinesig sy'n ychwanegu at yr ystod a'r dewis o dai a gynigir yn y Cynllun.

4.48 Mae'r tir yn eiddo i un perchennog tir a bydd yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynhwysfawr. Bydd y polisi yma, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill, yn darparu'r fframwaith cynllunio seilwaith ac uwchgynllunio i berchnogion tir a datblygwyr er mwyn paratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad.

4.49 Mae graddfa berthnasol y safle'n caniatáu ar gyfer uchafswm o 2 allfa ar yr un pryd a disgwylir darpariad llawn y 500 uned rhwng 2017 a 2024. Bydd amodau cynllunio a Goblygiadau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) yn cael eu defnyddio i glymu cyflwyniad graddol y seilwaith cefnogi angenrheidiol yn ffurfiol gan ddefnyddio mecanweithiau sbarduno a throthwyon i sicrhau darpariaeth amserol mewn perthynas â chwblhau cartrefi newydd.

4.50 O ganlyniad i leoliad hygyrch y safle a'i agosrwydd at gyfleusterau cymdeithasol/cymunedol presennol yn yr ardal, fe'i ystyrir yn briodol i sicrhau cyfraniadau'r datblygwr er mwyn gwella cyfleusterau gerllaw fel y maent wedi eu hamlinellu yn y polisi.

Fframwaith Sgematig: Safle Strategol B
Yr Hen Waith Nwy, Ferry Road

KP2 (C): GOGLEDD ORLLEWIN CAERDYDD

Mae tir wedi'i glustnodi yng Ngogledd Orllewin Caerdydd, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg yn cynnwys o leiaf 5,000 o gartrefi a chyfleoedd cyflogaeth lleol, ynghyd â seilwaith cefnogi angenrheidiol sy'n hanfodol ac sy'n galluogi a fydd yn cael ei ddarparu gam wrth gam gyda manylion penodol wedi'u clymu'n ffurfiol i mewn i ganiatadau cynllunio, yn cynnwys:

Seilwaith Hanfodol/ sy'n Galluogi

- **Cludiant a Phriffyrdd:**
  - **Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd wedi'u seilio ar fysiau drwy'r safle yn darparu cysylltiadau rhwng y Canolfannau Lleol/Ardal a Hyb Trafnidiaeth newydd yn y Ganolfan Leol/Ardal fwyaf Dwyreiniol;**
  - **Seilwaith oddi ar y safle yn cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau i ddatblygu Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau sy'n integreiddio â'r safle, Coridor Bysiau Gorllewinol a theithiau eraill o fewn Coridor Tramwy Cyflym y Gogledd Orllewin;**
  - **Mae seilwaith oddi ar y safle yn cynnwys gwelliannau blaenoriaeth bysiau ar y Coridor Bysiau Gorllewinol a mesurau i wella cysylltiadau i mewn i Rondda Cynon Taf;**
  - **Ehangu rhwydweithiau bysiau a rhedeg gwasanaethau'n amlach a'u gwneud yn fwy dibynadwy i gynnig opsiynau cludiant cyhoeddus i'r safle ar gyfer amrywiaeth eang o deithiau gan gynnwys cyfuniad o wasanaethau bws lleol a gwasanaethau stopiau cyfyngedig.**
- **Cerdded a seiclo:**
  - **Mesurau ar y safle ac oddi ar y safle i ddarparu rhwydwaith o lwybrau cyfleus, atyniadol a diogel o ansawdd uchel o fewn y safle a chysylltu â gwasanaethau, cyfleusterau a chyrchnodau lleol allweddol sy'n cynnwys canolfannau lleol cyfredol ac Ysgolion yn Y Tyllgoed, Pentre-baen, Danescourt a Radur;**
  - **Cysylltiadau â Llwybrau Taf ac Elái;**
  - **Cysylltiadau â chyrchnodau cludiant cyhoeddus oddi ar y safle yn cynnwys Gorsafoedd Trenau Radur, Danescourt a Llandaf.**

Seilwaith Angenrheidiol

- **1 Ganolfan Ardal a 3 Chanolfan Leol (yn cynnwys darparu defnyddiau cyflogaeth lleol a busnes), cyfleuster Gofal Sylfaenol, cyfleuster hamdden**

cymunedol amlswyddogaethol yn cynnwys cyfleuster llyfrgell, a chyfraniad ariannol i ddiweddaru Canolfan Hamdden Y Tyllgoed;

- Addysg – 1 Ysgol Uwchradd newydd, 3—4 Ysgol Gynradd newydd wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw Canolfannau Lleol/Ardal, a chyfraniad ariannol i Ysgolion Cynradd cyfredol mewn camau cynharach;
- O leiaf 30 ha o Le Agored yn cynnwys 15 ha o dir hamdden ffurfiol, 6 maes chwarae yn cynnwys lle chwarae cyrchnod, 2 gyfleuster i bobl ifanc yn eu harddegau a chyfraniad oddi ar y safle, a 2 safle lotment 50 llain (trwy ddarpariaeth ar y safle / oddi ar y safle).

Bydd y datblygiad wedi'i wneud mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol (fel y mae wedi'i nodi, lle bo'n briodol, ar y Fframwaith Sgematig):

- Darparu ystod o ddwyseddau gyda dwysedd uchel (o leiaf 45-50+ o anheddau i bob hectar) datblygiad defnydd cymysg mewn Canolfannau Ardal/Lleol a dwysedd canolog i uchel (35-50+ o anheddau i bob hectar) ar hyd y Coridorau Tramwy Cyflym;
- Camau cychwynnol tuag at y dwyrain ac ar hyd Ffordd Llantrisant, camau canol tuag at ganol y safle ac yn ddiweddarach i'r gorllewin;
- Sicrhau bod darpariaeth bosibl y 'Metro' yn y dyfodol heb ei atal drwy gadw coridor ochr yn ochr a chynnwys y rheilffordd segur yn rhedeg drwy'r safle (fel y mae wedi'i ddangos ar y fframwaith sgematig) wedi ei ddiogelu rhag datblygiad ac hefyd yn sicrhau bod defnydd y tir, y dwyseddau a'r cynlluniau'n ymateb yn bositif i'w ddarpariaeth bosibl yn y dyfodol;
- Canolfannau Ardal/Lleol i fod yn hygyrch drwy gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus a rhoi lle i ystod o wasanaethau gan gynnwys arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a manwerthu arall o raddfa a natur sy'n cydfynd â pholisïau manwerthu'r Cynllun gyda'r storfa fwyd angori o fewn Canol yr Ardal tuag at ddwyrain y safle;
- Darpariaeth cyflogaeth (B1 a B6(b)(c)) i gael ei lleoli o fewn ac yn ffinio â'r Canolfannau Lleol/Ardal o oddeutu 15,000 metr sgwar;
- Ysgolion Newydd i gael eu lleoli o fewn ac yn ffinio â'r Canolfannau Lleol/Ardal;
- Darparu defnydd da o'r tir ac integreiddio cludiant gyda'r ardaloedd gerllaw, Pentre-baen, Y Tyllgoed a Radur;
- Darparu ffryntiad gweithredol ar Ffyrdd Pentre-baen a Llantrisant;
- Ymateb yn effeithiol i asedau tirlun a bioamrywiaeth drwy:
    - Gysylltu ardaloedd argadwedig drwy ddarparu cyfres o goridorau lle agored sy'n darparu cysylltedd ecolegol, llwybrau mynediad cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer draeniad cynaliadwy yn cynnwys:

- **Cysylltiadau rhwng coedwigoedd argadwedig yng Nghoed y Trenches, Coed y Gof, Waterhall, Halfwrt a Choedbychan;**
- **Coridor ar hyd y dyffryn drwy ganol y safle;**
- **Cysylltiadau â chefn gwlad i'r gorllewin a'r de-orllewin;**
- **Cysylltu coridorau lle bo'n bosibl rhwng yr uchod i ddarparu rhwydwaith da;**
- **Sicrhau nad oes unrhyw amhariad i gynhaliaeth statws cadwraeth ffafriol Madfallod Dŵr Cribog ar y safle yn cynnwys amddiffyn y 2 lyn cyfredol yn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur Bythynnod Pentre-baen a darparu o leiaf 2 lyn ychwanegol yn yr ardal;**
- **Darparu clustogfeydd addas i goetir argadwedig y cyfeirir atynt uchod a chynefinoedd eraill yn cynnwys gwrychoedd a nentydd.**

- **Ymateb yn effeithiol i asedau treftadaeth drwy:**
  - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol ag effeithiau posibl ar Ardal Gadwraeth Sain Ffagan (cynnal clustogfeydd coetir / gwrychoedd ynghyd â darparu planhigion newydd) a'r Adeiladau Rhestredig (ynghyd â'u lleoliadau) o fewn a gerllaw'r safle.**
- **Ymateb yn effeithiol i rwystrau eraill gan gynnwys Maes Golff Radur (gan sicrhau nad oes gwrthdrawiad gyda pheli golff sydd wedi crwydro a hawddfraint gyfredol (Peilonau uwchben a seilwaith tanddaearol); a**
- **Sicrhau nad yw'r datblygiad hwnnw'n effeithio'n niweidiol ar ansawdd dŵr NantRhydlafar.**

4.51 Mae Gogledd Orllewin Caerdydd yn un o wyth Safle Strategol sy'n chwarae rôl hanfodol ar y cyd i ddarparu Strategaeth y Cynllun. Dyma'r Safle Strategol mwyaf o fewn y Cynllun (346 ha) ac mae'n ymwneud â chefn gwlad ar ochr orllewinol Radur, Y Tyllgoed a Phentre-baen, ac i'r gogledd o bentref Sain Ffagan.

4.52 Mae'r mwyafrif llethol o'r tir yng Ngogledd Orllewin Caerdydd dan reolaeth Ymddiriedolwyr Sain Ffagan Rhif 1 a 2 ac Ymddiriedolaeth Rhif 3 a bydd wedi'i ddarparu gan nifer o wahanol ddatblygwyr yn gweithredu allan o wahanol allfeydd. Bydd y polisi yma, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill, yn darparu'r fframwaith cynllunio seilwaith ac uwchgynllunio i berchnogion tir a datblygwyr i baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r prosesau Rheoli Datblygiad.

4.53 Mae graddfa'r safle'n caniatáu i nifer o allfeydd fod yn gweithredu ar yr un pryd mewn gwahanol rannau o'r safle mawr yma a bydd yn darparu ystod a dewis eang o gynnig tai a chyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddaliadaethau.

Bydd amodau cynllunio a Goblygiadau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) yn cael eu defnyddio i glymu darpariaeth raddol y seilwaith cefnogi angenrheidiol yn ffurfiol gyda mecanweithiau sbarduno a throthwyon a ddefnyddir i sicrhau darpariaeth amserol mewn perthynas â chwblhau cartrefi newydd.

4.54 Bydd Coridorau Tramwy Cyflym o fewn y safle wedi eu seilio ar fysiau ac o led digonol, a byddent wedi eu dylunio yn briodol i gynnwys cadw rheolaeth ar barcio ceir ac i adael i'r cerbydau mwyaf basio'r ddwy ffordd yn ddiogel. Bydd mesurau blaenoriaeth bysiau wedi eu darparu mewn lleoliadau priodol o fewn y safle i ganiatáu tramwy cyflym y bysiau i osgoi traffig yn ciwio. Bydd Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau yn cysylltu'r safle gyda'r Coridor Bysiau Gorllewinol gyda mesurau blaenoriaeth bysiau oddi ar y safle wedi eu darparu i helpu llif y bysiau. Bydd rhagor o welliannau i goridorau oddi ar y safle wedi eu darparu ar y Coridor Bysiau Gorllewinol fel y mae wedi'i ddangos ar y Map Cynigion ac yn gyson gyda Pholisi T2 er mwyn cefnogi cynnydd yn amledd a dibynadwyedd y gwasanaethau. Mae integreiddiad gwasanaethau tai a chefnogi a seilwaith cymunedol yn rhoi'r cyfle i gynnig cyfran uchel o deithiau byr, lleol drwy gerdded a seiclo. Bydd hyn wedi'i wneud yn bosibl drwy integreiddio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a seiclo o ansawdd uchel, o fewn cynlluniau datblygu a sicrhau bod cynllun y ffyrdd, strydoedd, cyffyrdd a mannau cyhoeddus yn ystyried 'llinellau dewis' naturiol y bobl sy'n gwneud y teithiau ar droed ac ar feic.

4.55 Er nad yw manylion modd ac aliniadau posibl y Metro wedi eu diffinio eto, mae'n bwysig nad yw datblygiad y safle yma'n atal darpariaeth bosibl y prosiect strategol yma. Mae gwaith a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu mai'r rheilffordd segur sy'n rhedeg drwy ganol y safle sy'n ffurfio'r opsiwn mwyaf tebygol yn y lleoliad yma ond, ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd am yr aliniad manwl. Er enghraifft, mae ansicrwydd am fodd y dyfodol a ph'un a fyddai'r llwybr wedi'i seilio ar y rheilffordd segur presennol neu a fyddai'n well wedi'i leoli naill ai ochr yn ochr i'r gogledd neu i'r de.

4.56 Felly, byddai'n amhriodol dyrannu aliniad union gywir ar y Map Cynigion ond mae angen sicrhau nad yw opsiynau'r dyfodol yn cael eu niweidio. Mae'r polisi yma'n sicrhau bod tir wedi'i ddiogelu rhag datblygiad ar hyd y coridor Metro potensial ac hefyd bod defnyddiau tir, dwyseddau a chynlluniau'n cael eu datblygu i ystyried darpariaeth bosibl y prosiect cludiant strategol yma.

4.57 Canolfannau Ardal a Lleol fydd y ffocws ar gyfer gweithgareddau a defnyddiau cymunedol yn cynnwys Ysgolion gerllaw. Bydd union nifer yr Ysgolion Cynradd (3/4) yn dibynnu ar ganlyniadau'r opsiynau darparu a monitro yn y dyfodol sy'n berthnasol pan fo manylion camau diweddarach yn cael eu hasesu drwy'r broses Rheoli Datblygiad.

4.58 Dylid nodi bod disgwyl i ddarpariaeth y safle mawr yma ymestyn y tu hwnt i gyfnod y cynllun (disgwylir y bydd rhyw 1,500 o gartrefi'n cael eu darparu ar ôl 2026). I'r perwyl yma, er bod y Fframwaith Sgematig yn ymwneud â graddau daearyddol cyfan ardal gyffredinol y safle i sicrhau agwedd gyson lefel uchel tuag at ymdrin â ffactorau sy'n ymwneud yn benodol â'r safle, mae'r gofynion seilwaith sydd wedi'u nodi yn y polisi yma'n berthnasol i'r nifer o gartrefi a gynigiwyd yn ystod cyfnod y cynllun (ar gyfer 5,000 o gartrefi newydd). Bydd monitro blynyddol adolygiadau o'r Cynllun a diweddariadau parhaus i'r Cynllun Seilwaith yn y dyfodol yn sicrhau bod unrhyw ofynion seilwaith ar gyfer cartrefi ar ôl 2026 yn cael eu cipio ar y cyswllt priodol ac o ganlyniad i hynny'n hysbysu unrhyw weithgaredd Rheoli Datblygiad yn y dyfodol mewn perthynas â chartrefi dros y 5,000 a gynigiwyd yn ystod cyfnod y cynllun.

4.59 Nid yw Ardal Chwilio A (i'r gogledd o Ffordd Llantrisant) wedi ei chynnwys yn nyraniad y Safle Strategol. Ni fyddai hyn ond wedi'i sbarduno os yw hynny'n angenrheidiol drwy adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol yn dilyn monitro blynyddol sy'n dangos bod darpariaeth cartrefi newydd yn symud yn ei blaen y tu hwnt i'r cyfraddau a ragwelwyd ac yn cyfiawnhau rhyddhad o'r fath o fewn blynyddoedd diwethaf cyfnod y cynllun. Felly, fe'i ystyrir hi'n rhy fuan i gynnwys materion uwchgynllunio a seilwaith manwl posibl ar y pwynt yma mewn perthynas â'r tir yma. Mae'r fframwaith monitro ffurfiol yn darparu proses wedi'i seilio ar dystiolaeth i hysbysu unrhyw benderfyniadau am ryddhad posibl ym mlynyddoedd olaf cyfnod y cynllun.

Fframwaith Sgematig: Safle Strategol C
Gogledd Orllewin Caerdydd
Radur
Gorsaf Drenau Radur
Llantrisant Road
Canolfan Hamdden Y Tyllgoed
Gorsaf Drenau Danescourt
Pentre-baen
Pentrebane Road
Croft-y-Genau Road
Y Tyllgoed
St. Fagans Road
Ffin y Safle
Hyb Trafnidiaeth
Coridor Tramwy Cyflym y Bysiau
Cysylltiadau at Goridor y Gogledd Orllewin
Llwybr wedi'i ddiogelu ar gyfer y Metro o fewn y safle
Llwybr Beiciau Craidd
Cysylltiadau at y Rhwydwaith Beiciau ehangach
Llwybrau Cerdded/Seiclo
Ardaloedd Preswyl
Canolfannau Ardal/Lleol
Ysgol Uwchradd
Ysgol Gynradd
Coetir argadwedig
Coridorau Man Agored
Preswyl Cyfredol
Ysgol Gyfredol
Ardal Fanwerthu Gyfredol
Man Agored Cyfredol
Cyflogaeth Gyfredol
Diagramatig yn unig. Peidiwch â'i ddefnyddio i fesur graddfa. Diagram cysyniadol i gael ei brofi'n drwyadl a'i addasu yn ystod cydweithredu'r dyfodol yn unol ag egwyddorion uwchgyllunio.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023376

KP2 (D & E): I'R GOGLEDD O GYFFORDD 33 YR M4 A DE CREIGIAU

Mae'r tir wedi'i ddyrannu:

i. **I'r gogledd o Gyffordd 33 yr M4, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad dewis cymysg o oddeutu 2,000 o gartrefi, cyflogaeth, defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill a safle parcio a theithio strategol; ac**

ii. **I'r de o'r Creigiau, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer cynllun wedi'i seilio ar dai o oddeutu 650 o gartrefi yn cynrychioli estyniad deheuol i'r pentref.**

Bydd seilwaith cefnogi angenrheidiol, hanfodol ac sy'n galluogi'n cael ei ddarparu gam wrth gam gyda manylion penodol wedi'u clymu'n ffurfiol i mewn i ganiatadau cynllunio, yn cynnwys:

Seilwaith Hanfodol/ sy'n Galluogi

- **Cludiant a Phriffyrdd:**
  - **Darpariaeth Coridorau Tramwy Cyflym wedi eu seilio ar fysiau drwy'r safle i'r Gogledd o Gyffordd 33 yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Coridor Bysiau Gorllewinol;**
  - **Seilwaith oddi ar y safle yn cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau i ddatblygu Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau sy'n integreiddio gyda'r safle, y Coridor Bysiau Gorllewinol a llwybrau eraill o fewn Coridor Tramwy Cyflym y Gogledd Orllewin;**
  - **Seilwaith oddi ar y safle yn cynnwys gwelliannau blaenoriaeth i fysiau ar y Coridor Bysiau Gorllewinol a mesurau i wella cysylltiadau i mewn i Rondda Cynon Taf;**
  - **Ehangu rhwydweithiau bysiau a rhedeg gwasanaethau'n amlach a'u gwneud yn fwy dibynadwy i gynnig opsiynau cludiant cyhoeddus i'r safle ar gyfer amrywiaeth eang o deithiau gan gynnwys cyfuniad o wasanaethau bws lleol a gwasanaethau stopiau cyfyngedig;**
  - **Cyfleuster parcio a theithio strategol i'r Gogledd o Gyffordd 33 wedi'i gysylltu â'r Coridor Tramwy Cyflym a modd cludiant cyhoeddus yn cynnwys Porth y Bysiau i ddarparu blaenoriaeth i gludiant cyhoeddus a chyfyngu'r mynediad diawdurdod mewn car i Gyffordd 33;**
  - **Nod cludiant cyhoeddus yn agos at ddefnyddiau cyflogaeth, cyfleuster Parcio a Theithio a Chanolfan leol i'r de o'r safle;**
  - **Gwella cyffordd Ffordd Llantrisant/Ffordd Caerdydd.**

- **Cerdded a seiclo:**
  - **Mesurau ar y safle ac oddi ar y safle i ddarparu rhwydwaith o lwybrau cyfleus, atyniadol a diogel o safon uchel o fewn y safle a chysylltu at gyrchnodau, cyfleusterau a gwasanaethau lleol allweddol yn cynnwys canolfan newydd y gymdogaeth o'r gogledd, gwell cysylltiadau cerdded/seiclo i ysgolion cyfredol ac ysgolion arfaethedig;**
  - **Darparu lle diogel i groesi Ffordd Llantrisant;**
  - **Creu cysylltiad dwyrain-orllewin rhwng Hawliau Tramwy Cyhoeddus (llwybrau troed rhifau 10 ac 18).**

Seilwaith Angenrheidiol

- **1 Ganolfan Leol yn Safle D yn cynnwys cyfleuster Gofal Sylfaenol a chyfleuster hamdden cymunedol amlswyddogaethol yn cynnwys cyfleuster llyfrgell;**
- **Addysg: 1-2 Ysgol Gynradd newydd gydag 1 wedi'i leoli o fewn neu gerllaw Canolfan Leol, a chyfraniad ariannol i Ysgolion Uwchradd cyfredol;**
- **O leiaf 12 ha o Dir Agored yn cynnwys 6ha o le hamdden ffurfiol, 3 lle chwarae, 1 cyfleuster i bobl ifanc yn eu harddegau ac 1 safle lotment 40 llain;**
- **Gwella cyfleusterau cymunedol yng nghanolfan gymdogaeth y Creigiau i ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer trigolion newydd a chyfredol.**

Bydd datblygiad yn digwydd mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol a ganlyn (fel y maent wedi'u dangos, lle bo'n briodol, ar y Fframwaith Sgematig):

- **Darparu ystod / graddiant o ddwyseddau ar draws y safle gyda'r dwysedd uchaf (o leiaf 45-50+ o anheddau i bob hectar) o amgylch y Ganolfan Leol i'r de o'r safle. Bydd tai dwysedd canolig (35-45+ o anheddau i bob hectar) wedi eu darparu ar dir gerllaw Ffordd Llantrisant a gerllaw Coridorau Tramwy Cyflym ac i orllewin y tir i'r de o'r Creigiau. Bydd dwyseddau is wedi eu darparu ar y tir uchel i'r gorllewin o Ffordd Caerdydd ac i'r gorllewin o'r safle i'r Gogledd o Gyffordd 33;**
- **Dylai'r cynlluniau ar Safleoedd D ac E adlewyrchu'r rhyngberthynas rhwng y safleoedd lle ystyrir darpariaeth yn dderbyniol mewn tandem drwy wahanol allfeydd gyda chamau cychwynnol yn cynnwys darparu'r cyfleuster parcio a theithio ynghyd â mesurau gwella cludiant cyhoeddus;**
- **Sicrhau bod darpariaeth bosibl y 'Metro' yn y dyfodol heb ei hatal drwy gadw coridor drwy'r safleoedd (fel y mae wedi'i ddangos ar y fframwaith**

sgematig) wedi ei ddiogelu rhag datblygiad ac hefyd yn sicrhau bod defnydd y tir, y dwyseddau a'r cynlluniau'n ymateb yn bositif i'w ddarpariaeth bosibl yn y dyfodol;

- Eithrio mynediad i gerbydau ar yr M4 heblaw ar gyfer rhan o'r cyfleuster parcio a theithio a rhan o'r ardal fusnes sydd wedi'i seilio gerllaw'r gyffordd;
- Eithrio traffig drwodd rhwng y ddau safle;
- Darparu mynediad i gerbydau, cerdded / seiclo yn y dyfodol o'r safle i'r Gogledd o Gyffordd 33 i'r 'tir lwfans hyblygrwydd' i'r gorllewin;
- Hyrwyddo'r cyfnewid rhwng gwasanaethau tramwy cyflym a bysiau lleol;
- Canolfan leol i gael ei lleoli i'r gogledd o'r tir busnes a gerllaw'r gyfnewidfa tramwy cyflym ac Ysgol Gynradd ac yn cynnwys arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a defnydd manwerthu arall o raddfa a natur sy'n cyfateb gyda pholisïau manwerthu'r Cynllun;
- Mae defnyddiau busnes o ansawdd uchel i adlewyrchu lleoliad strategol y safle (ac eithrio defnyddiau B8) i gael eu lleoli gerllaw Cyffordd 33 a lle cyflogaeth lleol hyblyg ychwanegol i gael ei leoli gerllaw'r Briffordd i dde orllewin y safle;
- Darparu clustogfa tirlun rhwng y tir cyflogaeth a defnyddiau preswyl ac ar hyd ffin yr M4 i ostwng effaith;
- Darparu cysylltiadau seiclo/cerdded cyfleus a diogel rhwng y safle a phentref Creigiau gan gynnwys cysylltiadau gyda Ffyrdd Tramwy Cyhoeddus cyfredol;
- Ymateb yn effeithiol i asedau bioamrywiaeth a thirlun drwy gysylltu ardaloedd argadwedig drwy ddarparu cyfres o goridorau lle agored yn darparu cysylltiad ecolegol, llwybrau mynediad cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer draeniad cynaliadwy yn cynnwys:
    - Cysylltiadau rhwng coedwig hynafol argadwedig yng Nghastell y Mynach, man corslyd i'r gogledd a llain glustogi o goetir ifanc ar hyd Ffordd Llantrisant;
    - Cysylltiadau o Nant Henstaff, drwy Goed Gwenybwlau, yn cysylltu â'r rheilffordd segur a Choed Pencoed;
    - Gwella'r hen reilffordd segur fel coridor cerdded/seiclo ac ecolegol;
    - Cysylltiadau at gefn gwlad i'r gorllewin;
    - Cysylltu coridorau lle bo'n bosibl rhwng yr uchod i ddarparu rhwydwaith da;
    - Sicrhau nad oes unrhyw amhariad ar gynhaliaeth statws cadwraeth ffafriol Madfallod Dŵr Cribog a Phathewod ar y safle yn cynnwys

amddiffyn y cyrsiau dŵr cyfredol a darparu plannu cydadferol addas i atodi ardaloedd argadwedig cyfredol;

- **Darparu cysgodfeydd addas i nentydd a choedwigoedd argadwedig y cyfeirir atynt uchod a chynefinoedd eraill yn cynnwys gwrychoedd o fewn y safleoedd.**

- **Ymateb yn effeithiol i asedau treftadaeth drwy:**
  - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol â'r effeithiau posibl ar asedau hysbys yn cynnwys Adeiladau Rhestredig Tŷ Pencoed, Eglwys Sant Elldeyrn a'r Hen Efail.**

4.60 I'r gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4 ac i'r De o'r Creigiau mae dau o wyth Safle Strategol sy'n chwarae rôl hanfodol ar y cyd o ran darparu Strategaeth y Cynllun. Am fod y safleoedd gerllaw ac wedi'u gwahanu gan Ffordd Llantrisant yn unig, mae rhesymeg ystyrlon mewn gosod gofynion uwchgynllunio a seilwaith mewn ffordd gynhwysfawr ond mae hyn hefyd yn cynnwys ymdrin â materion penodol-berthnasol i'r safle ar gyfer pob safle. Maint y safleoedd yw 141 ha a byddent yn helpu i ddod â chartrefi newydd yn eu blaenau a datblygu swyddi a seilwaith cefnogi yn cynnwys cyfleuster parcio a theithio strategol newydd.

4.61 Mae'r broses uwchgynllunio hyd yn hyn wedi adlewyrchu cydweithio rhwng partïon yn ymwneud â'r ddau safle i sicrhau y defnyddir dull cynhwysfawr.

4.62 Bydd y polisi yma, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill, yn darparu'r fframwaith cynllunio seilwaith ac uwchgynllunio i berchnogion tir a datblygwyr baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad.

4.63 Mae graddfa'r safleoedd yn caniatáu i nifer o allfeydd weithredu ar yr un pryd a bydd yn darparu dewis ac ystod eang o gynigion tai a chyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddaliadaethau. Bydd amodau cynllunio a Goblygiadau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) yn cael eu defnyddio i glymu i mewn yn ffurfiol ddarpariaeth raddol seilwaith cefnogi angenrheidiol gyda mecanweithiau sbarduno a throthwyon a ddefnyddiwyd i sicrhau darpariaeth amserol mewn perthynas â chwblhau cartrefi newydd.

4.64 Bydd Coridorau Tramwy Cyflym o fewn y safle wedi eu seilio ar fysiau ac o led digonol a byddent wedi eu dylunio i ymdopi ag elfennau megis rheolaeth ar barcio ceir a gadael i'r cerbydau mwyaf basio'r ddwy ffordd yn ddiogel. Bydd mesurau blaenoriaeth bysiau wedi eu darparu mewn lleoliadau priodol o fewn y safle i ganiatáu tramwy cyflym y bysiau i osgoi traffig yn ciwio. Bydd Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau yn cysylltu'r safle gyda'r Coridor Bysiau Gorllewinol

gyda mesurau blaenoriaeth bysiau oddi ar y safle wedi eu darparu i helpu llif y bysiau. Bydd rhagor o welliannau i goridorau oddi ar y safle wedi eu darparu ar y Coridor Bysiau Gorllewinol fel y mae wedi'i ddangos ar y Map Cynigion ac yn gyson gyda Pholisi T2 er mwyn cefnogi cynnydd yn amledd a dibynadwyedd y gwasanaethau. Mae integreiddiad gwasanaethau tai a chefnogi a seilwaith cymunedol yn rhoi'r cyfle i gynnig cyfran uchel o deithiau byr, lleol drwy gerdded a seiclo. Bydd hyn wedi'i wneud yn bosibl gan integreiddio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a seiclo o ansawdd uchel, o fewn cynlluniau datblygu a sicrhau bod cynllun y ffyrdd, strydoedd, cyffyrdd a mannau cyhoeddus yn ystyried 'llinellau dewis' naturiol y bobl sy'n gwneud y teithiau ar droed ac ar feic.

4.65 Er nad yw manylion y modd ac aliniadau potensial y Metro wedi'u diffinio eto mae'n bwysig nad yw datblygiad y safleoedd hyn yn atal darpariaeth bosibl y prosiect strategol yma. Mae'r gwaith a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu nifer o opsiynau posibl yn yr ardal hon ac, ar hyn o bryd does dim sicrwydd am yr aliniad manwl. Er enghraifft, mae ansicrwydd am fodd y dyfodol ac a fyddai'r llwybr wedi'i seilio ar y rheilffordd segur cyfredol neu opsiynau posibl yn yr ardal hon ac, ar hyn o bryd does dim sicrwydd a fyddai'n well yn teithio i rywle arall.

4.66 Felly, byddai'n amhriodol dyrannu aliniad union gywir ar y Map Cynigion ond mae angen sicrhau nad yw opsiynau'r dyfodol yn cael eu niweidio. Mae'r polisi yma'n sicrhau bod tir wedi'i ddiogelu rhag datblygiad ar hyd y coridor Metro potensial ac hefyd bod defnyddiau tir, dwyseddau a chynlluniau'n cael eu datblygu i ystyried darpariaeth bosibl y prosiect cludiant strategol yma.

4.67 Bydd y Ganolfan leol newydd ar Safle D a'r Ysgol Gynradd newydd sydd i gael ei lleoli oddi mewn iddi neu'n cysylltu â hi yn ffocws i weithgareddau a defnydd cymunedol. Bydd yr adnoddau wedi eu gwella hefyd yn y ganolfan gymdogaeth gyfredol yn y Creigiau i ddarparu adnoddau newydd ar gyfer trigolion presennol a rhai newydd. Bydd union nifer yr Ysgolion Cynradd (1/2) yn dibynnu ar ganlyniadau opsiynau darparu a monitro'r dyfodol sy'n berthnasol pan fo manylion camau diweddarach yn cael eu hasesu drwy'r broses Rheoli Datblygiad. Yn benodol, rhoddir ystyriaeth i fanteision ymestyn yr Ysgol Gynradd bresennol yn y Creigiau fel opsiwn arall yn lle darparu ail ysgol newydd.

4.68 Nid yw Ardal Chwilio B (i'r gorllewin o'r safle i'r Gogledd o Gyffordd 33) wedi ei chynnwys yn y dyraniad Safle Strategol. Ni fyddai hon wedi ei sbarduno heblaw bod raid drwy adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol yn dilyn monitro blynyddol sy'n dangos bod darpariaeth cartrefi newydd yn symud ymlaen y tu hwnt i'r cyfraddau a ragwelir ac yn cyfiawnhau rhyddhad o'r fath o fewn blynyddoedd olaf cyfnod y cynllun. Felly, fe'i hystyrir yn rhy fuan i gynnwys materion uwchgynllunio a seilwaith manwl ar y pwynt yma mewn perthynas â'r tir yma er bod y fframwaith sgematig yn pennu mynediad posibl i'r safle. Ond, fel lleiafswm, mae'r polisi yma'n nodi'r angen am ddarparu mynediad mewn cerbyd, ar feic ac ar droed o Safle D i'r 'tir

caniatáu hyblygedd' i'r gorllewin. Mae'r fframwaith monitro ffurfiol yn darparu proses wedi'i seilio ar dystiolaeth i hysbysu unrhyw benderfyniadau am ryddhau posibl ym mlynyddoedd olaf cyfnod y cynllun.

Fframwaith Sgematig: Safleoedd Strategol D ac E Tir ar Gyffordd 33 /l'r De o'r Creigiau

KP2(F): GOGLEDD DDWYRAIN CAERDYDD (GORLLEWIN PONTPRENNAU)

Mae tir wedi'i glustnodi yng Ngogledd Orllewin Caerdydd (Gorllewin Pontprennau), fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg yn cynnwys o leiaf 4,500 o gartrefi, cyflogaeth a defnyddiau cymunedol cysylltiedig eraill, ynghyd â seilwaith cefnogi sy'n hanfodol, yn galluogi ac yn angenrheidiol ac a fydd yn cael ei ddarparu gam wrth gam gyda manylion penodol wedi'u clymu'n ffurfiol i mewn i ganiatadau cynllunio, yn cynnwys:

Seilwaith Hanfodol/ sy'n Galluogi

- **Cludiant a Phriffyrdd:**
  - **Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd wedi'u seilio ar fysiau drwy'r safle yn darparu cysylltiadau rhwng Canolfannau Ardal/Lleol yn cynnwys Pyrth y Bysiau ar bwynt mynediad i Barc Busnes Porth Caerdydd a Ffordd Llaneirwg ar ymyl ddwyreiniol y safle;**
  - **Seilwaith oddi ar y safle sy'n cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau i ddatblygu Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau sy'n integreiddio â'r safle, Coridorau Bws Dwyreiniol/Gogleddol a llwybrau eraill o fewn Coridor Tramwy Cyflym y Gogledd Ddwyrain yn cynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Safle Strategol G, yn hwyluso trosglwyddiad / yn gwella cyfleusterau rhyngnewid i wasanaethau rheilffordd Linell Rhymni sy'n gwella/trosglwyddo i wasanaethau rheilffordd Linell y Rhymni yng Ngorsaf Llanisien a Gorsaf Thornhill, a chyfleusterau cyflogaeth ym Mharc Busnes Llaneirwg, a safle Strategol H;**
  - **Gwelliannau oddi ar y safle gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau i'r Coridor Dwyreiniol/Gogleddol;**
  - **Ehangu rhwydweithiau bysiau a rhedeg gwasanaethau'n amlach a'u gwneud yn fwy dibynadwy i gynnig opsiynau cludiant cyhoeddus i'r safle ar gyfer amrywiaeth eang o deithiau gan gynnwys cyfuniad o wasanaethau bws lleol a gwasanaethau stopiau cyfyngedig.**

- **Cerdded a seiclo:**
  - **Mesurau ar y safle ac oddi ar y safle i ddarparu teithiau diogel, atyniadol a chyfleus o fewn y safle a chysylltu at wasanaethau, cyfleusterau a chyrchnodau allweddol yn lleol gan gynnwys canolfannau lleol cyfredol ac Ysgolion ym Mhontprennau, Pentwyn, Llys-faen a Pharc Busnes Porth Caerdydd;**

- Cysylltiadau at gyrchnodau cludiant cyhoeddus oddi ar y safle yn cynnwys Gorsafoedd Llanisien a Rheilffordd Thornhill

- **Seilwaith Angenrheidiol:**
  - 1 Ganolfan Ardal wedi'i lleoli'n ganolog ac 1 Ganolfan Leol yn cynnwys cyfleuster Gofal Sylfaenol, cyfleuster hamdden cymunedol amlswyddogaethol yn cynnwys adnodd llyfrgell a chyfraniad ariannol i adnewyddu Canolfannau Hamdden Llanisien a Phontprennau;
  - Addysg – 1 ysgol Uwchradd, 3 Ysgol Gynradd newydd a chyfraniad ariannol i Ysgolion Cynradd sy'n bodoli'n barod;
  - O leiaf 26 ha o Le Agored yn cynnwys 13 ha o adloniant ffurfiol, 6 lle chwarae yn cynnwys man cyrchnod, 1 cyfleuster i bobl ifanc yn eu harddegau a chyfraniad oddi ar y safle, a 2 safle lotments x 50 llain.

Bydd y datblygiad wedi'i wneud mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol dilynol (fel y maent wedi'u nodi, lle bo'n briodol, ar y Fframwaith Sgematig):

- Darparu ystod o ddwyseddau gyda dwysedd uchel (o leiaf 45-50+ o anheddau i bob hectar) datblygiad defnydd cymysg mewn Canolfannau Ardal/Lleol ac ar hyd y Coridorau Tramwy Cyflym. Dwysedd canolig (35-45+ o anheddau i bob hectar) o amgylch ymylon Pontprennau ac i'r gogledd o'r safle. Bydd dwyseddau is o amgylch ymylon Llys-faen;
- Camau cychwynol tuag at Orllewin y safle gyda chamau canolig tuag at y canol a'r de (yn cynnwys Canolfannau Ardal/Lleol) a chamau diweddarach i'r gogledd a'r dwyrain o'r safle;
- Canolfannau Ardal/Lleol mewn lleoliad canolog y gellir eu cyrraedd ar Goridorau Tramwy Cyflym yn cynnwys cyfleusterau cyfnewid rhwng moddau cludiant cynaliadwy ac yn cynnig ystod o wasanaethau yn cynnwys arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a manwerthu o faint a natur sy'n cyfateb gyda pholisïau manwerthu'r Cynllun;
- Cyflwyno mesurau i ostwng effaith y sŵn o'r M4;
- Integreiddio adeiladu presennol yn effeithiol i mewn i'r dyluniad a'r cynllun;
- Cynnal a gwella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y safle a darparu cysylltiadau eglur, diogel a chyfleus i gefn gwlad i'r Gogledd o'r M4, coridor Nant Fawr, Parc Busnes Porth Caerdydd a Phontprennau;
- Darpariaeth cyflogaeth (B1 a B1(b)(c)) i gael ei lleoli o fewn ac yn gyfochrog â'r Ganolfan Ardal a gerllaw Parc Busnes Porth Caerdydd sydd oll oddeutu 6.5 ha;

- **Darparu defnydd da o'r tir ac integreiddiad y cludiant gydag ardaloedd cyfagos Llys-faen a Phontprennau;**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau tirlun a bioamrywiaeth drwy;**
- **Gysylltu ardaloedd argadwedig drwy ddarparu cyfres o goridorau mannau agored sy'n darparu cysylltedd ecolegol, llwybrau mynediad cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer draeniad cynaliadwy yn cynnwys:**
    - **Defnyddio'r rhwydwaith nentydd (yn arbennig Nant Tŷ Draw, Nant Glandulais a Nant y Draenog) fel elfennau craidd o goridorau ecolegol newydd drwy'r safle;**
    - **Cysylltiadau o goridor Nant Fawr i'r de orllewin o'r safle gan sicrhau'r cysylltiadau coridor at goridorau tir agored eraill o fewn y safle;**
    - **Cysylltiadau at bwyntiau mynediad i'r cefn gwlad i'r gogledd orllewin yn Llys-faen a thanffyrdd o dan yr M4;**
    - **Cysylltu coridorau lle bo'n bosibl rhwng yr uchod i ddarparu rhwydwaith da;**
    - **Sicrhau nad oes amhariad i gynhaliad statws cadwraeth ffafriol y Pathew ar y safle gan gynnwys darparu plannu cydadferol addas i ategu'r ardaloedd argadwedig presennol yn cynnwys Malthouse Woods, coetiroedd eraill a gwrychoedd;**
    - **Darparu cysgodfeydd addas i SoDdGA Cronfa Llanisien, nentydd a choetiroedd argadwedig y cyfeirir atynt uchod a chynefinoedd eraill yn cynnwys gwrychoedd o fewn y safle.**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau treftadaeth drwy:**
    - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol gydag effeithiau posibl ar asedau hysbys yn cynnwys Adeiladau Rhestredig o fewn a gerllaw'r safle.**
- **Dim datblygiad i ddigwyddo fewn ardal parth llifogydd C2 sy'n rhan o ddyffryn Nant Glandulais.**

4.69 Mae Gogledd Ddwyrain Caerdydd (Gorllewin Pontprennau) yn un o wyth Safle Strategol sy'n chwarae rôl hanfodol ar y cyd i ddarparu Strategaeth y Cynllun. Dyma'r Safle Strategol ail fwyaf (237 ha) o fewn y Cynllun ac mae'n ymwneud â chefn gwlad rhwng Llys-faen i'r gorllewin, Pontprennau i'r dwyrain a Phriffordd yr M4 i'r gogledd.

4.70 Bydd y Safle wedi'i ddarparu gan nifer o wahanol ddatblygwyr yn gweithredu allan o wahanol allfeydd. Bydd y polisi yma, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill yn darparu'r fframwaith cynllunio seilwaith ac uwchgynllunio i berchnogion tir a datblygwyr i baratoi Cynlluniau Paramedr ac uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad.

4.71 Mae graddfa'r safle'n caniatáu i nifer o allfeydd weithredu ar yr un pryd mewn gwahanol rannau o'r safle mawr yma a bydd yn darparu dewis ac ystod eang o gynnig tai a chyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddaliadaethau. Bydd amodau cynllunio a Goblygiadau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) yn cael eu defnyddio i glymu i mewn yn ffurfiol gyflwyniad graddol y seilwaith cefnogi angenrheidiol gyda mecanweithiau sbarduno a throthwyon i sicrhau darpariaeth amserol mewn perthynas â chwblhau cartrefi newydd.

4.72 Bydd Coridorau Tramwy Cyflym o fewn y safle wedi eu seilio ar fysiau ac o led digonol a'i ddylunio fel arall, gan gynnwys rheolaeth ar barcio ceir, i adael i'r cerbydau mwyaf basio'r ddwy ffordd yn ddiogel. Bydd mesurau blaenoriaeth bysiau wedi eu darparu mewn lleoliadau priodol o fewn y safle i ganiatáu tramwy cyflym y bysiau i osgoi traffig yn ciwio. Bydd Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau yn cysylltu'r safle gyda'r Coridor Bysiau Gorllewinol gyda mesurau blaenoriaeth bysiau oddi ar y safle wedi eu darparu i helpu llif y bysiau. Bydd rhagor o welliannau i goridorau oddi ar y safle wedi eu darparu ar y Coridor Bysiau Gorllewinol fel y mae wedi'i ddangos ar y Map Cynigion ac yn gyson gyda Pholisi T2 er mwyn cefnogi cynnydd yn amledd a dibynadwyedd y gwasanaethau. Mae integreiddiad gwasanaethau tai a chefnogi a seilwaith cymunedol yn rhoi'r cyfle i gynnig cyfran uchel o deithiau byr, lleol drwy gerdded a seiclo. Bydd hyn wedi'i wneud yn bosibl gan integreiddio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a seiclo o ansawdd uchel, o fewn cynlluniau datblygu a sicrhau bod cynllun y ffyrdd, strydoedd, cyffyrdd a mannau cyhoeddus yn ystyried 'llinellau dewis' naturiol y bobl sy'n gwneud y teithiau ar droed ac ar feic.

4.73 Y Canolfannau Ardal a Lleol fydd y ffocws ar gyfer defnyddiau cymunedol a gweithgareddau yn cynnwys ysgolion sy'n agos. Byddent mewn lleoliad da mewn perthynas ag opsiynau cludiant cynaliadwy ac hefyd yn cysylltu gyda'r rhwydwaith o goridorau gwyrdd sydd wedi eu seilio i raddau mawr ar y rhwydwaith nentydd presennol.

Fframwaith Sgematig: Safle Strategol F Gogledd Ddwyrain Caerdydd (Gorllewin Pontprennau)
Ffin y Safle
Coridor Tramwy Cyflym y Bysiau
Cysylltiadau at Goridor Tramwy Cyflym y Gogledd Ddwyrain
Giat y Bysiau
Llwybr Beiciau Craidd
Cysylltiadau at y Rhwydwaith Beiciau ehangach
Llwybrau Cerdded/Seiclo
Ardaloedd Preswyl
Canolfannau Ardal/Lleol
Business/Employment Uses
Ysgol Uwchradd
Ysgol Gynradd
Coetir Argadwedig
Coridorau Man Agored
Preswyl Cyfredol
Ysgol Gyfredol
Ardal Fanwerthu Gyfredol
Man Agored Cyfredol
Cyflogaeth Gyfredol
Diagramatig yn unig. Peidiwch â'i ddefnyddio i fesur graddfa. Diagram cysyniadol i gael ei brofi'n drwyadl a'i addasu yn ystod cydweithredu'r dyfodol yn unol ag egwyddorion uwchgyllunio.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023376
M4
Gorsaf Drenau Llys-faen a Thornhill
Gorsaf Drenau Llanisien
Lisvane
Pontprennau
Pentwyn
Cyncoed
Llanisien
Cronfa Llys-faen
Cronfa Llanisien
Rudry Road
Cefn-Porth Road
Graig-Llwyn Road
Llwyn Y Pia Road
Mill Road
Heol-Y-Delyn
Lisvane Road
Heol Pontprennau
Heol Glandulais
Ty-Draw Road
Gwern-Rhuddi Road
Glyn Coed Road
Pentwyn Road
A48 Eastern Avenue
Station Road
Fidlas Road

KP2 (G): I'R DWYRAIN O FFORDD GYSWLLT PONTPRENNAU

Mae tir wedi'i ddyrannu i'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontprennau, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer cynllun tai o isafswm o 1,300 o gartrefi gyda defnyddiau cymunedol cysylltiedig, ynghyd â seilwaith cefnogi angenrheidiol sy'n hanfodol ac sy'n galluogi a fydd yn cael ei ddarparu cam wrth gam gyda manylion penodol wedi'u clymu'n ffurfiol i mewn i ganiatadau cynllunio yn cynnwys:

Seilwaith Hanfodol/ sy'n Galluogi

- **Cludiant a Phriffyrdd:**
  - **Darparu Coridorau Tramwy Cyflym newydd wedi'u seilio ar fysiau drwy'r safle yn cynnwys cysylltiadau gyda'r Ganolfan Leol a darparu Pyrth Bysiau ar Ffordd Llaneirwg ar ymyl gogledd orllewinol y safle a Heol y Bont i'r de ddwyrain o'r safle;**
  - **Seilwaith oddi ar y safle yn cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau i ddatblygu Coridorau Tramwy Cyflym wedi'u seilio ar fysiau yn integreiddio gyda'r safle, Coridorau Bysiau Dwyreiniol a llwybrau eraill o fewn y Coridor Tramwy Cyflym Gogledd Ddwyreiniol/Dwyreiniol yn cynnwys gwasanaethau wedi'u cysylltu â Safle Strategol F, yn hwyluso trosglwyddiad /yn gwella cyfleusterau cyfnewidiad i wasanaethau rheilffordd Llinell Rhymni yng Ngorsaf Llanisien a Gorsaf Thornhill, a chyfleusterau cyflogaeth ym Mharc Busnes Llaneirwg a Safle Strategol H.**
- **Gwelliannau oddi ar y safle yn cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau i'r Coridor Bysiau Dwyreiniol;**
  - **Ehangu rhwydweithiau bysiau a rhedeg gwasanaethau'n amlach a'u gwneud yn fwy dibynadwy i gynnig opsiynau cludiant cyhoeddus i'r safle ar gyfer amrywiaeth eang o deithiau gan gynnwys cyfuniad o wasanaethau bws lleol a gwasanaethau stopiau cyfyngedig gan gymryd i ystyriaeth y cysylltiadau gyda Safle Strategol F;**
  - **Darparu llwybr bysiau yn unig ar hyd Heol y Bont.**
- **Cerdded a seiclo:**
  - **Mesurau ar y safle ac oddi ar y safle i ddarparu rhwydwaith o lwybrau cyfleus, atyniadol a diogel o safon uchel o fewn y safle a chysylltu at wasanaethau lleol allweddol, cyfleusterau a chyrchnodau yn cynnwys cyflogaeth ym Mhontprennau, Pentwyn a Pharc Busnes Porth Caerdydd;**

- Gwella mynediad cerdded/seiclo yng nghyffordd Church Road/A4232/Heol Pontprennau;
- Darparu cysylltiad cyfleus, atyniadol a diogel o'r safle i Lwybr Rhymni;
- Gwella'r tanffordd o dan yr A48, i'r de o Eglwys Sant Edeyrn;
- Darparu cysylltiad seiclo/cerdded rhwng y danffordd o dan yr A48 a Mill Lane, Llanrhymni;
- Gwella Llwybr Rhymni i ddarparu llwybr i gerddwyr/feiciau ar y cyd rhwng y danffordd o dan yr A48, de Eglwys Sant Edeyrn a'r danffordd i'r gorllewin o gyfnewidfa Pentwyn.

Y Seilwaith Angenrheidiol:

- **1 Ganolfan Leol wedi'i lleoli'n ganolog sydd wedi'i chysylltu â seilwaith tramwy cyflym a chyfleusterau ysgol yn cynnwys cyfleuster Gofal Sylfaenol (Meddygfa Cangen wedi'i chysylltu â Safle Strategol F), cyfleuster cymunedol amlswyddogaethol, a chyfraniad ariannol i ddiweddaru Canolfannau Hamdden Pentwyn a Phontprennau;**
- **Addysg - 1 Ysgol Gynradd newydd wedi'i lleoli o fewn neu gerllaw'r Ganolfan Leol a chyfraniad ariannol i ddarparu Ysgol Uwchradd yn Safle Strategol F;**
- **O leiaf 7.9ha o Le Agored yn cynnwys 3.9ha o adloniant ffurfiol, 2 le chwarae, 1 cyfleuster i bobl yn eu harddegau ac 1 safle lotment x 26 llain.**

Gwneir y datblygiad mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol dilynol (fel y maent wedi eu nodi, lle bo'n briodol, ar y Fframwaith Sgematig):

- **Darparu ystod o ddwyseddau gyda dwysedd uchel (o leiaf 45-50+ o anheddau i bob hectar) ochr yn ochr â choridor tramwy cyflym tuag at ganol y safle, dwysedd canolig (35-45+ annedd i bob hectar) tuag at y gogledd a dwyseddau is ochr yn ochr â pharc glannau'r afon;**
- **Camau cychwynnol yn y de, camau canol tuag at y canol a chamau diweddarach i'r gogledd;**
- **Canolfan leol i gynnig ystod o wasanaethau yn cynnwys arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a manwerthu arall o raddfa a natur sy'n cydfynd â pholisïau manwerthu'r Cynllun;**
- **Integreiddio clwstwr o adeiladau dwysedd isel ym Maenordy St Julian;**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau bioamrywiaeth a thirlun drwy:**

  - **Gysylltu ardaloedd argadwedig drwy ddarparu cyfres o goridorau lle agored sy'n darparu cysylltedd ecolegol, llwybrau mynediad cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer draeniad cynaliadwy yn cynnwys:**

- **Creu parc glannau'r afon yn cynnwys Llwybr Rhymni a Hawliau Tramwy Cyhoeddus arall ar ddarn eang o dir i'r dwyrain o'r safle gyda chysylltiadau'n rhedeg i'r dwyrain o'r safle;**
- **Cynnal y gysgodfa werdd ar hyd ochr yr A4232 (fel rôl tirlun ac adnoddau ecolegol yn bennaf);**
- **Cysylltiadau o barc glan yr afon i gefn gwlad i'r gogledd a Chwm Rhymni i'r de orllewin;**
- **Cysylltu coridorau lle bo'n bosibl rhwng yr uchod i ddarparu rhwydwaith da.**

- **Sicrhau nad oes amhariad i gynhaliad statws cadwraeth ffafriol y Pathew ar y safle yn cynnwys darparu plannu cydadferol addas i ategu'r ardaloedd argadwedig presennol yn cynnwys plannu cydadferol ar y ffiniau deheuol a dwyreiniol.**

- **Darparu cysgodfeydd addas i ardaloedd argadwedig, yn arbennig y gwrychoedd o fewn y safle;**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau treftadaeth drwy:**
  - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol gydag effeithiau posibl ar asedau hysbys yn cynnwys Adeiladu Rhestredig o fewn a gerllaw'r safle;**
  - **Cynnal cymeriad y pentref o amgylch pentref Llanedeyrn ac integreiddio adeiladau cyfredol yn effeithiol i mewn i'r dyluniad yn cynnwys amddiffyn yr olygfa o Eglwys Sant Edeyrn o'r A48;**
  - **Asesu ac ymdrin ag effeithiau posibl ar Adeiladau Rhestredig yr Unicorn Public House, Eglwys Sant Edeyrn, Bridge House Farm, Maenordy Sant Julian a strwythurau cwrtil cysylltiedig;**
- **Amddiffyn ansawdd dŵr yr Afon Rhymni a Nant Mwlan;**
- **Ymdrin â phroblemau gyda Chanclwm Japan ar hyd yr Afon Rhymni;**
- **Dim datblygiad i ddigwydd ym mharth llifogydd C2 sy'n rhan o ddyffryn yr Afon Rhymni.**

4.74 Mae tir i'r dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontprennau'n ffurfio un o wyth Safle Strategol sy'n chwarae rôl hanfodol ar y cyd i ddarparu Strategaeth y Cynllun. Mae'n mesur 80.7 ha ac i'w gael yng nghefn gwlad rhwng Ffordd Gyswllt Pontprennau i'r Gorllewin, dyffryn yr Afon Rhymni i'r dwyrain, yr A48 i'r de a Phriffordd yr M4 i'r gogledd.

4.75 Mae'r mwyafrif o'r tir yn eiddo i un perchennog tir ac mae ganddo Ganiatâd Cynllunio Amlinellol ar gyfer 1,020 o gartrefi ynghyd â chyfleusterau a seilwaith cefnogol. Mae Cytundeb Adran 106 wedi cael ei lofnodi ac mae'n sicrhau darpariaeth raddol seilwaith cefnogol a chyfleusterau yn cynnwys darparu Ysgol Gynradd ar y safle gyda chymalau sbardun yn sicrhau darpariaeth.

4.76 Bydd rhannau eraill o'r safle nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Caniatâd Cynllunio Amlinellol yn derbyn ystyriaeth yng nghyd-destun y polisi hwn, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill a fydd yn darparu'r fframwaith cynllunio seilwaith ac uwchgynllunio i berchnogion tir a datblygwyr i baratoi Cynlluniau Paramedr ac uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad.

Fframwaith Sgematig: Safle Strategol G
Ffordd Gyswllt Dwyrain Pontprennau

Diagramatig yn unig. Peidiwch â'i ddefnyddio i fesur graddfa. Diagram cysyniadol i gael ei brofi'n drwyadl a'i addasu yn ystod cydweithredu'r dyfodol yn unol ag egwyddorion uwchgyllunio.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023376

KP2 (H): I'R DE O BARC BUSNES LLANEIRWG

Mae tir wedi'i ddyrannu i'r De o Barc Busnes Llaneirwg, fel y mae wedi'i ddiffinio ar y Map Cynigion, ar gyfer safle cyflogaeth strategol ynghyd â seilwaith cefnogi angenrheidiol sy'n hanfodol ac sy'n galluogi a fydd yn cael ei ddarparu cam wrth gam gyda manylion penodol wedi'u clymu'n ffurfiol i mewn i ganiatadau cynllunio, gan gynnwys:

Seilwaith Hanfodol/ sy'n Galluogi

- **Cludiant a Phriffyrdd:**
  - **Darparu canolfan gludiant yn cynnwys gorsaf drenau newydd gan y gwasanaethau rheilffordd cyflenwol sy'n cysylltu â chanol y ddinas a gwasanaethau i Faes Awyr Caerdydd a Llundain drwy Ganol Caerdydd;**
  - **Darparu cyfleuster parcio a theithio;**
  - **Seilwaith oddi ar y safle yn cynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau i ddatblygu Coridorau Tramwy Cyflymwedi'u seilio ar fysiau sy'n integreiddio gyda'r safle,y Coridor Bysiau Dwyreiniol a theithiau eraill o fewn y Coridor Tramwy CyflymGogledd Ddwyreiniol/Dwyreiniol yn cynnwys gwasanaethau sydd wedi'u cysylltu â Chanol y Ddinas a Safleoedd Strategol G ac F.**

- **Cerdded a Seiclo:**
  - **Darparu cyfleusterau a chysylltiadau cerdded a seiclo o safon uchel ar y safle ac oddi ar y safle i sicrhau'r mynediad gorau i'r safle i gerddwyr o gymunedau cyfagos yn cynnwys Trowbridge a Llaneirwg.**

- **Lliniaru / amddiffynfeydd llifogydd:**
  - **Gweithiau lliniaru llifogydd yn cynnwys codi'r llwyfannau datblygu a darparu mannau storio diogel rhag y llifogydd i'r de o'r rheilffordd'**

Seilwaith Angenrheidiol

- **Cadw'r darn o dir i'r dwyrain o Cypress Drive a Ffos Ddraenio Faendre ynfan gwyrdd wedi'i gysylltu â Pharc Llyn Hendre;**
- **Os na ellir osgoi llenwi unrhyw ffos ddraenio neu ffos mewn cae ar y cam ymgeisio dylid ei ail alinio (gydag lle sydd o leiaf yn gyfartal ag o) o**

amgylch perimedr y datblygiad neu ddarparu darn o ffos o hyd cydadferol yn rhywle arall o fewn y safle.

Gwneir y datblygiad mewn ffordd gynhwysfawr ac yn unol â'r gofynion uwchgynllunio allweddol dilynol (fel y maent wedi eu nodi, lle bo'n briodol, ar y Fframwaith Sgematig):

- **Darparu 44 ha o dir busnes sy'n gallu cynnwys hyd at 90,000 metr sgwar o ddatblygiad o safon uchel math campws sy'n debyg i barc busnes cyfredol yn Llaneirwg mewn lleoliad sy'n elwa o Statws Ardal Gyda Chymorth;**
- **Integreiddio'r safle gyda chyfleusterau lleol yn yr ardal oddi cwmpas;**
- **Ymateb yn effeithiol i asedau bioamrywiaeth a thirlun drwy:**
    - **Amddiffyn gwerth SoDdGA Gwastadeddau Gwent gyda datblygiad 12.5 metr o leiaf o'r prif ffosydd draenio a 7 metr o'r ffosydd cae;**
    - **Sicrhau bodyr holl ddatblygiad yn cyfateb gyda chanllawiau Gwastadeddau Wentloog gan Gyfoeth Naturiol Cymru (sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt) "Cadwraeth Natur a Datblygiadau Ffisegol ar Wastadeddau Gwent - goblygiadau'r presennol a'r dyfodol";**
    - **Integreiddio unrhyw nodweddion naturiol yn y tirlun, megis ffosydd draenio a gwrychoedd cyfredol i'r cynllun yn cynnwys darparu cysgodfeydd addas;**
    - **Amddiffyn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) Marshfield;**
    - **Parchu'r rhwydwaith manwl o ffosydd draenio a gwrychoedd cyfredol;**
    - **Cysylltu ardaloedd argadwedig drwy ddarparu cyfres o goridorau tir agored sy'n darparu cysylltedd ecolegol, llwybrau mynediad cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer draeniad cynaliadwy yn cynnwys:**
        - **Cysylltiadau rhwng gwrychoedd a ffosydd draenio argadwedig;**
        - **Cysylltiadau gwyrdd at Barc Llyn Hendre sy'n ymateb i werth tirlun naturiol yr ardal;**
        - **Sicrhau nad oes niwed i gynhaliaeth statws cadwraeth ffafriol y Gardwenynen Fain drwy wneud arolwg, ac os ceir hyd iddo, darparu mesurau cydadferol priodol;**
        - **Sicrhau nad oes amhariad i gynhaliaeth statws cadwraeth ffafriol Rhywogaethau Ewropeaidd a Amddiffynnir yn cynnwys ystlumod, dyfrgwn ac ymlusgiaid yn cynnwysdarparu planhigion cydadferol addas i ategu ardaloedd argadwedig cyfredol;**

- **Ymateb yn effeithiol i asedau treftadaeth drwy:**
  - **Asesu ac ymdrin yn effeithiol gydag effeithiau posibl ar asedau hysbys yn cynnwys Ardal Archeolegol Sensitif Gwastadeddau Wentloog a Thirlun gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.**

4.77 Mae hwn yn safle cyflogaeth pwysig sy'n cyfrannu at yr ystod a'r dewis angenrheidiol o fathau o gyfleoedd cyflogaeth ynyddinas. Mae ei leoliad mewn lle arbennig o ddai ddarparu cyfleoedd swyddi hygyrch i ardaloedd o amddifadedd hysbys a'i safle gerllaw'r brif reilfforddyn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer gorsaf newydd ynghyd â seilwaith cludiant cynaliadwy cefnogol. Mae'r cynnig yma'n gynnig hirsefydlog yn y Cynllun Cludiant Rhanbarthol, mae wedi'i bennu yn y gwaith sy'n dod i'r amlwg ar gysyniad Metro De Cymru a chanddo gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Ond, nid yw lleoliad union gywir yr orsaf wedi'i ddiffinio eto felly byddai'n rhy fuan i ddangos dyraniad penodol ar gyfer y defnydd yma ar y Map Cynigion ond mae wedi'i ddangos yn y Fframwaith Sgematig a chyfeirir ato yn y polisi.

4.78 Cydnabyddir bod risg amgylcheddol a risg llifogydd. Yn nhermau materion amgylcheddol, mae rhan fwyaf yr ardal yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gyda'r ffosydd draenio'n ffurfio'r prif ddiddordeb. Bydd y dŵr ffo'n llifo i mewn i Aber yr Afon Hafren, sef safle dynodedig Ewropeaidd felly bydd angen ymdrin yn addas gyda draeniad ac amhariad posibl i adar. Mae'r tir hefyd yn ateb y meini prawf cymwys gan ddefnyddio'r fethodoleg tirlun LANDMAP ar gyfer statws Ardal Tirlun Arbennig. Ymhellach, mae buddiannau hanesyddol sylweddol ac mae'r tir wedi'i ddynodi'n Ardal Archeolegol Sensitif a Thirlun Hanesyddol.

4.79 Mae'r rhwystrau amgylcheddol a risgiau llifogydd yma wedi'u harchwilio'n ofalus fel bod y mesurau lliniaru a gwelliant sydd wedi'u cynnwys yn y polisi yma'ndarparu fframwaith priodolar y lefel yma i ymdrin â'r materion hyn. Bydd y mesurau yma'n darparu fframwaith i berchnogion tir a datblygwyr i baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad. Yn y ffordd yma, gellir darparu'r buddion cymdeithasol ac economaidd sylweddol a ddygwyd ymlaen gan y dyraniad yma gan roi yn ei le ac ymateb yn ofalus i'r fframwaith polisi i ymdrin yn effeithiol gyda'r rhwystrau hysbys sy'n ymwneud â'r safle.

Fframwaith Sgematig: Safle Strategol H
I'r De o Barc Busnes Llaneirwg
Druidstone Road
A48 Eastern Avenue
Newport Road
Hen
Laneirwg
Marshfield
Marshfield Road
Cypress Drive
Parc Busnes Llaneirwg
Willowbrook Way
P&R
Gorsaf
Peterstone
Wentlooge
Trowbridge
B4239
Ffin y Safle
Coridor Tramwy Cyflym sail Bysiau
Cysylltiadau at Goridor Tramwy Cyflym y Dwyrain
Parcio a Theithio
Llwybr Beiciau Craidd
Cysylltiadau at y Rhwydwaith Beiciau ehangach
Llwybrau Cerdded/Seiclo
Defnyddiau Busnes/Cyflogaeth
Lliniaru Amgylcheddol
Coridorau Man Agored
Prif Ffos Agored
Mae manylion y ffosydd agored a nodweddion naturiol eraill sydd i gael eu cadw a'u gwella ynghyd â mesurau lliniaru mewnol i gael eu cadarnhau yn dilyn trafodaeth fanwl gyda chyrff perthnasol.
Preswyl Cyfredol
Ysgol Gyfredol
Ardal Fanwerthu Gyfredol
Man Agored Cyfredol
Cyflogaeth Gyfredol
Diagramatig yn unig. Peidiwch â'i ddefnyddio i fesur graddfa Diagram cysyniadol i gael ei brofi'n drwyadl a'i addasu yn ystod cydweithredu'r dyfodol yn unol ag egwyddorion uwchgyllunio.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023376

2. Rhoi fframwaith yn ei le i reoli tyfiant yn y dyfodol ac annog cynllun cynaliadwy o safon uchel.

KP3 (A): LLETEM LAS

I reoli ffurf ddinesig Caerdydd yn strategol ac i amddiffyn gosodiad yr ardal ddinesig, cynigir cael Lletem Las ar dir i'r Gogledd o'r M4 fel y gwelir ar y Map Cynigion. Yn yr ardal yma ni chaniateir datblygiad sy'n niweidio natur agored y tir. Bydd bioamrywiaeth bositif, tirlun, lliniaru newid yn yr hinsawdd a mesurau rheoli a gwella adloniant anffurfiol yn cael eu hannog yn yr ardal hon i wella rôl dymor hir yr ardal ymhellach fel adnodd naturiol allweddol sydd o fudd i'r ddinas.

4.80 Ynghyd â Pholisi Allweddol KP3(B), mae'r Polisi yma'n ceisio rheoli ffurf adeiledig ardal ddinesig Caerdydd yn y dyfodol mewn ffordd strategol. Mae'r ardal ddynodedig yn ffurfio tir i'r Gogledd o'r M4 yng Nghaerdydd fel y gwelir ar y Map Cynigion. Heb os mae'r tir yma'n ffurfio cefnlun gwyrdd nodedig, amlwg ac adnabyddus i'r ardal ddinesig. Mae'r tir wedi'i gynnwys yn weddol dda gan ffin ffisegol cryf Priffordd yr M4 i'r de.

4.81 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n darparu arweiniad penodol ar ystyriaeth y ceisiadau cynllunio o fewn y dynodiad Lletem Las.

KP3 (B): FFINIAU'R ANHEDDIAD

I reoli tyfiant gofodol Caerdydd yn strategol, cynigir ffiniau anheddiad fel y gwelir ar y Map Cynigion. Ymhob ardal y tu allan i'r ffiniau anheddiad diffiniedig, y cyfeirir atynt fel arall fel cefn gwlad, bydd rhagfynegiad cyfatebol yn erbyn datblygiad amhriodol.

4.82 Mae ffiniau anheddiad Caerdydd yn fecanwaith allweddol ar gyfer helpu i reoli tyfiant drwy ddiffinio'r ardal lle byddai datblygiad yn cael ei ganiatáu fel arfer, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio materol. Mae'r Polisi yma'n cydfynd â Pholisi Allweddol Lletem Las (KP3(A)) sydd wedi'i nodi uchod. Bydd y polisi'n gosod rheolaeth dynn ar ddatblygiad yr holl gefn gwlad yng Nghaerdydd y tu allan i ffiniau anheddiad a benwyd fel y gwelir ar y Map Cynigon. Mae Polisi EN1 manwl yn darparu mwy o arweiniad ar ddehongliad y dull Polisi yma.

4.83 Mae cefn gwlad Caerdydd yn adnodd gwerthfawr a gorffenedig sydd o dan bwysau cynyddol gan bob math o ddatblygiad oherwydd ei fod mor agos at yr ardal ddinesig, yn cynnwys arallgyfeirio fferm a chynigion yn ymwneud â cheffylau, ac oherwydd y nifer fawr o eiddo a lleiniau bychain o dir mewn gwahanol berchnogaeth sydd wedi'i ledaenu drwy'r cefn gwlad i gyd. Er ei bod hi'n

angenrheidiol annog cynigion sensitif sy'n cefnogi cefn gwlad sy'n gweithio, mae cefn gwlad Caerdydd yn arbennig o agored i effaith gronnol datblygiadau newydd ansensitif a allai niweidio ei gymeriad a'i ymddangosiad ynghyd â 'maestrefoli' tirluniau atyniadol. Lle gellir dangos bod datblygiad y tu allan i ffiniau'r anheddiad yn dderbyniol mewn egwyddor, mae polisïau manwl eraill y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r fframwaith i ystyried manteision neu anfanteision cynigion ynghyd â'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cynnwys TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.

4.84 Mae ffiniau anheddiad Caerdydd wedi eu hasesu'n ofalus ac maent yn dilyn ffiniau rhesymegol cyfredol lle bo'n bosibl. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i nodweddion arbennig, defnydd a graddfa natur agored lleiniau penodol o dir ynghyd â'u rhyng-berthynas gyda thir oddi amgylch. Efallai y bydd y cynigion ar ymylon y ddinas sydd â chaniatâd cynllunio yn barod wedi eu cynnwys o fewn ffiniau'r anheddiad. Mae ffiniau anheddiad Caerdydd i'w gweld ar y Map Cynigion.

KP4: Y DULL O UWCHGYNLLUNIO

Dylai datblygiad mawr gyfateb gyda:

i. **Yr Egwyddorion Uwchgynllunio Cyffredinol a ganlyn:**

1. **Cynlluniau datblygu sydd wedi eu cynllunio mewn ffordd gynhwysfawr ac integredig sy'n adlewyrchu gwaith partneriaeth ac yn gosod camau'r datblygiad ynghyd â darpariaeth amserol y seilwaith cefnogol. Bydd angen i uwchgynlluniau gynnwys yr holl ardal datblygiad beth bynnag fo'r patrymau perchnogaeth tir, a bydd hyn yn gofyn gweithio mewn partneriaeth, yn cynnwys yr holl bartïon perthnasol;**
2. **Mae datblygiad defnydd cymysg a phreswyl dwysedd uchel wedi'i ganolbwyntio ar hyd y coridorau cludiant cyhoeddus ac mewn canolfannau cymdogaeth gyda dwyseddau is a ddarperir mewn mannau eraill i ddarparu dewis ac ystod cyfan i ateb gwahanol anghenion;**
3. **Coridorau cludiant cynaliadwy ymroddedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cludiant cyhoeddus, seiclo a cherdded a fydd yn ffurfio elfennau allweddol o'r uwchgynllun cyffredinol ac yn cysylltu'n effeithiol gyda'r rhwydwaith ehangach;**
4. **Bydd cerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus yn ddewisiadau teithio atyniadol, ymarferol a chyfleus i bawb;**
5. **Bydd darpariaeth ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol wedi'i chanolbwyntio o fewn y canolfannau cymdogaeth defnydd cymysg ar hyd coridorau cludiant cyhoeddus ac yn hawdd eu cyrraedd drwy gerdded a seiclo;**
6. **Mae'r broses uwchgynllunio'n ymateb yn effeithiol i'r cyd-destun lleol a chyd-destun y newid yn yr hinsawdd, i greu cymdogaethau newydd wedi'u cynllunio'n gyda chymeriad nodedig y bydd trigolion yn falch ohono;**
7. **Mae'r datblygiad newydd yn ymateb i ddiffygion lleol ac yn darparu cysylltedd da i ardaloedd cyfagos ac mae wedi'i hysbysu gan adborth gan gymunedau cyfredol;**
8. **Mae mannau agored gwyrdd amlswyddogaethol ac wedi'u cysylltu â'i gilydd yn ffurfio cysylltiadau strategol bwysig i'r ardal gyfagos i ddarparu llwybrau i bobl a bywyd gwyllt a mannau agored ar gyfer chwaraeon, adloniant a chwarae;**
9. **Integreiddio'n sympathetig y tirlun, bioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol cyfredol y safle i mewn i'r datblygiad gan gymryd y cyfle**

i amddiffyn, gwella a rheoli nodweddion pwysig ynghyd â mesurau lliniaru a gwella i ddarparu mesurau cydadferol boddhaol;

10. **Mabwysiedir ynni creadigol ac arloesol, rheoli dŵr wyneb ac atebion rheoli gwastraff i wneud datblygiadau newydd yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol; ac**

ii. **Arweiniad sydd wedi'i nodi mewn Fframweithiau Uwchgynllunio Penodol i Safle lle mae'r rhain wedi'u paratoi.**

4.85 I reoli ffurf, defnyddiau, atebion cludiant, cyflwyno graddol a golwg y datblygiadau mawr newydd yn fwy effeithiol, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn disgrifio 'dull uwchgynllunio'. Bydd hwn yn darparu mwy o sicrwydd i ddatblygwyr, y cyhoedd a'r holl bartïon eraill sydd â diddordeb. Y nod gyffredinol fyddi'r Cyngor nodi fframwaith eang ar y cychwyn a fydd yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer gwaith cynllunio mwy manwl a gwaith gweithredol i ddilyn. Mae'r Polisi yma'n ymwneud â'r holl safleoedd strategol ac unrhyw ddatblygiadau newydd pwysig a allai ddatblygu dros gyfnod y Cynllun.

4.86 Mewn perthynas â Safleoedd Strategol, mae'r polisïau KP2(A) hyd KP2(H) yn nodi gofynion seilwaith ac uwchgynllunio pob un o'r safleoedd a welir yn ddangosol, lle bo'n briodol ar Fframweithiau Sgematig. I osgoi ailadrodd a pholisïau dianghenraid o hir, dim ond gofynion penodol i safle ac nid rhai generig sydd wedi'u hatodi a'u cynnwys yn y polisi sy'n ymwneud â phob Safle Strategol.

4.87 Mae'r gofynion seilwaith sydd wedi'u cynnwys ym mholisïau KP2 (A) i KP2(H) yn adlewyrchu'r lefel o wybodaeth fanwl sy'n hysbys. Bydd diweddariadau i'r Cynllun Seilwaith yn y dyfodol yn caniatáu i wybodaeth o'r fath gael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchiadau ar y pryd a dangos mwy o fanylion pan fo'n hysbys. Byddai'n rhy fuan a ddim o gymorth i gynnwys cyfarwyddiadau gor-ragnodol yn y Cynllun lle mae materion manwl yn cael eu hystyried mewn ffordd fwy priodol drwy'r broses Rheoli Datblygiad ond o fewn cyd-destun y fframwaith sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Yn y ffordd yma, gellir rhoi'r sicrwydd mwyaf posibl heb nodi uchelgeisiau heb eu cefnogi.

4.88 Mae'r polisi yma, mewn cydweithrediad â pholisïau perthnasol eraill, yn darparu'r fframwaith uwchgynllunio i berchnogion tir a datblygwyr i baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau ar gyfer cynigion datblygu mawr newydd, a fydd yn hysbysu'r broses Rheoli Datblygiad.

KP5: CYNLLUN CYNALIADWY AC ANSAWDD DA

Helpu i gefnogi datblygiad Caerdydd fel Prifddinas Ewropeaidd o'r radd flaenaf, bydd raid i'r holl ddatblygiad newydd fod o ansawdd uchel, o gynllun cynaliadwy a gwneud cyfraniad positif i greu cymunedau, lleoedd a mannau nodedig drwy:

i. **Ymateb i gymeriad a chyd-destun lleol y lleoliad adeiledig a thirlun fel bod y cynllun, graddfa, ffurf, maint, uchder, dwysedd, lliw, defnyddiau, manylion ac effaith ar y dreftadaeth adeiledig a naturiol oll yn derbyn sylw o fewn y cynigion datblygu;**
ii. **Darparu datblygiad eglur sy'n hawdd symud o'i gwmpas ac sy'n sicrhau naws o barhad a chau i mewn;**
iii. **Darparu amrywiaeth o ddefnyddiau tir i greu cymunedau cytbwys ac ychwanegu bywiogrwydd drwy gydol y dydd;**
iv. **Creu strydoedd sy'n rhyng-gysylltu, sgwariau a mannau gwag fel mannau nodedig sy'n ddiogel, hygyrch, bywiog a sicr ac sy'n cynnwys celfyddyd gyhoeddus lle bo'n briodol;**
v. **Darparu amgylchedd cyfleus ac iach i bob defnyddiwr sy'n cefnogi egwyddorion diogelwch cymunedol, yn annog cerdded a seiclo, yn galluogi cyflogaeth, gwasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol i fod yn hygyrch drwy gludiant cynaliadwy ac yn gwneud yn fawr o gyfraniad rhwydweithiau i fannau agored cysylltiedig ac amlswyddogaethol i annog dulliau mwy iach o fyw;**
vi. **Gwneud yn fawr o atebion ynni adnewyddadwy;**
vii. **Cyflawni cynllun sy'n ymateb i'r hinsawdd ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol sy'n darparu atebion cynaliadwy i reoli dŵr a gwastraff ac yn lleihau allyriadau o gludiant, tai a dwydiant;**
viii. **Cael cynllun y gellir ei addasu sy'n gallu ymateb i ofynion cymdeithasol, economaidd, technolegol ac amgylcheddol yn y dyfodol;**
ix. **Hybu'r defnydd effeithlon o dir, gan ddatblygu ar y dwyseddau ymarferol uchaf a, lle bo'n briodol, gyflawni adferiad llygriad y tir;**
x. **Sicrhau nad oes unrhyw effaith gormodol ar amwynder defnyddwyr cyfagos a chysylltu'n bositif gyda chymunedau oddi cwmpas;**
xi. **Meithrin cynllun cynhwysol, sicrhau bod adeiladau, strydoedd a mannau agored yn hygyrch i bob defnyddiwr ac y mae modd ei addasu i newidiadau mewn dulliau o fyw yn y dyfodol; a**
xii. **Chanfod lle mae adeiladau tal mewn lleoliadau sy'n hynod hygyrch drwy gerdded a chludiant cyhoeddus ac o fewn clwstwr cyfredol neu arfaethedig o adeiladau tal.**

4.89 Mae cynllun cynaliadwy o safon uchel yn hanfodol os yw Caerdydd i gwrdd â'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Weledigaeth a datblygu fel prifddinas o'r radd uchaf. Yn fwy penodol, mae cynllun da'n chwarae nifer o rolau arwyddocaol: ymdrin â newid yn yr hinsawdd; amddiffyna gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Caerdydd; amddiffyn elfennau nodedig yn lleol; denu buddsoddiad a hybu cynhwysiad cymdeithasol, iechyd ac ansawdd bywyd.

4.90 Felly mae cynllun da'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau estheteg traddodiadol a dylai fod yn nod i bob cynnig datblygiad yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u graddfa. Ynghyd â'r dull uwchgynllunio sydd wedi'i nodi ym Mholisi Allweddol KP4 uchod, a pholisïau manwl perthnasol, ystyrir bod y Cynllun yn darparu fframwaith polisi cadarn i sicrhau bod yr atebion cynllunio gorau posib wedi eu sicrhau wrth i'r Cynllun gael ei weithredu. Mae gweithrediad y Polisi yma, sydd wedi'i anelu yn rhannol at wella effeithiolrwydd y defnydd o ddŵr fel adnodd, yn sicrhau cyflenwad dŵr digonol heb effeithio'n niweidiol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, gan felly helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y Cynllun yma'n cael effaith sylweddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Bydd gweithrediad y Polisi yma hefyd yn gostwng allyriad aer, dŵr a llygryddion y tir gan gydbwyso'r cynyddiadau mewn llygredd sy'n codi o weithrediad polisïau eraill yn y Cynllun. Byddai hyn yn cyfrannu at osgoi effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd.

4.91 Bydd ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â'r cynllun ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad yn cael eu diweddaru a'u hatgyfnerthu fel y maent wedi'u crynhoi yn Atodiad 4 i ddarparu arweiniad llawn ar ddehongliad manwl y Polisi yma.

3. Dod â seilwaith newydd yn ei flaen

KP6: SEILWAITH NEWYDD

Bydd datblygiad newydd yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer, neu'n cyfrannu tuag at, yr holl seilwaith angenrheidiol a hanfodol sy'n galluogi ac sy'n ofynnol o ganlyniad i'r datblygiad yn unol â'r Arweiniad i Bolisi Cynllunio. Bydd seilwaith o'r fath wedi'i ddarparu mewn ffordd amserol i ateb anghenion presennol ac anghenion arfaethedig cymunedau ac yn cynnwys yr agweddau a ganlyn a allai fod yn angenrheidiol o ystyried natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig:

Seilwaith Hanfodol / sy'n Galluogi:

- **Cludiant a phriffyrdd yn cynnwys mynediad, cylchdroi, parcio, darparu cludiant cyhoeddus, cerdded a seiclo;**
- **Gwasanaethau cyhoeddus;**
- **Lliniaru / amddiffynfeydd llifogydd.**

Seilwaith Angenrheidiol:

- **Tai Fforddiadwy;**
- **Ysgolion ac addysg;**
- **Iechyd a gofal cymdeithasol;**
- **Adeiladau cymunedol a chyfleusterau yn cynnwys gwelliannau i Ganolfannau Ardal a Lleol;**
- **Cyflogaeth a hyfforddiant lleol gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth amnewidiol lle bo'n berthnasol;**
- **Mentrau diogelwch y gymuned;**
- **Tir agored, cyfleusterau hamdden, lleoedd chwarae, lotments;**
- **Amddiffyniad, rheolaeth, gwelliant a mesurau lliniaru yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig a naturiol;**
- **Gwelliannau i'r tir cyhoeddus a chelfyddyd gyhoeddus;**
- **Cyfleusterau rheoli gwastraff yn cynnwys ailgylchu a gwasanaethau;**
- **Seilwaith ynni cynaliadwy a gwresogi ardal.**

4.92 Mae Polisi KP6 yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd, beth bynnag fo'u maint, lleoliad neu ddefnydd tir, yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer seilwaith. Bydd gofynion seilwaith penodol yn amrywio mewn gwahanol leoliadau ac yn ddibynnol ar raddfa a natur y datblygiad arfaethedig. Efallai y bydd angen seilwaith i hwyluso datblygiad (hanfodol/sy'n galluogi) neu y gallai fod yn ofynnol i wneud

datblygiad yn dderbyniol (angenrheidiol). Er enghraifft, gallai gynnwys elfenau o'r rhestr sydd wedi'u cynnwys yn rhan o'r Polisi, nad yw'n gynhwysfawr, ond sy'n rhoi syniad o gwmpas posibl y seilwaith a allai fod yn ofynnol.

- Categori 1: Seilwaith Hanfodol / sy'n Galluogi (hwyluso datblygiad) - Yr eitemau hynny y bydd angen eu darparu cyn neu o ddechreuad y camau perthnasol o ddatblygiad (e.e. seilwaith cludiant / priffyrdd, gwasanaethau cyhoeddus a lliniaru / amddiffyniad yn erbyn llifogydd);
- Categori 2: Seilwaith Angenrheidiol (i wneud datblygiad yn dderbyniol) - Eitemau sydd angen eu cyflwyno'n raddol a'u gweithredu ochr yn ochr â datblygiad newydd, i sicrhau bod ardaloedd yn derbyn cyfleusterau priodol dros amser (e.e. ysgolion a thir hamdden agored).

4.93 Mae'r rhestr yn rhoi arwydd cyffredinol oherwydd gallai bob pwnc gael gofynion cymhleth. Er enghraifft, gallai seilwaith cludiant gynnwys elfennau o'r canlynol:

- Llwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerdded a seiclo sy'n cynnwys gwelliannau ar y ffordd ac oddi ar y ffordd;
- Coridorau Tramwy Cyflym, yn cynnwys rheilffordd drom, rheilffordd ysgafn, trenau tram a thramwy cyflym ar fws;
- Coridorau bws allweddol a'r rhwydwaith bysiau ehangach yn cynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau a chyfleusterau i deithwyr;
- Y rhwydwaith rheilffordd a gwasanaethau rheilffordd yn cynnwys gorsafoedd trenau newydd, gwelliannau i orsafoedd a chyfleusterau ar gyfer cargo ar y rheilffordd;
- Cyfnewidiadau cludiant i gefnogi integreiddiad rhwng moddau yn cynnwys gorsafoedd bws a rheilffordd, cyfleusterau i barcio a theithio ar y bws neu drên, parcio a rhannu, gollwng teithwyr, tacsis, parcio a seiclo, parcio coetsis, parcio lorïau dros nos a chludiant dŵr;
- Cyfleusterau trosglwyddo cargo a llwybrau cargo dynodedig;
- Y rhwydwaith ffyrdd, yn arbennig fesurau i wneud defnydd gwell o allu presennol y priffyrdd;
- Cludiant ar yr afon (yn cynnwys Bae Caerdydd); a
- Chyfleusterau porthladd a llongau.

4.94 Mewn perthynas â Safleoedd Strategol, mae polisïau KP2(A) – KP2(H) yn rhoi arweiniad clir ar ofynion seilwaith ac uwchgynllunio'r Cyngor. Bydd yr wybodaeth yma wedi'i groesgyfeirio gyda Chynllun Seilwaith Caerdydd sy'n 'ddogfen fyw' yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Seilwaith wedi'i gysylltu'n uniongyrchol gyda Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, felly wrth i fwy o fanylion gael eu sefydlu gallent gael eu cynnwys yn y ddogfen.

4.95 Mae'r Cynllun Seilwaith yn pennu costau posibl darpariaeth seilwaith, mecanweithiau cyllido potensial / ffynonellau cyllido ac yn darparu arwydd o ofynion cyflwyno graddol. Mae'r diagram isod yn dangos rhai o'r ffynonellau cyllido posibl ar gyfer darpariaeth seilwaith. Mae'n bwysig nodi bod nifer o ffynonellau cyllido posibl ac mae'r rheiny sydd i'w gweld ar y diagram yn codi materion perifferol sydd angen rhagor o drafodaeth a gwaith i archwilio dichonolrwydd sicrhau arian drwy'r dulliau yma.

4.96 Mewn safleoedd mwy, sy'n atebol i uwchgynllunio manwl a chyflwyno graddol, mae'n debygol y gellir darparu'r seilwaith angenrheidiol yn rhan o ddatblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr. Gallai'rseilwaith yma gael ei ddarparu drwy oblygiadau cynllunio neu drwy ymyrraeth uniongyrchol gan ddarparwyr gwasanaeth/seilwaith. Ymhob achos, bydd canfod gofynion seilwaith yn gynnar a chael ymrwymiad gan ddatblygwyr a darparwyr gwasanaeth i weithio mewn partneriaeth yn helpu i sicrhau bod modd cynllunio, darparu a rheoli'r holl seilwaith angenrheidiol mewn ffordd drefnus ac amserol.

4.97 Bydd darparu adeiladau a lleoedd hyblyg, amlswyddogaethol yn caniatáu i wasanaethau hanfodol gael eu darparu gan ganiatáu hefyd i gymunedau ddiffinio ac ailddiffinio eu gofynion seilwaith dros amser. Bydd ymrwymiad cryf i adeiladau cymuned wedi'u rhannu, gwasanaethau, eu rheolaeth a'u cynhaliaeth gan sicrhau bod cyfleusterau wrth galon y gymuned, gan ostwng costau cyffredinol i

ddatblygwyr a darparwyr gwasanaethau fel ei gilydd. Mae'r egwyddor o adeiladau cymunedol wedi'u hintegreiddio o fewn "canolfannau" amlswyddogaethol (er enghraifft, y datblygiad @Loudoun yn Butetown) yn duedd sy'n debygol o barhau. Mae'r Cynllun Seilwaith yn darparu rhagor o wybodaeth am gyfleoedd posibl i gael safleoedd wedi'u rhannu yn ogystal ag arwydd o ddefnyddiau a gwasanaethau cyfatebol.

4.98 Mae Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) yn cael ei ddatblygu i Gaerdydd. Mae'r cydbwysedd rhwng uwchgynllunio'r safle, goblygiadau cynllunio a CIL i ddarparu seilwaith wedi'i hysbysu gan hyfywedd y safle, dialog gyda datblygwyr ac argaeledd ffynonellau cyllido eraill. Mae Polisi KP7 manwl (Goblygiadau Cynllunio) yn rhoi mwy o fanylion ac yn disgrifio'r gofynion seilwaith hynny y gellid eu darparu drwy oblygiadau cynllunio.

KP7: GOBLYGIADAU CYNLLUNIO

Bydd goblygiadau cynllunio'n cael eu ceisio i liniaru unrhyw effeithiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygiad ac yn cael eu hasesu ar sail achosion unigol yn unol â'r Arweiniad i Bolisïau Cynllunio.

4.99 Mae goblygiadau cynllunio'n ddull o orchfygu rhwystrau i roi caniatâd cynllunio. Cânt eu hatodi at ganiatadau cynllunio ac maent yn ymrwymiadau gan ddatblygwyr i wneud gweithiau angenrheidiol neu i wneud cyfraniadau ariannol na allent gael eu sicrhau drwy amodau neu ddulliau statudol eraill.

4.100 Mae datblygiad newydd yn aml yn cynhyrchu galwadau ychwanegol ar wasanaethau, cyfleusterau, seilwaith a'r amgylchedd presennol. Mae goblygiadau Cynllunio'n ffyrdd o geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at y galwadau yma yn ogystal â thrafod manteision sy'n gwella safon y cynigion datblygu drwy ddarparu seilwaith angenrheidiol a manteision cymunedol.

4.101 Mae'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi'n llywio'r defnydd o oblygiadau cynllunio wedi'i ddarparu ym Mholisi Cynllunio Cymru, Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y maent wedi'u haddasu) a Chylchlythyr Swyddfa Cymru 13/97 'Goblygiadau Cynllunio' (neu fersiynau dilynol).

4.102 Mae'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn gofyn nad oes unrhyw orgyffwrdd rhwng seilwaith a ariennir drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r hyn y gellir ei ddarparu drwy oblygiadau cynllunio. I osgoi dyblygiad ac i ddarparu eglurder i ddatblygwyr, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi rhestr (Rhestr Rheoliadau 123) o'r seilwaith a fydd yn cael ei ariannu drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Ar gyfer seilwaith nad yw wedi'i gynnwys ar y Rhestr Rheoliadau 123, gallai fod yn briodol sicrhau seilwaith angenrheidiol drwy oblygiadau cynllunio.

4.103 Ceisir goblygiadau gan ddatblygwr i:

- Rwystro datblygiad neu ddefnydd y tir;
- Ofyn bod y tir yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd benodol;
- Gofyn bod gweithredoedd neu gamau gweithredu'n cael eu gwneud; neu
- Ofyn i daliadau gael eu gwneud i'r awdurdod.

4.104 Cânt eu ceisio lle maent yn:

- Angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio;
- Ymwneud yn uniongyrchol â datblygiad; ac
- Ymwneud yn deg a rhesymol mewn graddfa a math â datblygiad.

4.105 Trafodir goblygiadau fel arfer o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Tref a Chefn Gwlad 1990. Gellir mynd i gytundebau o dan Adran 278 Deddf Priffyrdd 1980. Mae'r rhain yn rhagnodi gwaith y priffyrdd sy'n ofynnol o ganlyniad i'r datblygiadau arfaethedig. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i roi rhagor o arweiniad ar ddefnyddio goblygiadau cynllunio.

4. Darparu atebion cynaliadwy o ran cludiant

KP8: CLUDIANT CYNALIADWY

Bydd datblygiad yng Nghaerdydd wedi'i integreiddio gyda seilwaith cludiant a gwasanaethau er mwyn:

i. **Cyflawni'r targed o doriad moddol 50:50 rhwng teithiau mewn car a theithiau drwy gerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus;**
ii. **Gostwng y galw am deithio a dibyniaeth ar y car;**
iii. **Galluogi a gwneud yn fawr o'r defnydd o foddau o gludiant gweithredol a chynaliadwy;**
iv. **Integreiddio moddau teithio;**
v. **Darparu i bobl gyda gofynion symudedd a mynediad penodol;**
vi. **Gwella diogelwch i bob teithiwr;**
vii. **Cynnal a gwella effeithiolrwydd a dibynadwyedd y rhwydwaith cludiant;**
viii. **Cefnogi symudiad cargo ar y rheilffordd neu'r dŵr; a**
ix. **Rheoli symudiadau cargo ar y ffordd a lleihau eu heffeithiau.**

4.106 Er mwyn i Gaerdydd ymdrin â'r lefelau o dyfiant a gynlluniwyd, bydd angen i drigolion presennol a rhai'r dyfodol fod yn llawer llai dibynnol ar y car preifat. Felly, fe fydd hi'n hanfodol i sicrhau bod mwy o deithiau pob dydd yn cael eu gwneud gan foddau cynaliadwy o gludiant, cerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus.

4.107 Mae lleoliad a ffurfiau datblygiadau'n bwysig o ran effeithio'r pellter y bydd pobl yn ei deithio, y llwybrau y maent yn eu cymryd a'r moddau o gludiant y maent yn eu dewis. Mae llawer o'r tyfiant mewn teithio yn y car dros y degawdau diweddar yn gallu bod yn ganlyniad i ddatblygiadau sydd wedi'u hintegreiddio'n wael gyda'r rhwydwaith cludiant. Gall integreiddiad o ddefnydd y tir a darpariaeth cludiant helpu i reoli'r galw am deithio, osgoi datblygiadau sy'n dibynnu ar y car a'i gwneud hi'n haws i hwyluso symudiadau drwy ddulliau cynaliadwy.

4.108 Pwrpas y Polisi Allweddol yma, felly, yw sicrhau bod datblygiadau wedi'u hintegreiddio'n gywir gyda'r seilwaith cludiant sy'n angenrheidiol i wneud datblygiadau'n hygyrch drwy foddau teithio cynaliadwy i gyflawni symudiad angenrheidiol i ffwrdd oddi wrth deithio mewn car.

4.109 I liniaru effeithiau cludiant a chyflawni'r targed rhaniad moddol 50:50, bydd datblygiad safleoedd strategol wedi'i integreiddio gyda darparu seilwaith cludiant a phriffyrdd y cyfeirir atynt ym Mholisi KP6 (Seilwaith Newydd). Bydd seilwaith o'r fath yn cynnwys:

- y seilwaith cerdded a seiclo a gefnogir gan Bolisi T1;
- y tramwy cyflym strategol, gwelliannau coridor bysiau a gwelliannau ehangach i rwydwaith bysiau'r ddinas wedi'i gefnogi gan Bolisi T2;
- Cyfnewidfeydd Cludiant sydd wedi'u cefnogi gan Bolisi T3; a'r
- Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i chefnogi gan Bolisi T4.

4.110 Mae polisïau KP2 (A) hyd KP2 (H) yn rhestru'r 'seilwaith sy'n Galluogi' a 'Hanfodol' sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad cyfraniad pob safle strategol i ddarpariaeth y targed rhaniad moddol 50:50 drwy'r sir.

4.111 Ar hyn o bryd (2011) mae 64% o'r holl deithiau wythnosol (yn ymwneud â gwaith neu ddim yn ymwneud â gwaith) yn cael eu gwneud mewn car, tra bo 36% yn cael eu gwneud gan foddau eraill. Nod canolog y strategaeth gludiant sy'n cefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol yw cyflawni toriad 50:50 rhwng teithio mewn car a theithio cynaliadwy. Nid yw'r targed yma'n uchelgais polisi yn syml; mae gwybodaeth leol o'r rhwydwaith cludiant ac ymchwilio ymddygiad teithio, patrymau a thueddiadau mewn cyfuniad â gwaith modelu a wneir gan y Cyngor wedi dangos bod cyflawni'r gymhareb yma'n angenrheidiol ar gyfer y rhwydwaith cludiant i ymdopi â symudiadau sy'n gysylltiedig â'r tyfiant a ragwelir o fewn y cynllun yma mewn ffordd sy'n osgoi lefelau na ellir eu rheoli o dagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd.

4.112 Datblygwyd model cludiant i asesu effaith gyffredinol y safleoedd datblygu arfaethedig ar y rhwydwaith priffyrdd yng Nghaerdydd yn 2026. Mae'r model wedi'i seilio ar y cyfnodau prysuraf yn y boreau pan fo'r pwysau mwyaf ar y

rhwydwaith priffyrdd. Mae llif y traffig ar yr amseroedd prysuraf wedi eu modelu ar sail 2010 ac yna'u cymharu gyda 2026 ar sail y cynyddiadau canlynol mewn tai a chyflogaeth:

- Cynnydd o 25% mewn tai (o142,382 i 178,594)
- Cynnydd o 20% mewn swyddi (o 198,400 i 238,400)

4.113 Roedd y model 2026 wedi'i seilio ar y rhwydwaith priffyrdd yn 2010 ac yn tybio nad oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i ymdopi â'r symudiadau ychwanegol mewn cerbydau o'r safleoedd datblygu; enw'r dull yma yw senario 'busnes fel arfer'. Mae hyn wedi galluogi i effaith Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol gael ei fesur yn llawn. Mae canlyniadau allweddol yr ymarfer modelu'n dangos hyn:

- Y byddai'r galw am deithio mewn car yn cynyddu o 41%;
- Byddai 10% o'r galw newydd yn methu teithio ar y rhwydwaith priffyrdd oherwydd y diffyg lle, felly byddai cynnydd net o 32% mewn traffig;
- Byddai cyflymder cyfartalog teithiau'n arafu; a
- Byddai hyd yr amseroedd teithio'n cynyddu o oddeutu 41% neu 7 munud (ar gyfartaledd).

4.114 Mae asesiad modelu'r Cyngor yn dangos y bydd y tyfiant a ragwelir yn y Cynllun Datblygu Lleol yn achosi cynnydd mawr mewn symudiadaucludiant yn gyffredinol, gan gynnwys teithiau ychwanegol sylweddol ar y rhwydwaith priffyrdd. Ymhellach, er mwyn rhoi lle i'r teithiau ychwanegol mewn cerbydau ar y rhwydwaith priffyrdd, fe fydd hi'n angenrheidiol i 50% o leiaf o'r holl dripiau ar rwydwaith cludiant Caerdydd gael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2026.

4.115 Mae canlyniadau'r gwaith modelu ac asesu'n dangos, er mwyn cyflawni rhaniad 50:50 rhwng teithio mewn car a theithio mewn ffordd nad ydyw mewn car, bydd angen i'r datblygiad a gynigir yn y Cynllun Datblygu Lleol gael ei gefnogi gan seilwaith cludiant newydd sylweddol, gwelliannau i'r cyfleusterau cludiant presennol, a mesurau i reoli'r galw am deithio ac annog defnyddio cludiant cynaliadwy o fewn cymunedau cyfredol a chymunedau newydd yng Nghaerdydd. Yng nghyd-destun graddfa'r effeithiau gan gludiant sydd wedi'u hamlygu yn y sail tystiolaeth cludiant, mae'n hanfodol wrth ystyried ceisiadau cynllunio, body Cyngor yn ceisio sicrhau mesurau sy'n gwneud yn fawr o hygyrchedd y cynlluniau datblygu drwy ddulliau cynaliadwy.

4.116 Derbynnir nad yw'n bosibl cael rhaniad moddol o 50:50 gyda rhai safleoedd datblygu, o leiaf yn y tymor byr. Ond, yng nghyd-destun faint o effaith mae cludiant yn ei gael, sydd wedi'i amlygu yn y sail tystiolaeth cludiant, mae'n hanfodol wrth ystyried ceisiadau cynllunio, bod y Cyngor yn ceisio sicrhau mesurau sy'n gwneud cynlluniau datblygu gan foddau cynaliadwy mor hygyrch ag sy'n bosibl.

4.117 I gynlluniau llai, gallai hyn gynnwys rhoi lle i symudiadau i gerddwyr neu feicwyr drwy'r safle o fewn cynllun y datblygiad neu osod y fynedfa i'r safle lle gallai leihau'r pellter cerdded i'r arhosfa bysiau agosaf gymaint ag sy'n bosib.

4.118 Ar gyfer cynlluniau datblygu mwy sydd â goblygiadau cludiant sylweddol, bydd angen mesurau mwy sylweddol i ymdrin ag effeithiau teithio ac i wneud yn fawr o fynediad cynaliadwy. Mae'n bwysig egluro nad yw cyflawni'r targed o raniad moddol 50:50 yn fater o ofyn bod yr holl ddatblygiadau newydd o fewn cyfnod y cynllun yn cyflawni toriad moddol o 50:50. Yn hytrach, bydd y Cyngor yn cyflawni'r targed drwy geisio sicrhau drwy'r broses ddatblygu fesurau sy'n gwneud yn fawr o'r gyfran bosibl o deithiau a wneir gan foddau cynaliadwy i bob safle. Derbynnir nad yw'n bosibl cael rhaniad moddol o 50:50 gyda rhai datblygiadau, o leiaf yn y tymor byr. Ond, ar gyfer safleoedd datblygu eraill bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfran uwch na 50% o dripiau drwy foddau cynaliadwy.

4.119 Bydd angen i geisiadau cynllunio ar gyfer cynlluniau datblygu ar neu'n uwch na'r trothwyon maint a bennir yn TAN18:Cludiant gael eu cefnogi gan Asesiad Cludiant (TA). Bydd y TA yn darparu'r sail ar gyfer asesu holl effeithiau teithio posibl y datblygiadau gan gynnwys eu heffaith ar y rhwydwaith priffyrdd a rhaniad moddol tebygol y tripiau a fyddai'n cael eu cynhyrchu. Bydd yr asesiad yma'n helpu i sefydlu'r bylchau yn y ddarpariaeth gludiant bresennol a'r mesurau sy'n angenrheidiol i wneud datblygiad yn hygyrch trwy foddau cynaliadwy.

4.120 Bydd mesurau o'r fath wedi'u sicrhau fel amod i ganiatâd cynllunio a/neu drwy oblygiad cynllunio. Ymhob achos, bydd natur y mesurau a geisir yn gymesur â graddfa'r datblygiad a'r effeithiau sydd angen eu lliniaru.

4.121 Ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r seilwaith cludiant ar y safle ac oddi ar y safle a bennir ym Mholisi KP2. Bydd gweithrediad y Polisi yma'n helpu i ostwng llygredd sy'n codi o draffig ffordd. Bydd hyn yn cydbwyso'r cynyddiadau mewn llygredd atmosfferig o ganlyniad i'r Cynllun gan osgoi effeithiau arwyddocaol ar safleoedd a ddynodir yn rhyngwladol.

4.122 Bydd agweddau cludiant yr holl gynigion datblygu'n cael eu hystyried mewn perthynas â'r Polisi allweddol yma a'r polisïau cludiant manwl.

5. Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt

KP9: YMATEB i ANGHENION ECONOMAIDD Y MAE TYSTIOLAETH OHONYNT

Bydd darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer dewis ac ystod o safleoedd cyflogaeth newydd yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u pennu yn KP2 ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth ac mewn gwahanol leoliadau daearyddol i ddarparu'r lefel o dyfiant sydd yn y cynllun yn effeithiol ynghyd â rhoi fframwaith yn ei le i amddiffyn rôl y tir cyflogaeth presennol

4.123 Mae'r Polisi yma'n ymateb i rôl Caerdydd fel y prif yrrwr economaidd yn Ne Ddwyrain Cymru a'i weithrediad fel prifddinas-ranbarth sy'n cynyddu'r boblogaeth mewn effaith i oddeutu 1.4miliwn gan adlewyrchu ei safle fel prifddinas Cymru a chanolfan Llywodraeth Cymru gan gyfrif am 32% o gyflogaeth cyfan De Ddwyrain Cymru. Mae'n darparu'r uchelgeisiau strategol ar gyfer datblygiad economaidd yng Nghaerdydd drwy bennu ac amddiffyn safleoedd a thir cyflogaeth a chyfleoedd i ddarparu'r sectorau tyfiant economaidd allweddol sy'n ymwneud â TGCh, technolegau amgylcheddol ac ynni, gweithgynhyrchu a deunyddiau lefel uwch, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

4.124 Yng nghalon y dull yma mae cydnabyddiaeth bod prifddinas-ranbarth Caerdydd yn amlwg yn ffurfio ardal economaidd naturiol ac wedi gwneud cyfraniad positif mawr i dyfiant economaidd Cymru. Mewn dadansoddiad dinas craidd, mae Caerdydd yn perfformio'n dda ac mae cyfle i adeiladu ymhellach ar hyn drwy barhau i wella rôl Caerdydd ac hefyd wella cysylltiadau a chysylltedd o fewn y brifddinas-ranbarth. Cydnabyddir hefyd bod manteision sylweddol i ardaloedd cyfagos o lwyddiant Caerdydd i sicrhau tyfiant economaidd.

4.125 Mae'r strategaeth economaidd ar gyfer y Cynllun Datblygu Leol yn cefnogi mewnfuddsoddiad a gofyniadau busnes newydd drwy sicrhau cydbwysedd rhwng y galw am a'r cyflenwad tir cyflogaeth a pharhau i ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd i weithio. Yn hanfodol i strategaeth economaidd y ddinas mae gwerthfawrogiad o'r newidiadau mewn poblogaeth, y farchnad waith a'r sail cyflogaeth ynghyd â chyflawni'r cydbwysedd priodol rhwng darparu swyddi a chartrefi newydd.

4.126 Mae nifer o faterion allweddol a negeseuon yn codi o'r astudiaethau i gyflenwad a galw sydd â goblygiadau i berfformiad economaidd Caerdydd ac felly maent yn elfennau hanfodol i'r strategaeth economaidd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r dystiolaeth yn pwyntio at yr angen am Strategaeth sy'n ymdrin â'r tri mater yma:

- Darparu ystod a dewis o dir cyflogaeth newydd;
- Ardal Fenter Canol Caerdydd fel elfen graidd o'r strategaeth; a
- Chydnabod rôl y tir cyflogaeth a'r safleoedd presennol.

4.127 O ran darparu ar gyfer tir cyflogaeth newydd, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod fframwaith ar gyfer darparu dewis ac ystod eang o safleoedd cyflogaeth mewn gwahanol leoliadau ac ar gyfer gwahanol sectorau yn cynnwys y sectorau allweddol hyn o'r farchnad: TGCh, technolegau amgylcheddol ac ynni, gweithgynhyrchu a deunyddiau lefel uwch, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Mae'r ystod o safleoedd newydd yn sicrhau bod Caerdydd yn gallu darparu'r lefel o dyfiant a nodwyd ar gyfer swyddi newydd. Yn bwysig iawn, bydd gwahanol safleoedd yn gwneud gwahanol rolau yn y strategaeth. Er enghraifft, efallai y bydd tir yng Nghyffordd 33 yn fwy addas i TGCh, gwyddorau bywyd, ynni a thechnolegau amgylcheddol tra bo Porth Teigr (Basn y Rhath) yn dod yn lleoliad pwysig ar gyfer y diwydiannau creadigol a'r cyfryngau. Mae'r tiri'r de o Barc Busnes Llaneirwg wedi'i glustnodi hefyd i ddarparu safle cyflogaeth strategol sy'n gallu denu cyfleoedd mewnfuddsoddiad ar gyfer sectorau sail gwybodaeth a gwasanaethau o werth uchel.

4.128 Mae darparu tir cyflogaeth yn rhan o ddatblygiadau cynhwysfawr ehangach sydd wedi'u harwain gan dai yng Ngogledd Orllewin Caerdydd, Gogledd Ddwyrain Caerdydd, Basn y Rhath ac Arjo Wiggins yn darparu rôl bwysig o ran y cyflenwad a'r cymysgedd cyffredinol o dir cyflogaeth sy'n cynnig dewis ac ystod da o safleoedd cyflogaeth y tu allan i'r canol, yn cynnwys swyddfeydd, diwydiannau creadigol, gweithdai bychain ac unedau cychwyn busnes. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau darpariaeth barhaus y cyfleoedd cyflogaeth lleol ac yn ymdrin â'r gwahaniaethau cyflogaeth yn ddaearyddol ar draws y sir.

4.129 Mae lledaeniad daearyddol 'cynnig Caerdydd' yn ymdrin hefyd â'r angen amddarparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch. Yn y cyswllt hwn, mae'r cynnig strategol allweddol sy'n ymwneud ag Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynrychioli lleoliad hygyrch a chynaliadwy iawn, yn agos at ardaloedd o ddiweithdra uchel yn y ddinas ond mae hefyd yn hygyrch iawn i'r rhanbarth ehangach drwy ddulliau cynaliadwy o gludiant.

4.130 Mae'r safle allweddol yma'n rhan integrol o weledigaeth economaidd y Cyngor i sefydlu Caerdydd yn ddinas fusnes arweiniol yn Ewrop dros y ddau ddegawd nesaf a bydd yn tanategu ac yn hybu'r sector gwasanaethau proffesiynol ac

ariannol ac yn creu llwyfan ar gyfer buddsoddiad. Bydd yn helpu'n fawr i hybu cyfran Cymru o fewnfuddsoddiad gan Brydain Fawr sydd wedi gostwng o'r cyfraddau blaenorol o 20% i ddim ond 2%. Ymhellach, gallai graddfa'r cynnig yma sy'n ymwneud â lle swyddfa Graddfa A 'newid y gêm' yn gyfangwbl i Gaerdydd a Chymru allu cystadlu'n fwy effeithiol gyda dinasoedd eraill y Deyrnas Unedig.

4.131 Mae'n gynnig tymor hir sy'n ceisio adfywio hyd at 140 erw o dir canol dinas tir llwyd gerllaw gorsaf drenau Canol Caerdydd. Bydd yn canolbwyntio ar wella enw da cynyddol Caerdydd fel clwstwr gwasanaethau proffesiynol ac ariannol ac mae'n brosiect adfywio cynaliadwy allweddol.

4.132 Mae cludiant integredig yn eistedd wrth galon Ardal Fenter Canol Caerdydd gyda'r Sgwâr Canolog yn dod yn ganolfan i'r Ardal Fenter. Mae'r cynnig yn cynrychioli'r cam nesaf o ailddatblygu canol dinas Caerdydd ac yn amcannu i greu porth modern o safon uchel i'r ddinas gan ymestyn swyddogaeth canol y ddinas i'r de o'r rheilffordd, gan greu gwell dolen rhwng canol y ddinas a'r Bae a darparu canolfan gonfensiwn newydd i ddenu busnes, twristiaeth a hybu'r ddinas ar gyfer busnes. Mae Ardal Fenter Canol Caerdydd yn un o 7 Ardal Fenter newydd yng Nghymru sydd wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru a'r unig Ardal sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ariannol a phroffesiynol. Daeth yn Ardal weithredol ar Ebrill 1af 2012 ac mae ganddi hyd oes o 5 mlynedd.

4.133 Mae'n bwysig sicrhau bod ystod a dewis o dir cyflogaeth a safle busnes wedi'u darparu i gynnal a gwella cystadleurwydd y ddinas, hybu ac amddiffyn busnes brodorol a denu mewnfuddsoddiad. Cafwyd cynnydd mewn pwysau dros y blynyddoedd diweddar ar gyfer datblygu ac ailddatblygu tir cyflogaeth a safle ar gyfer defnyddiau amgen (preswyl gan fwyaf), p'un a ydynt yn dal i gael eu defnyddio neu lle mae gweithredoedd cyfredol wedi dod i ben, sy'n cynnig lefel uwch o ad-daliad i fuddsoddwyr. Gall cynigion datblygu o'r fath greu colledion sylweddol i stoc y sir o safle a thir cyflogaeth.

4.134 Gall colli tir cyflogaeth fod yn broses raddol gyda cholli un safle'n achosi colli cyfres o rai eraill mewn lleoliad tebyg, gan arwain at erydiad graddol ardal gyflogaeth. Weithiau gall defnyddiau amgen ddarnio ardal fusnes fwy neu dorri cysylltiadau rhwng defnyddiau cyflogaeth mewn ardal. Drosamser mae'r pwysau am ddefnyddiau amgen yn creu colled gronnol o safleoedd cyflogaeth er anfantais i'r economi lleol. Yn ogystal mae nifer o ardaloedd diwydiannol cyfredol i'w cael ar 'fwa deheuol' yr amddifadedd mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf am swyddi ac mae'n bwysig cadw'r gyflogaeth yn y lleoliadau yma oherwydd eu hygyrchedd.

4.135 Mae'r Strategaeth yn ceisio amddiffyn tir busnes a diwydiannol a warysau cyfredol (defnyddiauB1b/c, B2 a B8)i sicrhau eu cyfraniad pwysig parhaus i ddarparu ffynonellau hygyrch o gyflogaeth yn y ddinas. Yn yr un modd, bydd rhagfynegiad

cryf o blaid cadw'r adeiladau swyddfa hygyrch a safon uchel cyfredol. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i'r newid yn y defnydd o swyddfeydd a safleoedd diwydiannol safon is (i dai er enghraifft) nad ydynt yn gwneud rôl leol neu strategol bwysig yn nhermau'r dewis a'r ystod cyffredinol o safleoedd. Lle ystyrir defnydd arall o'r tir yn briodol, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyfleusterau cyflogaeth, tai a chymunedol neu, lle nad yw hynny'n ymarferol, dai. (Bydd y sefyllfa polisi yma hefyd yn helpu i gefnogi darpariaeth ffawdelw'r dyfodol dros gyfnod y Cynllun). Bydd angen i gynigion eraill ddangos pam nad oes modd cael defnydd cymysg o gynlluniau cyflogaeth a thai ar safle.

4.136 Mae hi hefyd yn bwysig cydnabod rôl y porthladd, mae ABP a'i denantiaid yn Ne Cymru'n cefnogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol fwy na £1.7 biliwn o allbwn gros yng Nghymru. Felly mae cyfleoedd i barhau i gefnogi rôl y porthladd, yn arbennig ei botensial i gynhyrchu diwydiant a gwasanaethau newydd (Cyfalaf Cystadleuol - Strategaeth Economaidd Caerdydd 2007 i 2012, Cyngor Caerdydd).

4.137 Yn ogystal, er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfraniad i ddarparu swyddi o safleoedd cyfredol a hybu'r defnydd effeithiol o dir, mae'r strategaeth yn ceisio annog dwysau ac adnewyddu'r safleoedd a'r tir cyflogaeth presennol nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon, sy'n wag neu sy'n dirywio. Mae'r Strategaeth yn cefnogi adfywiad y tir a'r eiddo i bwrpasau cyflogaeth megis Mount Stuart Square fel ffocws ar fusnes arloesol.

KP10: ARDALOEDD BUSNES CANOLOG A'R BAE

Ystyrir y defnyddiau a ganlyn yn briodol o fewn yr Ardaloedd Busnes Canolog a'r Bae:

i. **Swyddfeydd newydd, defnyddiau hamdden, masnachol a phreswyl yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae;**
ii. **Gwell cyfleusterau cyflenwol a manwerthu yn yr Ardal Siopa Ganolog; a**
iii. **Defnyddiau eraill wedi eu lleoli'n briodol yng nghanol dinasoedd.**

4.138 Mae'r Polisi yma'n disgrifio'r ystod o ddefnyddiau sy'n briodol o fewn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae, fel y maent wedi'u pennu ar y Map Cynigion. Mae'n pennu'r defnyddiau hynny sydd wedi eu lleoli'n fwyaf priodol mewn canolfannau sy'n hygyrch i niferoedd mawr o bobl ac yn annog cymysgedd o ddefnyddiau cyflenwol i gynnal a gwella bywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd canolfannau o'r fath. Wedi'i bennu yn yr Ardal Fusnes Ganolog (CBA) mae'r Ardal Siopa Ganolog, fel y mae wedi'i diffinio ar y Map Cynigion, lle mae defnyddiau manwerthu newydd a gwell yn fwyaf priodol i gynnal canolfan siopa fywiog a hanfodol.

4.139 Y CBA yw calon weinyddol a busnes y ddinas, a'r ffocws swyddogol ar gyfer datblygiadau hamdden masnachol a swyddfeydd mawr. Mae'r CBA yn cynnwys yr Ardal Siopa Ganolog, gydag ailddatblygiad diweddar Dewi Sant yn cadarnhau safle Caerdydd ar frig yr hierarchaeth siopa rhanbarthol. Mae canol y ddinas yn gartref i Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Caerdydd sydd, ynghyd â Chastell Caerdydd a Parc Bute i'r gogledd, yn darparu'r lleoliad hanesyddol ar gyfer canol y ddinas. Mae gan yr ardal yr amrywiad a'r dengarwch sy'n addas i brifddinas Ewropeaidd.

4.140 Ardal Fusnes y Bae (BBA) yw'r ffocws ar gyfer datblygiad y llywodraeth, twristiaeth a hamdden; gyda'r Senedd, Canolfan Mileniwm Cymru ac adeiladau tirnod eraill yn ailddiffinio ansawdd pensaernïol a dengarwch y glannau a'r ardal o'i amgylch. Dylai datblygiad y dyfodol barhau i wella'r glannau fel lleoliad defnydd cymysg deniadol ac amrywiol, gan gyflenwi a chefnogi CBA fel gyrrwr economaidd y brifddinas-ranbarth. Mae Morglawdd Bae Caerdyddwedi creu llyn dŵr ffres 200 hectar a 13km o lannau sy'n darparu cyfleoedd da ar gyfer rhagor o adloniant ar y dŵr a thwristiaeth yn ogystal â denu mewnfuddsoddiad sylweddol mewn lleoliad atyniadol ar y glannau.

4.141 Mae cyfleusterau hamdden, adloniant a thwristiaeth newydd a gwell yn bwysig ar gyfer datblygiad Caerdydd yn y dyfodol. Mae'r defnyddiau hyn yn gyflogwyr pwysig yng nghanol y ddinas ac y cynhyrchu buddion sylweddol i'r economi lleol. Trwy wella ansawdd ac ystod cyfleusterau hamdden, chwaraeon ac adloniant, mae'r ardal yn cael ei wneud yn lle mwy atyniadol i fyw, gweithio ac ymweld, gan felly helpu i ddenu mewnfuddsoddiad ac adfywiad. Mae'r atyniadau yma'n bwysig hefyd ar gyfer marchnata'r ddinas a brandio Caerdydd fel cyrchnod diwylliannol, hamdden a chwaraeon. Ar ben hynny, cydnabyddir body cyfleusterau yma'n ffactor bwysig mewn gwella lles ac ansawdd bywyd ein cymunedau lleol.

4.142 Mae Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae yn cynnwys nifer sylweddol o safleoedd preswyl hefyd yn cynnwys blociau fflatiau uchel, llety myfyrwyr a defnyddiau preswyl uwchben safleoedd masnachol. Er bod canol y ddinas ac ardaloedd y bae wedi gweld cynnydd mawr mewn datblygiad preswyl dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae potensial o hyd i ddatblygu rhagor o fannau byw. Bydd datblygiad preswyl newydd yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae yn cefnogi darpariaeth ardaloedd defnydd cymysg a chytbwys lle, trwy rinwedd eu hagosrwydd at gyfleusterau cymunedol, cyflogaeth, hamdden a chludiant cyhoeddus, yn gallu creu cymdogaethau dinesig cynaliadwy a chyfrannu at yr economi yn ystod y dydd a gyda'r nos.

4.143 Mae cyfres o Strategaethau Canol y Ddinas wedi cael eu paratoi ers 1997, gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer adfywiad strategol a rheolaeth canol y ddinas. Mae Strategaeth newyddi gael ei pharatoi ochr yn ochr â chyfres o Gynlluniau

Gweithredu Ardal, i ddiffinio'r camau gweithredu adfywio a'r seilwaith sy'n angenrheidiol i ddarparu, cynnal a rheoli datblygiad canol y ddinas i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

KP11: AGREGAU CARREG MÂL A MWYNAU ERAILL

Bydd Caerdydd yn cynnal cyflenwad sefydlog a digonol o fwynau ac yn cyfrannu at gyflenwadau agregau rhanbarthol drwy:

i. **Hybu a chefnogi defnydd effeithlon o fwynau a defnyddio opsiynau amgen i fwynau sy'n digwydd yn naturiol yn cynnwys ail ddefnyddio agregau eilaidd;**
ii. **Amddiffyn cronfeydd mwynau cyfredol a diogelu ffynonellau posibl o galchfaen, glo a thywod a graean rhag datblygiad a fyddai'n rhwystro eu cloddio yn y dyfodol;**
iii. **Cynnal cronfa dir 10 mlynedd o leiaf o gronfeydd agregau carreg mâl yn unol ag arweiniad cenedlaethol;**
iv. **Cefnogi ceisiadau priodol am echdynnu graean a thywod; a**
v. **Diogelu glanfeydd rhag datblygiad a fyddai'n atal eu defnydd ar gyfer dod â graean a thywod wedi'i dreillio o'r môr i'r tir.**

4.144 Mae adnoddau mwynau'n adnodd gwerthfawr ond gorffenedig. Mae cyflenwad digonol a chyson o fwynau'n hanfodol i'r economi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac mae eu hecsbloetiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n ffyniant economaidd a safon byw. Caerdydd yw un o gynhyrchwyr a defnyddwyr mwyaf y mwynau yn y rhanbarth a'r rheiny sy'n cael eu gweithio yng Nghaerdydd ar hyn o bryd gan ddarparu'r defnyddiau crai hanfodol ar gyfer ein hadeiladau, seilwaith a chynhaliaeth. Mae mwynau naturiol yn cynnwys craig galed wedi'i chwarela (dolomit a chalchfaen carbonifferaidd) a thywod wedi'i dreillio a'i lanio yn Nociau Caerdydd.

4.145 Yn y gorffennol cynhyrchwyd cyfartaledd o 1 miliwn (mt.) o graig mâl bob blwyddyn, yn weddol debyg i ddefnydd y Sir. Yn ogystal, mae oddeutu 0.3 mt. o dywod wedi'i dreillio'n cyrraedd y tir o'r môr yn Nociau Caerdydd bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'r mwynau naturiol a gynhyrchir yn cael eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu fel agregau carreg mâl. Mae defnyddiau eilaidd, megis gwastraff o waith adeiladu a dymchwel, yn cael eu defnyddio hefyd yn lle agregau naturiol. Mae Caerdydd yn ffynhonnell bwysig hefyd o galchfaen hynod bur a dolomitig ar gyfer defnydd diwydiannol yn y broses wneud dur lleol. Mae Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Awst 2014) a gynhyrchwyd gan Weithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru'n nodi y dylai Caerdydd wneud darpariaeth ar gyfer 0.86 miliwn o dunelli o agregau carreg mâl y flwyddyn hyd at 2036, yn creu cyfraniad cyfan o 21.5 miliwn o dunelli. Mae'r gofyniad yma

wedi'i seilio ar gynhyrchiad cyfartalog blynyddol ar gyfer y cyfnod 2001 hyd 2010 ac yn cymharu gyda'r gronfa dir bresennol o 41 miliwn o dunelli (fel ydoedd ar Ragfyr 31ain2010) o gronfeydd carreg mâl sy'n golygu bod gan Gaerdydd, ar sail gwybodaeth gyfredol, ormodedd o gronfeydd a ganiateir o'i gymharu â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae'r Polisi yma'n cydnabod bod Caerdydd yn ddarparydd rhanbarthol bwysig o fwynau ac yn darparu ar gyfer parhad ei chyfraniad presennol i'r galw rhanbarthol.

4.146 Mae'r Polisi'n hybu'r defnydd cynyddol o opsiynau amgen i fwynau sy'n digwydd yn naturiol. Mae ail ddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau adeiladu a gwaith dymchwel a gwastraff diwydiannol nid yn unig yn gostwng maint y gwastraff a gynhyrchir ond hefyd yn diogelu adnoddau mwynau naturiol anadnewyddadwy prin ac yn gostwng niwed i'r amgylchedd.

4.147 Ond, gan ganiatáu ar gyfer gwelliannau mewn ailgylchu ac ailddefnyddio, bydd yr angen yn parhau am ddefnyddiau sylfaenol. Cydnabyddir na ellir ond ailgynhyrchu mwynau naturiol dros gyfnodau daearegol maith a bod angen i ni eu hamddiffyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Am na ellir ond gweithio mwynau lle maent yn bodoli, mae'n bwysig eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol a allai olygu eu bod yn dodi ben yn gyfan gwbl i bob pwrpas. Mae'r Polisi'n atal datblygiad amhriodol ar gronfeydd mwynau a'r adnoddau eu hunain ac yn caniatáu ar gyfer cysgodfeydd lle bydd datblygiad sensitif yn cael ei atal.

KP12: GWASTRAFF

Bydd gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghaerdydd yn cael ei reoli drwy:

i. **Hybu a chefnogi cyfleusterau, mesurau a strategaethau rheoli gwastraff cynaliadwy ychwanegol yn unol â'r Cynllun Casgliadau, Seilwaith a Sector Marchnadoedd (2012) a TAN 21 (2014) mewn ffordd sy'n dilyn yr hierarchaeth gwastraff ac egwyddorion rhwydwaith integredig a digonol o weithfeydd gwastraff; y gweithfeydd priodol agosaf; hunangynhaliaeth ac amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd;**

ii. **Annog darpariaeth cyfleusterau mewnadeiladu triniaeth o fewn ardaloedd dynodedig a chyfredol o ddiwydiant cyffredinol;**

iii. **Cefnogi darpariaeth a chynhaliaeth trefniadau cynaliadwy o storio a chasglu gwastraff yn yr holl ddatblygiadau priodol newydd; a**

iv. **Chefnogi prosesau o atal ac ailddefnyddio gwastraff a darparu cyfleusterau sy'n defnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu neu eu compostio.**

4.148 Mae Caerdydd yn cynhyrchu oddeutu miliwn o dunelli o wastraff bob blwyddyn, yn amrywio o ddefnyddiau anweithredol diniwed i weddillion a sgil-gynhyrchion cemegol hynod o wenwynig. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn rheoli goblygiadau defnydd tir y gwastraff yma mewn ffordd sy'n amgylcheddol dderbyniol a chynaliadwy. Mae'r Cyngor yn symud tuag at arferion rheoli gwastraff sy'n fwy cynaliadwy yn unol â chanllawiau Ewropeaidd a chenedlaethol, drwy gynyddu maint y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio a gostwng faint o wastraff bioddiraddadwy sy'n cael ei anfon i'r safle tirlenwi.

4.149 Mae TAN 21 (2014) yn gosod fframwaith ar gyfer darparu seilwaith rheoli gwastraff cynaliadwy drwy'r broses gynllunio. Bwriad y Cynllun Casgliadau, Seilwaith a Sector Marchnadoedd (Cynllun Sector 2012) yw darparu canlyniadau datblygiad cynaliadwy sydd wedi'i nodi yn y ddogfen strategaeth gwastraff trosfwaol i Gymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag eraill o fewn rhanbarth De Ddwyrain Cymru i fonitro achosion o wastraff a gofynion capasiti ac yn ymateb i anghenion a benwyd drwy ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff ar draws y rhanbarth. Mae'n debygol y bydd angen cyfleusterau adfer a thrin ychwanegol yng Nghaerdydd yn ystod cyfnod y Cynllun er mwyn cyflawni'r targedau sydd yn y Cynllun Sector CIM a'r egwyddorion polisi a sefydlwyd yn TAN 21 (2014).

4.150 Dylai'r holl ddatblygiad newydd priodol gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff. Bydd hyn yn annog gostyngiad mewn gwastraff, ailgylchu, compostio a gwahanu yn y tarddle, er mwyn cyfrannu tuag at gwrdd â thargedau rheoli gwastraff.

6. Ymateb i angenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt

KP13: YMATEB I ANGHENION CYMDEITHASOL Y MAE TYSTIOLAETH OHONYNT

Rhan allweddol o gynnydd llwyddiannus y ddinas fydd datblygu cymdogaethau cynaliadwy, ymdrin ag amddifadedd a gwella ansawdd bywyd i bawb. Gwneir hyn drwy:

i. **Ddarparu anheddau o amrywiol feintiau, mathau a fforddiadwyedd yn cynnwys ceisio darparu targed o 6,646 o anheddau fforddiadwy dros y 12 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun;**
ii. **Cefnogi hyfywedd, egni a dengarwch y Canolfannau Ardal a Lleol presennol a'u hadfywiad, yn cynnwys adwerthu a datblygiad masnachol arall a thai o feintiau priodol;**
iii. **Annog darpariaeth ystod gyflawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd, hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol i gymunedau cyfredol a newydd sy'n hygyrch i bawb drwy gerdded a seiclo a chludiant cyhoeddus;**
iv. **Cefnogi adfywiad cymunedau difreintiedig o fewn y ddinas a gwneud yn fawr o'r manteision ychwanegol y gall cymunedau newydd eu cyflwyno i gymunedau cyfagos neu oddi amgylch;**
v. **Annog gwellhad cymunedau drwy well cydraddoldeb mynediad at wasanaethau i bawb, hybu amrywiaeth diwylliannol ac ehangach i bob grŵp mewn cymdeithas a chreu lleoedd sy'n annog rhyngweithiad a chydlyniad cymdeithasol;**
vi. **Datblygu cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon newydd i adeiladu ar rôl Caerdydd fel cyrchnod diwyllianol a chwaraeon blaenllaw ac i dwristiaid, ar gyfer ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd; a**
vii. **Chynllunio i ddiddymu trosedd a chreu cymunedau sy'n fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel.**

4.151 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n hybu cymunedau mwy cynaliadwy. Wrth ddarparu cymunedau cynaliadwy, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod cartrefi o ystod o feintiau, mathau a lefel fforddiadwyedd wedi'u darparu yn nhermau tai fforddiadwy a marchnad fel ei gilydd i ateb anghenion a benwyd (yn cynnwys tai lloches a thai wedi'u cefnogi ac anghenion arbennig eraill lle bo'n briodol), mewn cymdogaethau diogel. Yng Nghaerdydd, yn unol â'r tueddiadau cenedlaethol, mae maint cyfartalog y cartref wedi bod yn gostwng ac, yn gyffredinol, mae hyn wedi ei adlewyrchu mewn cyfran gynyddol o fflatiau 1 a 2 ystafell wely gyda chaniatâd preswyl.

4.152 Er bod y ddarpariaeth fflatiau'n darparu ar gyfer y rheiny sy'n chwilio am unedau llety llai, ac y gallai hyn ryddhau unedau eraill, sy'n fwy eu maint, o dai presennol, bydd angen o hyd am ystod o fathau a meintiau o anheddau i gael eu darparu ar safleoedd sy'n dod ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun. Er y gallai fflatiau fod yn addas ar rai safleoedd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau, yn arbennig mewn cynlluniau mwy, bod ystod o fathau o anheddau ac anheddau o amrywiol fforddiadwyedd wedi'u darparu.

4.153 Mae'r targed tai fforddiadwy (6,646 neu 554 o unedau bob blwyddyn) yn pennu nifer yr unedau tai fforddiadwy a ragwelir a fydd yn cael eu darparu dros weddill cyfnod y Cynllun 2014 - 2026. Mae'r targed yn cymryd i ystyriaeth y gronfa dir gyfredol o unedau fforddiadwy (wedi tynnu caniatâd am hyblygedd) a'r cyfraniadau disgwyliedig gan safleoedd strategol ac anstrategol, cynlluniau newid defnydd safleoedd ffawdelw wedi'u seilio ar ganrannau targed tai fforddiadwy (30% i safleoedd maes glas a 20% ar gyfer safleoedd tir llwyd) wedi'i amlinellu ym Mholisi H3. Mae hi hefyd yn debygol y bydd rhai tai fforddiadwy'n datblygu hefyd o ffynonellau heblaw trwy ddefnyddio goblygiadau cynllunio, er enghraifft ar safleoedd neu mewn anheddau a gaffaelir gan ddarparwyr tai cymdeithasol.

4.154 Mae asesiad LHMA Caerdydd yn gosod gofyniad dros y cyfnod 2013-2018, o 3,989 o unedau fforddiadwy bob blwyddyn neu gyfanswm o 19,945. Yn amlwg, ni fydd y targed tai fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun yn ateb y ffigur angen sydd wedi'i nodi yn yr LHMA ac ni ddisgwylir iddo wneud hynny am mai dim ond un o amrywiaeth o ddulliau yw hwn i gyflawni cyflenwad o dai fforddiadwy.

4.155 Mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi hyfywedd a dengarwch Canolfannau Ardal a Lleol sy'n ffurfio rhan bwysig o hierarchaeth manwerthu Caerdydd ac o'i ffabrig ffisegol, economaidd a chymdeithasol. Yn ogystal â'u swyddogaeth sylfaenol o ddarparu cyfleusterau siopa lleol maent hefyd yn rhoi lle i ystod o gyflogaeth a chyfleusterau gwasanaethau hygyrch. Mae'r Polisi yma'n amcannu i gefnogi cadwraeth a darpariaeth cyfleusterau siopa lleol, sy'n parhau i fod yn rôl sylfaenol gan ganolfannau ac yn tanategu eu bywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd. Mae cyfleusterau o'r fathyn hygyrch hefyd i'r gymuned leol ar gludiant cyhoeddus, cerdded a seiclo ac felly gefnogi'r amcanion cludiant cynaliadwy sydd wedi eu nodi yn y Cynllun. Ymhellach, mae'r Polisi'n ceisio annog buddsoddiad ac adfywiad ffabrig ffisegol canolfannau.

4.156 Mae darparu ystod o gyfleusterau cymunedol, iechyd, crefyddol ac addysgol sy'n hygyrch i gymaint o bobl ag sy'n bosibl yn ofyniad gofynnol hanfodol er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn gyflogwyr lleol arwyddocaol a gallent gyfrannu at adfywiad ardaloedd lleol. Yn ogystal, mae'r gwasanaethau yma'n hanfodol i gynnal a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw a gweithio yng Nghaerdydd.

4.157 Mae'r dull uwchgynllunio a fabwysiadwyd i ddarparu fframwaith i ddatblygu safleoedd strategol yn cydnabod yn llawn y manteision posibl y gall datblygiad newydd eu cyflwyno i ardaloedd cyfagos. Gellir cymryd y cyfle i gyflawni amcanion y Polisi yma drwy ddatblygiad newydd gan wella ansawdd ac ystod y ddarpariaeth gyfredol o ystod o gyfleusterau a gwasanaethau.

4.158 Er mwyn cefnogi adfywiad cymunedau difreintiedig ymhellach o fewn y ddinas, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi gweithrediad Rhaglen Gwella Cymdogaeth y Cyngor (Mawrth 2007) a'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n amcannu i gau'r bwlch rhwng y cymdogaethau difreintiedig a'r ddinas gyfan.

4.159 I sicrhau cymunedau cynaliadwy mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i hybu diwylliant lle gwerthfawrogir amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal yn realiti. Gellir cyflawni hyn drwy gyfuniad o bolisïau o fewn y Cynllun, yn arbennig y rheiny sy'n creu lleoedd sy'n annog rhyngweithiau a chydlyniad cymdeithasol.

KP14: BYW'N IACH

Bydd Caerdydd yn cael ei gwneud yn lle mwy iach i fyw ynddo drwy geisio gostwng anghydraddoldeb iechyd drwy annog dulliau iach o fyw, ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio gweithredol, mannau gwyrdd hygyrch a defnyddiadwy, yn cynnwys lotments.

4.160 Mae'r Polisi yma'n cyfateb â'r amcan ym Mholisi Cynllunio Cymru i ddarparu datblygiad cynaliadwy drwy sicrhau bod iechyd yn cael ei ystyried mewn datblygiadau newydd. Mae hefyd yn helpu cyflawniad nifer o amcanion Polisi Cynllunio Cymru yn ymwneud â theithio a mynediad i gyfleusterau cymunedol allweddol. Mae'n adlewyrchu'r cyfeiriad y 'gall ystyriaethau iechyd fod yn ystyriaethau materol wrthwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio' (Polisi Cynllunio Cymru Para 12.13.8) ac yn derbyn bod effaith datblygiad ar iechyd pobl yn elfen allweddol o ddatblygiad cynaliadwy a bydd ei ystyriaeth yn codi unrhyw faterion sylweddol y bydd angen eu hystyried.

4.161 Mae gweithredu'r Polisi'n cefnogi Strategaeth Bartneriaeth Caerdydd (2010-2020) a'r deilliant ymysg y boblogaeth fod 'pobl yng Nghaerdydd yn iach'. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawniad nifer o amcanion yn ymwneud â dulliau iach o fyw yn cynnwys gweithgaredd ac adloniant ffisegol, yn unol â'n Dyfodol Iach (Llywodraeth Cymru 2009), Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb (Llywodraeth Cymru 2011) a Chreu Cymru Egnïol (Llywodraeth Cymru 2010).

4.162 Mae'r Polisi'n adlewyrchu tystiolaeth a ddarperir gan 'Adolygiad Marmot: y goblygiadau ar gyfer cynllunio gofodol' a Barton and Tsourou (2000) 'Cynllunio Dinesig Iach' ac yn cefnogi'r thema o amgylchedd dinesig iach a'r cynllun a gymerwyd yn ei flaen gan Sefydliad Iechyd y Byd a Rhwydweithiau Dinasoedd Iach y Deyrnas Unedig.

4.163 Yn gyffredinol, mae'r polisïau a'r arweiniad yma'n dod i'r casgliad bod yr amgylchedd adeiledig a naturiol ynghyd ag ymddygiadau dull o fyw yn cyfrannu at wella iechyd. Mae'r mesurau allweddol tuag at wella iechyd y boblogaeth yn cynnwys cefnogi:

- Teithio egnïol megis cerdded a seiclo;
- Mynediad i fannau agored wedi'u cynnal yn dda ar gyfer gweithredu corfforol a thyfu bwyd; a
- Mynediad at gyfleusterau gofal iechyd.

4.164 Bydd mesurau o'r fath yn helpu i:

- Gyrraedd a chynnal pwysau iach;
- Amddiffyn iechyd meddwl; a
- Gostwng lefelau straen.

4.165 Mae gan Gaerdydd gyfoeth o fannau agored ac mae'r gyfradd o deithiau cerdded a seiclo i'r gwaith/ysgol ac er mwynhad yn cynyddu ac mae'n bwysig amddiffyn a gwella'r asedau hyn er mwyn gwella iechyd.

7. Parchu amgylchedd Caerdydd ac ymateb i newid yn yr hinsawdd

KP15: NEWID YN YR HINSAWDD

Lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i ymdopi â'i ddylanwadau. Dylai cynigion datblygu gymryd y ffactorau a ganlyn i ystyriaeth:

i. **Gostwng allyriadau carbon;**
ii. **Amddiffyn a chynyddu dalfeydd carbon;**
iii. **Addasu i oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar lefel strategol a lefel y cynllunio manwl;**
iv. **Hybu effeithiolrwydd ynni a chynyddu'r cyflenwad ynni adnewyddadwy; ac**
v. **Osgoi meysydd sy'n agored i risgiau llifogydd yn y lle cyntaf yn unol â'r dull dilyniannol sydd wedi'i nodi mewn arweiniad cenedlaethol; ac**
vi. **Atal datblygiad sy'n cynyddu'r risg o lifogydd.**

4.166 Un o swyddogaethau craidd y Cynllun yw sicrhau bod yr holl ddatblygiad yn y ddinas yn gynaliadwy, gan roi ystyriaeth lawn i oblygiadau gostwng y defnydd o adnoddau ac ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Polisi yma'n darparu fframwaith ar gyfer tyfiant cynaliadwy drwy hybu datblygiad sy'n lliniaru achosion o newid ynyr hinsawdd ac sy'n gallu addasu i'w effeithiau tebygol. Mae'r dull tymor hir yma'n hanfodol os yw Caerdydd i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sydd i'w gweld yn y Weledigaeth.

4.167 Yn y lle cyntaf, bydd gostyngiad wedi'i sicrhau mewn allyriadau carbon drwy reoli'r galw am ynni sy'n gysylltiedig â datblygiad drwy wneud yn fawr o effeithiolrwydd ynni. Yn ail, dylid cynnwys ffynonellau ynni cynaliadwy, heb ddibyniaeth ar danwydd ffosil.

4.168 Mae dalfeydd carbon yn gweithredu fel dull o gydbwyso allyriadau carbon gyda dulliau naturiol. Mae coed a phriddoedd yn gweithredu fel cronfeydd sylweddol o garbon, yn tynnu carbon atmosfferig i mewn, ac yn cyfrannu'n sylweddol i briddoedd sy'n cronni carbon yn gyflymach o dan loches y coed na mathau eraill o lystyfiant. Bydd y carbon yma sydd wedi'i storio'n cael ei ollwng fel arfer fel nwy tŷ gwydr os bydd coed yn cael eu tynnu neu ei niweidio, neu os bydd y priddoedd yn cael eu chwalu, eu gorchuddio neu eu symud (drwy gywasgiad neu halogiad) yn ystod y broses adeiladu.

4.169 Cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylai coed fod yn argadwedig ac wedi'u hamddiffyn, a'r tir ei gadw fel pridd gweithredol sy'n tyfu llystyfiant ac sy'n agored i gwymp mater organig, gyda choed a llwyni newydd wedi eu darparu gan y datblygwyr lle bo'n bosibl. Os na ellir amgylchynu coed a llwyni gyda phridd agored, ni ddylid defnyddio arwynebau caled heblaw bod angen pwysicach am hynny, a dylid cadw ardaloedd nad oes eu hangen i gerddwyr neu gerbydau fel tirlun meddal. Mae tir agored, coed a phridd Caerdydd yn chwarae rôl hanfodol mewn lliniaru effeithiau newid hinsawdd ar lefel leol. Mae priddoedd llystyfiant agored yn amsugno glaw a dŵr ffo.

4.170 I addasu i oblygiadau'r newid yn yr hinsawdd bydd angen cael adeiladau sy'n gallu ymdopi gyda'r cynnydd tebygol yn y cyfraddau tymheredd, y llifogydd amlach a difrifol a'r cynnydd mewn achosion o dywydd eithafol. Dylai adeiladau a seilwaith perthnasol gael eu llunio i fod yn hyblyg nid yn unig i newid yn yr hinsawdd ond hefyd i roi lle i amrywiaeth o ddefnyddiau dros eu hoes yn hytrach na bod yn addas i un cais. Bydd y tirlun yn fater hanfodol gyda choed yn darparu lloches diolch i'w cysgod a thrwy oeri gweithredol. Bydd angen yr oeri yma yn arbennig yng nghanol y ddinas a Chanolfannau Ardal, a lle mae'r plant, y bobl ifanc a phobl gyda namau symudedd yn casglu.

4.171 Bydd angen i'r Cyngor sicrhau safonau uchel o effeithiolrwydd ynni mewn datblygiadau newydd. Bydd gweithrediad y Polisi yma, sy'n hybu ymgorfforiad o gynhyrchiad ynni adnewyddadwy, yn gostwng yr allyriad o lygryddion awyrol

hefyd, gan felly gydbwyso'r cynyddiadau mewn allyriadau awyrol sy'n codi o weithredu polisïau eraill yn y Cynllun. Byddai hyn yn cyfrannu at osgoi effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd.

4.172 Bydd risg dianghenraid o lifogydd yn cael ei osgoi drwy asesu'r goblygiadau risg o lifogydd yn dynn yn y cynigion datblygiad mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd dŵr llanw neu ddŵr afonol a gan atal datblygiad sy'n cynyddu risg yn annerbyniol. Yn unol â TAN15: Datblygiad a Risg Llifogydd, ni chaniateir datblygiad hynod o fregus yn ardal gynghori datblygiad C2. Ni ystyrir datblygiad heblaw mewn ardaloedd eraill o risg uchel o lifogydd lle gellir dangos bod y safle'n gallu cydymffurfio â gofynion asesu a chyfiawnhau TAN15 (2004 - Adran 6, 7 ac Atodiad 1). Mae Polisi EN14 yn ymwneud â Risg Llifogydd yn nodi ystod o feini prawf a fydd yn cael eu hystyried wrth asesu cynigion datblygiad mewn ardaloedd o risg uchel o lifogydd.

KP16: SEILWAITH GWYRDD

Mae treftadaeth naturiol nodedig Caerdydd yn darparu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd a fydd yn cael ei amddiffyn, ei wella a'i reoli i sicrhau bod yr adnodd gwyrdd amlswyddogaethol hwn yn parhau'n gywir a chysylltiol.

Mae angen cysoni amddiffyniad a chadwraeth y rhwydwaith treftadaeth naturiol gyda manteision datblygiad. Dylai datblygiad arfaethedig felly ddangos sut mae seilwaith gwyrdd wedi derbyn ystyriaeth a'i integreiddio i mewn i'r cynigion. Os bydd y datblygiad yn achosi colli seilwaith gwyrdd yn gyffredinol, bydd angen cymryd camau priodoli gydbwyso hynny.

Mae asedau treftadaeth naturiol yn allweddol i gymeriad Caerdydd, ei gwerth, ei helfennau nodedig a'i naws o le. Maent yn cynnwys yr elfennau a ganlyn o'r ddinas:

i. **Cefn gwlad ac arfordir heb ei ddatblygu (E1 a EN2);**
ii. **Nodweddion tirlun, daearegol a threftadaeth sy'n cyfrannu at leoliad y Ddinas (EN3);**
iii. **Dyffrynnoedd strategol bwysig yr Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni (EN4);**
iv. **Diddordebau bioamrywiaeth yn cynnwys safleoedd dynodedig a chysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael blaenoriaeth (EN5, EN6 a RN7);**
v. **Coed (yn cynnwys coed stryd), coedwigoedd a gwrychoedd (EN8);**
vi. **Llwybrau hamdden strategol, llwybrau seiclo a rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus (T5 T6 a T8);**
vii. **Parciau, meysydd chwarae, mannau chwarae gwyrdd a thir agored (C4 a C5); a**
viii. **Mannau tyfu sy'n cynnwys lotments, perllannau cymunedol a gerddi mwy; a**
ix. **Systemau rheoli dŵr wyneb integredig holistig (EN10).**

4.173 Un o nodau'r polisi yw sicrhau bod asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd wedi cael eu cynllunio'n strategol a'u darparu drwy rwydwaith seilwaith gwyrdd. Mae polisïau eraill yn y Cynllun yn darparu arweiniad mwy manwl ar agweddau o'r asedau hyn, ynghyd â Chanllawiau Cynllunio Atodol cefnogol.

4.174 Mae'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn bwysig er ei fwyn ei hun ac am ei gyfraniad i ansawdd bywyd yn gyffredinol, gan gynnwys y gwerth y mae pobl yn ei roi iddo. Mae'n darparu ystod o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cynnwys gostwng effeithiau newid yn yr hinsawdd (KP15), gwell cynefinoedd

bioamrywiaeth a chysylltedd rhywogaethau (EN5, EN6 ac EN7), mae'n darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon ac adloniant (C4), gan gyfrannu at iechyd a lles cymunedau (C6) a darparu manteision gweledol i bawb (KP5).

4.175 Lle caniateir datblygiad, defnyddir amodau cynllunio a/neu oblygiadau i amddiffyn neu i wella'r rhwydwaith treftadaeth naturiol. Dylai datblygiadau newydd gynnwys seilwaith gwyrdd newydd a/neu well o faint, math a safon priodol i sicrhau nad oes unrhyw ddarnio neu golli cysylltedd.

4.176 Lle mae manteision datblygiad yn bwysicach na buddion cadwraeth, bydd angen mesurau lliniaru a/neu gydbwyso i wrthgyferbynu effeithiau niweidiol a bydd angen ceisio goblygiadau cynllunio priodol. Mae gweithrediad polisïau a luniwyd i ddarparu ac amddiffyn tir agored cyhoeddus drwy Gaerdydd gyfan yn cydbwyso unrhyw gynnydd mewn pwysau hamdden ar Ardal Cadwraeth Arbennig Beech Woods Caerdydd, gan felly helpu i osgoi effaith sylweddol tebygol ar y safle hwnnw.

4.177 Dylai'r rheolaeth ar rwydwaith seilwaith gwyrdd Caerdydd fod yn ei le cyn y datblygiad, a dylid ceisio goblygiadau cynllunio priodol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar y pwnc yma'n amlinellu'n llawnach faint seilwaith gwyrdd Caerdydd a sut y gellid gweithredu'r polisi yma'n fanylach.

KP17: TREFTADAETH ADEILEDIG

Bydd asedau treftadaeth nodedig Caerdydd wedi eu hamddiffyn, eu rheoli a'u gwella, yn arbennig gymeriad a lleoliad ei Henebion Rhestredig; Adeiladau Rhestredig; Tirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Rhestredig; Ardaloedd Cadwraeth; Adeiladau Rhestredig Lleol a nodweddion eraill o ddiddordeb lleol sy'n cyfrannu'n bositif i amlygrwydd y ddinas.

4.178 Mae'r Polisi yma'n darparu amddiffyniad polisi strategol i amgylchedd hanesyddol Caerdydd fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cymru. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfoethogi bywydau pobl a golwg weledol y ddinas. Mae'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant cymunedau sydd wedi ffurfio dros amser, yn darparu tystiolaeth o orffennol Caerdydd ac yn helpu i ddiffinio ei hunaniaeth a'i chymeriad cyfredol. Mae dealltwriaeth o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y ddinas yn gallu darparu cyd-destun ar gyfer rheoli newid ac mae'n creu cefnlun ar gyfer arloesi mewn cynllun datblygiad newydd i siapio dyfodol y ddinas.

4.179 TAr hyn o bryd mae 28 o Henebion Rhestredig yng Nghaerdydd. Mae'r Polisi yma'n rhoi amddiffyniad priodol i'r henebion yma ac eraill a allai gael eu cynllunio dros gyfnod y Cynllun, yn ogystal â gweddillion archeolegol pwysig eraill sydd

wedi'u pennu o fewn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ardaloedd Archeolegol Sensitif yn darparu rhagor o arweiniad ar bedair ardal o'r ddinas lle mae canfyddiadau sylweddol wedi eu cofnodi.

4.180 Ar hyn o bryd mae bron i 1,000 o adeiladau yng Nghaerdydd ar y Rhestr Statudol o Adeiladau sydd â Diddordeb Hanesyddol neu Archeolegol Arbennig, wedi'u dynodi gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod, mae'r Polisi yma'n rhoi amddiffyniad priodoli'r adeiladau rhestredig statudol yma ac eraill a allai gael eu hychwanegu at y rhestr gan Cadw dros gyfnod y Cynllun.

4.181 Mae gan y Cyngor hefyd Restr Leol o Adeiladau o Deilyngdod. Mae'r Polisi yma'n pennu arwyddocâd yr adeiladau rhestredig lleol yma (ac eraill a allai gael eu hychwanegu at y rhestr gan y Cyngor dros gyfnod y Cynllun) wrth ffurfio cymeriad yr ardal. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 yn pennu faint o bwysau fydd gan eu dynodiad efallai wrth asesu cynigion datblygu.

4.182 Ar hyn o bryd mae 27 o ardaloedd cadwraeth yng Nghaerdydd, fel sydd wedi'i bennu ar y Map Cyfyngiadau. Ynghyd â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod, mae'r Polisi yma'n rhoi amddiffyniad priodol i'r rhain ac i ardaloedd eraill a allai gael eu dynodi gan y Cyngor dros gyfnod y Cynllun. Dylid darllen y Polisi yn unol â'r Gwerthusiad Ardal Gadwraeth fabwysiedig a baratowyd i bob ardal, gan gynnwys y cynigion gwella sydd wedi eu cynnwys ynddynt.

4.183 Yn olaf, mae 19 o erddi a pharciau hanesyddol ac 1 tirlun hanesyddol (Gwastadeddau Wentloog) wedi eu cynnwys ar 'Gofrestr o Dirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol' Cadw/ICOMOS. Mae'r polisi yma'n rhoi amddiffyniad priodol i'r rhain a pharciau, gerddi a thirluniau hanesyddol eraill a allai gael eu hychwanegu at y gofrestr gan Cadw /ICOMOS dros gyfnod y Cynllun.

4.184 Wrth geisio ymateb i bresenoldeb asedau treftadaeth, anogir datblygwyr i ddilyn dilyniant o archwiliad ac asesiad i bennu arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol ardal cyn datblygu cynigion ar gyfer newid neu addasiad. Yn y ffordd yma, mae modd datblygu dulliau priodol o gadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol drwy gynigion sy'n ymateb i ac yn cyflenwi eu cyd-destun. Mae'r broses wedi'i chymeradwyo yng Nghylchlythyr 61/96 a chyngor o fewn Safon BS 7913, 2013.

KP18: ADNODDAU NATURIOL

Er budd datblygiad cynaliadwy tymor hir Caerdydd, rhaid i gynigion am ddatblygiad roi ystyriaeth lawn i'r angen am leihau effeithiau ar adnoddau naturiol y ddinas a lleihau llygredd, yn arbennig yr elfennau a ganlyn:

i. **Amddiffyn y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg;**
ii. **Amddiffyn ansawdd a maint yr adnoddau dŵr, gan gynnwys y dyfroedd arfordirol ac arwyneb tanddaearol;**
iii. **Lleihau llygredd awyr o ffynonellau cludiant ffordd, domestig a diwydiannol a rheoli ansawdd yr awyr; ac**
iv. **Adfer tir a halogwyd drwy ailddatblygu safleoedd halogedig.**

4.185 Mae'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg (graddau 1, 2 a 3a o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol) yn adnodd terfynedig. Unwaith mae wedi'i golli i ddatblygiad nid yw bron byth yn opsiwn ymarferol i ddychwelyd tir o'r fath i gynhyrchiad amaethyddol o'r ansawdd gorau.

4.186 Does dim map terfynol diweddar o ansawdd tir amaethyddol i Gaerdydd gyfan ond mae'n hysbys bod y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg yn bodoli mewn rhannau o orllewin, gogledd a dwyrain Caerdydd. Wrth ateb yr angen am ddarparu cartrefi a swyddi newydd yn y Cynllun yma, bydd rhywfaint o dir o safon uchel yn cael ei golli ond, o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, ystyrir y golled yma'n gyfiawn. Ar ben hynny, trwy roi dull wedi'i reoli a'i gynllunio yn ei le i ateb anghenion economaidd a chymdeithasol y dyfodol, mae hyn yn ychwanegu cryfder i amddiffyniad tir o safon y tu allan i'r ardaloedd hyn.

4.187 Mae afonydd, llynoedd, pyllau a dyfroedd Caerdydd yn bwysig i ystod eang o ddefnyddwyr a defnyddiau. Mae gan y datblygiad y potensial i effeithio ar ansawdd a maint y dŵr. Mae'n bwysig na chaniateir datblygiad heblaw lle na fyddai niwed annerbyniol i ansawdd neu faint adnoddau dŵr a lle gellid gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw seilwaith sy'n ofynnol i ddiogelu ansawdd a maint y dŵr. Dylai datblygiadau gael digon o gyflenwad dŵr a system garthffosiaeth i wasanaethu'r datblygiad. Bydd y polisi yma, sydd wedi'i anelu yn rhannol at wella effeithiolrwydd y defnydd o'r adnoddau dŵr, yn sicrhau cyflenwad dŵr digonol heb effeithiau niweidiol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, gan felly helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yma'n cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd dynodedig.

4.188 Gall awyr o ansawdd gwael effeithio ar iechyd pobl, eu safon byw ac amwynder a gall effeithio ar gadwraeth natur a diddordebau treftadaeth adeiledig. Mae gan ddatblygiad y potensial i achosi llygredd awyr, neu gall datblygiadau sensitif gael eu heffeithio gan y problemau ansawdd awyr presennol mewn ardal. Yng

Nghaerdydd, mae allyriadau cludiant yn un o'r prif gyfrannwyr i ansawdd awyr gwael. Ni chaniateir datblygiad os bydd yn achosi neu'n peri niwed annerbyniol oherwydd llygredd awyr. Bydd gweithrediad y Polisi yma'n helpu hefyd i wrthgyferbynu unrhyw gynnydd mewn llygredd yn yr amgylchedd o ganlyniad i'r Cynllun, gan felly helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael effaith sylweddol ar safleoedd rhyngwladol dynodedig.

4.189 Mae ailddatblygiad safleoedd gyda llygredd tir yn caniatáu i dir o'r fath gael ei ddwyn yn ôl i ddefnydd buddiol, mae'n atal adfeiliad ac yn gostwng yr angen am ddatblygu safleoedd maes glas. Bydd angen i ddatblygwyr ddangos bod modd gorchfygu unrhyw lygriad gwirioneddol neu botensial gan felly sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

5 Polisïau Manwl

1. TAI

H1: SAFLEOEDD TAI ANSTRATEGOL

Mae'r safleoedd anstrategol yma wedi'u clustnodi ar gyfer tai:

Tabl 3: CRYNODEB O SAFLEOEDD TAI ANSTRATEGOL

Cyf. y safle	Enw'r Safle	Brasamcan o Nifer yr Unedau	Maint y Safle (Ha)
H1.1	Tir yn Ardaloedd 9-12, Llaneirwg	150	3.98
H1.2	Tir yng nghefn Clive Street	80	2.87
H1.3	Ysbyty Rookwood	90	3.40
H1.4	Cyn Ysbyty Lansdowne	75	1.51
H1.5	Tir yn Dan-y-Garth, Pentyrch	47	2.49
H1.6	Tir yn yr hen Goleg St John	64	2.50
H1.7	Ely Bridge Farm, Dyfrig Road. Trelái	41	0.72
H1.8	Electrocoin Automatics Ltd, Caerphilly Road	20	0.61
H1.9	Tir yn Mill Road, Tongwynlais	5	0.40

5.1 Er mwyn helpu i ateb y gofyniad anheddau newydd, mae'n rhaid dyrannu safleoedd tai anstrategol, yn ogystal ag ystyried niferoedd yr unedau tai y rhagwelir y byddent yn dod ymlaen o'r gronfa dir gyfredol, safleoedd strategol, a chaniatáu ffawdelw a newid defnydd dros gyfnod y Cynllun hyd 2026.

5.2 Cafodd y safleoedd tai anstrategol sydd wedi'u rhestru yn y Polisi yma eu cyflwyno fel safleoedd ymgeisio ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol ac maent wedi eu hystyried yn dderbyniol mewn egwyddor ar gyfer defnydd preswyl. Mae'r nifer o unedau arfaethedig a ddynodir i bob safle yn ddangosol a gallent newid yn dibynnu ar fanylion y ceisiadau cynllunio sydd heb eu cyflwyno a'u cymeradwyo eto.

H2: CYFNEWIDIAD I DDEFNYDD PRESWYL

O fewn Ardal Fusnes Ganolog canol y ddinas a'r canolfannau Ardal a Lleol fel y maent wedi'u diffinio ar y Map Cynigion, ffefrir cyfnewid lle gwag addas uwchben safleoedd masnachol at ddefnydd preswyl lle:

i. Gellir cynnal diogelwch a gwasanaethu digonol ar gyfer y defnydd(iau) masnachol presennol;
ii. Gellir gwneud darpariaeth briodol ar gyfer parcio, mynediad, mynediad i gerddwyr, lle amwynder, a gwaredu sbwriel ynghyd ag unrhyw addasiadau allanol priodol ac;
iii. Nid yw'r defnydd preswyl yn amharu ar ddefnydd y llawr gwaelod.

5.3 Yn yr ardaloedd sydd wedi'u pennu, bydd y Cyngor yn annog cyfnewidiad lle addas uwchben safleoedd masnachol at ddefnydd preswyl. Mae cyfnewidiad lle gwag uwchben siopau at ddefnydd preswyl yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i stoc tai'r ddinas ac yn darparu cartrefi angenrheidiol iawn. Mae hefyd yn cyfrannu'n bositif at greu cymunedau bywiog defnydd cymysg lle mae pobl yn byw ac yn siopa. Mae canolfannau'n parhau'n brysur ac yn boblogaidd y tu allan i oriau busnes, gan gynyddu goruchwyliaeth a darparu marchnad at ddefnyddiau ategol sy'n gysylltiedig â'r economi nos.

H3: TAI FFORDDIADWY

Bydd y Cyngor yn ceisio 20% o dai fforddiadwy ar safleoedd Tir Llwyd a 30% o dai fforddiadwy ar safleoedd Maes Glas ymhob cynnig preswyl sy'n:

i. **Cynnwys 5 neu fwy o anheddau; neu**
ii. **Safleoedd o 0.1 hectar neu fwy mewn ardal safle gros; neu**
iii. **Lle mae cynigion preswyl cyfagos a pherthnasol yn creu niferoedd cyfun neu ardaloedd o faint y safle yn fwy na'r trothwyon uchod, bydd y Cyngor yn ceisio tai fforddiadwy wedi'u seilio ar y canrannau targed tai fforddiadwy sydd wedi'u nodi uchod.**

Ceisir darparu tai fforddiadwy ar y safle bob tro heblaw bod amgylchiadau eithriadol.

5.4 Nod y Polisi yma yw helpu'r Cyngor i gwrdd â'r angen y mae tystiolaeth ohono am dai drwy geisio cyfraniad tai fforddiadwy priodol o ddatblygiadau preswyl newydd yn y ddinas.

5.5 Bydd y Polisi'n helpu i ddarparu ystod a chymysgedd o dai fforddiadwy cynaliadwy, yn unol â Pholisi KP13.

5.6 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod bod angen cymuned am dai fforddiadwy'n ystyriaeth gynllunio faterol. Mae hefyd yn hybu cymunedau cymysg a chynhwysol. Mae rhagor o ganllawiau yn TAN2:Cynllunio a Thai Fforddiadwy yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cynnwys polisïau tai fforddiadwy yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol lle mae Asesiad Marchnad Dai Leol (LHMA) wedi darparu'r sail tystiolaeth i gefnogi polisïau i ddarparu tai o'r fath drwy'r system gynllunio. Mae diweddariad LHMA Caerdydd (2013) yn dangos diffyg blynyddol o 3,989 o anheddau fforddiadwy.

5.7 Mae'r Polisi'n gymwys i'r holl ddatblygiadau tai arfaethedig sy'n rhan o'r trothwyon polisi, yn cynnwys cynigion ar dir oedd heb ei ddatblygu ynghynt, cynlluniau ailddatblygu, cynlluniau sy'n darparu llety arbenigol (heblaw'r rheiny lle mae trigolion yn gofyn am elfen sylweddol o ofal), cyfnewidiadau, newid defnydd a datblygiadau defnydd cymysg yn cynnwys tai. Mae'n ymateb i'r angen y mae tystiolaeth ohono ar gyfer y system gynllunio i helpu i chwarae ei ran i sicrhau tir ac unedau ar gyfer tai fforddiadwy. Ond, ni fyddai gofyn i dai sydd wedi'u dynodi'n benodol i fyfyrwyr gyfrannu elfen dai fforddiadwy.

5.8 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae tai fforddiadwy'n cwmpasu tai canolradd a rhai rhentu cymdeithasol lle mae mecanweithiau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rheiny sy'n methu fforddio tai marchnad, pan gânt eu preswylwyr cyntaf ac ar gyfer y preswylwyr dilynol. Yn ogystal, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried anghenion pobl anabl a'r rhai sydd â salwch hirdymor, y mae'r mwyafrif ohonynt yn well yn byw yn y gymuned. Lle mae tystiolaeth o angen am dai anghenion arbennig fforddiadwy fe allai, yn amodol ar gytundeb y Cyngor, gael ei ddarparu fel yr holl ofyniad tai fforddiadwy neu fel rhan o'r gofyniad hwnnw.

5.9 Bydd y Cyngor yn darparu tystiolaeth o'r angen ar sail y Diweddaraf o Asesiad Marchnad Dai Lleol Caerdydd, wedi'i atodi gan restrau aros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Cyngor cyfredol a gwybodaeth berthnasol arall. I greu cymunedau cymysg a chytbwys, ceisir darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy 'ar y safle' heblaw bod y Cyngor yn ystyried bod hyn yn anymarferol neu'n amhriodol. Mewn amgylchiadau eithriadol o'r fath, gallai tai fforddiadwy naill ai gael eu darparu ar safle arall, (y lleoliad i gael ei gytuno gyda'r Cyngor), neu gellir darparu cyfraniad ariannol i ymdrin â gofynion tai fforddiadwy yn rhywle arall yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, dylai darpariaeth ymdrin â'r angen sydd wedi'i bennu mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

5.10 Mae'r targedau sydd wedi'u nodi yn y Polisi'n deillio o ganfyddiadau astudaeth hyfywedd tai fforddiadwy a wnaed gan Peter Brett Associates. Roedd yr astudiaeth yma'n asesu hyfywedd ystod o sefyllfaoedd yn ymwneud â thai (yn cynnwys cyfrifiad ar gyfer y seilwaith angenrheidiol a allai gael ei gyflawni drwy S106 a/neu CIL, yn gyson gyda Pholisi KP6: Seilwaith Newydd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad gyda lefelau amrywiol o dai fforddiadwy. Er mwyn dangos hyfywedd ac ystyried costau uwch sy'n gysylltiedig â datblygiad safleoedd tir llwyd, argymhellodd yr astudiaeth darged tai fforddiadwy dwy haen. Mae'r Adroddiad yn cadarnhau bod tai fforddiadwy'n hyfyw ar 30% o safleoedd maes glas ac ar 20% o safleoedd tir llwyd (wedi'i seilio ar gymysgedd daliadaeth ddangosol o 40% rhentu cymdeithasol, 40% rhentu canolradd ac 20% o Berchnogaeth Cartrefi Cost Isel). Mae hyn yn gyson gydag argymellion yr Asesiad o Farchnad Dai Lleol Caerdydd ac Adroddiadau Hyfywedd Economaidd 2013 a 2014 o ran ceisio cymysgedd priodol o ddaliadaethau i ymdrin â'r angen am dai y mae tystiolaeth ohono dros gyfnod y Cynllun.

5.11 Wrth drafod tai fforddiadwy, bydd cyfraniad gwirioneddol pob cynnig yn dibynnu ar allu'r cynllun hwnnw i wneud y ddarpariaeth. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y cyfraniad tai fforddiadwy ynddo'i hun yn gwneud y cynllun ei hun yn anymarferol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr i gytuno ar gyfraniad mewn ffordd agored ac eglur. Mewn achosion lle na ellir dod i gytundeb, bydd asesiad annibynnol yn cael ei gomisiynu y bydd yr ymgeisydd/datblygwr yn talu amdano. Dylai'r asesiad gynnwys manylion a chostau'r seilwaith angenrheidiol sydd i gael ei ddarparu naill ai'n gyfan neu'n rhannol i gefnogi darpariaeth cymdogaethau cynaliadwy.

5.12 Bydd arweiniad manwl am raddfa, daliadaeth a natur tai fforddiadwy sydd i gael eu ceisio, ynghyd â gwybodaeth am yr hyn fydd yn ofynnol yn rhan o asesiadau hyfywedd annibynnol, wedi eu nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol am Dai Fforddiadwy. Bydd y Polisi fel arfer wedi ei weithredu trwy ddefnyddio goblygiad cynllunio yn unol â Pholisi KP7.

H4: NEWID DEFNYDD EIDDO NEU DIR PRESWYL

Y tu allan i Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae a Chanolfannau Ardal a Lleol, sydd i'w gweld ar y Map Cynigion, ni fydd caniatâd i gyfnewid defnydd neu ail ddatblygu eiddo preswyl heblaw yn y sefyllfaoedd hyn:

i. **Nid yw'r safle neu ei leoliad yn addas bellach ar gyfer defnydd preswyl; neu**
ii. **Mae'r cynnig am ddefnydd cymunedol sy'n angenrheidiol o fewn ardal breswyl.**
iii. **Ni fyddai effaith annerbyniol ar amwynder preswyl.**

5.13 Mae'r Polisi yma'n pennu'r amgylchiadau lle caniateir cynigion ar gyfer cyfnewid defnydd neu ailddatblygu eiddo preswyl y tu allan i Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas y Bae a'r Canolfannau Ardal a Lleol sydd wedi'u pennu ar y Map Cynigion.

5.14 Fel y cydnabuwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae swyddfeydd, manwerthu, adloniant a defnyddiau eraill sy'n denu nifer sylweddol o ymwelwyr, p'un a yw hynny mewn cerbyd neu ar droed, wedi eu lleoli orau mewn canolfannau lle maent hawsaf eu cyrraedd, yn enwedig ar gludiant cyhoeddus a lle cânt yr effaith leiaf niweidiol ar amwynder trigolion. Yng Nghaerdydd, y canolfannau hyn yw Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae, yr Ardal Siopa Ganolog a chanolfannau Ardal a Lleol sydd i'w gweld ar y Map Cynigion. Mae ystod o bolisïau yn y Cynllun yn ceisio cyfeirio defnyddiau priodol i'r canolfannau yma.

5.15 Y tu allan i'r canolfannau yma, ni chaniateir cynigion am gyfnewid defnydd neu ailddatblygu eiddo preswyl heblaw bod hynny yn unol â Pholisi H6 ac os na fydd niwed annerbyniol yn cael ei achosi i amwynder neu iechyd y trigolion sy'n weddill yn unol â Pholisi H6.

5.16 Mae ystod o ddefnyddiau cymunedol sy'n briodol ac yn angenrheidiol, mewn egwyddor, o fewn ardaloedd preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys meddygfeydd a deintyddfeydd, cartrefi preswyl a chyfleusterau gofal plant. Bydd canllawiau pellach ar gyfnewid eiddo preswyl yn gyfleusterau gofal plant i'w gweld yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

5.17 I ddiogelu amwynder ardaloedd preswyl, bydd rhagdybiaeth gyffredinol o blaid caniatáu'r ystod o ddefnyddiau cymunedol a masnachol yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae a Chanolfannau Ardal Lleol sydd i'w gweld ar y Map Cynigion – yn cynnwys trwy gyfnewidiad neu ailddatblygiad llety preswyl cyfredol – yn dibynnu ar bolisïau perthnasol. Yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae, bydd cynigion yn cael eu hasesu gydag ystyriaeth i Bolisi KP10 ac yn y Canolfannau Ardal a Lleol bydd cynigion yn cael eu hasesu mewn perthynas â Pholisïau R4 ac R5.

H5: RHANNU NEU GYFNEWID EIDDO PRESWYL

Bydd cynigion ar gyfer unrhyw waith cyfnewid i fflatiau neu Dai Amlfeddiannaeth wedi eu caniatáu lle:

i. **Mae'r eiddo o faint lle bydd cynllun, meintiau ystafelloedd, ystod y cyfleusterau a lle amwynder allanol yr eiddo fydd wedi'i ddatblygu'n sicrhau safon ddigonol o amwynder preswyl i ddefnyddwyr yn y dyfodol.**
ii. **Ni fyddai niwed materol i amwynder y trigolion sy'n byw gerllaw oherwydd aflonyddwch cyffredinol, sŵn neu allu gweld i mewn.**
iii. **Ni fydd effaith gronnol cyfnewidiadau o'r fath yn effeithio'n niweidiol ar amwynder a/neu gymeriad yr ardal.**
iv. **Nid yw'n cael effaith niweidiol ar ddarpariaeth barcio lleol.**

5.18 Mae rhannu adeilad preswyl yn unedau preswyl llai'n gallu bod yn ffynhonnell bwysig o ran creu tai. Gall fod ar wahanol ffurfiau megis:

- Rhannu'r tai presennol yn fflatiau ac yn dai amlfeddiannaeth.
- Troi tai amlfeddiannaeth yn fflatiau.

5.19 Mae'r Cyngor yn gofyn fod pob gwaith cyfnewid fflatiau a thai amlfeddianaeth yn waith o safon uchel ac wedi eu cynllunio'n dda.

5.20 Dyma amcanion y Polisi:

- cefnogi creu datblygiad cynaliadwy atyniadol ar gyfer fflatiau hunan-gynwysedig a thai amlfeddiannaeth;
- hybu cynllun a dyluniad da.

5.21 Mae rhannu adeilad yn unedau preswyl llai'n fath cynaliadwy o ddatblygiad oherwydd mae'n rhoi bywyd newydd i adeiladau a allai fod yn segur neu'n economaidd ddiwerth yn eu defnydd cyfredol.

5.22 Os oes addasiadau sympathetig i du allan adeilad, mae cyfnewidiad yr adeilad yn cael llai o effaith ar ymddangosiad y stryd am ei fod yn cadw'r ffryntiad cyfredol ac yn parchu cymeriad yr ardal.

5.23 Fodd bynnag, gall gwaith cyfnewid anfoddhaol greu mannau byw sydd wedi eu gor-ddatblygu sy'n golygu bod y llety'n annigonol ac o safon isel. Gallai'r defnyddwyr wynebu problemau megis gorlenwi, pobl eraill yn gallu gweld i mewn, golygfeydd gwael drwy'r ffenestri, diffyg lle amwynder, sŵn ac aflonyddu gan safleoedd cyfagos a mynedfa anghyfleus a pheryglus.

5.24 Bydd rhagor o wybodaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

H6: NEWID DEFNYDD NEU AILDDATBLYGU I GREU DEFNYDD PRESWYL

Caniateir newid defnydd safleoedd segur neu ailddatblygu tir segur oedd wedi'i ddatblygu yn y gorffennol ar gyfer defnydd preswyl lle:

i. **Does dim angen tra phwysig i gadw defnydd presennol y tir neu'r safle a dim gofyniad tra phwysig i wneud defnydd amgen o'r tir lleol;**
ii. **Bydd y llety preswyl ac amwynder a geir o ganlyniad yn foddhaol;**
iii. **Ni fydd effaith annerbyniol ar amodau gweithredu busnesau cyfredol;**
iv. **Mae cyfleusterau cludiant a chymunedol angenrheidiol yn hygyrch neu gellir eu darparu neu eu gwella'n hawdd; a**
v. **Gellir dangos bod y newid defnydd i bwrpas mwy sensitif wedi cael ei asesu o ran risg o lygriad tir a does dim risgiau annerbyniol i'r defnyddiwr terfynol.**

5.25 Mae'r Polisi yma'n darparu fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau am newid defnydd, cyfnewid neu ailddatblygu tir a safleoedd segur a ddatblygwyd yn y gorffennol i bwrpasau preswyl o fewn ffiniau anheddiad. Y nod yw sicrhau bod:

- Y tir yn cadw ei ddefnydd cyfredol lle bo raid;
- Y tir nad yw bellach yn ofynnol ar gyfer ei ddefnydd presennol neu flaenorol, os nad oes angen tra phwysig i gadw defnydd presennol y tir neu'r safle a dim gofyniad defnydd tir lleol amgen, yn cyfrannu at ateb gofynion darparu tai, gan ostwng yr angen am ddatblygu tir oedd heb ei ddatblygu gynt - sy'n rhan sylfaenol o Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol; ac
- Mae amgylcheddau a llety preswyl newydd wedi eu cynllunio'n dda, yn amgylcheddol gadarn ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i hybu adfywio cymunedol a gwella ansawdd bywyd.

5.26 Mae'r Polisi'n ymateb i angen cymdeithasol y mae tystiolaeth ohono am gartrefi newydd yn unol â Pholisi KP1 ac yn ymwneud â Pholisïau EC3 a H2. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n dangos y dylid ystyried ailddatblygiad a newid defnydd o'r fath mewn darpariaeth tai. Mae'n diffinio 'tir a ddatblygwyd yn y gorffennol'. Bydd arweiniad cenedlaethol a pholisïau cynllun sy'n gyffredinol berthnasol i gefn gwlad yn berthnasol y tu allan i ffiniau anheddiad. Bydd y Polisi'n berthnasol hefyd i ddatblygiad defnydd cymysg yn cynnwys tai.

5.27 Bydd asesiad o p'un a yw'r tir neu'r safle'n segur neu angen bod yn argadwedig yn ei ddefnydd blaenorol (maen prawf '(i)') yn cynnwys profion a bennwyd mewn polisïau perthnasol, megis Polisi EC3 Defnydd Amgen o Safleoedd ac Eiddo sy'n ymwneud ag amddiffyn tir ac eiddo cyflogaeth.

5.28 Bydd ystyriaethau o dan faen prawf (ii) yn cynnwys cyfatebolrwydd defnyddiau cyfagos, atal mewnlenwi ansensitif neu amhriodol, preifatrwydd/amwynder maint, dwysedd, wynebwedd, graddfa, cynllun a gofynion o ran diogelwch a lle amwynder.

5.29 Bwriad maen prawf (iii) yw sicrhau nad yw cyflwyno defnydd preswyl i ardal neu adeilad yn atal amodau gweithredu busnesau cyfredol yn ormodol.

5.30 Gallai maen prawf (iv) gynnwys ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at ddarparu cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau angenrheidiol eraill, yn unol â Pholisi KP7, gan ddarparu'r seilwaith angenrheidiol.

5.31 Lle mae newid defnydd neu ailddatblygu unedau masnachol/diwydiannol at ddefnydd preswyl, mae angen cael asesiad priodol ar gyfer presenoldeb llygriad tir. Nid yw'r safonau halogiad tir a osodwyd ar gyfer defnydd masnachol/diwydiannol yn ddigon amddiffynol at ddefnydd preswyl ac felly gallai bod risgiau annerbyniol i'r defnyddwyr terfynol a byddent angen adferiad priodol, lle cynigir defnydd preswyl.

H7: SAFLEOEDD AR GYFER CARAFANAU TEITHWYR A SIPSIWN

Bydd safleoedd ac estyniadau newydd i safleoedd cyfredol yn cael eu caniatáu lle:

i. **Mae seilwaith ffisegol, cludiant a seilwaith cymdeithasol angenrheidiol yn hygyrch neu y gellir eu darparu'n hawdd;**
ii. **Nid yw ffactorau amgylcheddol megis risgiau o lifogydd, sefydlogrwydd y tir, halogiad y tir ac agosrwydd gweithfeydd peryglus yn gwneud y safle'n amhriodol ar gyfer datblygiad preswyl;**
iii. **Mae'r safle wedi'i lunio gyda chyfeiriad at Arweiniad Arferion Da Llywodraeth Cymru wrth Ddylunio Safleoedd i Deithwyr Sipsiwn a barn Sipsiwn a Theithwyr Lleol;**
iv. **Ni fyddai effaith afresymol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardaloedd oddi amgylch gan gynnwys yr effaith ar amwynder preswyl defnyddwyr cyfagos neu amodau gweithredu busnesau cyfredol; ac**
v. **Yn achos safle teithio neu dramwy, mae ganddo fynediad da at y rhwydwaith priffyrdd pennaf.**

5.32 Mae'r Polisi yma'n darparu fframwaith ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd newydd ac estyniadau i safleoedd cyfredol p'un a yw hynny ar gyfer safleoedd parhaol neu dramwy.

5.33 Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd ddau safle Sipsiwn a Theithwyr, yn Rover way a Shirenewton, sy'n darparu cyfanswm o 80 o safleoedd parhaol. Hyd yn hyn, mae'r ddau safle wedi gweld tyfiant naturiol y boblogaeth, gyda rhywfaint o or-boblogi. Gwnaed yr Asesiad diweddaraf o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ebrill 2013 a dangosodd hwn bod angen 108 o leiniau Sipsiwn a Theithwyr parhaol. Mae gofyn i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn (Deddf Tai (Cymru) 2014 a chyflwyno'r asesiad i Lywodraeth Cymru i dderbyn cymeradwyaeth erbyn Mawrth 2016. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan ei bod hi'n bwysig i Gynlluniau Datblygu Lleol gael polisïau ar gyfer darparu safleoedd. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 yn datgan y dylid dyrannu safleoedd digonol yn y Cynllun Datblygu Lleol i ateb anghenion lle mae asesiad o angen heb ei gyflawni am le byw i Sipsiwn a Theithwyr. Rhaid hefyd gynnwys polisi wedi'i seilio ar feini prawf i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn ateb yr anghenion yn y dyfodol.

5.34 Bydd yr asesiad mwyaf diweddar yma'n hysbysu proses ddewis safle ehangach a fydd yn datblygu dros y ddwy flynedd nesaf i gwrdd â'r angen tymor hir a thymor byr am leiniau Sipsiwn a Theithwyr. Cyfeirir at y broses hon yn y Fframwaith Monitro ac mae'n cynnwys yr amseriadau a'r canlyniadau allweddol a ganlyn. Bydd safleoedd sy'n dod yn eu blaenau drwy'r broses yma, ynghyd ag unrhyw gynigion eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y polisi yma.

- Cytuno ar fethodoleg a threfniadau rheoli prosiect erbyn diwedd 2015
- Gwneud Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer lleiniau parhaol a thramwy yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 erbyn Chwefror 2016
- Gwneud chwiliad ac asesiad safle a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau erbyn Hydref 2016
- Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllid grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) a bennwyd sy'n ofynnol i gwrdd â'r angen tymor byr am 43 o leiniau erbyn Mai 2017
- Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllid grant gan Lywodraeth Cymru) sy'n ofynnol i ateb yr angen tymor hir am 65 llain erbyn Mai 2021.

2. ECONOMI

EC1: TIR CYFLOGAETH CYFREDOL

Bydd ardaloedd cyflogaeth cyfredol y ddinas tu allan i Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae (fel y maent wedi'u dynodi ar y Map Cynigion) wedi'u diogelu ar gyfer defnyddiau cynhyrchu cyflogaeth Dosbarth Defnydd B (ynghyd â gweithgareddau a defnyddiau ategol a/neu gyflenwol y cyfeirir atynt ym Mholisi EC2) fel y maent wedi'u disgrifio yn y tabl isod.

Cyf y Safle	Enw'r Safle	Gweithgaredd/ Defnydd Pennaf	Statws
EC1.1	Ocean Park	B1, B2, B8	Sylfaenol
EC1.2	Porthladd Caerdydd (a'r Maes Hofrenyddion a'r ardal o'i gwmpas)	B1, B2, B8	Sylfaenol (gweithgareddau yn ymwneud â'r porthladd)
EC1.3	Rover Way (Gwaith Dur Celsa, Ystâd Ddiwydiannol Tremorfa, Seawall Road)	B2, B8	Sylfaenol
EC1.4	Wentloog Road (Capital Business Park, Ystâd Ddiwydiannol Lamby Way, Parc Corfforaethol Wentloog, Terfynfa Cargo'r Rheilffordd)	B1, B2, B8	Sylfaenol
EC1.5	Parc Busnes Llaneirwg	B1, B2, B8	Sylfaenol
EC1.6	Parc Busnes Porth Caerdydd	B1 (swyddfeydd), ategol B2	Sylfaenol
EC1.7	Parc Busnes Caerdydd a'r Tir i'r Gogledd o Maes y Coed Road, Llanisien	B1, B2, B8	Sylfaenol

Cyf y Safle	Enw'r Safle	Gweithgaredd/ Defnydd Pennaf	Statws
EC1.8	Forest Farm, Longwood Drive	B1, B2, B8	Sylfaenol
EC1.9	Green Meadow Springs	B1 (swyddfeydd)	Sylfaenol
EC1.10	Ardal Penarth Road (yn cynnwys Hadfield Road, Sloper Road, Bessemer Road)	B1, B2, B8	Sylfaenol
EC1.11	Tŷ Nant Road	B1, B2, B8	Lleol
EC1.12	Crown Way (Tŷ'r Cwmnïau)	B1 (swyddfeydd)	Lleol
EC1.13	Wentloog Road (i'r gogledd o'r rheilffordd)	B1, B2, B8	Lleol
EC1.14	Pentwyn (Gwaith Panasonic, Ystâd Ddiwydiannol Avenue)	B1, B2, B8	Lleol
EC1.15	Eastern Business Park	B1 (swyddfeydd)	Lleol
EC1.16	Parc Technoleg Busnes Willowbrook	B1 (gwyddoniaeth, ymchwil a datblygiad)	Lleol
EC1.17	Excelsior Road	B1, B2, B8 a chownter masnach cyflenwol	Lleol
EC1.18	Ystâd Ddiwydiannol Norbury Road	B1, B2, B8	Lleol
EC1.19	Wroughton Place, Trelái	B1, B2, B8	Lleol
EC1.20	Argyle Way, Caerau	B1, B2, B8	Lleol

Cyf y Safle	Enw'r Safle	Gweithgaredd/ Defnydd Pennaf	Statws
EC1.21	Ystâd Ddiwydiannol Garth	B1, B2, B8	Lleol
EC1.22	Tir yn East Bay Close	B1, B2, B8	Lleol
EC1.23	Parc Busnes Alexandra Gate	B1	Lleol

5.35 Mae'r Polisi yma'n ymateb i weledigaeth economaidd ac amcanion y Cynllun i sicrhau bod yr ystod a'r dewis o dir a safleoedd cyflogaeth ar gael ar draws y ddinas i helpu cystadleurwydd economaidd, i annog mentergarwch, i hybu tyfiant busnesau brodorol o bob math a maint ac i ddenu mewnfuddsoddiad.

5.36 Rôl allweddol i'r Cynllun Datblygu Lleol yw sicrhau darpariaeth portffolio o ystod, maint ac ansawdd priodol o dir a safleoedd cyflogaeth i gwrdd ag anghenion cyfredol a dyfodol y ddinas a gweithlu'r ddinas. Un o'r prif strategaethau i gyflawni'r nod yma yw amddiffyn safleoedd cyflogaeth presennol ar draws y ddinas.

5.37 Un o'r prif argymhellion yn Adroddiad Grimley GVA 'Adolygiad Masnachol a Thir Cyflogaeth Caerdydd' (2009) ac 'Astudiaeth Gwraidd 3/Hardisty Jones Associates' (Ebrill 2012) oedd cyflwyno polisïau i amddiffyn bron bob un o'r lleoliadau cyflogaeth sy'n weddill (neu ddyraniadau a waned yn y Cynllun Lleol) naill ai oherwydd y rôl economaidd y maent yn ei chwarae yn y portffolio tir cyflogaeth cyffredinol ar gyfer y ddinas neu oherwydd dosbarthiad y tir yma ar draws y ddinas.

5.38 Ffactor hanfodol os yw Caerdydd i gynnal cyflenwad o dir cyflogaeth fydd y gallu i amddiffyn tir a safleoedd ar gyfer cyflogaeth rhag cael eu colli i ddefnyddiau amgen. Cafwyd pwysau cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu/ailddatblygu tir a safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau eraill (preswyl gan fwyaf), p'un a ydynt yn dal i gael eu defnyddio neu lle mae gweithredoedd cyfredol wedi dod i ben. Gall cynigion am ddatblygiad o'r fath achosi colledion sylweddol i stoc y sir o safleoedd a thir cyflogaeth.

5.39 Gall colli tir cyflogaeth ddigwydd yn raddol gyda cholli un safle'n achosi i gyfres o rai eraill mewn lleoliad tebyg gael eu colli, gan arwain at erydiad graddol safle cyflogaeth. Weithiau gall defnyddiau eraill ddarnio ardal fusnes fwy neu dorri cysylltiadau rhwng defnyddiau cyflogaeth mewn ardal. Dros amser mae'r pwysau am ddefnyddiau amgen yn achosi colli safleoedd cyflogaeth o agreg defnyddiau er niwed i'r economi lleol.

5.40 Mae'r safleoedd cyflogaeth a welwyd ym Mholisi EC1 yn dangos potensial cryf i barhau i chwarae rôl economaidd bwysig, p'un a ydyw hynny i ddarparu cyflogaeth leol ar safleoedd llai o fewn cymdogaethau allweddol neu a yw'r safleoedd yn fwy strategol o ran eu maint, eu safle a'u swyddogaeth.

5.41 Oherwydd yr amser sydd wedi pasio ers cwblhau'r Astudiaeth GVA, mae'r safleoedd cyflogaeth a benwyd ar gyfer eu hamddiffyn wedi cael eu hadolygu. Mae mwy o bwysau ar rai safleoedd i ddewis defnyddiau amgen gyda cholli tir cyflogaeth ychwanegol ac mae eu swyddogaeth cyflogaeth dosbarth defnydd B wedi erydu bron yn gyfan gwbl. Felly nid yw'r safleoedd hyn, er enghraifft Gogledd a De Newport Road a Colchester Avenue, yn cael eu pennu bellach i bwrpasau cyflogaeth. Yn yr un modd nid yw Cathedral Road a swyddfeydd gerllaw'r Afon Taf sydd â swyddfeydd graddfa isel ac sydd â chanran uchel ohonynt yn wag wedi'u pennu bellach ar gyfer eu hamddiffyn a byddent yn cael eu hystyried ar gyfer eu diogelu a newid eu defnydd i dai er enghraifft.

5.42 Mae amddiffyn safleoedd cyflogaeth yn caniatáu hefyd ar gyfer moderneiddio ac adfywio eiddo a thir a chynyddu dwysedd y datblygiad ar y safle gan felly wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r tir.

EC2: DARPARU CYFLEUSTERAU CYFLENWOL I WEITHWYR CYFLOGEDIG MEWN DATBLYGIADAU BUSNES, DIWYDIANNOL A WARYSAU

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer lle agored, tir cyhoeddus, hamdden, bwyd a diod a chyfleusterau gofal plant yn briodol mewn datblygiadau swyddfa, diwydiannol a warysau, ar yr amod bod y cyfleuster o faint a natur briodol sydd wedi'i fwriadu'n bennaf i gwrdd ag anghenion gweithwyr yn yr ardal, fel nad yw'n denu lefelau sylweddol o draffig ymwelwyr i mewn i'r ardal, neu waethygu'r amodau traffig cyfredol.

5.43 Mae'r Polisi yma'n gobeithio galluogi darpariaeth cyfleusterau hamdden, bwyd a diod a gofal plant cyflenwol priodol mewn ardaloedd swyddfeydd, diwydiannol a warysau newydd a chyfredol ac mae'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun. Efallai y bydd gweithwyr cyflogedig mewn ardaloedd o'r fath angen mynediad da at ystod o gyfleusterau yn cynnwys bwyd a diod, hamdden/adloniant a gofal plant. Gall absenoldeb cyfleusterau o'r fath mewn ardal gyflogaeth gynyddu'r galw am deithio a gwneud yr ardaloedd yn llai atyniadol i gyflogwyr a gweithwyr.

5.44 Mewn ardaloedd cyflogaeth cyfredol, rhoddir ystyriaeth i newid defnydd safleoedd cyfredol i greu cyfleusterau cyflenwol priodol, yn cynnwys bwyd a diod, hamdden a gofal plant.

5.45 Lle cynigir ardaloedd cyflogaeth newydd, dylid ystyried yr angen am gyfleusterau o'r fath yn rhan o'r cynllun datblygiad cyffredinol.

5.46 Ymhob achos, dim ond cyfleusterau o natur a graddfa briodol i ateb gofynion cyflogeion fydd yn cael eu caniatáu. Gallai cyfleusterau hamdden priodol gynnwys clybiau/canolfannau cadw'n heini a chyfleusterau chwaraeon dan do. Efallai hefyd y byddai darpariaeth ar gyfer gwelliannau hygyrch i fannau agored neu dir cyhoeddus yn briodol.

EC3: DEFNYDD AMGEN O DIR A SAFLEOEDD CYFLOGAETH

Ni fydd datblygu safleoedd a thir busnes, diwydiannol a warysau ar gyfer defnyddiau eraill yn cael eu caniatáu heblaw:

i. **Bod y tir neu'r safle ddim mewn lleoliad da bellach ar gyfer defnydd busnes, diwydiannol a warysau; neu**
ii. **Does dim tebygolrwydd realistig o ddefnydd cyflogaeth ar y safle a/neu mae'r eiddo yn ffisegol anaddas at ddefnydd cyflogaeth, hyd yn oed ar ôl ei addasu/adfywio neu ailddatblygu; neu**
iii. **Does dim angen cadw'r tir neu'r safle ar gyfer defnydd busnes, diwydiannol neu warysau, o ystyried y galw am dir a safleoedd o'r fath a'r gofyniad i ddarparu ar gyfer ystod a dewis o safleoedd sydd ar gael ar gyfer defnydd o'r fath; ac**
iv. **Ni fydd effaith annerbyniol ar amodau gweithredu'r busnesau cyfredol.**

5.47 Mae'r Polisi yma'n darparu meini prawf ar gyfer asesu'r cynigion am newid defnydd safleoedd a thir busnes a diwydiannol. Bydd yn berthnasol i dir a safleoedd busnes, diwydiannol a warysau cyfredol, a ganiatawyd ac a ddyranwyd, a bydd yn ymdrin â:

- Yr angen i gynnal ystod a dewis o safleoedd mewn lleoliad da a safleoedd sy'n atyniadol i fusnes, diwydiant a warysau;
- Gwneud y defnydd gorau o dir segur i bwrpasau cyflogaeth amgen; a
- Lle mae angen i dir a safleoedd fod yn argadwedig am nad ydynt o bwysigrwydd lleol i gyfleoedd cyflogaeth.

5.48 Bydd y meini prawf ar gyfer asesu a yw'r tir a'r safleoedd yn parhau mewn lleoliad da ar gyfer defnyddiau busnes, diwydiannol a warysau, yn cynnwys:

- Hygyrchedd at y brif rwydwaith priffyrdd, cyfleusterau cargo'r rheilffordd a'r porthladd;
- Hygyrchedd gan gludiant cyhoeddus; a
- Bod yn agos at ddefnyddiau tai neu ddefnyddiau sensitif eraill.

5.49 Mae'r 'dystiolaeth gadarn' wrth asesu'r angen am gadw tir a safleoedd ar gyfer defnydd busnes, diwydiant a warysau'n cynnwys y meini prawf a ganlyn:

- P'un a ydyw'r tir neu'r safleoedd wedi bod yn wag ac am ba mor hir ac a ydynt yn cael eu marchnata'n weithredol a beth yw'r mynegiant o ddiddordeb a gafwyd yn ystod y cyfnod yma:
- A yw'r safle'n cynnig manteision arbennig nad ydynt ar gael yn gyffredinol o fewn y gronfa dir gyffredinol;
- A yw'r safle o fewn ardal o ddiweithdra uchel ac yn cynnig rhagolygon realistig o'r defnydd i bwrpasau cyflogaeth priodol;
- A fydd cymorth i ail leoli defnyddwyr cyfredol i le priodol arall;
- A fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cadw elfen o arwynebedd llawr at ddefnydd diwydiannol, swyddfa neu warysau; a
- P'un a oes angen cynnal y defnydd arfaethedig ar dir busnes, diwydiannol neu warws (e.e. canolfannau cludiant).
- A yw blaenoriaethau eraill, megis angen am dai, yn bwysicach nag ystyriaethau economaidd gyda ffocws culach.

5.50 Lle ystyrir bod defnydd amgen o'r tir yn briodol, bydd y flaenoriaeth yn cael ei roi i ddatblygiad defnydd cymysg yn cynnwys cyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol a, lle nad yw hynny'n ymarferol, tai. Bydd angen i gynigion eraill ddangos pam na ellir cyflawni cynlluniau cyflogaeth a thai defnydd cymysg ar y safle.

5.51 Mae hi hefyd yn bwysig sicrhau bod cyflwyno defnydd preswyl neu ddefnyddiau eraill i ardal ddiwydiannol neu warws ddim yn rhwystro'n ormodol amodau gweithredu'r busnesau sy'n weddill.

5.52 Lle mae tir a safleoedd cyflogaeth dan bwysau i ddatblygu defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth ac ystyrir bod cyfle'n bodoli o hyd i wneud cyfraniad tuag at ddatblygiad economaidd tymor hirach a chadw swyddi a thyfiant o fewn ardal, gofynnir i ddatblygwyr wneud darpariaeth i gyfrannu'n briodol tuag at ddod â chyfleoedd cyflogaeth cydadferol yn eu blaen mewn rhan arall o'r Sir yn unol â Pholisi KP7 Goblygiadau Cynllunio.

5.53 Lle mae'n bosibl y gellid datblygu unedau preswyl ar ardaloedd a bennwyd yn y gorffennol ar gyfer defnydd masnachol/diwydiannol, mae angen cael asesiad priodol ar gyfer presenoldeb llygriad tir. Nid yw'r safonau ar lygriad tir a osodwyd ar gyfer defnydd masnachol/diwydiannol yn ddigon amddiffynnol ar gyfer defnydd preswyl ac felly gallai risgiau annerbyniol i'r defnyddwyr terfynol fod yn bresennol a fydd angen adferiad priodol.

5.54 Bydd arweiniad pellach ar weithredu'r Polisi yma yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Amddiffyniad o Dir Cyflogaeth a Safleoedd i Fusnes, Diwydiant a Warysau.

EC4: AMDDIFFYN SWYDDFEYDD YN ARDALOEDD BUSNES CANOL Y DDINAS A'R BAE

Bydd caniatâd i wneud defnydd amgen o swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae ar yr amod y gellir dangos nad oes angen cadw safle neu ystafelloedd ar gyfer defnydd swyddfa gan ystyried y galw am swyddfeydd a'r gofyniad i ddarparu ystod a dewis o safleoedd sydd ar gael ar gyfer defnydd o'r fath.

5.55 Nod y Polisi yma yw sicrhau bod safleoedd swyddfa yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae a welir ar y Map Cynigion, p'un a ydynt yn cael eu defnyddio, yn wag, neu gyda chaniatâd, yn cael eu hamddiffyn rhag newid defnydd amhriodol. Bydd angen i unrhyw gynnig sy'n cynnwys colli swyddfeydd ddangos bod digon o ystod a dewis o arwynebedd llawr swyddfeydd masnachol i gwrdd ag angen y ddinas am swyddfeydd hyd at 2026.

5.56 Wrth ystyried y cynigion am newid defnydd adeiladau swyddfeydd, bydd y materion a ganlyn yn derbyn ystyriaeth:

- P'un a ydyw'r safleoedd wedi bod yn wag a'u marchnata'n weithredol ar gyfer eu defnyddio fel swyddfa, ac am ba hyd o amser;
- A yw datblygiad y safle ar gyfer defnydd priodol yn hwyluso adleoliad y defnyddwyr swyddfa presennol i adeiladau addas o fewn Ardal Busnes Canol y Ddinas a'r Bae;
- P'u a fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cadw elfen sylweddol o arwynebedd llawr swyddfa;
- P'un a ydyw'r defnydd arfaethedig yn cyd-fynd â defnydd cyflogaeth; a
- Ph'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn gallu dangos manteision economaidd, cymdeithasol ac adfywio ehangach.

5.57 Mae Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae yn cynnwys ystod eang o swyddfeydd, yn cynnwys llety Graddfa A modern (e.e. Callaghan Square ac Assembly Square); llety uchel wedi'i adeiladu yn yr 1960au a'r 1970au (e.e. Newport Road); ystafelloedd swyddfa uwchben safleoedd masnachol (e.e. St Mary Street a Greyfriars Road); a filâu hanesyddol wedi'u cyfnewid yng ngogledd canol y ddinas (e.e. Park Place a Windsor Place). Dros amser, ac wrth i anghenion busnesau newid, mae safleoedd weithiau'n methu cwrdd â gofynion defnyddwyr modern. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn ddiweddar gyda newid defnydd o swyddfeydd i ddefnyddiau preswyl a gwesty, gan achosi gostyngiad sylweddol yn y nifer o swyddfeydd gwag yng nghanol y ddinas.

5.58 I sicrhau bod Caerdydd yn parhau i ddenu a chadw busnesau o safon, mae'n rhaid i Ganol y Ddinas gynnwys digon o dir ar gyfer adeiladau swyddfa yn ogystal â darparu ystod a dewis o safleoedd swyddfa i'r defnyddwyr presennol a rhai'r dyfodol, yn ogystal â swyddfeydd Graddfa A mawr, mentrau bach a chanolig eu maint, unedau deori a safleoedd byw-gweithio. Mae Ardal Fenter Canol Caerdydd ynghyd ag ardaloedd cyflogaeth arfaethedig eraill yn cynnig dewis ac ystod o leoliadau busnes newydd.

5.59 Cydnabyddir bod yn rhaid cael rhywfaint o swyddfeydd gwag er mwyn caniatáu ar gyfer trosiant busnesau ac adnewyddiad safleoedd i ateb anghenion busnesau modern. Ond, gall swyddfeydd sy'n wag yn y tymor hir gael effaith niweidiol ar hyfywedd ac egni canolfannau masnachol. Bydd safleoedd swyddfa sydd, er gwaethaf marchnata gweithredol, wedi parhau'n wag am fwy na dwy flynedd yn cael eu hystyried yn fwy ffafriol ar gyfer newid defnydd i ddefnyddiau eraill sy'n fwy priodol.

5.60 Mae cynigion am ailddatblygu defnydd cymysg sy'n cadw elfen sylweddol o arwynebedd llawr swyddfa masnachol, neu'r rheiny nad ydynt yn achosi unrrhyw golled net yn lefel neu safon yr ystafelloedd swyddfa yng Nghanol y Ddinas, yn debygol o gael eu hystyried yn fwy ffafriol.

5.61 Lle mae cynigion yn cynnwys colli ystafelloedd swyddfa, byddent ond yn cael eu caniatáu lle nad ydynt yn gwneud unrhyw niwed, ac y maent yn cydfynd yn dda gyda swyddogaeth yr ardal a'i phrif rôl fel swyddfa ac yn cyd-daro â pholisïau eraill y Cynllun. Gallai defnyddiau eraill gynnwys cyfleusterau gofal plant, hyfforddiant, addysg drydyddol, datblygiad preswyl, gwestai a hamdden masnachol.

EC5: DATBLYGU GWESTAI

Caniateir cynigion am ddatblygu gwestai:

i. **Yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae;**
ii. **Mewn lleoliadau addas ar gyfer cyfnewid eiddo preswyl neu fasnachol addas;**
iii. **Mewn lleoliadau eraill o fewn yr ardal ddinesig os nad oes angen cadw'r safle ar gyfer ei ddefnydd cyfredol neu ddynodedig, wedi'i asesu yn erbyn polisïau perthnasol y cynllun;**

Ar yr amod bod ystyriaethau graddfa, lleoliad, cynllun, amwynder a chludiant yn dderbyniol.

5.62 Mae'r Polisi'n ffafrio datblygiad gwesty mewn lleoliadau priodol o fewn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae.

5.63 Mae cyfnewid eiddo cyfredol yn westai neu'n lletai i westeion yn cyfrannu at yr ystod o letai sydd ar gael i dwristiaid ac ymwelwyr eraill i'r ddinas. Wrth asesu cynigion o'r fath, mae 'lleoliadau priodol' yn debygol o fod ar y prif ffyrdd i mewn i'r ddinas ac yn agos at ardaloedd twristiaid neu fusnes, ac mae 'eiddo priodol' yn debygol o fod yn dai mwy a swyddfeydd graddfa isel gwag, sy'n gallu ateb gofynion parcio. Yn nhermau'r eiddo arfaethedig a'i leoliad, bydd hi'n bwysig hefyd i ddiogelu amwynder ardaloedd preswyl. Bydd cynigion ar gyfer newid defnydd gwestai a gyfnewidwyd mewn ardaloedd preswyl i ddefnyddiau heblaw defnyddiau preswyl, neu ddefnyddiau eraill sy'n dderbyniol mewn ardal breswyl, yn cael eu gwrthod.

EC6: SAFLE CYFLOGAETH ANSTRATEGOL

Dyrennir tir ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud â'r brifysgol a defnyddiau datblygu yn Maindy Road, Cathays (3.3ha).

5.64 Ystyrir y safle anstrategol yma'n dderbyniol ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig â'r brifysgol o ystyried ei agosrwydd at gampws presennol Prifysgol Caerdydd. Mae dialog gyda'r Brifysgol wedi dangos manteision gwaith ymchwil a datblygiad sy'n gysylltiedig â'r brifysgol ar gyfer y safle yma, sy'n gallu helpu yn natblygiad tymor hir Prifysgol Caerdydd a sefydliadau academaidd eraill yn y ddinas ynghyd â manteision economaidd ehangach i'r rhanbarth.

5.65 Mae dyraniad y safle ar gyfer gwaith ymchwil a datblygiad y brifysgol yn cefnogi gweledigaeth ac amcanion economaidd y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ceisio hybu clystyrau o arbenigedd ymchwil a datblygiad. Mae hefyd yn cefnogi polisïau KP1 a KP9 sy'n hybu darpariaeth ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth newydd ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth. Mae'r safle'n uniongyrchol drws nesaf i Brifysgol bresennol Caerdydd mewn lleoliad hygyrch sy'n gostwng yr angen i deithio - rhan allweddol o ddatblygu cymunedau cynaliadwy. Bydd union natur y defnyddiau ymchwil a datblygiad yn amodol ar ragor o waith manwl.

EC7: CYNIGION AM GYFLOGAETH AR DIR NAD YW WEDI'I BENNU AR GYFER DEFNYDD CYFLOGAETH

Caniateir cynigion am ddefnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B) ar safleoedd heb eu dynodi ar yr amod:

i. **Na ellir rhoi lle yn rhesymol i'r cynnig ar dir cyflogaeth cyfredol ac, o ran swyddfeydd, yn yr Adran Fenter Ganolog (Polisi KP2) ac Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae (Polisi EC4);**

i. **Bod y safle o fewn ffiniau'r anheddiad ac nad oes dynodiad polisi penodol;**
ii. **Bod y defnydd yn gyfatebol â defnyddiau yn yr ardal oddi cwmpas; a**
iii. **Bod cysylltiad da rhwng y cynnig a'r rhwydwaith priffyrdd sylfaenol a'i fod yn hygyrch i ddulliau cynaliadwy o gludiant.**

5.66 Mae Polisi EC7 yn darparu arweiniad ar y ffordd y bydd y Cyngor yn penderfynu ceisiadau am ddatblygiad cyflogaeth ar safleoedd nad ydynt wedi eu pennu ar gyfer cyflogaeth, ac yn sicrhau bod dull dilyniannol tuag at ddewis safleoedd yn cael ei ddilyn, gan felly lywio dyraniadau cyflogaeth i'r lleoliadau mwyaf priodol yn gyson gyda pholisi cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru para. 10.29 a 10.2.11). Bwriad y polisi yma yw cefnogi'r economi drwy ganiatáu ar gyfer tyfiant economaidd yn y dyfodol sy'n cynnal ac yn darparu cyfleoedd i weithio yng Nghaerdydd a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymateb i ansicrwydd economaidd ac yn cyflawni'r anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt yn y Cynllun Datblygu Lleol.

5.67 Ni all yr Awdurdod Cynllunio Lleol ragweld yn llawn yr holl ofynion busnes a gweithredwyr posibl dros gyfnod y Cynllun. Felly, mae'n bwysig bod y fframwaith polisïau'n caniatáu elfen o hyblygrwydd er mwyn galluogi i fusnesau ganfod lleoliad o fewn y Sir.

3. YR AMGYLCHEDD

Diogelu Cefn Gwlad

EN1: DIOGELU CEFN GWLAD

Ni chaniateir datblygiad yng nghefn gwlad, y tu hwnt i'r ffiniau anheddiad a bennir ar y Map Cynigion, heblaw lle mae'r defnydd yn briodol yng nghefn gwlad, yn parchu cymeriad y tirlun ac ansawdd a bioamrywiaeth y safle a'r ardal oddi cwmpas a lle mae ei raddfa a'i gynllun yn briodol. Bydd angen gwneud asesiad o'r tirlunio a chynllun tirlunio ar gyfer cynigion datblygu sylweddol. Ni fydd cynigion ar gyfer tai newydd, arallgyfeirio gwledig a menter wledig, ond yn cael eu caniatáu lle maent yn cydymffurfio gyda'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

5.68 Mae'r gefnwlad yng Nghaerdydd yn dir y tu allan i ffiniau'r anheddiad fel y maent wedi'u pennnu ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol. Mae cefn gwlad Caerdydd yn adnodd gwerthfawr a gorffenedig sydd o dan bwysau gan bob math o ddatblygiadau. Nod y Polisi yma yw sicrhau bod datblygiad yng nghefn gwlad wedi'i reoli'n dynn i amddiffyn a gwella ymddangosiad a threftadaeth naturiol Caerdydd. Mae'n ceisio ymhellach i reoli a gwella'r ased cyfoethog yma er mwyn cynnal elfennau unigryw nodedig Caerdydd gan helpu hefyd i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac mae hefyd yn amcannu i sicrhau bod y defnyddiau hynny nad oes angen eu lleoli yng nghefn gwlad yn cael eu hatal.

5.69 Dylid ei ddarllen mewn cydweithrediad â Pholisi KP3A a KP3B ac mae'n amcannu i sicrhau bod y defnyddiau hynny nad ydynt angen cael eu lleoli yng nghefn gwlad yn cael eu hatal. Er bod KP3A yn darparu rheoliad tynn yn yr ardal Lletem Las am y rhesymau a roddir, mae'r polisi yma'n darparu rhagor o arweiniad ar ddefnyddiau sy'n briodol yn y gefnwlad cyfan.

5.70 Er bod ffermio a choedwigaeth yn cynnwys rhan gweddol fach o economi Caerdydd, mae hyfywedd economaidd y gefnwlad o amgylch Caerdydd yn parhau'n hanfodol, gydag amaethyddiaeth a choedwigaeth yn chwarae rôl bwysig yn rheolaeth a chadwraeth cefn gwlad. Felly, bydd y Cyngor yn mabwysiadu agwedd bositif tuag at gefnogi'r economi gwledig. Asesir yn erbyn cynigion datblygu sy'n ymwneud ag arallgyfeirio gwledig a menter (Polisi Cynllunio Cymru 2014) a TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Dylai cynlluniau arallgyfeirio ffermydd barhau'n gysylltiedig at fusnesau fferm cyfredol ac efallai'n amodol ar oblygiadau cynllunio yn unol â TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010 Para 3.7) a Pholisi KP7.

5.71 Mae'r ffaith ei fod yn agos iawn at boblogaeth ddinesig fawr yn creu pwysau o bob math i gefn gwlad Caerdydd, yn cynnwys hamdden awyr agored. Er ei bod hi'n bwysig i bwrpasau hamdden lleol a thwristiaeth gael eu derbyn, mae'n hanfodol sicrhau nad yw'r un o'r ddau ddefnydd yma, ac unrhyw ddatblygiad adeiledig sy'n gysylltiedig â nhw, yn achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ansawdd cefn gwlad. Efallai y bydd datblygiad graddfa fechan, effaith isel sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sydd angen eu lleoli yng nghefn gwlad, neu annog mynediad at fwynhau cefn gwlad, yn dderbyniol yn amodol ar y profion sydd i'w cael mewn arweiniad cenedlaethol.

5.72 Mae angen caniatâd cynllunio fel arfer ar gyfer defnyddio tir lle cedwir ceffylau ac ar gyfer gweithgareddau marchogol, heblaw eu bod yn cael eu cadw fel da byw neu os bydd y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pori. Mae llawer iawn o bobl yn cadw ceffylau yng Nghaerdydd, felly mae'r tir hwnnw a ddefnyddir ar gyfer pori, hamdden a datblygiad cysylltiedig megis cadw mewn stablau, cartrefi ceffylau, ffensio, goleuadau a pharcio ceir yn cael effaith sylweddol yn barod ar gymeriad cefn gwlad Caerdydd. Er bod pobl yn derbyn mai dim ond yng nghefn gwlad y gellir cael lleoedd fel hyn i geffylau, nid yw pob lleoliad yng nghefn gwlad yn addas o anghenraid. Bydd effaith gyffredinol cynigion o'r fath yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf sydd mewn canllawiau cenedlaethol.

5.73 Yn ogystal cafwyd cynnydd yn y nifer o geisiadau am gynelau a chathdai. Bydd unrhyw geisiadau am osod cynelau a chathdai y tu allan i gwrtil annedd h.y. mewn cae ar wahân neu badog, yn atebol i'r profion sydd yn y canllawiau cenedlaethol.

5.74 Mae pwysau parhaus ar gefn gwlad yn nhermau datblygiadau preswyl; ond mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi pennu digon o dir i ateb yr angen a ragwelir am ddatblygiad preswyl dros gyfnod y Cynllun. Felly, ni fydd datblygiad preswyl newydd yn cael ei ganiatáu yng nghefn gwlad fel arfer heblaw ei fod wedi'i gyfiawnhau i bwrpasau amaethyddol neu goedwigaeth neu fentrau gwledig eraill. Yn y sefyllfaoedd yma, dylai ymgeiswyr gyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru, 2014 a TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (paragraff 4.3 – 4.4).

5.75 Dylid dylunio a lleoli unrhyw ddatblygiad newydd yng nghefn gwlad i beidio cael effaith ormodol, o fewn clystyrau cyfredol o adeiladau neu ffermydd a/neu yn agos at seilwaith cyfredol a chludiant cyhoeddus. Gall defnyddio lle awyr agored sy'n gysylltiedig â datblygiad, yn cynnwys tirlunio caled a meddal, dulliau mynediad, parcio ceir a thrin ffiniau oll gael effaith niweidiol sylweddol ar gymeriad ac ansawdd cefn gwlad a bydd felly wedi'i reoli'n dynn.

5.76 Efallai y bydd angen gwybodaeth ategol gyda cheisiadau cynllunio yn esbonio sut mae'r cynnig wedi ystyried ac ymateb i feini prawf sydd wedi'u hamlinellu yn y Polisi. Lle bo'n berthnasol, dylid cyflwyno gwybodaeth hefyd i ddangos sut

mae'r cynigion yn ymateb i Ganllawiau Cenedlaethol, yn cynnwys TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Lle bo'n briodol, dylai'r wybodaeth yma hefyd esbonio'r rhesymau am leoli'r datblygiad yng nghefn gwlad. Bydd disgwyl i gynigion datblygu sylweddol yng nghefn gwlad gynnwys asesiad tirlun a chynllun tirlunio yn unol â Pholisi EN3.

EN2: CYFNEWID, YMESTYN AC ADNEWYDDU ADEILADAU YNG NGHEFN GWLAD

Bydd rhagfarn yn erbyn cyfnewid, estyniad ac adnewyddu adeiladau yng nghefn gwlad Caerdydd heblaw lle:

a. Dangosir bod y cyfnewid arfaethedig yn:

i. **Gadarn ei strwythur ac yn gallu cael ei wneud yn gadarn heb addasiadau mawr, ail adeiladu neu estyniadau;**
ii. **Mae'n bosibl heb newid cymeriad presennol yr adeilad yn faterol neu gael effaith niweidiol ar gefn gwlad;**
iii. **Nad yw'n achosi galw am adeiladau ychwanegol; ac**
iv. **Mae'n addas ar gyfer yr ail ddefnydd arfaethedig.**

b. Dangosir bod yr estyniad arfaethedig:

i. **Yn is-ran o'r adeilad presennol; ac**
ii. **Yn parchu maint, cymeriad a chynllun rhan wreiddiol yr adeilad o fewn ei leoliad yn y tirlun ac yng nghefn gwlad.**

c. Dangosir bod yr adeilad amnewidiol newydd arfaethedig:

i. **Ddim yn achosi unrhyw effaith fwy ar ansawdd a chymeriad yr ardal o'i amgylch yn nhermau ei faint a'i gynllun tebygol, yn cynnwys unrhyw gwrtil preswyl;**
ii. **Ar ôl-troed yr adeilad presennol heblaw bod modd cyfiawnhau ad-leoliad am ei fod naill ai'n rhan o grŵp cyfredol neu'n gwella'r darn o dirlun neu gefn gwlad; a**
iii. **Ddim yn cymryd lle unrhyw adeilad o deilyngdod pensaernïol hanesyddol neu weledol.**

Dylai'r holl gynigion fod o raddfa a chynllun priodol a bod o leiaf mor sympathetig yn ei leoliad â'r adeilad presennol.

5.77 Nod y Polisi yma yw sicrhau bod cyfnewidiadau, estyniadau ac amnewid adeiladau yng nghefn ngwlad yn cadw cymeriad ac ansawdd cefn gwlad Caerdydd a'i werth treftadaeth naturiol, heb fod yn rhy gyfyngedig.

5.78 Mae'r Polisi'n cyfrannu at amcanion y Cynllun sy'n cefnogi ail ddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig cyfredol i helpu i gwrdd ag anghenion datblygiad masnachol a diwydiannol, yn ogystal ag i dwristiaeth, chwaraeon a hamdden. Dylid gwneud cyfeiriad hefyd at KP3A mewn perthynas ag ystyriaeth o gynigion yn yr ardal Lletem Las.

5.79 Mae graddfa a chynllun rhai adeiladau unigol yn cael effaith niweidiol yn barod ar gymeriad ac ansawdd cefn gwlad Caerdydd. Er bod adeiladau amnewidiol, cyfnewidiadau ac estyniadau graddfa fechan yn dderbyniol o bosib, bydd rheolaeth dynn ar bob datblygiad yng nghefn gwlad er mwyn atal niwed annerbyniol. Lle rhoddir caniatadau, gellir diddymu hawliau datblygiad a ganiateir hefyd.

5.80 Mewn perthynas â chyfnewidiadau, cydnabyddir bod nifer o adeiladau wedi mynd yn adfeilion, ac yn dal i wneud hynny, gan olygu eu bod yn mynd yn anaddas ar gyfer eu pwrpas gwreiddiol. Er y gallai ail ddefnyddio ac addasu adeiladau o'r fath atal stoc adeiladu cyfredol rhag cael eu gwastraffu, mae angen cael cydbwysedd i amddiffyn cymeriad ac ansawdd cefn gwlad. Fodd bynnag, ni fydd cynigion ar gyfer cyfnewid adeiladau gwledig ond yn cael eu caniatáu lle maent yn cydymffurfio â'r meini prawf sydd wedi'u nodi uchod a pholisïau perthnasol eraill y Cynllun. Yn ogystal â hynny, ni ddylai unrhyw fynedfa, llawr caled, triniaeth i ffiniau, tirlunio neu nodweddion allanol eraill sy'n gysylltiedig â'r cynigion achosi colli unrhyw gaeau neu gael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal oddi amgylch.

5.81 O ran cyfnewidiadau preswyl arfaethedig, dylai'r ymgeisydd ddangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau ail ddefnydd busnes addas a bod y cais wedi'i gefnogi gan ddatganiad am yr ymdrechion y maent wedi'u gwneud. Ni fydd creu gerddi newydd ac estyniadau i erddi'n cael eu hystyried yn addas fel arfer oherwydd eu heffaith niweidiol cronnol ac unigol ar ansawdd a chymeriad cefn gwlad a thirlun.

5.82 Bydd estyniadau i adeiladau presennol wedi eu rheoli'n dynn hefyd i gyfyngu ar eu heffaith unigol a chronnol. Dylai cynigion am estyniadau sicrhau mai'r adeilad cyfredol sy'n ddominyddol o hyd. O ran adeiladau sydd wedi cael estyniadau blaenorol, dylai'r cynigion ystyried graddfa a chymeriad rhan gwreiddiol yr adeilad. Bydd y duedd i geisio estyniadau dilynol i adeiladau unigol yn cael eu gwrthwynebu.

5.83 Ni fydd dymchwel ac adnewyddu adeiladau ond yn cael eu caniatáu fel arfer ar ôl-troed adeiladau cyfredol neu os cânt eu symud i rywle arall ar y safle lle nad yw eu maint a'u cynllun, yn cynnwys eu cwrtil preswyl, yn effeithio'n fwy ar ansawdd a chymeriad yr ardal. Bydd adnewyddiad adeiladau nad ydynt yn rhai

preswyl gydag anheddau'n cael eu gwrthwynebu. Yn gyffredinol, mae ailddefnyddio neu addasu adeiladau cyfredol y cael ei ffafrio fel arfer yn lle datblygiad newydd.

Yr Amgylchedd Naturiol

EN3: AMDDIFFYN Y TIRLUN

Ni fydd datblygiad yn cael ei ganiatáu a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ansawdd y tirlun ac ymddangosiad y ddinas.

Bydd blaenoriaeth arbennig i ddiogelu, rheoli a gwella cymeriad ac ansawdd yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a ganlyn:

i. **Iseldir Sain Ffagan a Dyffryn Elái;**
ii. **Garth Hill a Chefnennau Pentyrch;**
iii. **Fforest Fawr a Chefnen Caerffili;**
iv. **Gwastadeddau Wentloog; a**
v. **Flat Holm.**

Bydd angen cynllun tirlunio ac asesiad o'r tirlun ar gyfer cynigion datblygu sylweddol.

5.84 Nod y Polisi yma yw sicrhau bod y nodweddion hynny yn y tirlun sy'n cyfrannu at ei gymeriad, gwerth, elfennau nodedig, naws o le, ac ansawdd, gyda blaenoriaeth arbennig i Ardaloedd Tirwedd Arbennig (fel y gwelir ar y Map Cynigion) yn cael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol. Mae'n ceisio rheoli a gwella'r ased cyfoethog yma er mwyn cynnal amlygrwydd unigryw Caerdydd gan helpu hefyd i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

5.85 Mae'r Polisi yma'n berthnasol i'r sir gyfan, gan gydnabod bod yr ardal ddinesig hefyd yn cynnwys nodweddion o bwysigrwydd i'r tirlun. Wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio sy'n effeithio ar dirlun Caerdydd, bydd niwed annerbyniol yn cael ei asesu mewn perthynas â hyn:

- Effaith y datblygiad arfaethedig ar nodweddion allweddol y tirlun yn nhermau cymeriad ffisegol, llystyfiant a chynefinoedd, defnydd tir a phatrymau anheddiad, cymeriad gweledol, cymeriad hanesyddol a chysylltiadau diwylliannol;
- Yr angen am y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â'i effaith;
- Argaeledd lleoliadau amgen; a
- Y gallu i ddarparu mesurau lliniaru priodol.

5.86 Lle bo'n bosibl, bydd disgwyl i ddatblygiad gynnal a chryfhau nodweddion positif y tirlun a cheisio lliniaru neu dynnu, yn hytrach na gwaethygu, dylanwadau negyddol. Dylid cyfeirio hefyd at y KP3A mewn perthynas ag ystyriaeth o'r cynigion yn yr ardal Lletem Las.

5.87 Dylai graddfa, lleoliad a chynllun cynigion datblygiad barchu eu cyd-destun yn y tirlun. Lle mae datblygiad graddfa fawr yn cael ei gynnig, neu lle gallai datblygiad effeithio'n sylweddol ar gymeriad y tirlun neu nodweddion allweddol ardal, dylid cyflwyno asesiad o'r tirlun gyda'r cais cynllunio a, lle bo'n briodol, gynllun tirlunio.

5.88 Lle mae angen asesiadau o'r tirlun neu lle mae cynlluniau tirlunio yn ofynnol dylent nodi effaith y datblygiad ar nodweddion allweddol cymeriad a nodweddion y tirlun a dylent esbonio sut mae'r ateb cynllunio arfaethedig yn ymdrin â'i nodweddion positif a negyddol ac effeithiau dylanwad gweledol a thirlun cysylltiedig, yn cynnwys effeithiau cronnol, lle bo'n briodol. Dylai asesiadau a chynlluniau gynnwys gwybodaeth gwaelodlin y tirlun o bob un o'r 5 gosodwr LANDMAP (Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar http://landmap.ccw.gov.uk/map/Map.aspx) a dylai ganolbwyntio ar yr ardaloedd wynebwedd perthnasol, eu disgrifiadau,a gwerthusiadau. Dylai atebion dylunio ddangos yn glir sut mae'r asesiad tirlun strategol a gwerthusiad safle wedi hysbysu'r cynllun manwl a lleoliad y cynigion plannu a datblygiad. Dylai cynlluniau gael eu gweithredu'n gyffredinol cyn i'r safle cyfan neu ran o'r safle ddod i ddefnydd buddiol. Hefyd anogir rheoli nodweddion pwysig o'r tirlun.

5.89 Cafodd Ymgynghorwyr TACP eu penodi gan y Cyngor ym mis Medi 2007 i wneud adolygiad o'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (SLA) arfaethedig presennol ac Ardaloedd o Dirlun gyda Chymeriad (LCA) a ddiffiniwyd yn flaenorol fel Ardaloedd Wynebwedd Cyfun, wedi eu seilio ar yr Astudiaeth Tirlun o Gaerdydd a wneir gan Atlantic Consultants, gan ddefnyddio'r fethodoleg LANDMAP a ddatblygwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn ogystal, roedd ffin arfaethedig Iseldir Sain Ffagan a Dyffryn Elái wedi cymryd i ystyriaeth y gwaith manwl a wnaed gan Wardell Armstrong yn 2006.

5.90 Defnyddiodd adolygiadau 2008 system fethodoleg wybodaeth LANDMAP wedi'i diweddaru a sefydlwyd yn 2003 ac fel y cydnabuwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Un o allbynnau allweddol yr ymarfer hwn oedd paratoi cyngor atodol am Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cynnwys tystiolaeth sy'n bodloni detholiad a maint yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig gyda disgrifiad o nodweddion tirlun allweddol ac ystyriaeth o bum haen topig agwedd arwahanol: tirluniau daearegol, cynefinoedd tirlun, tirluniau gweledol a synhwyraidd, tirluniau hanesyddol a thirluniau diwylliannol wedi'u seilio ar gyfres meini prawf i Gymru gyfan.

5.91 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi eu dynodi i amddiffyn ardaloedd a ystyrir yn bwysig i dirlun cyffredinol y Sir oherwydd eu tirluniau cynefinoedd hanesyddol, diwylliannol, daearegol, synhwyraidd a gweledol. Maent yn sylfaenol i gymeriad cyffredinol yr ardal ac yn darparu hanes byw o esblygiad tirlun yr ardal yn ogystal â chefnlun diwylliannol a gosodiad gweledol.

5.92 Bydd cynigion datblygiad yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf â'r rheiny sydd wedi'u nodi uchod. Fodd bynnag, rhoddir mwy o bwysau ar ystyriaeth o'r tirlun o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac ar gymeriad ac ansawdd arbennig yr ardal benodol. Bydd cynigion am ddatblygiad yn ofynnol hefyd i ymdrin ag unrhyw faterion allweddol perthnasol sydd wedi'u nodi yn yr Adolygiad o Ardaloedd Tirlun Arbennig ac Ardaloedd Tirlun o Gymeriad. Yn ogystal, mae asesiadau a chynlluniau tirlun yn fwy tebygol o fod yn ofynnol i gydfynd â cheisiadau am ddatblygiad yn yr ardaloedd yma.

5.93 Er na fydd dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig yn rhwystro datblygiad derbyniol yng nghefn gwlad, bydd rhagdybiaeth yn erbyn ehangiad dinesig neu ddatblygiad arall o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ansawdd.

5.94 Mae chwareli er enghraifft wedi'u cynnwys mewn dynodiadau arfaethedig am eu bod yn adlewyrchu'r ddaeareg danategol yn ogystal â hanes cloddio o fewn yr ardal ac yn ffurfio elfen nodedig o'r ardaloedd, ond mae anheddiadau sy'n gorwedd o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi cael eu heithrio o'r dynodiadau arfaethedig. Bydd angen i gynigion datblygiad o fewn yr anheddiadau yma, neu'n agos at Ardal Tirwedd Arbennig, yn cynnwys dyraniadau, ystyried eu heffaith bosibl ar gymeriad ac ansawdd yr Ardal Tirwedd Arbennig.

EN4: CORIDORAU AFONYDD

Bydd treftadaeth naturiol, cymeriad a nodweddion allweddol eraill o goridorau afonydd Caerdydd yn cael eu hamddiffyn, eu hybu a'u gwella, ynghyd â hyrwyddo ail greu a mynediad cynaliadwy.

5.95 Mae'r Polisi'n darparu fframwaith cynllunio lle gall y Cyngor amddiffyn, hybu a gwella'r coridorau afonydd.

5.96 Bydd yn cael ei ddefnyddio fel mecanwaith i weithredu amcanion y Cyngor mewn perthynas â'r coridorau afonydd. Mae'r Polisi'n helpu i ddarparu amcanion y Cynllun mewn perthynas ag anghenion cymdeithasol a'r amgylchedd naturiol ynghyd â chyfateb gyda Pholisi Cynllunio Cymru (Para 5.1, 5.4 a 5.5) sy'n

gwerthfawrogi pwysigrwydd treftadaeth naturiol Cymru, yn cynnwys safleoedd wedi'u dynodi'n anstatudol, ac yn ceisio cadw a gwella'r dreftadaeth yma mewn ffyrdd sy'n dod â manteision i'r Gymuned Leol.

5.97 Mae Caerdydd yn cynnwys pedwar coridor yr afonydd Taf, Elái, Rhymni a Nant Fawr. Maent yn gwneud cyfraniad unigryw i gymeriad a ffurf y ddinas gan ddarparu coridorau gwyrdd parhaus rhwng Aber yr Afon Hafren a'r cefn gwlad y tu hwnt i'r ymyl ddinesig. Mae gan y cyrsiau dŵr a'r mannau agored cyfagos werth uchel o ran eu tirlun, diwylliant, hanes, bioamrywiaeth a hamdden. Yn ogystal, maent yn agos at gymunedau lleol ac maent yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer llwybrau mynediad oddi ar y ffordd sy'n gallu darparu rhan o'r llwybrau hamdden strategol ehangach a'r rhwydwaith pob dydd o lwybrau.

5.98 Nod y Polisi yma yw amddiffyn a gwella nodweddion coridorau afonydd Caerdydd, gan hefyd hwyluso mynediad cynaliadwy a chyfleoedd hamdden.

5.99 Mae maint coridorau afonydd Caerdydd o fewn yr ardal ddinesig i'w gweld ar y Map Cynigion. Maent yn cynnwys yr afonydd ynghyd â mannau agored cyfagos a thir sy'n agored gan fwyaf sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r coridor strategol bwysig o fannau agored cymysg sy'n rhedeg drwy galon yr ardal ddinesig. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i'r coridorau afonydd y tu allan i'r ardal ddinesig (fel y maent wedi'u diffinio gan ffiniau'r anheddiad). Mae tir o'r fath wedi'i ddiogelu rhag datblygiad amhriodol drwy Bolisïau eraill. Ond bydd y Polisi yma'n berthnasol hefyd ac yn amcannu i sicrhau bod y rôl strategol a chwaraeir gan y coridorau afonydd yn parhau o'r ardal ddinesig, drwy'r gefnwlad oddi amgylch, hyd at ffin y Sir. I'r perwyl hwn, fe'i ystyrir yn amhriodol i ddynodi ffin fympwyol i goridor afon tybiannol sy'n rhedeg drwy dir fferm. Bydd unrhyw gynigion yn cael eu hasesu i sicrhau bod amcanion y Polisi yma'n cael eu cyflawni ac heb gael eu niweidio.

5.100 Mae'r Polisi yma'n darparu fframwaith cynllunio lle gall y Cyngor amddiffyn, hybu a gwella coridorau afonydd. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel mecanwaith i weithredu amcanion y Cyngor mewn perthynas â'r coridorau afon a bydd yn cael ei ddefnyddio mewn cydweithrediad â'r Fenter Dyffrynnoedd Afonydd a sefydlwyd yn 2004/05 er mwyn datblygu dull mwy cyfunedig o ymdrin â chynllunio a rheoli dyffrynnoedd afonydd Caerdydd. Mae'r Fenter Dyffrynnoedd Afonydd yn dod ag amrediad eang o sefydliadau ynghyd sydd â rolau i'w gwneud o fewn y dyffrynnoedd afon. Un o brif ganlyniadau'r broses hon hyd yn hyn yw cytundeb i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer pob un o'r tri phrif ddyffryn afon. Mae Cynlluniau Gweithredu wedi cael eu paratoi ac yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu mewn partneriaeth ag amrediad eang o sefydliadau, sy'n cael eu goruchwylio gan grŵp llywio. Mae Cynlluniau Gweithredu Coridorau Afonydd ar gyfer Dyffryn Elái, Coridor Taf a Chwm Rhymni a Choridor Nant Fawr. Gwneir y prosiectau sy'n gweithredu'r amcanion a nodir yn y Cynlluniau Gweithredu, a Strategaeth Cefn Gwlad Caerdydd gan amrywiaeth o sefydliadau, yn unigol ac

mewn partneriaeth gan ddefnyddio arian o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys y rhaglen partneriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, goblygiadau cynllunio a chyllido eraill Cyngor Caerdydd.

5.101 Bydd cynigion ar gyfer datblygiad o fewn y coridorau afon yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. Gallai datblygiad newydd o fewn neu gerllaw'r coridorau afon fod yn ofynnol i gyfrannu at brosiectau sy'n helpu i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynlluniau Gweithredu'r Coridorau Afonydd. Lle bo'n briodol, efallai y bydd gofyn cael goblygiadau cynllunio yn unol â Pholisïau sy'n ymwneud â darpariaeth y seilwaith newydd.

5.102 Bydd cynnydd ar gyflawni'r Polisi yma'n cael ei fonitro drwy'r broses Cynlluniau Gweithredu Dyffrynnoedd Afonydd a allai, yn ei thro, hysbysu gwaith monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ehangach.

EN5: SAFLEOEDD DYNODEDIG

Ni fydd datblygiad yn cael ei ganiatáu a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur cenedlaethol neu ryngwladol.

Dylai'r cynigion datblygiad a fyddai'n effeithio ar safleoedd dynodedig lleol o gadwraeth natur a phwysigrwydd daearegol gynnal neu wella'r cadwraeth natur a/neu bwysigrwydd daearegol y dynodiad. Lle nad yw hyn yn wir ac mae'r angen am ddatblygiad yn bwysicach na ffactorau cadwraeth y safle, dylid dangos nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer datblygu sy'n osgoi effeithiau ar gadwraeth natur a mesurau cydadferiad sydd wedi'u llunio i sicrhau nad oes gostyngiad yn natur gyffredinol gwerth cadwraeth yr ardal neu'r nodwedd.

5.103 Pwrpas y Polisi yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei oblygiadau mewn perthynas â diogelu safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur rhag datblygiad niweidiol.

5.104 Lle cynigir datblygiad a allai gael effaith ar safle o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer cadwraeth natur, bydd angen digon o wybodaeth gan yr holl ymgeiswyr i alluogi gwneud asesiad llawn o'r cynigiad. Ni fydd yr angen am asesiadau o'r fath wedi'i gyfyngu i ddatblygiad sydd wedi'i leoli o fewn yr ardaloedd dynodedig oherwydd, yn dibynnu ar natur y datblygiad a'r diddordeb cadwraeth natur, gallai effeithiau arwyddocaol ddigwydd hyd yn oed os yw'r datblygiad bellter i ffwrdd.

5.105 Bydd asesiad o niwed annerbyniol yn unol â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer cadwraeth natur, ac y mae ehangiad arno ym Mhennod 5 Polisi Cynllunio Cymru (2012) ac Adrannau 5.3, 5.4 ac Atodiad 3 y Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009).

5.106 O ran y datblygiadau y mae'n rhaid eu hasesu o dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fe y'u diwygiwyd), lle mae penderfyniad cychwynnol o arwyddocâd tebygol wedi dangos y gallai'r cynnig gael effaith sylweddol, neu lle na ellir ateb yn bendant a fyddai'r datblygiad yn cael effaith sylweddol neu beidio ar y safle dynodedig, bydd gofyn gwneud asesiad priodol o dan Reoliad 61(1) ac efallai y byddai angen rhagor o wybodaeth gan yr ymgeisydd neu bartïon eraill.

5.107 Lle mae'n debygol y gallai cynigion datblygiad achosi amhariad neu niwed i rywogaeth a ddiogelir yn y Deyrnas Unedig neu yn Ewrop, neu ei gynefin, gofynnir i ymgeiswyr am ragor o wybodaeth.

5.108 Os rhoddir caniatâd cynllunio gallai fod yn atebol i amodau priodol neu gytundebau rheoli neu oblygiadau cynllunio i sicrhau amddiffyniad priodol, monitro, lliniaru neu gydadferiad a rheoli ffafriol.

5.109 Nid yw'r rhwydwaith o SoDdGAs/Ardaloedd Cadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd Ramsar ar ei ben ei hun yn ddigonol i gynnal bioamrywiaeth Caerdydd. Felly mae'n bwysig pennu safleoedd bywyd gwyllt eraill a ddynodir yn lleol megis Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a Gwarchodfeydd Natur Lleol. Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd 177 Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a 6 Gwarchodfa Natur Lleol.

5.110 Gallai safleoedd o bwysigrwydd daearegol a geomorffaidd nad ydynt yn haeddu dynodiad yn SoDdGA gael eu dynodi hefyd yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur neu Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol. Mae safleoedd o'r fath yn diffinio'r mannau pwysicaf o ran daeareg a geomorffoleg y tu hwnt i'r rheiny sydd wedi'u hamddiffyn yn statudol. Bydd safleoedd daearegol yng Nghaerdydd yn cael eu dynodi yn ystod cyfnod y Cynllun. Nod y Polisi yma yw amddiffyn y Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol y cyfeirir atynt uchod.

5.111 Bydd y Polisi'n cyfrannu at amddiffyniad a gwellhad diddordebau Bioamrywiaeth yn unol â Pholisi EN6 a bydd yn gweithio tuag at ddarparu amcanion y Cynllun o amddiffyn a gwella nodweddion treftadaeth ac amgylchedd naturiol Caerdydd.

5.112 Mae Pennod 5 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 5 yn darparu arweiniad ar bolisïau cynllunio i amddiffyn buddiannau bioamrywiaeth. Yn unol â'r arweiniad yma, bydd y Cyngor yn asesu cynigion yn ofalus ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar safleoedd a ddynodir yn rhai lleol a rhai anstatudol drwy werthuso:

- a yw'r angen am y datblygiad arfaethedig yn bwysicach na'r diddordeb cadwraeth natur penodol ac unrhyw niwed sy'n debygol o gael ei achosi iddo;
- a ellir rhoi lle mwy boddhaol yn rhywle arall i'r datblygiad arfaethedig; a
- a gynigir mesurau lliniaru neu gydadferiad priodol.

5.113 Lle cynigir datblygiad a allai gael effaith ar safle dynodedig lleol neu anstatudol, bydd gofyn cael gwybodaeth ddigonol gan yr holl ymgeiswyr i alluogi gwneud asesiad llawn o'r cynigion. Ni fydd yr angen am asesiadau o'r fath wedi ei gyfyngu i ddatblygiad sydd wedi'i leoli o fewn yr ardaloedd dynodedig oherwydd, yn dibynnu ar natur y datblygiad a natur y diddordeb cadwraeth, gallai effeithiau sylweddol ddigwydd hyd yn oed os yw'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli bellter o'r ardal gadwraeth. Bydd angen gwneud yr asesiadau gofynnol, yn cynnwys arolygon ecolegol, ar yr amser priodol o'r flwyddyn. Bydd rhagor o arweiniad ar gael yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth.

5.114 Lle rhoddir caniatâd cynllunio, gallai fod yn atebol i gytundebau rheoli neu amodau priodol i sicrhau diogelu, monitro, lliniaru neu gydadfer addas a rheoli ffafriol. Lle mae darparu cydadferol yn ofynnol, dylai fod o'r un safon a maint â hwnnw a gollwyd o ganlyniad i'r datblygiad. Mewn achosion o'r fath, bydd manylion y math a'r lefel o ddarpariaeth wedi eu darparu, a'u cytuno gan y swyddog achos, cyn penderfynu'r cais cynllunio. Gallai hyn fod yn ofynnol ar gyfer ceisiadau cynllunio amlinellol lle bo'n briodol. Lle bo raid, gellir ceisio goblygiadau cynllunio yn unol â Pholisi KP7.

5.115 Bydd Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur wedi'u mesur yn unol â'r adolygiad blynyddol o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a bydd adroddiad amdanynt hefyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.

5.116 Mae'r Safleoedd Dynodedig sydd wedi'u pennu yn y Polisi yma wedi'u diffinio ar y Map Cyfyngiadau a'u rhestru yn Atodiad 7. (Dylid nodi bod yr wybodaeth yma'n gywir ar amser ei fabwysiadu, ond bod newidiadau potensial i ardaloedd dynodedig yn bosibl dros gyfnod y cynllun. Bydd y Cyngor yn cadw cofnod diweddar o ffiniau'r holl safleoedd dynodedig y gellir cael mynediad atynt drwy wefan y Cyngor.

EN6: RHWYDWEITHIAU ECOLEGOL A NODWEDDION O BWYSIGRWYDD AR GYFER BIOAMRYWIAETH

Ni fydd datblygiad ond yn cael ei ganiatáu os nad yw'n achosi niwed annerbyniol i:

i. **Nodweddion tirlun o bwysigrwydd ar gyfer fflora a ffawna gwyllt, yn cynnwys coridorau bywyd gwyllt a 'cherrig camu' sy'n galluogi lledaeniad a gweithredu'r rhywogaethau sydd â blaenoriaeth ac sydd wedi'u diogelu;**
ii. **Rhwydweithiau o bwysigrwydd i gadwraeth natur neu'r tirlun.**

Rhoddir blaenoriaeth arbennig i ddiogelu, chwyddo, cysylltedd a rheolaeth natur gyffredinol y cynefinoedd lled naturiol. Os nad yw hyn yn wir ac y mae'r angen am ddatblygiad yn bwysicach na chadwraeth natur y safle, dylid dangos nad oes lleoliad boddhaol amgen ar gyfer datblygiad a bydd y ddarpariaeth gydadferol o werth ecolegol gymaradwy i honno a gollir o ganlyniad i'r datblygiad.

5.117 Nod y Polisi yma yw amddiffyn nodweddion tirlun a rhwydweithiau ecolegol Caerdydd sy'n bwysig i'r fioamrywiaeth. Mae'n cyfateb â Pholisi KP16 drwy amddiffyn a gwella treftadaeth naturiol Caerdydd, yn cynnwys ei fioamrywiaeth. Mae'r Polisi hefyd yn cyfrannu at amcanion a nodau'r Cynllun drwy sicrhau bod bioamrywiaeth Caerdydd a'i doreth o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau brodorol yn cael eu hamddiffyn a'u gwella.

5.118 Yn aml iawn mae rhywogaethau gwyllt, p'un a ydynt wedi'u hamddiffyn yn gyfreithiol ai peidio, wedi eu gwasgaru'n eang yn y tirlun, gyda phoblogaethau sylweddol wedi eu gwahanu oddi wrth ei gilydd. Mewn achosion o'r fath, gallai nodweddion y tirlun ddarparu coridorau bywyd gwyllt i rai rhywogaethau, yn ogystal â chysylltiadau neu 'gerrig camu' rhwng cynefinoedd. Er ei bod hi'n hanfodol cynnal a gwella rhwydwaith o safleoedd i ddiogelu lefelau presennol o fioamrywiaeth, ni ellir cyflawni hyn heb ddiogelu a rheoli yr ardaloedd a'r cynefinoedd ac ardaloedd rhyngol hefyd.

5.119 Pennir amddiffyniad, rheolaeth a gwelliant rhwydweithiau ecolegol fel elfennau arbennig o bwysig yn Erthygl 10 Cyfeirlyfr Cynefinoedd yr UE. Mae Rheoliad 39(3) y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygwyd) yn gofyn bod awdurdodau cynllunio'n annog rheolaeth bositif ar nodweddion tirlun sy'n creu'r rhwydwaith yma ac maent yn bwysig i fflora a ffawna gwyllt. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu hefyd ym Mholisi Cynllunio Cymru am ei fod yn cynghori Cynlluniau Datblygu Lleol i ddiogelu a rheoli nodweddion tirlun o bwysigrwydd mawr i gadwraeth natur.

5.120 I bwrpasau'r Polisi yma, nodweddion y tirlun sydd o bwysigrwydd ar gyfer fflora a ffawna gwyllt yw'r rheiny, drwy rinwedd eu strwythur llinol a pharhaus (megis afonydd gyda'u glannau neu'r systemau traddodiadol o farcio ffiniau caeau) neu eu swyddogaeth fel cerrig camu (megis llynnoedd neu goedwigoedd bach), sy'n hanfodol ar gyfer mudo, lledaenu a chyfnewid yn enetig y rhywogaethau gwyllt.

5.121 Lle cynigir datblygiad a allai achosi niwed annerbyniol i rwydweithiau neu nodweddion o'r fath, bydd angen gwybodaeth gan bob ymgeisydd i alluogi asesiad llawn o'r cynnig sydd i gael ei wneud. Bydd angen gwneud asesiadau o'r fath, yn cynnwys arolygon ecolegol ar yr amser priodol o'r flwyddyn. Bydd arweiniad pellach ar gael yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth.

5.122 Os oes ystyriaethau cynllunio materol tra phwysig o blaid datblygiad, yna bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau mesurau rhesymol gan ddatblygwyr i leihau neu gydbwyso unrhyw effeithiau neu golli nodweddion cynefinoedd neu rywogaethau sy'n bresennol ar safle. Bydd mesurau o'r fath wedi'u cytuno cyn cychwyn datblygiad a bydd wedi'i sicrhau drwy amodau cynllunio priodol a/neu oblygiadau cynllunio. Bydd Goblygiadau Cynllunio wedi'u sicrhau yn unol â Pholisi KP7.

EN7: RHYWOGAETHAU A CHYNEFINOEDD GYDA BLAENORIAETH

Byddai cynigion datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar hyfywedd parhaus cynefinoedd a rhywogaethau sydd wedi'u hamddiffyn yn gyfreithiol neu sydd wedi'u pennu fel blaenoriaethau yn y Deyrnas Unedig neu Gynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth ond yn cael ei ganiatáu lle:

i. **Mae'r angen am ddatblygiad yn bwysicach na chadwraeth natur y safle;**
ii. **Mae'r datblygwr yn dangos nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer y datblygiad sy'n osgoi effeithiau cadwraeth natur; ac**
iii. **iv. Mae mesurau lliniaru effeithiol yn cael eu darparu gan y datblygwr.**

Lle nad oes modd osgoi niwed dylid ei leihau drwy fesurau lliniaru effeithiol i sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid darparu mesurau cydadferiad sydd wedi'u llunio i gadw, gwella, rheoli a, lle bo'n briodol, adfer rhywogaethau a chynefinoedd naturiol.

5.123 Mae'r Polisi yma'n cyfateb gyda nodau ac amcanion y Cynllun drwy amddiffyn a gwella nodweddion treftadaeth naturiol Caerdydd, yn cynnwys ei fioamrywiaeth a'i doreth o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau brodorol. Yn fwy penodol,

bydd yn helpu i amddiffyn y Cynefinoedd a Rhywogaethau sydd â Blaenoriaeth gyfredol fel y mae wedi'i diffinio yn y Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth 2008. Mae'r Polisi hefyd yn helpu i ddarparu Polisi KP16.

5.124 Mae presenoldeb rhywogaeth sydd wedi'i ddiogelu o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu Brydeinig yn ystyriaeth faterol wrth ystyried cynigion datblygiad a fyddai'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed i'r rhywogaeth neu ei gynefin. Mae arolygon addas i gadarnhau a oes rhywogaeth a amddiffynir yn bresennol ac felly efallai y bydd angen i ymgeiswyr wneud asesiad o effaith debygol y datblygiad ar rywogaeth a amddiffynir. Wedi hynny, bydd y cynigion datblygu wedi eu hasesu yn unol â meini prawf sydd wedi eu nodi yn adrannau 5.5.11 a 5.5.12 o Bolisi Cynllunio Cymru 2012 a Phennod 6 y Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009).

5.125 Bydd angen i gynigion datblygu sydd â'r potensial i achosi effaith niweidiol sylweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau sydd â blaenoriaeth gael arolwg ecolegol hefyd ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar y rhywogaethau a ddiogelir. Bydd yr angen am asesiadau o'r fath wedi'i wneud ar yr amser priodol o'r flwyddyn. Bydd rhagor o arweiniad ar gael yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth.

5.126 Wrth ystyried unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar y Cynefin neu Rywogaeth sydd â Blaenoriaeth, bydd y Cyngor yn edrych ar:

- Ddosbarthiad cyfredol a statws y cynefin neu rywogaeth sydd â blaenoriaeth yng Nghaerdydd fel y mae wedi'i hysbysu gan Gronfa Ddata Fiolegol Caerdydd yn ogystal â ffynonellau eraill o ddata a allai fod yn berthnasol, yn gywir ac yn ymarferol i'w ddefnyddio i bwrpasau o'r fath yn y dyfodol;
- P'un a yw'r cynigion am ddatblygiad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar gynefinoedd / rywogaethau sydd â blaenoriaeth; ac
- A yw mesurau lliniaru effeithiol wedi'u darparu.

5.127 Lle rhoddir caniatâd cynllunio, gallai'r Cyngor atodi amodau neu fynd i gytundebau a fyddai'n gorchfygu effeithiau niweidiol potensial datblygiad ar gynefinoedd neu rywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth. Bydd y Cyngor yn annog yr ymgeisydd i bennu a chynnwys mesurau sy'n cyfrannu at adferiad neu ehangiad cynefinoedd pwysig, a bydd y rhain wedi ei nodi yn yr amodau tirlunio a phlannu sy'n mynd gyda'r caniatâd cynllunio. Bydd angen i unrhyw oblygiadau cynllunio sy'n ofynnol fod yn unol â Pholisi KP7.

5.128 Lle mae effaith niweidiol sylweddol ar boblogaeth sylweddol y Rhywogaeth neu Gynefin sydd â Blaenoriaeth a lle mae amodau cynllunio a/neu oblygiadau cynllunio'n methu amddiffyn y budd yn ddigonol, efallai y byddai'n angenrheidiol gwrthod cynigion datblygu.

5.129 Mae Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth yn cael eu monitro yn rhan o adolygiad 3 blynyddol Cynlluniau Gweithredu Lleol a'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth.

EN8: COED, COEDWIGOEDD A GWRYCHOEDD

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i goed, coedwigoedd a gwrychoedd o amwynder cyhoeddus sylweddol, gwerth treftadaeth naturiol neu ddiwylliannol, neu sy'n cyfrannu'n sylweddol at leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

5.130 Pwrpas y Polisi yma yw amddiffyn coed, coedwigoedd a gwrychoedd gyda gwerth amwynder neu dreftadaeth naturiol.

5.131 Mae'n ymateb i amcanion y Cynllun yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol a newid yn yr hinsawdd ac yn cyfateb gyda Pholisi Cynllunio Cymru sy'n pwysleisio diogelwch a chadwraeth coed a choedwigoedd yn erbyn datblygiad amhriodol.

5.132 Mae coed, coedwigoedd a gwrychoedd yn cynnig nifer o fanteision, yn cynnwys amwynder gweledol, yn diffinio naws o le, gan ddarparu lleoedd ar gyfer ymlacio a hamdden, cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, gwell iechyd a lles a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. I gynnal y manteision hyn, mae amddiffyniad a gwelliant fforest ddinesig cynaliadwy'n hanfodol. Bydd fforest ddinesig gynaliadwy a addaswyd i gwrdd â heriau newid yn yr hinsawdd ac achosion o glefyd a phlâu egsotig yn cynnwys ystod oed amrywiol a mathau cymysg o goed, er y byddai coed mawr, sydd wedi byw'n hir yn cael eu ffafrio ar gyfer eu hamddiffyn a'u plannu oherwydd y buddion cynyddol y maent yn eu cynnig wrth leihau effaith newid yn yr hinsawdd.

5.133 i ganfod niwed annerbyniol i goed, coedwigoedd a gwrychoedd o fewn neu ar ffin safle, rhaid i ymgeiswyr eu hasesu yn unol â'r Safon Brydeinig 5837 gyfredol. Rhaid i'r asesiad hysbysu cynllun, ac wrth ystyried gwrychoedd, rhoddir ystyriaeth i'w tirlun, gwerth hanesyddol ac ecolegol, yn ogystal â'u swyddogaeth fel ffiniau. Bydd arweiniad a chyngor pellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â choed a datblygiad.

5.134 Bydd gwerth coed, coedwigoedd a gwrychoedd o ran cymryd carbon i mewn a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd wedi'i ganfod yn rhannol gan asesiad Safon Brydeinig 5837 ac yn rhannol gan ba mor effeithiol y maent wedi eu hintegreiddio i fforest ddinesig gynaliadwy fel y mae wedi'i ddiffinio ym mharagraff 5.83.

5.135 i atal niwed i goed, coedwigoedd a gwrychoedd yn ystod y datblygiad, bydd angen cynlluniau o amddiffyniad fel arfer, yn unol â'r Safon Brydeinig 5837 gyfredol.

5.136 Coed yw'r organebau mwyaf ac sy'n byw hiraf yng Nghaerdydd. Wrth ystyried datblygiadau a allai eu heffeithio nhw, rhoddir ystyriaeth i effeithiau tymor hir a thymor byr posibl. Lle mae coed yn cael eu colli, ceisir plannu rhai newydd gyda maint digonol o bridd defnyddiadwy a'u hawyru a'u dyfrio i sicrhau tyfiant iach tymor hir. Er bod modd gosod coed newydd yn lle coed iau, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod digon o goed ifanc yn goroesi hyd aeddfedrwydd, gan ystyried y nifer o ddatblygiadau a allai ddigwydd yn ystod eu bywyd naturiol. Bydd cynigion sy'n creu lleoedd i fathau o goed mwy dyfu hyd aeddfedrwydd yn cael eu ffafrio dros gynigion am goed llai wedi'u gwasgaru.

5.137 Mae coedwigoedd hynafol yn gynefinoedd na ellir eu hail greu o werth bioamrywiaeth uchel a fydd wedi ei amddiffyn rhag datblygiad ac a fyddai'n achosi niwed sylweddol. Ni ellir aildyfu coed brodorol a gwrychoedd hynafol a bydd disgwyl i ddatblygiadau eu cadw nhw. Lle bo'n briodol, gwasanaethir Gorchmynion Cadwraeth Coed i amddiffyn coed amwynder rhag niwed neu rhag cael eu dymchwel. Bydd gwerth amwynder coed wedi'i asesu yn unol ag arweiniad y llywodraeth a systemau a gydnabyddir yn genedlaethol o werthusiad amwynder.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

EN9: CADWRAETH YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

Ni chaniateir datblygiad sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'r asedau treftadaeth a restrir isod (neu eu lleoliadau) heblaw lle gellir dangos ei fod yn cynnal neu'n gwella cymeriad, amlygrwydd a/neu leoliad, arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol ac ansawdd pensaernïol yr ased hwnnw.

i. **Henebion Rhestredig**
ii. **Adeiladau Rhestredig a'u strwythurau cwrtil;**
iii. **Ardaloedd Cadwraeth;**
iv. **Ardaloedd Archeolegol Sensitif;**
v. **Tirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Rhestredig; neu**
vi. **Adeiladau Rhestredig Lleol o Deilyngdod a nodweddion hanesyddol eraill o ddiddordeb sy'n cyfrannu'n bositif i hynodrwydd y ddinas.**

5.138 Nod y Polisi yma yw gosod y meini prawf a ddefnyddir i asesu cynigion sy'n effeithio ar asedau treftadaeth Caerdydd. Mae'r asesiadau Treftadaeth a bennir yn y Polisi yma wedi'u diffinio ar y Map Cyfyngiadau ac yn Atodiad 6 ag eithrio Adeiladau Rhestredig Statudol ac Adeiladau Rhestredig Lleol o Deilyngdod y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor.

5.139 Dylid nodi, er bod yr wybodaeth yma'n gywir ar amser ei mabwysiadu, mae newidiadau posibl i ardaloedd dynodedig yn bosibl dros gyfnod y cynllun. Bydd y Cyngor yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o ffiniau'r holl safleoedd dynodedig y gellir cael gafael arno ar wefan y Cyngor.

5.140 Weithiau bydd treftadaeth adeiledig yn rhwystr, gyda'r angen am gadwraeth yn bwysicach na manteision y datblygiad. Yn amlach na hynny, bydd ased treftadaeth yn gyfle i gadw hunaniaeth leol drwy drwsio ac ailddefnyddio asedau hanesyddol a chryfhau hyn drwy barchu nodweddion lleol y dyluniad, i ddehongli asedau treftadaeth cudd, neu i wella'r amgylchedd naturiol nodweddiadol. Dylid cynllunio'r holl ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd hanesyddol yn y fath fodd fel eu bod yn cadw neu'n gwella eu cymeriad arbennig.

Henebion Rhestredig

5.141 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 3 Cynnal yr Amgylchedd Hanesyddol a Chylchlythyr Swyddfa Gymreig 60/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg (y bwriedir ei amnewid am Nodyn Cyngor Technegol o fewn cyfnod y cynllun) yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar gyfer gweddillion archeolegol a dylid cyfeirio ato'n unol â hynny.

Adeiladau Rhestredig

5.142 Unwaith mae adeilad wedi'i restru (neu'n atebol i Rybudd Cadwraeth Adeilad) ni cheir gwneud unrhyw waith i'r tu mewn neu'r tu allan i'r adeilad, nac i strwythurau o fewn ei gwrtil, a fyddai'n effeithio ar ddiddordeb hanesyddol neu archeolegol arbennig yr adeilad heb Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Gallai hyn gynnwys gwaith na fyddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer o dan ddarpariaethau'r Deddfau Cynllunio.

5.143 Mae rheolaeth adeiladau rhestredig yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae cyngor i'w gael yng Nghylchlythyr 61/96 (y bydd Nodyn Cyngor Technegol yn cymryd ei le o fewn cyfnod y cynllun). Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ystyried darpariaethau'r cynllun datblygiad wrth ystyried cais am ganiatâd adeiladu rhestredig. Argymhellir yn gryf, fodd bynnag, bod y perchnogion neu'r datblygwyr yn ceisio cyngor cynnar gan y Cyngor cyn gwneud unrhyw waith neu wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig.

5.144 Mae Polisi E9 yn arbennig o berthnasol yn achos datblygiad sy'n effeithio ar osodiad adeilad rhestredig neu wrth ystyried cais cynllunio cysylltiedig ar gyfer newid defnydd.

5.145 Nid oes angen caniatâd adeilad rhestredig os yw'r datblygiad y tu hwnt i gwrtil yr adeilad rhestredig ac ond yn effeithio ar ei leoliad. Ond, gellir gwneud niwed sylweddol i ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yr adeilad rhestredig os yw'r

datblygiad yn ansensitif o ran ei gynllun, ei faint neu ei safle. Mae gosodiad adeilad rhestredig yn aml yn nodwedd hanfodol o'i gymeriad. Gallai'r gosodiad fod wedi'i gyfyngu i'r tir sydd yn uniongyrchol o'i amgylch, ond gall ymestyn am bellter sylweddol. Gallai datblygiad arfaethedig effeithio ar erddi neu barcdir tŷ mawr, nodweddion gwledig tyddyn neu leoliad stryd adeilad dinesig sy'n elfen weledol bwysig ar y stryd honno. Mae Polisi EN9 yn gofyn bod cynigion datblygu'n rhoi ystyriaeth lawn i leoliad unrhyw adeilad rhestredig yn yr ardal a bod datblygwyr yn dangos na fydd y lleoliad yn cael ei niweidio.

5.146 Yn nhermau ceisiadau cynllunio cysylltiedig ar gyfer newid defnydd adeilad rhestredig, bydd y Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut y penderfynwyd ar eu cynigion yng nghyd-destun nod Polisi Cynllunio Cymru i bennu'r defnydd hyfyw gorau sy'n gyfatebol gyda chymeriad a lleoliad yr adeilad rhestredig.

Ardaloedd Cadwraeth

5.147 Mae'r gyfres fabwysiedig o ddogfennau Gwerthusiad Ardal Cadwraeth (CAA) yn ceisio darparu sail gadarn ar gyfer rheoli cynigion datblygu ac ar gyfer datblygu mentrau i gadw a gwella pob ardal gadwraeth, yn unol â'r cyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 61/96. Mabwysiadwyd y dogfennau yn dilyn ymgynghoriad lleol estynedig ac maent yn rhoi diffiniad clir y cytunwyd arno o'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig a diddordeb hanesyddol yr ardal.

5.148 Mae angen rhoi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau'r Gwerthusiadau Ardal Cadwraeth wrth ystyried cynigion datblygu. Dylai'r datganiad mynediad a chynllun sy'n dod gydag unrhyw gais am ganiatâd cynllunio, lle bo'n berthnasol, nodi'n glir sut mae'r datblygiad yn cadw neu'n gwella'r ardal gadwraeth. Wrth asesu ceisiadau cynllunio, bydd y Cyngor lle bo'n ymarferol, yn ceisio gwella cymeriad arbennig bob ardal fel y maent wedi eu diffinio a'u hybu gan bob Gwerthusiad Ardal Cadwraeth sy'n cael ei fabwysiadu.

5.149 Argymhellir bod perchnogion neu ddatblygwyr yn ceisio cyngor cynnar gan y Cyngor cyn gwneud cais am ddymchweliad neu ddatblygiad o fewn ardal gadwraeth.

5.150 Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei ddynodiadau ardal gadwraeth, y ffiniau a Gwerthusiadau Ardal Cadwraeth fel y bo'n ofynnol ac yn erbyn meini prawf cenedlaethol cydnabyddedig ym Mholisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 61/96, yn ychwanegol at y nodweddion hynny sydd wedi'u pennu yn y Strategaeth Ardal Gadwraeth gymeradwy (Medi 1997) i ganfod a yw ardal o ddiddordeb arbennig.

Ardaloedd Archeolegol Sensitif

5.151 Mae pedair ardal archeolegol sensitif wedi'u pennu yng Nghaerdydd. Pwrpas y dynodiad anstatudol yma yw helpu'r rheiny sy'n cynllunio datblygiad mewn ardaloedd lle mae adnodd archeolegol hysbys neu lle mae'n debygol bod gweddillion yn sensitif i bwysau datblygu. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ardaloedd Archeolegol Sensitif yn darparu rhagor o arweiniad a gwybodaeth

Gerddi, Parciau a Thirluniau Hanesyddol Rhestredig

5.152 Nid oes amddiffyniad statudol gan y tirluniau, parciau a gerddi ar y gofrestr, ond rhaid eu hystyried pan wneir cynigion am ddatblygiad sydd naill ai'n effeithio'n uniongyrchol arnynt neu sy'n effeithio ar eu lleoliad.

Adeiladau Rhestredig o Deilyngdod yn lleol a nodweddion hanesyddol eraill o ddiddordeb

5.153 Mae llawer o adeiladau, strwythurau a gweddillion archeolegol nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf arbennig iawn i gyfiawnhau amserlennu neu gynnwys ar y rhestr statudol yn dal i fod o werth i hunaniaeth y ddinas oherwydd eu cyfraniad i'r cymeriad adeiledig lleol a/neu gysylltiadau hanesyddol a chymdeithasol.

5.154 Mae treftadaeth a diwylliant yn agwedd gymdeithasol bwysig ac mae'n cyfrannu at greu lleoedd lle mae pobl eisiau byw a gweithio. Gall asedau hanesyddol greu pwyntiau ffocal ac maent yn ddefnyddiol i adnabod nodweddion brodorol ardal sy'n creu mannau nodedig. Mae adferiad ac ail ddefnyddio'n egwyddor sylfaenol hefyd o ddatblygu'n gynaliadwy. Mae adeiladau sy'n sefyll yn cynrychioli buddsoddiad o ynni corfforedig a materol na ddylid ei anwybyddu. Mae eu tynnu, eu gwaredu a'r gwaith safle dilynol yn gofyn rhagor o ynni ac yn creu gwastraff.

5.155 Gellir nodi'r asedau hyn yn rhestr y Cyngor o adeiladau o deilyngdod lleol sydd wedi'u corffori yn y cofnod archeolegol sydd heb ei amserlennu a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwent Morgannwg neu sydd heb eu cofrestru neu eu rhestru ond sy'n dal i haeddu cael eu cadw am eu cyfraniad i'r cymeriad neu'r hunaniaeth lleol.

5.156 Er bod cynhwysiad ar y rhestr heb roi lle ar hyn o bryd i unrhyw amddiffyniad statudol ychwanegol i'r adeiladau, bwriad Polisi EN9 yw sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i gadwraeth a defnydd parhaus adeiladau o'r fath, yn rhan o amddiffyniad a gwelliant hunaniaeth arbennig Caerdydd.

Adnoddau Naturiol

EN10: CYNLLUN SENSITIF i DDŴR

Dylai datblygiad ddefnyddio atebion cynllunio dinesig sy'n sensitif i ddŵr (y broses o integreiddio rheoli'r cylch dŵr gyda'r amgylchedd adeiledig drwy gynllunio a chynllun dinesig). Yn cynnwys rheoli:

i. **Y galw am ddŵr a'r cyflenwad dŵr;**
ii. **Dŵr gwastraff a llygredd;**
iii. **Glaw a dŵr ffo;**
iv. **Cyrsiau dŵr ac adnoddau dŵr;**
v. **Llifogydd; a**
vi. **Llwybrau dŵr.**

5.157 Mae pwysau cynyddol ar systemau draeniad dinesig a heriau rheolaeth dŵr yn amlygu'r angen am ailosod cydbwysedd y cylch dŵr. Mae astudiaethau diweddar o'r newid yn yr hinsawdd wedi pennu bod tywydd mwy eithafol i'w ddisgwyl yng Nghymru, gan gynnwys cynnydd yn amledd a thrymder y glaw. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru'n gallu cefnogi'r canfyddiadau yma.

5.158 Mae angen dull lle mae'r cylch dŵr dinesig cyfan wedi'i gynnwys mewn system gyfannol. Mae cynllun dŵr sensitif yn canolbwyntio ar reoli dŵr yn lleol a gostwng y galw ar y rhwydwaith strategol.

5.159 Ymysg yr esiamplau o reolaeth cylch dŵr integredig mae Systemau Draenio Dinesig Cynaliadwy (SUDS); ailgylchu dŵr, ac integreiddiad holistig systemau dŵr wyneb i mewn yng nghynllun y datblygiad, yn ogystal ag i mewn i rwydweithiau o fannau gwyrdd sy'n berthnasol ar amrywiaeth o raddfeydd gofodol megis gerddi, toeau gwyrdd, strydoedd, meysydd parcio a choridorau afon.

5.160 Mae angen i bob un o'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y diwydiant dŵr a'r amgylchedd adeiledig gydweithio i greu strategaeth gynaliadwy ar gyfer ehangu'r ecosystem dŵr gan roi cyfleoedd i fywyd gwyllt, tirluniau addasadwy, iechyd ac ymarfer corff. Bydd gweithredu'r Polisi yma, sydd wedi'i anelu'n rhannol at wella effeithiolrwydd defnydd adnoddau dŵr, yn gwrthgyferbynu'r cynyddiadau yn y galw am ddŵr sy'n codi o weithredu polisïau eraill yn y Cynllun, gan felly osgoi'r effaith sylweddol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg a'r Afon Gwy.

5.161 Dyma fanteision menter cynllun dinesig sensitif i ddŵr; gostwng risg llifogydd; diogelwch y cyflenwad dŵr; cyrsiau dŵr iachach, biliau dŵr mwy fforddiadwy; gwell iechyd a lles, dathlu'r amgylchedd, cymeriad lleol y gymuned; darparu seilwaith gwyrdd ac elfennau effeithlon; creu mannau atyniadol ac ecosystem fwy iach.

EN11: DIOGELU ADNODDAU DŴR

Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i ansawdd neu faint y dyfroedd tanddaearol, wyneb neu arfordirol.

5.162 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP18 a'i bwrpas yw gwella ansawdd a chynnal maint yr adnoddau dŵr, yn cynnwys afonydd, llynoedd, pyllau a chyrff dŵr eraill, sy'n bwysig ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau a defnyddwyr. Gall ansawdd dŵr gwael ac sy'n dirywio a lleihad ym maint y dŵr effeithio ar gyflenwad yr adnoddau dŵr ar gyfer defnydd diwydiannol a domestig, pysgodfeydd, amwynder, adloniant a chadwraeth natur.

5.163 Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE (2000/60/EC) yn sefydlu agwedd strategol tuag at reoli dŵr a dulliau cyffredin o amddiffyn a gosod amcanion amgylcheddol ar gyfer yr holl ddyfroedd tir a dyfroedd wyneb. Ei nod yw amddiffyn ac adfer dŵr glân a sicrhau ei ddefnydd cynaliadwy yn y tymor hir. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n pwysleisio y dylid defnyddio rheolyddion cynllunio i atal lleoli defnyddiau tir a datblygiadau anghydnaws yn agos at ffynonellau posibl o lygriad.

5.164 Ni fydd datblygiad ond yn cael ei ganiatáu lle gwneir darpariaeth ar gyfer y seilwaith angenrheidiol i amddiffyn maint ac ansawdd y dŵr. Gellid rhoi caniatâd cynllunio yn dibynnu ar amodau i sicrhau'r mesurau angenrheidiol, neu efallai y bydd gofyn i ddatblygwyr fynd i oblygiadau cynllunio. Bydd ceisiadau sy'n methu darparu amddiffyniad digonol i gyrsiau dŵr, dŵr tir a dŵr wyneb yn cael eu gwrthod. Gwrthodir caniatâd cynllunio i ddatblygiad newydd sy'n:

- Creu risg annerbyniol i ddŵr tir neu gyrsiau dŵr;
- Yn creu risg annerbyniol o lygru dŵr tir, ei rwystro neu ei leihau'n ormodol; ac
- Yn ymgorffori mesurau amhriodol i atal llygredd.

heblaw bod modd cynnwys mesurau priodol i atal llygredd yn y cynnig am ddatblygiad.

5.165 Bydd datblygiad wedi'i gyfyngu yn y dyfodol i ardaloedd lle mae adnodd dŵr digonol yn bodoli neu lle gellir ei ddarparu'n rhesymol heb effeithio'n niweidiol ar dyniad, llifoedd afonydd, ansawdd dŵr, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, amwynder

neu gadwraeth natur a lle mae darpariaeth yn cyd-fynd ag amseriad y datblygiad. Mae'n rhaid cynnal lefelau'r afonydd a dŵr tir cyfredol, ac mae'n rhaid osgoi halogiad dŵr.

5.166 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gyfrifol am amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Draeniad Mewnol Gwastadeddau Caldicot a Wentloog, lle bo raid, ar unrhyw gynnig sy'n debygol o effeithio ar y cyflenwad dŵr, ansawdd y dŵr, neu'n debygol o gael ei effeithio gan lifogydd neu achosi llifogydd. Bydd lefelau'r effaith a'r risg yn cael ei asesu drwy ymgynghoriad gyda'r cyrff hyn.

5.167 Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a fydd, ym marn y Cyngor, yn dilyn ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Draeniad Mewnol Gwastadeddau Caldicot a Wentloog, yn effeithio'n niweidiol ar ansawdd, maint neu gyflenwad dŵr tir neu ddŵr wyneb o ganlyniad i:

- Natur arllwysiad y dŵr gwastraff neu wyneb; neu
- Gytundebau anfoddhaol ar gyfer cael gwared â charthffosiaeth frwnt, gwastraff o fyd masnach neu ddŵr wyneb; neu
- Golli neu ollwng cemegau neu olew sydd wedi'i storio.

5.168 Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a fydd yn cynnwys tynnu dŵr tir neu wyneb yn lleol a fydd, ym marn y Cyngor, yn dilyn ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Draeniad Mewnol Gwastadeddau Caldicot a Wentloog, yn:

- Cynyddu'r gofyniad am ddŵr, heblaw bod cyflenwad dŵr digonol yn bodoli'n barod neu y byddai'n cael ei ddarparu mewn amser i wasanaethu'r datblygiad; neu
- Yn achosi risg annerbyniol i'r cyflenwad cyfredol o ddefnyddiau dŵr.

5.169 Ffefrir datblygiadau sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd dŵr neu'n helpu i atal llygredd dŵr neu lifogydd. Bydd gweithredu'r Polisi yma, sydd wedi'i amcannu'n rhannol i wella'r defnydd effeithlon a wneir o adnoddau dŵr, yn gwrthgyferbynu cynnydd yn y galw am ddŵr sy'n codi o weithredu polisïau eraill yn y Cynllun, gan felly osgoi effeithiau sylweddol tebygol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg a'r Afon Gwy.

Ynni Adnewyddadwy

EN12: TECHNOLEGAU CARBON ISEL AC YNNI ADNEWYDDADWY

Mae gofyn i gynigion datblygu fanteisio i'r eithaf ar y potensial i gael ynni adnewyddadwy.

Bydd y Cyngor yn annog datblygwyr safleoedd mawr a strategol i gynnwys cynlluniau sy'n cynhyrchu ynni o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gwresogi, oeri a systemau pŵer ar gyfer datblygiad newydd. Bydd angen asesiad ynni annibynol sy'n archwilio hyfywedd a dichonolrwydd technegol cynnwys cynlluniau o'r fath i gefnogi ceisiadau.

5.170 Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i ganfod 15% o'i ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae modelu a wneir ar ran yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (Strategaeth Ynni Adnewyddadwy y DU DECC, 2009) yn awgrymu y gallai hyn olygu, erbyn 2020, y bydd mwy na 30% o'n trydan a 12% o'n gwres, yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Cyflwynir y targedau hyn fel y brif senario, sy'n dibynnu ar ymdrechion cryf, wedi eu cydlynu o nifer o sectorau, yn cynnwys awdurdodau lleol.

5.171 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n galluogi i Awdurdodau Cynllunio Lleol asesu safleoedd strategol i ganfod cyfleoedd i ofyn am safonau adeiladu cynaliadwy uwch (yn cynnwys carbon sero) lle dangosir bod gofynion wedi eu seilio ar dystiolaeth ac yn hyfyw. Gwneir cyfeiriad arbennig at gyfleoedd i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â systemau gwresogi, oeri a phŵer. Mae hyn yn cynnwys defnyddio systemau cyflenwi ynni carbon isel a sero cyfredol (megis systemau gwresogi ardal), annog datblygiad cyfleoedd newydd i gyflenwi datblygiad cyfredol ac arfaethedig ac i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i gyd-ganfod cyflenwyr a chwsmeriaid gwres posibl.

5.172 Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, mae Cyngor Caerdydd wedi gwneud Asesiad Ynni Adnewyddadwy (REA). Nod yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy yw canfod capasiti ynni posibl technolegau carbon isel ac adnewyddadwy yn ardal yr awdurdod lleol ac ystyried y cyfraniad y gallent ei wneud tuag at ofynion ynni trydanol a gwres Caerdydd yn y dyfodol. Paratowyd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer Llywodraeth Cymru "Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr". Mae canfyddiadau yn yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy'n awgrymu, erbyn 2020, y bydd cyfran trydan a gwres Caerdydd a ddarperir o ffynonellau ynni adnewyddadwy

yn debygol o fod yn 24% a 6% yn y drefn honno. Mae'r ddau ffigur yma yn is na'r targedau arweiniad yn Strategaeth Ynni Adnewyddadwy'r Deyrnas Unedig. Gall yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (a diweddariadau yn y dyfodol) helpu i adnabod pa dechnolegau ynni adnewyddadwy allai fod yn addas mewn lleoliadau penodol.

5.173 Mae cydleoli datblygiad defnydd cymysg a dwysedd uchel yn gallu cyflwyno cyfleoedd sylweddol i ddefnyddio technolegau carbon isel ac adnewyddadwy, yn cynnwys systemau cyflenwi ynni. Bydd y safleoedd datblygu mawr a'r safleoedd strategol a bennwyd yn ffurfio canran fawr o ddatblygiad y dyfodol yng Nghaerdydd ac yn debygol o chwarae rôl sylweddol yng ngallu Caerdydd i gwrdd â'i photensial ynni adnewyddadwy a nodir yn yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Tybir mai'r safleoedd datblygiad mawr yw'r rheiny sydd â 100 o anheddau neu fwy, neu ddatblygiadau masnachol o 1,000 metr sgwar neu fwy.

5.174 Disgwylir i ddatblygwyr gyflwyno asesiad ynni annibynol sy'n archwilio dichonolrwydd technegol a hyfywedd ariannol cynnwys cynlluniau o'r fath. Dylid cyflwyno datganiadau ar y cam ceisiadau cynllunio i sicrhau bod unrhyw asesiad hyfywedd yn adlewyrchu datblygiadau technolegol ac amgylchiadau economaidd. Dylai datblygwyr gyfeirio at Asesiad Ynni Adnewyddadwy y Cyngor a Chynllun Cyfleoedd Gwres Cychwynnol wrth wneud eu hasesiadau ynni i ganfod cyfleoedd posibl ar gyfer technolegau carbon isel ac adnewyddadwy. Trwy weithredu'r polisi yma, disgwylir i ddatblygwyr ddilyn yr hierarchaeth ynni fel y mae wedi ei gefnogi gan bolisi cenedlaethol (TAN 12). Bydd rhagor o arweiniad mewn perthynas ag asesiadau ynni'n cael eu cyhoeddi ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn pennu beth ddisgwylir gan ddatblygwyr i gwrdd â gofynion Polisi EN12.

5.175 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cynnwys polisi cenedlaethol yn ymwneud â datblygiad ymatebol i hinsawdd ac yn pennu'r safonau adeiladu cynaliadwy cyfredol yng Nghymru. Mae Adran 12.10.1 yn cynnwys polisi rheoli datblygiad cenedlaethol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad ynni carbon isel ac adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig. Felly, dylai datblygwyr gyfeirio at hyn i gael arweiniad pellach. Bydd gweithredu'r Polisi yma sy'n hybu ymgorfforiad cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn gostwng allyriadau llygriad awyrol hefyd, gan felly gydbwyso'r cynyddiadau mewn allyriadau awyrol sy'n codi o weithredu polisïau eraill yn y Cynllun. Byddai hyn yn cyfrannu at osgoi effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd.

Llygredd

EN13: AWYR, SŴN, LLYGREDD GOLAU A HALOGIAD Y TIR

Ni chaniateir datblygiad lle byddai'n achosi neu'n creu niwed annerbyniol i iechyd, amwynder lleol, cymeriad ac ansawdd y gefnwlad, neu ddiddordebau cadwraeth natur, tirwedd neu dreftadaeth adeiledig bwysig oherwydd llygredd awyr, sŵn, golau neu bresenoldeb lefelau annerbyniol o halogiad tir.

5.176 Pwrpasau'r Polisi yma yw sicrhau bod:

- Datblygiadau a fyddai'n cynhyrchu lefelau annerbyniol o lygredd awyr, sŵn neu olau yn cael eu lleoli a'u rheoli'n briodol;
- Nid yw datblygiad a defnyddiau tir anghydnaws yn agos at ffynonellau posibl o lygredd; ac
- Mae datblygiadau'n addas ar gyfer y defnydd pen arfaethedig a bod modd gorchfygu unrhyw lygriad tir posibl neu wirioneddol, gan felly sicrhau nad oes niwed annerbyniol i iechyd dynol neu'r amgylchedd.

5.177 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n pwysleisio, er y dylid defnyddio rheolyddion cynllunio i reoli'r materion uchod, ni ddylent gael eu defnyddio i reoli materion sy'n achos pryder go iawn i systemau rheoli llygredd.

5.178 Gall ansawdd awyr gwael niweidio iechyd, ansawdd bywyd ac amwynder pobl, yn ogystal â chadwraeth natur a diddordebau treftadaeth adeiledig. Mae ansawdd awyr gwael yn broblem mewn ardaloedd penodol o Gaerdydd. Mae asesiadau cyfredol o ansawdd awyr wedi canfod pedair ardal o'r sir lle mae'r safonau ansawdd awyr statudol heb eu cyrraaedd. Mae'r Cyngor wedi galw'r rhain yn Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr:

- Canol Dinas Caerdydd;
- Pont Elái;
- Stephenson Court, Newport Road; a
- Cardiff Road, Llandaf.

5.179 Mae'r ardaloedd hyn yn dioddef o lefelau uchel o lygredd sydd wedi'i achosi gan draffig ffordd. Yn rhan o'i fonitro statudol o ansawdd yr awyr yn y ddinas bydd y Cyngor yn adolygu ansawdd yr awyr bob blwyddyn a gallai wrthod neu gyhoeddi Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr fel y bo'n briodol. Wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, rhoddir ystyriaeth i effaith debygol datblygiad yn nhermau'r llygredd awyr y gallai ei achosi'n uniongyrchol, ond hefyd yn nhermau unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y traffig y gallai ei gynhyrchu.

5.180 Lle mae datblygiad yn debygol o effeithio ar ansawdd awyr yn sylweddol (h.y. lle mae safonau ansawdd awyr yn cael eu torri neu'n debygol o gael eu torri neu y mae datblygiad preswyl newydd yn achosi angen am ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr newydd drwy gyflwyno trigolion i ardaloedd lle mae safonau ansawdd awyr yn cael eu torri'n barod) yna efallai y gellir cymeradwyo cais gydag amodau sy'n lleihau ei effaith ar ansawdd yr awyr, neu ei wrthod lle bo'n briodol.

5.181 Gall sŵn gael effaith niweidiol ar iechyd ac ansawdd bywyd pobl. Gall datblygiadau megis tai, ysgolion ac ysbytai fod yn arbennig o sensitif i sŵn, yn debyg i ardaloedd o dirlun, natur neu bwysigrwydd treftadaeth adeiledig. Lle bo'n bosibl, dylid lleoli datblygiadau newydd sy'n arbennig o sensitif i sŵn i ffwrdd oddi wrth ffynonellau cyfredol neu debygol o sŵn sylweddol. Gellir hysbysu'r asesiad yma gan fanylion cwynion am sŵn sy'n cael eu casglu gan y Cyngor yn rhan o fenter barhaus i ostwng niwsans sŵn.

5.182 Mae teithiau cludiant mawr (ffordd, rheilffordd ac awyr) a rhai gweithgareddau diwydiannol a masnachol yn gallu cynhyrchu lefelau sŵn arbennig o uchel. Mae arweiniad penodol yn TAN 11 sy'n pennu Categorïau Dod i Gysylltiad â Sŵn sy'n helpu gyda datblygiad preswyl arfaethedig gerllaw sŵn sy'n gysylltiedig â chludiant.

5.183 Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru, yn rhan o'i dyletswyddau statudol o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol wedi dynodi ardaloedd o fewn Ardaloedd Cynllunio â Blaenoriaeth i Weithredu ar Sŵn yng Nghaerdydd. Nod y Gyfarwyddeb yw diffinio dull cyffredin o geisio osgoi, atal neu ostwng effeithiau niweidiol, yn cynnwys annifyrwch, ar sail wedi'i flaenoriaethu oherwydd sŵn amgylcheddol. Mae'r Gyfarwyddeb yn diffinio sŵn amgylcheddol fel sain awyr agored niweidiol neu ddi-eisiau sydd wedi'i greu gan weithgareddau dynol, yn cynnwys sŵn cludiant, traffig ffordd, traffig y rheilffordd, traffig awyr, ac o safleoedd o weithgareddau diwydiannol.

5.184 O dan y Rheoliadau, roedd gan Weinidogion Cymru oblygiad i lunio mapiau sŵn strategol ar gyfer:

- **crynodrefi** (ardaloedd dinesig mawr gyda phoblogaeth o fwy na 100,000);
- **ffyrdd mawr** (rheiny sydd â mwy na thair miliwn o deithiau cerbyd y flwyddyn); a
- **rheilffyrdd mawr** (rheiny sydd â mwy na 30,000 o deithiau trên bob blwyddyn).

5.185 Mae'r mapiau sŵn wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

5.186 Mae lleihau problemau sŵn ar ôl iddynt godi yn gallu bod yn llawer drytach na'u hosgoi yn y lle cyntaf. Felly mae'n fanteisiol i geisio ymyrraeth sy'n dod â llu o fanteision, megis gostwng faint o lygryddion awyr y mae pobl yn dod ar eu traws, gwneud adeiladau'n fwy ynni-effeithiol, annog gyrru mwy diogel neu wella arwyneb y ffordd i yrrwyr a beicwyr ar yr un pryd â gostwng lefelau sŵn.

5.187 Mae rhestr gyfredol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru o Ardaloedd Cynllunio Gweithredu ar Sŵn sydd â Blaenoriaeth.

5.188 Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig lle mae datblygiad sy'n cynhyrchu sŵn wedi'i gynnig o fewn neu gerllaw ardaloedd arbennig megis ardaloedd distaw dinesig, sy'n fannau gwyrdd dinesig tawel a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol.

5.189 Ar hyn o bryd mae 6 ardal dawel yng Nghaerdydd, sef:

- Heath Park;
- Park Cae Delyn;
- Parc y Rhath;
- Gardd Bleser Parc y Rhath;
- Tir Hamdden Parc y Rhath; a
- Thompson Park.

5.190 Mae 6 ardal bellach yng Nghaerdydd sydd wedi gwneud cais am statws ardal dawel y mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori arnynt, sef:

- Bute Park;
- Parc Y Tyllgoed;
- Insole Court;
- Parc Llanisien;
- Parc Sblot; a
- Victoria Park.

5.191 Mae Ardaloedd Tawel wedi eu dynodi yn rhan o weithrediad y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol.

5.192 Dylai datblygiad newydd angenrheidiol a fyddai'n achosi lefelau sŵn uchel, yn cynnwys cynlluniau cludiant arfaethedig, gael eu lleoli a'u cynllunio mewn ffordd sy'n lleihau effaith eu sŵn. Lle mae angen lleoli datblygiad sy'n sensitif i sŵn yn agos at seilwaith cludiant am resymau mynediad, dylid ei lunio i ostwng effaith y sŵn. Lle bo'n angenrheidiol, bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu asesiad o effaith y sŵn, ynghyd â chynigion ar gyfer ei liniaru.

5.193 Mae darparu goleuadau'n gallu helpu i atal trosedd neu ofn trosedd, gwella diogelwch a sicrwydd, a hyrwyddo rhywfaint o chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Ond, gall hefyd dorri ar draws pobl, achosi llacharedd a chael effaith niweidiol ar asedau treftadaeth naturiol ac adeiledig, amwynder defnyddiau tir cyfagos a diogelwch y traffig.

5.194 Lle mae goleuadau newydd yn gyfystyr â datblygiad (e.e. llifoleuadau) maent wedi eu rheoli'n bennaf drwy'r system gynllunio. Gellir gwrthod caniatâd cynllunio os na ystyrir bod cynllun y systemau goleuadau arfaethedig yn foddhaol i atal llygredd golau. Lle bo raid, bydd amodau ar y caniatâd cynllunio i sicrhau bod cynllun a gweithrediad y systemau goleuo'n foddhaol a/neu i atal llygredd golau.

5.195 Fel y gwelwch ym Mholisi Cynllunio Cymru, lle mae'n debyg bod halogiad sylweddol yn bresennol, bydd angen tystiolaeth ar yr awdurdod cynllunio lleol o ymchwiliad manwl ac asesiad risg cyn gwneud penderfyniad am y cais i sicrhau y gwneir defnydd buddiol o'r tir. Lle gall mesurau adferol derbyniol orchfygu halogiad o'r fath, efallai y rhoddir caniatâd cynllunio yn dibynnu ar amodau sy'n nodi'r mesurau angenrheidiol. Os na ellir gorchfygu'r halogiad yn foddhaol, gallai'r awdurdod wrthod rhoi caniatâd cynllunio.

5.196 Bydd y cyfrifoldeb yn parhau ar y datblygwr i sicrhau na fydd y datblygiad ar y safle'n golygu bod safle'n cael ei ddynodi'n safle gyda halogiad tir o dan Adran 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gan sicrhau felly bod y tir yn addas ar gyfer y defnydd a gynigir iddo.

EN14: RISG LLIFOGYDD

Ni chaniateir datblygiad:

i. **O fewn gwastadeddau llifogydd dŵr llanw neu ddŵr afonol heblaw bod modd dangos bod y safle'n gyfiawn yn unol â'r arweiniad cenedlaethol a bod asesiad technegol manwl priodol wedi ei wneud i sicrhau bod y datblygiad wedi'i gynllunio i leihau'r bygythiad o lifogydd a chanlyniadau llifogydd dros oes datblygiad;**

ii. **Lle byddai'n cynyddu'r risg o lifogydd dŵr llanw a/neu ddŵr afonol neu o ddŵr ffo ychwanegol o'r datblygiad mewn unrhyw leoliad;**

iii. **Lle byddai'n atal cynlluniau i gynnal neu wella cynlluniau amddiffyniad rhag llifogydd a chyrsiau dŵr yn y dyfodol;**

iv. **Lle byddai'n achosi effeithiau niweidiol ar amddiffynfeydd dŵr llanw neu ddŵr afonol;**

v. **Lle mae ystafelloedd ar y llawr gwaelod wedi eu cynnig mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd.**

Lle bo'n briodol, dylai'r datblygwr ddangos eu bod wedi ystyried yr angen i ymgorffori mesurau lliniaru risgiau llifogydd sy'n amgylcheddol sympathetig megis Systemau Draeniad Dinesig Cynaliadwy (SUDS).

5.197 Pwrpas y Polisi yma yw gwyro datblygiad oddi wrth fan lle byddai dan risg o lifogydd dŵr wyneb, afonol, arfordirol, cyrsiau dŵr arferol neu lle byddai'n cynyddu'r risg o lifogydd neu ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiad yn rhywle arall.

5.198 Bydd y Polisi'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ymwneud â risgiau llifogydd ac yn adlewyrchu cyngor a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a Risg o Lifogydd (Gorffennaf 2004).

5.199 Mae TAN15 yn nodi bod y mapiau cyngor am ddatblygiad wedi eu seilio ar yr wybodaeth orau sydd ar gael a ystyrir yn ddigon i bennu pryd mae angen ystyried materion risg llifogydd wrth gynllunio datblygiad yn y dyfodol. Mae ardaloedd cyngor am ddatblygiad C1 a C2 ar y mapiau'n dangos ardaloedd risg uchel o lifogydd ac maent wedi eu seilio ar amlinellau llifogydd eithafol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer llifogydd dŵr llanw and dŵr afonol. Gwelir yr ardaloedd hyn ar y Map Cyfyngiadau ar sail yr wybodaeth o'r mapiau cyngor ar ddatblygiad diweddaraf (2015).

5.200 Mae gofyn i'r Cyngor ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Draeniad Mewnol Gwastadeddau Caldicot a Wentloog am geisiadau cynllunio sydd ag unrhyw oblygiadau llifogydd. Rhaid iddo gael rhesymau da os nad yw'n bwriadu dilyn cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo ffurfio ystyriaeth faterol.

5.201 Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) a gyflwynwyd yn 2010 yn rhoi dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i baratoi Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS) sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn ceisio'n rhagweithiol i leihau risg llifogydd a pharatoi ein cymunedau.

5.202 Mae Cyngor Caerdydd yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) fel y mae wedi'i ddiffinio gan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr newydd 2010. Nod y ddeddf hon yw darparu rheolaeth well a mwy cynhwysfawr ar y risg o lifogydd i bobl, cartrefi a busnesau. Mae'r rôl yma'n cynnwys sicrhau bod risg llifogydd o bob ffynhonnell wedi'i reoli'n addas ac yn amcannu i hybu agwedd integredig tuag at gynllunio a rheoli pob ffurf o risg llifogydd.

5.203 Mae Cyngor Caerdydd yn gyffredinol yn gwrthwynebu creu cwlferi ar gyrsiau dŵr oherwydd y risg llifogydd ecolegol niweidiol ac effeithiau eraill sy'n debygol o godi. Gall creu cwlferi waethygu'r risg o lifogydd a chynyddu'r gofynion am gynnal cyrsiau dŵr. Mae hefyd yn dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt, yn niweidio amwynder naturiol ac yn torri ar draws parhad cynefin llinol cwrs dŵr. Cydnabyddir bod amrywiol resymau pam fo perchnogion tir, datblygwyr ac awdurdodau lleol yn credu, mewn rhai achosion, y dylid rhoi cwlfer ar gyrsiau dŵr agored. Ond, mae Cyngor Caerdydd yn ystyried bod unrhyw fuddion wedi'u gorchfygu fel arfer gan y problemau potensial wrth geisio rheoli'r system, colli cynefinoedd ac anawsterau canfod llygredd.

5.204 Ni chaniateir datblygiadau newydd heblaw pan fo'r Cyngor yn fodlon na fyddent yn achosi effeithiau niweidiol ar ansawdd a/neu faint yr adnoddau dŵr wyneb neu ddŵr tir. Os nad oes gwybodaeth fanwl ar gael am risg llifogydd, bydd gofyn i ddatblygwyr wneud Asesiad o Ganlyniad Llifogydd (FCA) er mwyn gwerthuso maint y risg ac i sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad annerbyniol yn digwydd yn ardal y risg llifogydd a bennwyd.

5.205 Mae rheoli llifogydd yn rhan bwysig o gyfrannu tuag at sicrhau cynaliadwyedd. Mae gofyn i ddatblygwyr, lle bo raid a lle bo'n briodol, gynnwys mesurau lliniaru sympathetig â'r amgylchedd yn eu cynigion. Byddai hyn yn cynnwys mesurau megis Systemau Draeniad Dinesig Cynaliadwy (SUDS). Ystyrir SUDS yn ffordd o reoli dŵr wyneb sy'n darparu ased amwynder gwerthfawr a chynefinoedd newydd i fywyd gwyllt.

5.206 Yn gyffredinol, gwrthodir datblygiad mewn gwastadeddau llifogydd penodedig neu ardaloedd dan risg annerbyniol o lifogydd neu lle gallai trydydd parti gael ei effeithio'n niweidiol gan gynnydd mewn risg o lifogydd. Ni fydd cynigion sy'n

ymwneud ag ystafelloedd gwely ar loriau gwaelod neu is mewn ardaloedd sy'n debygol o ddioddef llifogydd yn gynigion derbyniol. Ni chaniateir datblygiad heblaw bod modd dangos ei bod hi'n bosibl rheoli risgiau a chanlyniadau i lefel dderbyniol yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, yn arbennig y profion sydd yn TAN 15.

5.207 Bydd arweiniad pellach ar weithrediad y Polisi yma wedi'i nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

4. CLUDIANT

T1: CERDDED A SEICLO

I alluogi i bobl fynd i'w swyddi, at wasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol drwy gerdded a seiclo, bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n cynnwys:

i. **Cynllun cynaliadwy, o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad positif at amlygrwydd cymunedau a lleoedd;**
ii. **Rhwydweithiau athraidd ac eglur o lwybrau cerdded a seiclo atyniadol, cyfleus a diogel;**
iii. **Cysylltiadau ac estyniadau i Rwydwaith Seiclo Strategol Caerdydd a llwybrau sy'n rhan o Gynllun Cymdogaethau Cerddadwy Caerdydd;**
iv. **Mesurau i arafu cerbydau a rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr;**
v. **Cysylltiadau seiclo a cherdded diogel, cyfleus ac atyniadol at ddatblygiadau, cymdogaethau, swyddi a gwasanaethau cyfredol;**
vi. **Seilwaith wedi'i lunio yn unol â safonau o arfer da yn cynnwys Canllawiau Cynllun y Cyngor ar Seiclo;**
vii. **Cyfleusterau cefnogi yn cynnwys arwyddion, parcio beiciau'n ddiogel a, lle bo raid, gyfleusterau newid a chymryd cawod; a**
viii. **Darparu Parthau Dim Ceir.**

5.208 Dangosodd y gwaith ymchwil a wnaed gan Sustrans and Socialdata yn 2011 bod cyfran fawr o deithiau car yng Nghaerdydd yn weddol fyr: mae ychydig dros eu hanner yn 5km neu'n llai ac mae bron i draean ohonynt yn 3km neu lai (llai na 2 filltir). Gellid gwneud nifer o'r teithiau yma ar droed neu ar feic.

5.209 Pwrpas y Polisi yma yw manteisio ar y potensial yma drwy ffafrio datblygiadau sy'n cynnwys cyfleusterau a nodweddion yn y cynllun sy'n ei gwneud hi'n hawdd i bobl gerdded a seiclo ar gyfer eu teithiau pob dydd yn lle teithio mewn car. Bydd annog 'teithio egnïol' yn helpu i leihau'r defnydd a wneir o geir ac yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol o dan y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i ddatblygu, gwella a chynnal rhwydweithiau cerdded a seiclo lleol.

5.210 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu cynllun ar gyfer datblygu Rhwydwaith Seiclo Strategol y ddinas a elwir yn 'Enfys'. Mae'r cynllun yn diffinio rhwydwaith craidd o lwybrau seiclo wedi eu rhifo sy'n cysylltu gwahanol rannau o Gaerdydd. Mae'r Cyngor yn adeiladu rhwydwaith seiclo Enfys drwy raglen dreigl o gynlluniau seilwaith. Bydd datblygiadau a gyflwynwyd drwy'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r cyfle i ymestyn a gwella'r rhwydwaith drwy ddarparu cysylltiadau newydd a chynnwys adrannau o'r rhwydwaith mewn cynlluniau datblygu.

5.211 Mae'r Cyngor yn datblygu Cynllun Cymdogaethau Cerddadwy hefyd. Bydd hwn yn disgrifio rhaglen o fesurau mewn ardal benodol i wella'r amgylchedd cerdded lleol a'i wneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau lleol ar droed. Bydd datblygiadau newydd yn rhoi'r cyfle i bobl ymestyn y gwelliannau yma a darparu cysylltiadau cerdded sy'n helpu i integreiddio cymdogaethau newydd gyda chymdogaethau cyfredol.

5.212 Mae Parthau Dim Ceir yn rhoi cyfle arbennig sy'n gallu helpu i weithredu'r Polisi yma'n llwyddiannus. Gallent ffurfio rhan o ardaloedd datblygiad ehangach gan ychwanegu at yr ystod a'r dewis o dai sydd ar gael. Mae ardaloedd o'r fath, sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gyda chludiant cyhoeddus da ac opsiynau cludiant cynaliadwy eraill, ynghyd â mynediad da i gyfleusterau lleol, yn ardaloedd sy'n debygol o fod yn atyniadol i nifer o ddefnyddwyr posibl o bob oedran. Wrth ddylunio ardaloedd o'r fath fe fydd hi'n bwysig sicrhau bod anghenion pobl anabl yn derbyn ystyriaeth.

5.213 Bydd y Polisi wedi'i weithredu drwy'r broses ddatblygu. Wrth ystyried y cynigion, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod datblygiadau'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a seiclo yn eu cynllun a'u dyluniad. Bydd cynllun ansawdd uchel sy'n gwneud cyfraniad positif i amlygrwydd y cymunedau a lleoedd yn hanfodol i wneud cerdded a seiclo'n opsiynau teithio atyniadol a phoblogaidd.

5.214 Bydd y Polisi'n ystyriaeth allweddol wrth uwchgynllunio'r safleoedd strategol a dylid ei ddarllen mewn cydweithrediad ag egwyddorion cyffredinol uwchgynllunio'r safle strategol a'r rheiny sydd wedi eu cynnwys yn y fframweithiau uwchgynllunio sgematig ar gyfer y safleoedd hynny. Bydd darpariaeth y seilwaith wedi ei sicrhau drwy amodau cynllunio, goblygiadau cynllunio a'u hariannu drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol a chyllid cludiant cyfatebol. Bydd gweithrediaad y Polisi yma'n helpu i ostwng llygredd sy'n codi o draffig ffordd. Bydd hyn yn gwrthgyferbynu cynyddiadau mewn llygredd atmosfferig o ganlyniad i'r Cynllun, gan felly osgoi effeithiau sylweddol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol.

T2: TRAMWY CYFLYM STRATEGOL A CHORIDORAU BYSIAU

GWELLIANNAU i GORIDORAU BYSIAU

i. **Teithiau Bws Canol y Ddinas;**
ii. **Coridor Bysiau Dwyreiniol (A48, A4232 o'r A48 i Gyffordd 30 Priffordd yr M4 Cefnffordd yr A48M, Southern Way a A4161 Newport Road);**
iii. **Coridor Bws Gogleddol (A470 North Road/ Manor Way a A469 Caerphilly Road/ Cefnffordd yr A470 at Ffin y Sir);**
iv. **Coridor Bysiau Gorllewinol (Cowbridge Road, A48, A4055 Cardiff Road; A4119 Llantrisant Road o Ffin y Sir i Cowbridge Road a Chefnffordd yr A4232 o Groes Cyrlwys i Gyffordd 33 Priffordd yr M4) a'r**
v. **Coridor Bysiau Deheuol (Lloyd George Avenue, Lloyd George Avenue at Ffin y Sir ar yr A4232 a Cogan Spur ac ar hyd Morglawdd Caerdydd).**

Gwneir darpariaeth i hwyluso integreiddiad swyddogaethol y coridorau hyn a gwasanaethau cysylltiedig gyda'r rhwydwaith cludiant ehangach yn cynnwys y rhwydwaith bysiau a llwybrau cerdded a seiclo lleol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y darnau cefnffordd o'r Gwelliannau i'r Coridor Bysiau. Bydd Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod mesurau priodol ar adrannau cefnffordd y teithiau yma.
Bydd gwelliannau i rwydwaith bysiau ehangach y ddinas, yn cynnwys darparu seilwaith newydd a chyflwyniad llwybrau a gwasanaethau newydd yn cael eu cefnogi lle mae'r rhain yn angenrheidiol i ddarparu opsiynau teithio cynaliadwy ac i ymdrin ag effeithiau symudiad y datblygiad newydd.

Coridorau Tramwy Cyflym

5.215 Mae pedwar Coridor Tramwy Cyflym wedi eu pennu ar sail pedair sianel ddaearyddol eang sy'n bwydo i mewn tuag at ganol y ddinas. Gellir diffinio'r Coridorau Tramwy Cyflym fel casgliad o wasanaethau cludiant cyhoeddus amledd uchel a fydd yn rhedeg ar hyd y seilwaith ar y ffordd ac oddi ar y ffordd, yn cysylltu cymdogaethau gyda chanol y ddinas a rhwydwaith cludiant cyhoeddus ehangach sy'n cynnig amseroedd teithio byrrach na gwasanaethau bws confensiynol. Mae'r gwelliannau i'r Coridor Bysiau y mae cyfeiriad atynt ym mharagraff 5.218 wedi eu lleoli'n bennaf yn y Coridorau Tramwy Cyflym ond maent wedi eu hamlygu'n benodol fel y coridorau sail bysiau allweddol gyda chysylltiadau ar draws ffiniau a byddent felly'n ffocws ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Bydd pob coridor yn cynnwys gwelliannau sy'n rhoi tramwy cyflym ac mae'r gwasanaethau bws wedi cynyddu blaenoriaeth dros draffig cyffredin a gwell hygyrchedd i ystod ehangach o gyrchnodau.

5.216 Mae'r Polisi yma'n darparu ar gyfer datblygiad pedwar prif Goridor Tramwy Cyflym a fydd yn gwasanaethu prif safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol. Gallai'r dull o dramwy cyflym fod ar un o'r ffurfiau a ganlyn neu fath arall o dechnoleg sy'n darparu ar gyfer yr un pwrpas:

- rheilffordd drom;
- rheilffordd ysgafn;
- tram;
- tram/trên yn rhedeg ar reilffyrdd wedi gwahanu;
- tram/trên yn cyfuno rhedeg ar reilffordd wedi gwahanu a rhedeg ar y stryd;
- bysiau confensiynol yn gweithredu gwasanaeth cyflym stopiau cyfyngedig sy'n defnyddio lle'r gerbytffordd ar y ffordd gyhoeddus a ddefnyddir gan draffig cyffredinol;
- bysiau confensiynol sy'n defnyddio lonau bysiau pwrpasol a'u helpu gyda mesurau blaenoriaeth bysiau mewn cyfuniad â defnyddio lle ar y gerbytffordd arall ar y ffordd gyhoeddus; neu
- fysiau confensiynol neu fysiau gyda thywyswyr sy'n defnyddio ffyrdd bysiau wedi'u gwahanu'n gyfan gwbl oddi wrth y briffordd ar ei hyd i gyd neu ar gyfer adrannau byrion mewn cyfuniad â defnyddio'r briffordd gyhoeddus/mesurau blaenoriaeth bysiau ar y ffordd gyhoeddus.

5.217 Bydd rhai elfennau o'r Coridorau Tramwy Cyflym wedi eu darparu o fewn y safleoedd strategol. Ond, nid yw'r aliniad a'r dull o dramwy cyflym yn hysbys eto na sut maent yn cysylltu gyda ac yn cyfnewid gyda'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus ac ni ellir ei ddiffinio'n fanwl gywir ar fap. Mae'r angen am y Coridorau Tramwy Cyflym wedi'i gynnwys yn y polisïau allweddol ar Safleoedd Strategol. Penderfynir pa ddull o dramwy cyflym y gellir rhoi lle iddo ar bob coridor drwy wneud gwaith asesu technegol pellach a wneir yn rhan o uwchgynllunio manwl y safleoedd strategol ac i gefnogi ceisiadau cynllunio. Bydd hyn yn helpu i hysbysu'r union ddull, aliniad llwybrau a gofynion cymryd tir. Felly, am y rhesymau yma, ni ddangosir y llwybrau tramwy cyflym ar y Map Cynigion.

Gwelliannau i Goridorau Bysiau

5.218 Mae'r Gwelliannau i Goridorau Bysiau sydd wedi eu rhestru ym Mholisi T2 wedi'u diffinio fel y llwybrau bysiau strategol sy'n cysylltu Caerdydd gyda'r rhanbarth. Mae'r coridorau hyn yn elfen ganolog o rwydwaith cludiant cyhoeddus strategol y ddinas. Mae oddeutu 80% o deithiau cymudwyr sy'n dod i mewn i Gaerdydd bob dydd o'r rhanbarth yn digwydd mewn car. Mae'r symudiadau yma'n creu tagfeydd ar rwydwaith priffyrdd strategol y ddinas sy'n gwneud y teithiau bws yn hirach a gwasanaethau'n llai dibynadwy. Mae'r Polisi yma'n ceisio ymdrin â'r materion yma drwy wneud darpariaeth ar gyfer gwelliannau i sicrhau bod y

gwasanaethau bws mor effeithiol ac atyniadol ag sy'n bosibl drwy ostwng yr amseroedd teithio a gwneud yr amseroedd teithio'n fwy dibynadwy. Mae'r coridorau i'w gweld ar y Map Cynigion.

5.219 Bydd angen digon o le cerbytffordd i sicrhau bod y bysiau'n gallu teithio'n hawdd (yn cynnwys gwasanaethau cyflym gyda stopiau cyfyngedig), lleihau amseroedd teithio a gwneud amseriad y teithiau mor ddibynadwy ag sy'n bosibl. Lle bo'n angenrheidiol i gwrdd â'r gofynion yma, bydd y Cyngor yn ceisio diddymu unrhyw fannau tynn a thynnu a/neu ail leoli parcio ar y stryd. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio ystod o offer a mesurau i newid ymddygiad teithio drwy helpu i wneud teithio cynaliadwy'n ddewis atyniadol, gan reoli'r rhwydwaith a dylanwadu ar y galw am deithio. Mae rhai o'r mesurau hyn yn cynnwys, er enghraifft, ddarparu seilwaith cludiant cyhoeddus, cerdded a seiclo o safon uchel, gwelliannau sy'n gysylltiedig â datblygiad, ail leoli lle ar y ffordd, gwelliannau i'r llwybr sy'n gwasanaethu cyrchnodau allweddol a datblygiadau, cyfleusterau hyb trafnidiaeth/cyfnewid, arosfannau bysiau, standiau beiciau, gwelliannau mewn hygyrchedd, polisïau a rheoliadau parcio, prisiau parcio, gorfodi parcio, troseddau traffig yn symud, blaenoriaeth bysiau, gatiau bysiau, rheolaeth ar gyffyrdd, rheolaeth signal ar y traffig, rheoli cyfyngiadau ar gyflymder, marciau ffordd ac arwyddion o safon uchel, cynllunio ar gyfer teithio gweithredol, cyd-lwybrau cerdded a seiclo, gwaith partneriaeth gyda darparwyr cludiant (e.e. annog llwybrau bysiau newydd, cyflym ac ar draws y ddinas), manylion teithiau, mentrau hyrwyddo, cynllunio teithiau wedi eu personoli, mentrau diogelwch y ffordd, cydweithio ar draws ffiniau gydag awdurdodau eraill a gyda rhanddeiliaid cludiant allweddol, diogelwch y ffordd a chynnal y seilwaith cludiant.

Gwelliannau i Rwydwaith Bysiau Ehangach y Ddinas

5.220 Mae'n hanfodol sicrhau bod y bws yn opsiwn teithio mwy atyniadol ac ymarferol i ostwng y ddibyniaeth ar geir, gwella hygyrchedd ac achosi symudiad moddol. Mae gan Gaerdydd rwydwaith bysiau lleol estynedig yn gwasanaethu'r mwyafrif o rannau'r ddinas. Ond nid yw'r bws yn opsiwn teithio atyniadol ar gyfer nifer o deithiau yng Nghaerdydd. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o deithiau ar y rhwydwaith yn rheiddiol ac yn cydgyfarfod yng nghanol y ddinas. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl deithio i mewn i ganol y ddinas er mwyn cael gafael ar wasanaethau bws i ran arall o'r ddinas. O ganlyniad, y car yw'r dewis ddull o deithio ar gyfer nifer o deithiau gweddol fyr. I ymdrin â'r broblem hon, mae'r Polisi yma'n cefnogi ehangiad a gwelliant rhwydwaith bysiau lleol Caerdydd, mewn cydweithrediad â datblygiad y Coridorau Tramwy Cyflym a gwelliannau i Goridorau Bysiau. Byddai gwaith technegol wneir gan y Cyngor yn dangos bod ailgyflunio'r rhwydwaith a chyflwyno llwybrau orbitol newydd a mannau cyfnewid rhwng y llwybrau a'r gwasanaethau'n galluogi i ystod llawer ehangach o deithiau yng Nghaerdydd gael eu gwneud ar fws, gan felly leihau'r ddibyniaeth ar y car.

5.221 Bydd llwybrau sy'n ffurfio rhan o'r Coridorau Tramwy Cyflym, coridorau bws strategol a'r rhwydwaith bysiau dinas ehangach wedi eu cysylltu mewn nifer o leoliadau ar draws y rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn cynnig y cyfle i newid rhwng gwasanaethau. Bydd hwyluso rhyngnewidiad gyda chyfleusterau teithwyr o safon uchel a manylion teithiau yn elfen bwysig o welliannau i rwydwaith bysiau'r ddinas.

5.222 Yn ganolog i ddarpariaeth y Polisi yma fydd uwchgynlluniau manwl ar gyfer safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol a'r darpariaethau a wnânt ar gyfer seilwaith cludiant cyhoeddus a'i gyflwyniad graddol. Bydd disgwyl i uwchgynlluniau safle gwrdd â gofynion y Polisi yma a bod yn gyson gydag egwyddorion uwchgynllunio cyffredinol ar gyfer safleoedd strategol – mae'r ddwy elfen yma'n ystyriaethau allweddol mewn ceisiadau cynllunio ar safleoedd strategol. Bydd darparu seilwaith wedi'i sicrhau drwy amodau cynllunio, goblygiadau cynllunio ac wedi'u hariannu drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol a chyllido cludiant cyfatebol.

5.223 Bydd gweithrediad y Polisi yma'n gofyn bod y Cyngor yn ymarfer ei bwerau statudol i wneud gwelliannau i seilwaith y briffordd. Bydd y mesurau'n cynnwys darparu lonau bysiau pwrpasol a blaenoriaeth i fysiau ar y cyffyrdd allweddol. Mewn rhai ardaloedd bydd hyn yn gofyn adolygu ac addasu trefniadau parcio ar y stryd. Bydd lleoliad a natur y gwelliannau wedi eu hysbysu gan waith asesu technegol a modelu sy'n ymwneud â choridorau penodol a rhwydwaith cludiant ehangach Caerdydd, yn ogystal â'r asesiad manwl o effeithiau safleoedd datblygiad unigol ar deithio a cheisiadau cynllunio. Bydd mesurau seilwaith yn cael eu hariannu'n gyffredinol drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a chyllid cludiant cyfatebol. Yn y mwyafrif o achosion byddent yn cael eu gweithredu gan y Cyngor fel yr awdurdod priffyrdd.

5.224 Bydd gweithrediad y Polisi yma'n helpu i ostwng llygredd sy'n codi o draffig ffordd. Bydd hyn yn gwrthgyferbynu'r cynyddiadau mewn llygredd atmosfferig o ganlyniad i'r Cynllun, gan felly osgoi effeithiau sylweddol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol.

T3: CYFNEWID CLUDIANT

I hwyluso'r cyfnewidiad rhwng moddau cludiant a helpu i ostwng y galw am deithio a gostwng y ddibyniaeth ar geir, bydd y datblygiadau a ganlyn wedi eu cefnogi:

i. **Gorsafoedd trenau newydd y gellir cael gafael arnynt yn hawdd drwy gerdded, seiclo a gwasanaethau bysiau lleol, hwyluso parcio a theithio'r rheilffordd, lle bo'n briodol, a chwrdd ag anghenion mynediad yr holl ddefnyddwyr;**
ii. **Gwelliannau i gyfnewidiadau trên a bysiau presennol, gan gynnwys mesurau i hwyluso mynediad drwy ddulliau teithio gweithredol a phobl anabl gydag anghenion mynediad penodol;**
iii. **Mesurau i gefnogi'r cyfnewidiad rhwng gwasanaethau bysiau lleol yn cynnwys cyfleusterau i wasanaethu gyrrwyr bysiau a bysiau yn aros dros nos;**
iv. **Cyfleusterau parcio a theithio wedi'u lleoli'n strategol, wedi eu cefnogi gan wasanaethau tramwy cyflym neu fysiau dibynadwy, aml ac atyniadol;**
v. **Cyfleusterau o safon uchel i deithwyr, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i seddi, gwybodaeth, cyfleusterau toiled a pharcio beiciau;**
vi. **Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu;**
vii. **Cyfleusterau ar gyfer parcio bysiau, tacsis a gollwng teithwyr;**
viii. **Cyfleusterau ar gyfer parcio lorïau dros nos a throsglwyddo cargo; a**
ix. **Chyfleusterau ar gyfer cyfnewidiad gyda chludiant ar y dŵr.**

5.225 Mae'n hanfodol darparu ar gyfer cyfnewidiad rhwng moddau cludiant er mwyn i'r rhwydwaith cludiant weithio'n effeithiol ac i wneud opsiynau teithio cynaliadwy'n fwy ymarferol ac atyniadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Mae'r Polisi yma'n darparu cefnogaeth i bob math o gyfnewidiad cludiant sy'n helpu i gwrdd â'r gofynion yma a darparu amcanion symudiad moddol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bwysig bod y rhyngweithiau yma'n hygyrch i deithwyr anabl a phobl â phramiau/plant ifanc.

5.226 Bydd gweithrediad y Polisi yma'n helpu i ostwng llygredd rhag codi o draffig ffordd. Bydd hyn yn gwrthgyferbynu cynyddiaadau mewn llygredd atmosfferig o ganlyniad i'r Cynllun, gan felly osgoi effeithiau sylweddol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol.

T4: HYB TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Bydd cefnogaeth wedi'i roi i ddatblygu seilwaith a chyfleusterau o fewn ac o amgylch Gorsaf Drenau Canol Caerdydd a fydd:

i. **Yn hwyluso cyfnewidiad hawdd teithwyr rhwng gwahanol wasanaethau bysiau a threnau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;**
ii. **Darparu cyfleusterau o ansawdd uchel i deithwyr, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i seddau, gwybodaeth, cyfleusterau toiled a pharcio beiciau;**
iii. **Gellir cael gafael yn hawdd arnynt drwy gerdded a seiclo ac maent yn cwrdd ag anghenion mynediad y defnyddwyr i gyd;**
iv. **Mae wedi'i integreiddio'n dda gyda datblygiad yn yr ardal oddi amgylch ac yn hwyluso mynediad hawdd i ganol y ddinas, Bae Caerdydd a'r Ardal Fenter;**
v. **Mae'n cyflenwi datblygiad ac adfywiad y tir i'r gogledd ac i'r de o'r Orsaf Drenau Ganolog a'r Ardal Fenter ehangach;**
vi. **Mae'n darparu porth cludiant cyhoeddus o ansawdd esthetig a swyddogaethol uchel, sy'n gyfatebol â statws Caerdydd fel prifddinas Ewropeaidd; ac**
vii. **Yn darparu amgylchedd atyniadol, clir a bywiog.**

5.227 Mae datblygu cyfnewidfa drafnidiaeth ganolog sydd wedi ei chanolbwyntio ar dir o fewn ac o amgylch Gorsaf Drenau Canol Caerdydd ac ardal y Sgwâr Canolog yn amcan hirdymor gan y Cyngor. Mae Caerdydd wedi'i leoli ar brif reilffordd de Cymru ac yn ffurfio canolfan rhwydwaith reilffordd rhanbarthol y Cymoedd – y byddent oll wedi eu trydanu erbyn 2020.

5.228 Mae darparu hyb trafnidiaeth gyhoeddus canolog i hwyluso'r trosglwyddiad rhwng gwasanaethau trenau a bysiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn hanfodol os yw Caerdydd am gyflawni ei rôl fel prifddinas sy'n tyfu a chanolfan gwasanaethu a chyflogaeth ar gyfer prifddinas-ranbarth fawr. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r cysylltiad cludiant sy'n ofynnol i gynnal cystadleurwydd economaidd Caerdydd gyda dinasoedd a phrifddinasoedd-ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig a pharhau'n atyniadol i fuddsoddwyr busnes.

5.229 TMae'r Polisi yma'n nodi gofynion y Cyngor mewn perthynas â natur ymarferol ac ansawdd esthetig cyfnewidiad canolog a'i integreiddiad gyda datblygiad cyfredol a dyfodol o fewn Ardal Fenter Canol Caerdydd. Bydd y Polisi'n cael ei weithredu drwy broses o uwchgynllunio a wneir mewn cydweithrediad rhwng y Cyngor, datblygwyr, darparwyr cludiant, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol.

T5: RHEOLI EFFEITHIAU CLUDIANT

Lle bo raid ceisir darpariaeth ddiogel, angenrheidiol a chyfleus mewn cydweithrediad â datblygiad ar gyfer:

i. **Cerddwyr, yn cynnwys pobl gyda phramiau a/neu blant ifanc;**
ii. **Pobl anabl gyda nam ar symudedd ac anghenion mynediad arbennig;**
iii. **Beicwyr;**
iv. **Cerbydau dwy olwyn wedi'u pweru;**
v. **Cludiant cyhoeddus;**
vi. **Mynediad i gerbydau a rheolaeth draffig o fewn y safle a'r ardal gyfagos;**
vii. **Parcio a gwasanaethu ceir;**
viii. **Parcio coetsis; a**
ix. **Marchogion.**

5.230 Pwrpas y Polisi yma yw sicrhau bod yr holl ddatblygiadau newydd y mae gofyn caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn:

i. Ymdrin yn gywir â'r galw am deithio a'i effeithiau;
ii. Cyfrannu at ostwng dibyniaeth ar y car preifat, yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol ac amcanion a pholisïau cludiant strategol y Cynllun Datblygu Lleol;
iii. Gwneud darpariaeth foddhaol ar gyfer mynediad, parcio a chylchdroi, yn arbennig gan gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr cludiant cyhoeddus a phobl anabl gyda nam symudedd ac anghenion mynediad arbennig; ac
iv. Osgoi niwed annerbyniol i ddefnydd a gweithrediad diogel ac effeithlon y ffyrdd, cludiant cyhoeddus a llwybrau a rhwydweithiau symudiad eraill.

5.231 Bydd mesurau sy'n briodol i ddatblygiad penodol yn dibynnu ar ei raddau, ei leoliad a'i ddefnydd(iau). Gallent gynnwys darparu ar gyfer a/neu wella, fel y bo'n briodol:

- Anghenion pobl anabl sydd â nam ar eu symudedd ac anghenion mynediad arbennig;
- Anghenion pobl gyda phramiau a/neu blant ifanc;
- Mynediad diogel a chyfleus i gerddwyr at y datblygiad a symudiad o fewn y datblygiad, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth i gerddwyr, goleuadau, diogelwch ac amddiffyniad rhag y tywydd;
- Cysylltiadau cerdded at lwybrau a rhwydweithiau cyfredol i gerddwyr, canolfannau Ardal a Lleol, tir agored a chyfleusterau cymunedol eraill; (e.e. llwybrau diogel i'r ysgol) – i bwrpasau mynediad a difyrrwch - a'u llunio ar gyfer eu defnyddio gan bawb;

- Y llwybrau hamdden strategol;
- Cysylltiadau seiclo i rwydweithiau a llwybrau seiclo cyfredol, canolfannau Ardal a Lleol a chyfleusterau cymunedol a luniwyd i'w defnyddio gan bawb;
- Cyfleusterau parcio beiciau'n ddiogel a newid yn unol â chanllawiau sydd wedi eu nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol;
- Rheoli gwrthdaro rhwng moddau mynediad, yn cynnwys cerbydau, cerddwyr a beicwyr;
- Cludiant cyhoeddus, yn cynnwys arosfannau bysiau, lonau bysiau a chyfleusterau cyfnewid;
- Mynediad diogel i gerbydau at y safle nad yw'n rhwystro llif y traffig yn afresymol ar y rhwydwaith priffyrdd sy'n cysylltu ag o;
- Mesurau rheoli traffig a chyflymder; a
- Chyfleusterau gwasanaethu a pharcio ceir a choetsis yn unol â'r canllawiau diwygiedig sydd mewn canllawiau cynllunio ategol.

5.232 Bydd parcio a gwasanaethu wedi eu darparu, lle bo'n briodol yn unol â safonau mabwysiedig y Cyngor.

Hierarchaeth Defnyddwyr

5.233 Wrth asesu agweddau mynediad a chludiant y cynigion bydd y Cyngor yn fwy tebygol o roi ystyriaeth ffafriol i ddatblygiadau sydd, drwy eu cynllun a'u dyluniad yn rhoi blaenoriaeth i symudiadau drwy foddau teithio cynaliadwy ac adlewyrchu'r hierarchaeth defnyddwyr yn Llawlyfr Strydoedd yr Adran Gludiant, sef:

Ystyried yn Gyntaf	Cerddwyr
v	Beicwyr
v	Defnyddwyr Cludiant Cyhoeddus
v	Cerbydau Gwasanaethau Arbenigol (e.e. gwasanaethau argyfwng, gwastraff ac ati)
Ystyried yn Olaf	Traffig modur arall

Dewisiadau Teithio Cynaliadwy

5.234 Lle bo'n angenrheidiol i leihau effeithiau teithio bydd angen cefnogi datblygiad gyda gweithredoedd sydd wedi'u llunio a rheoli'r galw am deithio, lleihau'r defnydd o geir preifat a chynyddu'r gyfran o deithiau a wneir trwy gerdded, seiclo a chludiant cyhoeddus. Bydd mesurau o'r fath yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Raglenni a phrosiectau cynllunio teithiau wedi'u personoli ac wedi eu seilio o fewn yr ardal;
- Cynlluniau Teithio yn cynnwys mesurau i gefnogi teithio cynaliadwy i/o ardaloedd preswyl, gweithfannau, ysgolion a chynhyrchwyr teithiau arwyddocaol eraill; Clybiau Ceir a Chynlluniau Rhannu Ceir; Hyfforddiant Seiclo; a
- Mentrau ac ymgyrchoedd hyrwyddo/marchnata i annog teithio cynaliadwy.

5.235 Bydd y rhain wedi eu diogelu gydag amod cynllunio a/neu oblygiad cynllunio Adran 106. Lle bo raid, bydd cytundebau cynllunio'n sicrhau adnoddau ar gyfer camau monitro ac arolygu sy'n ofynnol i gefnogi darpariaeth ymyraethau penodol.

5.236 Bydd gweithrediad y Polisi yma'n helpu i ostwng llygredd sy'n codi o draffig ffordd. Bydd hyn yn gwrthgyferbynu cynyddiadau mewn llygredd atmosfferig o ganlyniad i'r Cynllun, gan felly osgoi effeithiau sylweddol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol.

T6: YR EFFAITH AR WASANAETHAU A RHWYDWEITHIAU CLUDIANT

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau symudiad eraill yn cynnwys llwybrau cerddwyr a seiclo, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffylau.

5.237 Pwrpas y Polisi yma yw amddiffyn y rhwydwaith cludiant a'i ddefnyddwyr rhag datblygiadau a allai fel arall fod wedi achosi niwed annerbyniol i weithrediad a defnydd llwybrau a rhwydweithiau cludiant allweddol.Pwrpas y Polisi yma yw amddiffyn y rhwydwaith cludiant a'i ddefnyddwyr rhag datblygiadau a allai fel arall fod wedi achosi niwed annerbyniol i weithrediad a defnydd llwybrau a rhwydweithiau cludiant allweddol.

T7: Y SEILWAITH CLUDIANT STRATEGOL

Rhoddir cefnogaeth i ddatblygiad yr elfennau a ganlyn o'r seilwaith cludiant strategol:

i. **Cyswllt Eastern Bay;**
ii. **Cyfnewidfa reilffordd Llaneirwg yn cynnwys Parcio a Theithio; a**
iii. **Choridor cludiant cynaliadwy newydd yng Ngogledd Orllewin Caerdydd.**

5.238 Mae'r Polisi yma'n darparu cefnogaeth i dair elfen allweddol o seilwaith cludiant strategol sydd i'w gweld ar y Map Cyfyngiadau gyda rhagor o waith manwl yn hysbysu'r union ofynion cymryd tir.

5.239 Mae Ffordd Gyswllt Eastern Bay yn uchelgais hirdymor gan y Cyngor ac i'w weld yng Nghynllun Cludiant Rhanbarthol Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta). Byddai'r ffordd yn cwblhau ffordd ddosbarthu berifferol rhwng Cyffordd 33 yr M4 yng Ngogledd Orllewin Caerdydd a Chyfnewidfa Llanedeyrn yn Nwyrain y ddinas. Byddai'n darparu capasiti ychwanegol ar gyfer mynediad ar y ffordd i Ardal Fenter Canol Caerdydd o'r Dwyrain ac yn cefnogi datblygiad yn yr ardal honno. Mae cynllun yn cael ei hyrwyddo a'i ddatblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw manylion y gwaith arfaethedig ar gael ar hyn o bryd felly mae'r Map Cyfyngiadau'n dangos graddau'r Cyswllt Eastern Bay sy'n rhedeg o Gylchfan Queensgate i'r A48, Eastern Avenue.

5.240 Mae'r cynnig am orsaf drenau yn Llaneirwg wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cludiant Rhanbarthol Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a Strategaeth Reilffordd Sewta (2013). Byddai modd i'r orsaf wasanaethu'r safle datblygiad strategol i'r de o Barc Busnes Llaneirwg. Gallai hefyd ffurfio rhan o rwydwaith Metro De Cymru yn y dyfodol yn cynnwys cysylltiadau tramwy cyflym neu reilffordd sy'n cysylltu canol Caerdydd gyda datblygiadau strategol o fewn ac o amgylch Casnewydd. Mae gwaith cychwynnol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i archwilio pa mor ddichonol yn dechnegol fyddai cael gorsaf yn Llaneirwg.

5.241 Mae datblygiad strategol safleoedd a gynigir i'r Gorllewin o Bentre-baen ac i'r Gogledd o Gyffordd 33 yr M4 yn gofyn cael cysylltiadau cludiant cyhoeddus effeithiol. Mae'r potensial yn bodoli i ddatblygu coridor cludiant cyhoeddus unswydd yn cysylltu canol dinas Caerdydd gyda'r safleoedd strategol yng Ngogledd Orllewin Caerdydd ac ardaloedd datblygiad strategol y tu hwnt i ffiniau Caerdydd yn Rhondda Cynon Taf. Gellir cynnwys cysylltiad o'r fath o fewn yr uwchgynlluniau ar gyfer y safleoedd strategol a ffurfio cydran hanfodol o'r datblygiadau hynny. Mae ei estyniad i mewn i ardaloedd o dyfiant yn Rhondda

Cynon Taf yn gwneud y corridor yn strategol bwysig hefyd o fewn cyd-destun rhanbarthol. Felly, byddai'n ffurfio corridor allweddol o fewn rhwydwaith Metro De Cymru yn y dyfodol.

T8: LLWYBRAU ADLONIANT STRATEGOL

Bydd rhwydwaith strategol o lwybrau hamdden yn cael eu cynnal a'u datblygu i gysylltu arfordir Caerdydd, ei goridorau afonydd, ei dir agored, cefn gwlad a'r rhwydwaith rhanbarthol o deithiau, yn hwyluso mynediad iddynt gan gymunedau lleol ac yn ffurfio rhan integrol o'r rhwydwaith gerdded a seiclo ehangach yng Nghaerdydd.

Bydd y rhwydwaith strategol craidd yn cynnwys:

i. **Taith Taf;**
ii. **Llwybr Elái;**
iii. **Llwybr Rhymni;**
iv. **Llwybr Nant Fawr;**
v. **Llwybr y Bae;**
vi. **Llwybr Arfordir Cymru; a**
vii. **Thaith Gerdded Cefnennau Morgannwg**

5.242 Mae'r Polisi yma'n nodi awydd y Cyngor i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau adloniant a fydd yn caniatáu i bawb yng Nghaerdydd gael mynediad hawdd i fannau gwyrdd lleol a'r arfordir a chefnwlad ehangach.

5.243 Mae'r Polisi'n helpu i ddarparu amcanion y Cynllun ac mae hefyd yn cyfateb gyda Pholisi Cynllunio Cymru sy'n ceisio hybu darpariaeth llwybrau cerdded a seiclo hygyrch, diogel a chyfleus a gydag arwyddion da, ac amddiffyn a gwella'r rhwydwaith seiclo cenedlaethol a llwybrau cerdded a theithiau hir sy'n gyfleusterau hamdden a thwristiaeth pwysig, er eu mwyn eu hunain ac fel ffordd o gysylltu atyniadau eraill a chymunedau lleol.

5.244 Lle bo'n bosib, bydd y rhwydwaith strategol yn darparu ar gyfer mynediad i gerddwyr, beicwyr a marchogion (er nad yw'n ymarferol rhoi mynediad i bawb). Bydd y rhwydwaith strategol craidd wedi'i gysylltu â chymunedau lleol a llwybrau eraill, yn cynnwys llwybrau caniataol, hawliau tramwy cyhoeddus a mannau agored. Bydd hyn yn helpu i ddarparu ystod o lwybrau a galluogi i bawb ddefnyddio a mwynhau treftadaeth naturiol Caerdydd, gan hefyd gysylltu Caerdydd gyda'r rhwydwaith rhanbarthol ehangach. Mae cyfleoedd lleol yn bwysig am resymau iechyd a lles a chynaliadwyedd.

5.245 Mae datblygiad y llwybrau coridor afonydd ac arfordirol yn arbennig o bwysig i bobl sy'n byw ym mwa deheuol Caerdydd lle mae'r dewis o fannau agored, hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad yn fwy cyfyngedig. Bydd datblygiad rhwydwaith o lwybrau atyniadol, cyfleus a diogel drwy fannau gwyrdd hefyd yn darparu'r cyfle i fwy o bobl eu defnyddio nhw yn rhan o'u teithiau pob dydd – i'r ysgol, i'r gwaith a chyfleusterau cymunedol lleol. Mae datblygiad llwybrau trawsffiniol i mewn i ardaloedd awdurdodau eraill ynghyd ag o fewn llwybrau Sirol yn cyfrannu at gynnig twristiaeth werdd y ddinas.

5.246 Bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd, yn cynnwys y safleoedd strategol arfaethedig gerllaw'r prif lwybrau strategol, hawliau tramwy cyhoeddus neu lwybrau hamdden eraill barchu eu bodolaeth a chyfrannu at eu datblygiad, neu gysylltiadau atynt lle bo'n berthnasol.

5.247 Mae maint cyfredol y rhwydwaith strategol hamdden graidd bresennol i'w weld ar y Map Cyfyngiadau, gwelir cynigion ar gyfer datblygu'r llwybrau yma, yn cynnwys creu cysylltiadau 'coll' i'w gweld ar y Map Cynigion. Lle mae manylion llwybrau newydd arfaethedig heb gael eu gweithio'n llawn eto na'u cytuno gyda phartïon perthnasol megis y Cyswllt Taf Elái, ni fydd y llwybrau i'w gweld ar y Mapiau Cynllunio ond bydd rhagor o waith yn parhau i archwilio eu gweithrediad yn y dyfodol.

5.248 Bydd y defnydd o lwybrau wedi ei fonitro drwy'r data cyfrifo beiciau lle mae'n cael ei ddefnyddio ynghyd ag adborth ehangach drwy fenter Dyffrynnoedd Afon Caerdydd.

T9: RHWYDWAITH 'METRO' PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Bydd y Cyngor yn ceisio hwyluso datblygiad rhwydwaith 'Metro' rhanbarthol yn y dyfodol o lwybrau cludiant cyhoeddus integredig a gwasanaethau yng Nghaerdydd a chysylltu'r ddinas gyda'r rhanbarth de ddwyreiniol ehangach o Gymru, yn cynnwys datblygu a/neu wella'r cydrannau seilwaith ar y briffordd ac oddi ar y briffordd a ganlyn:

i. **Llwybrau rheilffordd trwm cyfredol a newydd;**
ii. **Llwybrau rheilffordd ysgafn newydd;**
iii. **Tram;**
iv. **Tram/trên ar reilffyrdd wedi gwahanu a/neu yn rhedeg ar stryd;**
v. **Bysiau confensiynol neu fysiau gyda thywyswyr sy'n defnyddio ffyrdd bysiau wedi'u gwahanu'n gyfan gwbl oddi wrth y briffordd ar ei hyd i gyd neu ar gyfer adrannau byrion mewn cyfuniad â defnyddio'r briffordd gyhoeddus/mesurau blaenoriaeth bysiau ar y ffordd gyhoeddus;**
vi. **Bysiau confensiynol sy'n defnyddio lonau bysiau pwrpasol a'u helpu gan fesurau blaenoriaeth bysiau eraill mewn cyfuniad â defnyddio lle arall ar y gerbytffordd ar y ffordd gyhoeddus; a**
vii. **Bysiau confensiynol sy'n defnyddio lle'r gerbytffordd ar y ffordd gyhoeddus a ddefnyddir gan draffig cyffredinol.**

Lle mae aliniad llwybr yn y dyfodol sy'n debygol o ffurfio rhan o rwydwaith 'Metro' yn perthyn i unrhyw ran o safle datblygiad, bydd y Cyngor, drwy'r broses rheoli datblygiad, yn ceisio naill ai sicrhau darpariaeth y seilwaith angenrheidiol yn rhan o'r datblygiad, neu fel arall, ddiogelu'r tir a'r lle sy'n ofynnol i gynnwys y llwybr a'r opsiynau modd posibl yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i ddatblygiad gael ei lunio mewn ffordd nad yw'n rhagfarnu datblygiad y llwybr 'Metro' yn y dyfodol ac a fyddai'n ei alluogi i gael ei gynnwys yn y datblygiad yn ddiweddarach.

5.249 Mae Metro Rhanbarth Dinas Caerdydd yn gynnig ar gyfer rhwydwaith cludiant cyhoeddus integredig dull metropolitanaidd yn ymestyn ar draws Caerdydd a de ddwyrain Cymru. Mae'r 'Metro' yn debygol o gael ei ddatblygu mewn camau dros nifer o flynyddoedd. Ei bwrpas yw gwella hygyrchedd cludiant cyhoeddus yn sylweddol ar draws y rhanbarth. Byddai hynny'n cael ei gyflawni drwy integreiddio llwybrau yn ffisegol a gweithrediadol ar gyfer gwahanol foddau cyhoeddus (ar drenau ac ar fysiau) a galluogi darparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus effeithlon, cyflym ac aml sy'n cysylltu prif anheddiadau a chyrchnodau tripiau yn y rhanbarth. Byddai rhwydwaith 'Metro' yn cynnwys mannau cyfnewid ac yn cael ei gefnogi gan amserlenni integredig a thocynnau gyda brandiau cyffredin. O'u

cyfuno, byddai'r elfennau hyn yn galluogi i bobl wneud teithiau dyddiol a chyrraedd cyrchnodau tripiau allweddol heb fod angen car. Byddai'r cysylltiad gwell yma'n dod â budd economaidd sylweddol i Gaerdydd a'r brifddinas-ranbarth ehangach, yn ogystal â lliniaru'r pwysau ar goridorau cludiant strategol allweddol o fewn a thu hwnt i ffiniau Caerdydd.

5.250 Mewn cyfres o astudiaethau archwilio dros y blynyddoedd diwethaf, pennwyd coridorau/llwybrau posibl a fyddai'n creu'r rhwydwaith 'Metro'. Bydd gwaith technegol y dyfodol wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, perchnogion tir, cymunedau a'r diwydiant cludiant. Mae Cynllun Ariannol Cludiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2015 (Gorffennaf 2015) yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu'r gwaith yma a fydd yn penderfynu ar ffurf y rhwydwaith a'r cymysgedd o foddau cludiant cyhoeddus ar bob coridor/llwybr.

5.251 Mae'n bwysig nad yw'r datblygiad sy'n digwydd o fewn cyfnod y cynllun yn amharu ar ddarpariaeth yr ased rhanbarthol bwysig yma yn y dyfodol.

5.252 Mae polisïau KP2 (A) i KP2(H) yn cynnwys cyfeiriadau at welliannau i'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus strategol o fewn rhestrau cefnogol y seilwaith cludiant 'Hanfodol' ac 'Sy'n galluogi' ar gyfer safleoedd strategol unigol y Cynllun Datblygu Lleol. Gallai nifer o'r mesurau hyn ffurfio rhan o rwydwaith 'Metro' y dyfodol.

5.253 Mae Polisi T9 yn helaethu ar Bolisi KP2 drwy ddarparu cefnogaeth gyffredinol ar gyfer darparu'r 'Metro' yn y dyfodol a'r dulliau y gall y Cyngor eu dilyn, drwy reoliadau a weithredir drwy'r broses rheoli datblygiad:

- sicrhau'r seilwaith sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith; neu
- fel arall, ddiogelu aliniad y llwybr, opsiynau modd posibl a gofynion am le ffisegol ar gyfer coridorau/llwybrau 'Metro' y dyfodol.

5.254 Bydd yr amddiffyniad yma wedi'i integreiddio o fewn cynllun a dyluniad y datblygiadau cymeradwy. Mae'r polisi hefyd yn darparu'r sail ar gyfer gwrthod datblygiadau a fyddai'n atal neu'n niweidio darpariaeth llwybr 'Metro' yn y dyfodol.

5. MANWERTHU

R1: HIERARCHAETH MANWERTHU

Rhoddir ystyriaeth o flaen llaw i gynigion manwerthu (yn cynnwys newid defnydd, ailddatblygu ac estyniadau) yn unol â'r hierarchaeth manwerthu sy'n cynnwys Ardal Siopa Ganolog (CSA) ar frig yr hierarchaeth ranbarthol wedi'i gefnogi gan ystod o ganolfannau ardal a chanolfannau lleol llai fel y maent wedi'u pennu ar y Map Cynigion. Bydd y cynigion manwerthu y tu allan i ganolfannau a bennir ar y Map Cynigion wedi'u hasesu yn erbyn Polisi R6: Datblygiad Manwerthu (Allan o'r Ganolfan) neu Bolisi R7: Darpariaeth Manwerthu o fewn Safleoedd Strategol lle maent yn ffurfio rhan o safle strategol dynodedig dan arweiniad tai.

5.255 Mae'r polisi yma'n gydran ganolog o'r strategaeth manwerthu sy'n amcannu i:

- Gynnal a gwella rôl yr ardal Siopa Ganolog ar frig yr hierarchaeth siopa ranbarthol;
- Cynnal a gwella egni, hyfywedd a dengarwch canolfannau ardal a lleol a welir ar y Map Cynigion;
- Hybu hygyrchedd da i ystod o gyfleusterau siopa gan holl adrannau'r gymuned a gostwng y ddibyniaeth ar deithio mewn car ar gyfer teithiau siopa; a
- Rheoli maint, nifer a natur manwerthu tu allan i ganol y ddinas.

5.256 Mae'r polisi'n sefydlu hierarchaeth canolfannau yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn ffafrio cyfleusterau manwerthu newydd a gwell o fewn Ardal Siopa Ganolog ar raddfa briodol, o fewn canolfannau ardal a lleol, tra bydd defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa'n cael eu rheoli. Mae hyn yn sicrhau bod agwedd ddilyniannol yn cael ei mabwysiadu sy'n golygu y dylai'r dewis cyntaf ar gyfer cynigion manwerthu fod mewn canolfannau cyfredol ac yna i safleoedd sy'n ymuno'n uniongyrchol â'r canolfannau hyn. Os nad oes safleoedd addas yn y lleoliadau yma, dim ond bryd hynny yr ystyrir safleoedd y tu allan i ganol y ddinas mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddewis o ddulliau cludiant.

5.257 Bydd y cynigion y tu allan i ganolfannau a bennir ar y Map Cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi R6 Datblygiad Manwerthu (Tu Allan i Ganol y Ddinas).

5.258 Bydd Canolfannau Ardal a Lleol o fewn safleoedd strategol dynodedig a arweinir gan dai sy'n datblygu dros gyfnod y cynllun yn unol â Pholisi R7: Darpariaeth Manwerthu o fewn Safleoedd Strategol yn dod yn ganolfannau dynodedig o fewn yr hierarchaeth manwerthu a'u diffinio ar y Map Cynigion yn rhan o adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.

R2: DATBLYGIAD YN YR ARDAL SIOPA GANOLOG

Bydd cynigion am ddatblygiad o fewn yr Ardal Siopa Ganolog (CSA) yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

i. **A yw'r cynnig yn cynnwys colli defnyddiau siopau (Dosbarth A1) o'r tu mewn i'r ffryntiadau Siopa a Ddiogelir;**
ii. **A yw'r cynnig yn cynnwys manwerthu a defnyddiau eraill sy'n gwella egni, hyfywedd a dengarwch canol y ddinas;**
iii. **A yw'r datblygiad yn caniatáu ar gyfer, neu'n cadw defnydd effeithiol, lloriau uwch; a**
iv. **Chefnogi adferiad, adnewyddu a gwella canol y ddinas.**

5.259 Pwrpas y Polisi yma yw caniatáu, monitro a rheoli amrywiaeth y defnyddiau o fewn yr Ardal Siopa Ganolog a bennir ar y Map Cynigion.

5.260 Siopa Canolog yw brig yr hierarchaeth manwerthu i Gaerdydd a De Ddwyrain Cymru. Mae'n cynnig ystod ac ansawdd y cyfleusterau siopa sydd heb eu hail yn y rhanbarth, ynghyd ag amrywiaeth o ddefnyddiau busnes, preswyl, hamdden a gwasanaethu cyflenwol mewn ardal hygyrch a chompact. Er gwaethaf hynny, mae'r ardal yma'n agored i gael ei heffeithio gan dueddiadau mewn lleoliadau manwerthu a symudiadau yn y galw gan ddefnyddwyr a gwariant, yn cynnwys cystadleuaeth o leoliadau y tu allan i ganol y ddinas a siopa ar y we. Mae angen parhaus i wella cyfleusterau o fewn yr Ardal Siopa Ganolog er mwyn darparu siopau o ansawdd a nifer a fydd yn gwella ei phrif rôl siopa a'i chymeriad, ei hegni, ei dengarwch a'i hyfywedd.

5.261 Mae cymysgedd priodol o ddefnyddiau heblaw siopau'n gallu cyfrannu at egni, dengarwch a hyfywedd drwy gyflwyno amrywiaeth o ddefnyddiau cyfatebol o fewn yr Ardal Siopa Ganolog. Fodd bynnag, gall gormod ohonynt niweidio'r brif rôl siopa a chymeriad strydoedd siopa drwy ostwng eu dengarwch i siopwyr, tanseilio hyfywedd yr unedau siop sy'n weddill a gostwng y syniad o ddenu manwerthwyr newydd a buddsoddiad mewn manwerthu.

R3: FFRYNTIADAU SIOPAU A DDIOGELIR

Bydd y cynigion am ddatblygiad sy'n cynnwys colli defnyddiau Dosbarth A1 (siop) o fewn Ffryntiadau Siopau a Ddiogelir wedi'u hasesu yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

i. **Cydbwysedd a dosbarthiad y defnyddiau cyfredol ac ymroddedig nad ydynt yn ymwneud â siopau;**
ii. **Faint o arwynebedd llawr A1 a hyd y ffryntiad sy'n cael ei golli;**
iii. **A ydyw'r safle wedi bod yn wag ac wedi cael ei farchnata'n weithredol ac am ba gyfnod o amser;**
iv. **Lleoliad, cymeriad ac amlygrwydd ffryntiadau neu safleoedd unigol;**
v. **Natur y defnydd arfaethedig, yn cynnwys a yw blaen siop a dangosiadau ffenestri i gael eu darparu; ac**
vi. **Effaith y defnydd arfaethedig ar amwynder trigolion gerllaw neu gyfagos.**

5.262 Mae'r Polisi yma'n darparu lefel well o amddiffyniad ar gyfer strydoedd siopa pwysicaf Canol y Ddinas. Mae'r ffryntiadau a ddiogelir wedi eu pennu ar y Map Cynigion. Bydd arweiniad pellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

5.263 Bydd y cynigion wedi eu hasesu yn nhermau eu heffaith gronnol gyda defnyddiau cyfredol ac ymroddedig eraill nad ydynt yn ymwneud â siopau. Lle mae ffryntiad y cais yn ymwneud yn agos â'r ffryntiadau o'i amgylch (e.e. mewn arcedau neu strydoedd cul neu i gerddwyr) bydd hi'n briodol ystyried effaith y cynnig ar ffryntiad y cais a'r ffryntiadau cyfagos.

5.264 Mae'r Polisi'n caniatáu ar gyfer defnyddiau eraill (yn cynnwys A2 ac A3) mewn lleoliadau priodol o fewn Ffryntiadau a Ddiogelir, ar yr amod nad yw'r defnyddiau hynny, naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â defnyddiau eraill nad ydynt yn ymwneud â siopau, yn tanseilio'r brif rôl siopa a chymeriad y ffryntiadau hynny neu grwpiau o ffryntiadau. Bwriedir bod hwn yn cynnal cynnig manwerthu'r ganolfan, gan ddarparu gwasanaethau cyflenwol yn ystod oriau siopa arferol, yn cynhyrchu ffrydiau cerddwyr ac yn darparu ffryntiadau gweithredol a gweledol diddorol.

5.265 Fel y swyddfeydd, cydnabyddir bod trosiant naturiol busnesau neu adnewyddiad yn gallu creu elfen o siopau gwag. Fodd bynnag, mae arwynebedd llawr siopau gwag yn arwydd cryf o ddirywiad, sy'n effeithio'n niweidiol ar ganfyddiadau siopwyr a buddsoddwyr o'r stryd fawr. Bydd cynigion sy'n ceisio dod â safleoedd manwerthu sydd wedi parhau'n wag er gwaethaf marchnata gweithredol, yn ôl i ddefnydd buddiol yn derbyn ystyriaeth fwy ffafriol. Gall defnyddiau dros dro neu

“yn y cyfamser” fywiocáu strydoedd dinas a darparu lle arddangos neu ddeori manwerthu tymor byr i fusnesau, gan ostwng costau cynhaliaeth a rheoli i berchnogion tir ar yr un pryd.

R4: CANOLFANNAU ARDAL

Bydd cyfleusterau cymunedol, manwerthu, swyddfeydd a hamdden wedi eu ffafrio o fewn y Canolfannau Ardal a ganlyn sydd wedi eu pennu ar y Map Cynigion:

1. **Albany Road / Wellfield Road**
2. **City Road**
3. **Clifton Street**
4. **Cowbridge Road East**
5. **Crwys Road/ Woodville Road**
6. **Bute Street/James Street**
7. **Merthyr Road, Whitchurch**
8. **Penarth Road/Clare Road**
9. **Llaneirwg**
10. **Thornhill**
11. **Whitchurch Road**

Bydd hyn yn amodol ar y ffaith fod:

i. **Y cynnig o raddfa sy'n briodol i'r ganolfan benodol;**
ii. **Lleoliad swyddfeydd busnes (Dosbarth B1) yn uwch na'r llawr gwaelod;**
iii. **Cyngion nad ydynt yn rhwystro defnydd effeithiol lloriau uwch;**
iv. **Bod cynigion ar gyfer defnyddiau heblaw Dosbarth A1 yn cael eu caniatáu ar lefel y llawr gwaelod os na fyddent yn achosi niwed annerbyniol i gymeriad a rôl siopa amlycaf y ganolfan, egni, dengarwch a hyfywedd ffryntiad penodol neu grŵp o ffryntiadau;**

Dylai niwed annerbyniol ystyried:

- **Lefel a natur cyfredol defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopau o fewn y ganolfan gyfan;**
- **Maint yr uned manwerthu mewn perthynas â maint cyffredinol canolfan neu grŵp penodol o ffryntiadau; a**
- **Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopau mewn ffryntiad.**

Bydd cynigion sy'n achosi, neu'n ychwanegu at hyd barhaus o ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa (3 neu fwy o unedau mewn defnydd nad ydynt yn ymwneud â siopa) yn derbyn ystyriaeth lai ffafriol.
Bydd ceisiadau am newid defnydd sy'n cynnwys defnyddiau newydd nad ydynt yn ymwneud â siopa mewn safleoedd gwag yn derbyn ystyriaeth yng nghyd-destun y canlynol:

- **Y gyfradd swyddi gwag yn yr ardal gyfagos; a**
- **P'un a ydyw'r safle wedi parhau'n wag, ac am ba hyd o amser, wrth gael ei farchnata'n weithredol ar gyfer ei ddefnydd cyfredol neu ei ddefnydd blaenorol.**

5.266 Nod y Polisi hwn yw amddiffyn a hybu rôl siopa Canolfannau Ardal gan hefyd gefnogi cymysgedd o ddefnyddiau priodol. Mae'r Canolfannau Ardal a enwir ym Mholisi R4 wedi eu diffinio ar y Map Cynigion (ac yn Atodiad 8).

5.267 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod bod ystod o ddefnyddiau yn ogystal â siopau yn briodol mewn canolfannau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2) a defnyddiau bwyd a diod (A3). Yn gyffredinol, caniateir y cynigion ar gyfer defnyddiau o'r fath lle na fyddent yn achosi niwed annerbyniol i brif swyddogaeth siopa sylfaenol y ganolfan neu egni, dengarwch neu hyfywedd ei ffryntiadau siopa, drwy rinwedd eu nifer neu leoliad. Bydd yr hyn a ystyrir yn niwed annerbyniol yn dibynnu ar natur bob canolfan a fydd â'i nodweddion unigol ei hun.

5.268 Mae maint a chymeriad y canolfannau Ardal yn golygu eu bod yn fwy tebygol o allu rhoi lle'n foddhaol i ystod a chymysgedd fwy o ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â manwerthu yn cynnwys busnesau, swyddfeydd a chyfleusterau hamdden masnachol.

5.269 Lle cynigir newid defnydd o uned manwerthu A1 i ddefnydd nad yw'n ymwneud â siopa (defnydd dosbarth heblaw A1), dylai'r asesiad yn nhermau niwed annerbyniol ystyried:

- y lefel bresennol a natur defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa o fewn y ganolfan gyfan (Dylai hyn ystyried nifer y safleoedd hefyd, a
- ph'un a oes gan unrhyw rai ganiatâd cynllunio heb ei weithredu ar gyfer defnyddiau heblaw siopa);
- Maint yr uned manwerthu (hyd y ffryntiad ac arwynebedd llawr) mewn perthynas â maint cyffredinol canolfan neu grŵp penodol o ffryntiadau; a
- Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopau o fewn ffryntiad.

5.270 Mae'n bwysig bod defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa yn cael eu lledaenu cymaint ag sy'n bosibl er mwyn cyfyngu ar y niwed i rôl siopa a chymeriad canolfan. Bydd cynigion sy'n achosi, neu sy'n ychwanegu at hyd parhaus o ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa (3 neu fwy o unedau mewn defnydd nad yw'n ymwneud â siopa) yn cael eu hystyried yn llai ffurfiol, oherwydd byddent yn darnio'r ffryntiad siopa.

5.271 Yn aml iawn mae lefel uwch o swyddi gwag yn arwydd o berfformiad manwerthu gwael, lefelau is o alw a/neu hyder y buddsoddwr, a gall fod yn niweidiol i egni, dengarwch a hyfywedd ardal yn y tymor hir. Felly bydd ceisiadau am newid defnydd sy'n cynnwys defnyddiau newydd nad ydynt yn ymwneud â siopa mewn safleoedd gwag, yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r canlynol:

- Y gyfradd adeiladau gwag yn yr ardal gyfagos; a
- P'un a ydyw'r safle wedi parhau'n wag, ac am ba hyd o amser, wrth gael ei farchnata'n weithredol ar gyfer ei ddefnydd cyfredol neu ei ddefnydd blaenorol.

5.272 Bydd y Polisi yma'n ffafrio swyddfeydd dosbarth busnes uwch lefel y llawr gwaelod mewn Canolfannau Ardal. Ar lefel y llawr gwaelod, dim ond swyddfeydd proffesiynol ac ariannol (A2) gyda blaen siop fydd yn dderbyniol. Nid yw defnyddiau B1 yn darparu gwasanaeth neu ffryntiad gweithredol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.

5.273 Mae darpariaeth llety preswyl ar loriau uwch o fewn canolfannau'n gallu cefnogi eu hegni, eu dengarwch a'u hyfywedd. Fodd bynnag, cydnabyddir na all Canolfannau Ardal gynnig yr un raddfa o amwynder ag ardaloedd sydd ond yn rhai preswyl. I alluogi cyfleoedd ar gyfer swyddfeydd a defnyddiau busnes priodol eraill ar loriau uwch mewn Canolfannau Ardal, efallai y bydd angen caniatáu'r newid defnydd mewn safleoedd sydd â defnydd preswyl.

5.274 Mae Strategaeth Canolfannau Ardal wedi ei pharatoi i godi proffil Canolfannau Ardal yng Nghaerdydd a darparu fframwaith a chyfiawnhad am baratoi Cynlluniau Gweithredu Unigol i Ganolfannau Ardal sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r Strategaeth yma hefyd yn gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer gweithio cydlynol rhwng darparwyr gwasanaethau; mecanwaith ar gyfer denu mewnfuddsoddiad a sicrhau arian ar gyfer gwelliannau o fewn y canolfannau dynodedig yma.

R5: CANOLFANNAU LLEOL

Bydd cyfleusterau manwerthu, swyddfa, hamdden a chymunedol wedi eu ffafrio yn y Canolfannau Lleol a ganlyn a ddangosir ar y Map Cynigion:

1. **Birchgrove**
2. **Bute Street (Loudoun Square)**
3. **Cathedral Road**
4. **Countisbury Avenue**
5. **Caerau Lane**
6. **Y Tyllgoed Green**
7. **Gabalfa Avenue**
8. **Grand Avenue**
9. **Stryd Fawr, Llandaf**
10. **Maelfa, Llanedeyrn**
11. **Newport Road, Rhymni**
12. **Pentref Rhiwbina**
13. **Salisbury Road**
14. **Splott Road**
15. **Station Road, Llanisien**
16. **Station Road, Gogledd Llandaf**
17. **Station Road, Radur**
18. **Tudor Street**
19. **Willowbrook Drive**
20. **Wilson Road**

Bydd hyn yn amodol ar:

i. **Y ffaith bod maint y cynnig yn addas i'r ganolfan benodol;**
ii. **Gadw'r llety preswyl ar y lloriau uwch;**
iii. **Bod cynigion am ddefnyddiau heblaw Dosbarth A1 (ac eithrio swyddfeydd busnes dosbarth B1) yn cael eu caniatáu ar lefel y llawr gwaelod os na fyddent yn achosi niwed annerbyniol i'r brif rôl siopa a chymeriad y ganolfan, egni, hyfywedd a dengarwch ffryntiad penodol neu grŵp o ffryntiadau;**

Dylai niwed annerbyniol gymryd y canlynol i ystyriaeth:

- **Lefel a natur cyfredol defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopau o fewn y ganolfan gyfan**

- **Maint yr uned manwerthu mewn perthynas â maint cyffredinol canolfan neu grŵp penodol o ffryntiadau; a**
- **Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa o fewn ffryntiad.**

Bydd cynigion sy'n achosi, neu'n ychwanegu at hyd barhaus o ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa (3 neu fwy o unedau mewn defnydd nad ydynt yn ymwneud â siopa) yn derbyn ystyriaeth lai ffafriol.

Bydd ceisiadau am newid defnydd sy'n cynnwys defnyddiau newydd nad ydynt yn ymwneud â siopa mewn safleoedd gwag yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y canlynol:

- Y gyfradd swyddi gwag yn yr ardal gyfagos;
- P'un a ydyw'r safle wedi parhau'n wag, ac am ba hyd o amser, wrth gael ei farchnata'n weithredol ar gyfer ei ddefnydd cyfredol neu ei ddefnydd blaenorol

5.275 Nod y Polisi yma yw hybu ac amddiffyn rôl siopa canolfannau lleol a chefnogi cymysgedd o ddefnyddiau priodol ar yr un pryd. Mae'r canolfannau lleol a bennwyd ym Mholisi R5 wedi eu diffinio ar y Map Cynigion (ac yn Atodiad 8).

5.276 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod ystod o ddefnyddiau yn ogystal â siopau yn briodol o fewn canolfannau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2) a defnyddiau bwyd a diod (A3). Yn gyffredinol, caniateir cynigion am ddefnyddiau o'r fath lle na fyddent yn achosi niwed annerbyniol i brif swyddogaeth siopa'r ganolfan neu egni, hyfywedd a dengarwch ei ffryntiadau siopa, drwy rinwedd eu nifer neu leoliad. Bydd yr hyn a ystyrir yn niwed annerbyniol yn dibynnu ar natur bob canolfan a fydd â'i nodweddion unigol ei hun.

5.277 Yn gyffredinol mae Canolfannau Lleol yn llai eu maint a'u hamrywiaeth o ddefnyddiau. Mae canolfannau lleol yn fwy preswyl eu natur fel arfer na Chanolfannau Ardal ac nid oes ganddynt yr un maint neu amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu ac arall. O ganlyniad, gallai cynigion heblaw A1 fod yn anoddach eu derbyn yn foddhaol nag mewn Canolfannau Ardal. O fewn Canolfannau Lleol, sefyllfa'r polisi yw gwrthod datblygiadau swyddfa sylweddol neu ddatblygiadau hamdden masnachol a rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu amwynder preswyl. Ar lefel y llawr gwaelod, dim ond swyddfeydd proffesiynol ac ariannol (A2) gyda ffryntiad siop fydd yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn achosi niwed annerbyniol i egni a hyfywedd y ganolfan. Mewn perthynas â defnyddiau A3 bydd mwy o bwyslais ar y math o safle ac amseroedd cau.

5.278 Lle cynigir newid defnydd o uned fanwerthu A1 i ddefnydd nad yw'n ymwneud â siopa (dosbarth defnydd heblaw A1) dylai'r asesiad yn nhermau niwed annerbyniol ystyried:

- Lefel a natur bresennol y defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa o fewn y ganolfan gyfan (Dylai hyn gymryd i ystyriaeth y nifer o safleoedd;
- P'un a oes gan unrhyw rai ohonynt ganiatâd cynllunio heb ei weithredu ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa);
- Maint yr uned manwerthu (hyd ac arwynebedd llawr y ffryntiad) mewn perthynas â maint cyffredinol canolfan neu grŵp penodol o ffryntiadau; a
- Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa o fewn ffryntiad.

5.279 Mae'n bwysig bod defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa wedi eu gwasgaru cymaint ag sy'n bosibl er mwyn cyfyngu ar y niwed i'r rôl siopa a chymeriad canolfan. Bydd cynigion sy'n achosi neu'n ychwanegu at hyd o ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â siopa (3 neu fwy o unedau mewn defnydd nad yw'n ymwneud â siopa) wedi'u hystyried yn llai ffafriol oherwydd byddent yn darnio'r ffryntiad siopa.

5.280 Yn aml iawn mae lefel uchel o adeiladau gwag yn arwydd o berfformiad manwerthu gwael, lefelau is o alw a/neu hyder y buddsoddwr, a gall fod yn niweidiol i egni, dengarwch a hyfywedd ardal yn y tymor hir. Felly bydd ceisiadau am newid defnydd sy'n cynnwys defnyddiau newydd nad yw'n ymwneud â siopa mewn safleoedd gwag yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y canlynol:

- Y gyfradd swyddi gwag yn yr ardal oddi cwmpas; a
- Ph'un a yw'r safle wedi parhau'n wag, ac am ba hyd o amser, wrth gael ei farchnata'n weithredol ar gyfer ei ddefnydd cyfredol neu ei ddefnydd blaenorol.

5.281 Yn gyffredinol, bydd colli unedau preswyl yn cael ei wrthod ar y lloriau uwch mewn canolfannau lleol lle mae nodweddion y safle a'i leoliad yn parhau'n addas ar gyfer defnydd preswyl.

5.282 Yn ogystal â chanolfannau lleol a nodir ar y Map Cynigion, mae nifer o grwpiau llai o siopau a 'siopau cornel' unigol ar draws y sir sy'n darparu cyfleusterau siopa gwerthfawr i gymunedau oddi amgylch. Bydd cynigion a allai arwain at golli siopau lleol o'r fath yn cael eu hasesu mewn perthynas â rôl y siopau hynny i gwrdd ag anghenion siopa leol a hyfywedd y safle ar gyfer defnydd siopa parhaus. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod rôl economaidd a chymdeithasol pwysig sydd gan gyfleusterau siopa lleol o'r fath i gymunedau.

R6: DATBLYGIAD MANWERTHU (TU ALLAN I'R CANOL)

Bydd datblygiad manwerthu ond yn cael ei ganiatáu y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog, y Canolfannau Ardal a Lleol a bennir ar y Map Cynigion os:

i. **Oes angen am yr arwynebedd llawr arfaethedig (a'r lle cyntaf yn cael ei roi i ganfod yr angen ansoddol);**
ii. **Ni ellir rhoi lle i'r angen hwnnw'n foddhaol o fewn neu gerllaw'r Ardal Siopa Ganolog, o fewn Canolfan Ardal neu Leol;**
iii. **Ni fyddai'r cynnig yn achosi niwed annerbyniol i hyfywedd, dengarwch neu egni'r Ardal Siopa Ganolog, canolfan Ardal neu Leol neu gynnig neu strategaeth sy'n cynnwys y Strategaeth Gymunedol, ar gyfer amddiffyn neu wella'r canolfannau hyn;**
iv. **Mae'r safle yma'n hygyrch gan ddewis o ddulliau cludiant; ac**
v. **Nid yw'r cynnig ar dir sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer defnyddiau eraill. Mae hyn yn arbennig o wir am dir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth a thai, lle gellir dangos bod datblygiad manwerthu'n cyfyngu ar yr ansawdd ac ystod safleoedd ar gyfer defnydd o'r fath.**

5.283 Mae'r Polisi yma'n nodi'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion am ddatblygiad manwerthu y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog, Canolfannau Ardal a Lleol sydd wedi'u pennu ar y Map Cynigion, yn unol â 'Chynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi' gan Bolisi Cynllunio Cymru.

5.284 Mae'r Polisi yma'n ymwneud ag unrhyw gynigion sy'n cyflwyno arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol, gan gynnwys ailddatblygu, estyniadau (yn cynnwys lloriau mesanîn, lle mae angen caniatâd am hyn); is-raniad; newid Dosbarth Defnydd ac amrywiadau'r amodau cynllunio. Y nod yw rheoli natur a maint y datblygiad tu allan i ganol y ddinas er mwyn lleihau ei gystadleuaeth gydag, a'i effaith ar egni a hyfywedd y canolfannau siopa sydd wedi'u henwi yn y Cynllun.

5.285 Mae'r Polisi yma'n cyfrannu at amddiffyn a gwella canolfannau siopa dynodedig ac atal datblygiad manwerthu y tu allan i'r ganolfan, a allai fod yn niweidiol i gyfleusterau siopa Ardal a Lleol. Mae'n cefnogi amcanion cynaliadwyedd drwy annog grwpio cyfleusterau manwerthu ynghyd mewn lleoliadau hygyrch iawn a gostwng dibyniaeth ar gludiant preifat ar gyfer tripiau siopau ac yn helpu i ddarparu'r strategaeth drwy ddatblygu cymunedau cynaliadwy.

5.286 Nod y prawf dilyniannol sydd wedi'i ddisgrifio ym Mholisi Cynllunio Cymru yw cyfeirio datblygiadau manwerthu i ganolfannau cyfredol lle bo'n bosibl neu i ymylon canolfannau o'r fath os nad oes safleoedd ar gael o fewn y canolfannau. Dim ond lle mae angen amlwg am arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol a

lle nad oes lleoliadau oddi mewn neu gerllaw canolfanau dynodedig, y gellid ateb yr angen hwnnw, os bydd modd ystyried lleoliadau y tu allan i'r ganolfan. Yng Nghaerdydd dyma drefn y flaenoriaeth:

- O fewn yr Ardal Siopa Ganolog;
- Ar ymyl yr Ardal Siopa Ganolog;
- O fewn Canolfan Ardal neu Leol;
- Ar ymyl Canolfan Ardal neu Leol;
- Lleoliad y tu allan i'r ganolfan sy'n hygyrch drwy ddewis o ddulliau cludiant.

5.287 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod bod rhai mathau o fanwerthu, er enghraifft gwerthu nwyddau mawr ac sydd angen ystafelloedd arddangos mawr, yn methu dod o hyd i leoliad priodol ynghanol trefi yn aml iawn. Dylid grwpio siopau o'r fath at ei gilydd mewn lleoliadau sy'n hygyrch diolch i ddewis o ddulliau cludiant, yn annog tripiau cysylltiedig a gostyngiad mewn dibyniaeth ar deithio mewn car. Lle cynigir datblygiad nwyddau mawr ac mae'n pasio'r profion angen a dilyniannol, bydd yn cael ei gyfeirio tuag at grynodiadau cyfredol o fanwerthwyr nwyddau mawrion lle bo'n bosibl. Yn yr un modd, mae ail ddefnyddio unedau gwag tu allan i'r ganolfan mewn lleoliadau sy'n hygyrch trwy ddewis o ddulliau cludiant yn ddewis gwell na datblygiad newydd tu allan i'r ganolfan. Lle gwneir ceisiadau i ail ddefnyddio unedau gwag, bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut maen nhw'n bwriadu gwella'r cysylltiadau a'r amgylchedd i gerddwyr.

5.288 Bydd yr effaith yn cael ei asesu yn nhermau effaith fasnachol uniongyrchol y cynnig ar ganolfannau dynodedig cyfagos ac o ran yr effaith ar y strategaeth manwerthu ei hun. Rhaid i bob cynnig am ddatblygiad tu allan i'r ganolfan sy'n bodloni'r profion o angen manwerthu a'r dull dilyniannol ddangos na fyddent yn niweidio canolfannau siopa dynodedig neu'r strategaeth fanwerthu, naill ai er ei fwyn ei hun, neu mewn cydweithrediad â datblygiadau diweddar eraill neu ganiatadau heb eu gweithredu.

5.289 Lle rhoddir caniatâd i ddatblygiad manwerthu y tu allan i'r ganolfan neu, mewn rhai sefyllfaoedd, ddatblygiad ar ymyl y ganolfan, bydd amodau perthnasol i reoli natur a graddfa'r gweithgareddau manwerthu ac i leihau unrhyw effaith bosibl ar ganolfannau dynodedig neu'r strategaeth fanwerthu.

5.290 Bydd cyfraniadau'n cael eu negodi o'r datblygiadau manwerthu tu allan i'r ganolfan tuag at welliant amgylcheddol yn y Ganolfan Ardal neu Leol agosaf i liniaru effeithiau niweidiol, yn unol â'r polisi ar Oblygiadau Cynllunio. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn y Strategaeth Canolfannau Ardal a Lleol.

5.291 Mae'r Cyngor yn monitro egni, dengarwch a hyfywedd canolfannau dynodedig. Bydd disgwyl i'r holl geisiadau ar gyfer manwerthu tu allan i'r ganolfan archwilio iechyd canolfannau, yn cynnwys canolfannau siopau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio a'u heffaith debygol.

5.292 Mae cynigion ar gyfer datblygiad manwerthu y tu allan i'r ganolfan yn debygol o fod angen ei asesu yn erbyn ystod o ystyriaethau Polisi eraill yn cynnwys goblygiadau traffig a chludiant.

R7: DARPARIAETH MANWERTHU MEWN SAFLEOEDD STRATEGOL

Bydd datblygiad manwerthu sy'n rhan o'r Safleoedd Strategol a arweinir gan dai dynodedig yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi R6 Datblygiad Manwerthu (Tu Allan i'r Ganolfan) a bydd yn cael ei gefnogi lle:

i. **Mae o raddfa briodol sy'n bodloni angen a welwyd;**
ii. **Ni fydd yn effeithio'n negyddol ar hyfywedd ac egni canolfannau dynodedig;**
iii. **Mae wedi ei leoli ar hyd coridorau cludiant cyhoeddus ac mae'n hygyrch drwy gerdded a seiclo; ac**
iv. **Mae'n ffurfio rhan o ganolfan wedi'i chynllunio sy'n atgyfnerthu naws o le.**

5.293 Cydnabyddir y bydd angen darpariaeth manwerthu yn agos at y fan lle mae pobl yn byw i gwrdd ag anghenion pob dydd cymunedau newydd graddfa fawr y dyfodol. Yn aml iaawn mae cyfleusterau o'r fath yn cynnwys ystod o siopau bach, yn gwasanaethu'r dalgylch lleol yn cynnwys archfarchnadoedd bychain, siopau papur newydd ac allfeydd bwyd a diod. Ni ddylai darparu siopa lleol y dyfodol o fewn y datblygiad tai effeithio'n negyddol ar hyfywedd ac egni Canolfannau Ardal neu Leol dynodedig cyyfredol. Dylai ceisiadau cynllunio hefyd ddangos mai dyma'r lleoliad mwyaf priodol i ddarpariaeth siopa lleol, mewn perthynas â chludiant cyhoeddus a dylunio a chynllun.

R8: DEFNYDDIAU BWYD A DIOD

Mae'r Defnyddiau Bwyd a Diod wedi lleoli'n fwyaf priodol yng:

i. **Nghanol y Ddinas (Ardal Fusnes Ganolog)**
ii. **Ardal harbwr/glannau mewnol Bae Caerdydd (Ardal Fusnes y Bae)**
iii. **Canolfannau Ardal a Lleol**

Yn amodol ar ystyriaethau amwynder, materion priffordd, ystyriaethau trosedd ac ofn trosedd, a lle nad ydynt yn achosi niwed annerbyniol i rôl siopa a chymeriad canolfannau dynodedig. Mae defnyddiau bwyd a diod yn annhebygol o fod yn dderbyniol o fewn neu gerllaw ardaloedd preswyl, lle byddent yn achosi niwsans a cholli amwynder, neu achosi colli eiddo preswyl.

5.294 Mae defnyddiau bwyd a diod, yn cynnwys bwytai a phrydau ar glud poeth, mewn lleoliad gwell pan meant mewn canolfannau dynodedig, lle maent yn gallu cyflenwi a gwella'r rôl siopa bresennol, cynyddu nifer yr ymwelwyr ac meant yn hygyrch drwy gludiant cyhoeddus. Mae defnyddiau o'r fath mewn lleoliad gwell mewn canolfannau dynodedig nag ardaloedd preswyl oherwydd yr effaith y gallent ei gael o ran traffig cerbydau a cherddwyr, sŵn, tarthau, sbwriel ac aflonyddu yn hwyr y nos. Mae Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae, a Chanolfannau Ardal yn fwy tebygol o allu rhoi lle boddhaol i ddefnyddiau A3 heb achosi niwed annerbyniol oherwydd eu maint a'u cymeriad. Fodd bynnag, gall crynodiadau o ddefnyddiau o'r math yma mewn canolfannau achosi niwed, naill ai i amwynder preswylwyr o fewn neu gerllaw'r ganolfan, neu i rôl a chymeriad siopa'r ganolfan a'i hegni, ei dengarwch a'i hyfywedd.

5.295 Mae defnyddiau bwyd a diod yn dderbyniol mewn egwyddor, yng nghanol y Ddinas. Cydnabyddir bod defnyddiau o'r fath yn gallu cyfrannu at yr ystod a'r dewis o gyfleusterau sydd ar gael i drigolion, hybu'r economi gyda'r nos a gallai hefyd gefnogi twristiaeth. Fodd bynnag, bydd angen asesu cynigion A3 newydd ar lefel y llawr gwaelod a'r lloriau uwch yn erbyn Polisi R3 Ffryntiadau Siopa a Ddiogelir. Nod y Polisi yma yw sicrhau bod defnyddiau bwyd a diod ynghyd â defnyddiau eraill nad ydynt yn ymwneud â siopa, yn niweidio cymeriad, hyfywedd a rôl siopa Canol y Ddinas.

5.296 Mae defnyddiau bwyd a diod yn gyflenwol hefyd, mewn egwyddor, i brif rôl siopa Canolfannau Ardal a Lleol, ar yr amod nad ydynt yn effeithio'n niweidiol ar amgylchedd byw trigolion gerllaw, neu gyda defnyddiau eraill and ydynt yn ymwneud â siopa, i'r fath lefel fel eu bod yn tanseilio cymeriad siopa'r ardal yn unol â Pholisïau R4 Canolfannau Ardal ac R5 Canolfannau Lleol.

5.297 Yn gyffredinol, mae canolfannau lleol a chanolfannau cymdogaeth llai yn tueddu bod yn fwy preswyl eu natur, ac nid oes ganddynt y raddfa na'r amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, a defnyddiau gwerthu eraill, sydd gan ganolfannau mwy. Felly, gallai cynigion A3 fod yn anoddach ei gynnig ac mae'n llai tebygol o fod yn dderbyniol ar sail amwynder (e.e. sŵn ac aflonyddwch posibl, ymddygiad gwrthgymdeithasol a sbwriel sy'n gysylltiedig â'r math yma o gynigiad datblygu). O ganlyniad, rhoddir mwy o bwyslais ar amddiffyn amwynder preswyl o fewn y canolfannau hyn drwy gyfyngu ar amseroedd cau a'r math o safle A3.

5.298 Mae'n annhebygol y bydd cynigion Canolfannau Ardal a Lleol Tu Allan a'r Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae ar gyfer defnyddiau A3 yn dderbyniol o fewn, neu gerllaw, ardaloedd sy'n breswyl gan fwyaf oherwydd eu heffaith ar amwynder preswyl a'r posibilrwydd y gallent achosi niwsans oherwydd sŵn ac arogl.

5.299 Bydd cynigion bwyd a diod o fewn ardaloedd cyflogaeth presennol yn cael eu hystyried yn erbyn Polisi EC2 Darparu Cyfleusterau Cyflenwol i Gyflogeion mewn Datblygiad Busnes, Diwydiannol a Warysau.

5.300 Bydd arweiniad pellach ar weithredu'r Polisi yma wedi'i nodi yn y Defnyddiau Bwyd a Diod yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

6. CYMUNED

C1: ADNODDAU CYMUNEDOL

Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau cymunedol, iechyd a chrefyddol newydd a gwell yn cael eu hannog, yn amodol ar fodloni'r meini prawf a ganlyn:

i. **Byddai'r cyfleuster yn hygyrch i'r gymuned leol y mae'n bwriadu ei wasanaethu ar gludiant cyhoeddus a thrwy gerdded a seiclo;**
ii. **Ni fyddai'r cyfleuster yn niweidio amwynderau defnyddwyr preswyl gerllaw a chymdogion yn ormodol;**
iii. **Ni fyddai'r cyfleuster yn tynnu oddi wrth gymeriad ac ymddangosiad eiddo neu leoliad;**
iv. **Ni fydd y cyfleuster yn arwain at broblemau traffig neu barcio annerbyniol;**
v. **Mae'r cyfleuster wedi'i lunio gyda'r hyblygrwydd mwyaf posibl ac addasrwydd i gynnig defnyddiau cymunedol ychwanegol heb amharu r ei brif ddefnydd.**

5.301 At bwrpas y Polisi yma, mae cyfleusterau cymunedol wedi eu diffinio fel cyfleusterau anfasnachol a ddefnyddir gan gymunedau lleol i bwrpasau hamdden a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys canolfannau cymunedol a mannau cyfarfod, neuaddau cymunedol, dysgu cymunedol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau ieuenctid. Mae cyfleusterau crefyddol hefyd yn cynnig darpariaeth gymunedol ehangach yn aml iawn. Byddai cyfleusterau iechyd yn cynnwys meddygfeydd a deintyddfeydd sy'n gwasanaethu'r gymuned leol.

5.302 Dylid lleoli defnyddiau eraill o natur fasnachol o fewn y dosbarth defnydd D1/D2 yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae hefyd, ac mewn canolfannau Ardal a Lleol o raddfa briodol.

5.303 Os bydd datblygiad yn digwydd heb ystyried a yw'r cyfleusterau cymunedol presennol yn ddiggonol, gall hyn roi straen ar gyfleusterau cyfredol, er niwed i'r gymuned leol. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod cyfleusterau lleol digonol yn cael eu darparu i gwrdd â gofynion y cymunedau lleol yn y dyfodol.

5.304 Dylai darpariaeth cyfleusterau cymunedol fynd law yn llaw a chael eu hintegreiddio gyda'r datblygiad newydd. Mae darparu ystod o gyfleusterau cymunedol sy'n hygyrch i gymaint o bobl ag sy'n bosibl yn sylfaenol o ran sicrhau cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn werthfawr nid yn unig yn nhermau'r amwynder y maent yn ei ddarparu, ond maent yn bwysig hefyd o ran cynhyrchu cyflogaeth a denu pobl i fyw mewn ardal. Er ei bod hi'n ffaith bod nifer o anghenion

sy'n cystadli am ddatblygiad a defnydd y tir, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfleusterau digonol i wasanaethu trigolion o fewn dyraniadau tai strategol newydd.

5.305 Bydd angen y datblygiadau tai strategol newydd sydd wedi eu dynodi ym Mholisi KP2 er mwyn sicrha bod digon o gyfleusterau cymunedol newydd yn cael eu darparu a'u hintegreiddio o fewn y datblygiad i wasanaethu anghenion y trigolion presennol a rhai'r dyfodol. Bydd hyn wedi'i sicrhau drwy oblygiadau cynllunio neu'r ardoll seilwaith cymunedol fel y bo'n briodol (gwelwch Bolisïau KP6 a KP7).

5.306 Ar yr holl ddatblygiadau preswyl sylweddol eraill, bydd y Cyngor yn ceisio mynd i drafodaethau gyda datblygwyr posibl i sicrhau i sicrhau tir, adeiladau a/neu gyfraniadau ariannol tuag at gyfleusterau cymunedol sy'n codi o anghenion datblygiad preswyl. Y rheswm am hyn yw y bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn achosi i'r galw gynyddu am gyfleusterau cymunedol lleol. Bydd arweiniad pellach ar hyn yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

5.307 Bydd cyfleusterau cymunedol, defnyddiau iechyd a chyfleusterau crefyddol wed eu ffafrio mewn Canolfannau Ardal neu Leol lle bo'n briodol. Ond, le na ellir ymdopi'n foddhaol gyda'r defnyddiau hyn mewn canolfannau, ystyrir yn ffafriol gynigion ar ymyl canolfannau neu o fewn ardaloedd preswyl (yn cynnwys cyfnewid neu ailddatblygu safle preswyl cyfredol) ar yr amod bod materion amwynder preswyl cynllun dinesig (Polisi KP5) a chludiant yn cael eu trin yn briodol. Ymhellach, os bydd yr ardal breswyl yn rhan o Ardal Gadwraeth, ni ddylai'r datblygiad arfaethedig amharu ar ei gymeriad na chael unrhyw effaith negyddol ar yr asedau treftadaeth adeiledig (Polisi KP17).

C2: AMDDIFFYN CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL CYFREDOL

Ni chaniateir cynigion yn ymwneud â cholli neu newid defnydd adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu a gafodd eu defnyddio ddiwethaf ar gyfer cyfleusterau cymunedol heblaw os:

i. **Oes cyfleuster ar gael sydd o leiaf yr un safon a maint i ateb anghenion y gymuned neu y bydd un yn cael ei ddarparu o fewn yr ardal neu;**
ii. **Gellir dangos bod y ddarpariaeth bresennol yn fwy nag y mae'r gymuned ei angen.**

5.308 Mae cyfleusterau cymunedol cyfredol ar gael yn eang drwy'r Ddinas gyfan. Mae'n bwysig iawn sicrhau y cynhelir darpariaeth ddigonol er mwyn annog rhyngweithiad cymdeithasol, gwella iechyd a lles a gostwng anghydraddoldeb rhwng gwahanol gymunedau. Felly bydd rhaid ceisio cadw'r cyfleusterau cyfredol heblaw bod modd dangos y gellir ateb y meini prawf uchod.

5.309 Er y bydd y polisi yma'n berthnasol i ddefnyddiau masnachol ac anfasnachol sy'n darparu budd cymdeithasol neu les i'r gymuned, tir cymunedol ac adeiladau o bwysigrwydd arbennig. Mae hyn yn cynnwys tir ac adeiladau sy'n cael eu rheoli a'u defnyddio'n bennaf gan y sector cymunedol a gwirfoddol ar gyfer gweithgareddau a arweinir gan y gymuned.

5.310 I fodloni maen prawf ii) y polisi fe fydd hi'n angenrheidiol dangos nad yw defnydd parhaus fel cyfleuster cymunedol yn ymarferol bellach gan ystyried; marchnata priodol ac angen lleol a'r galw am y cyfleuster cymunedol presennol.

C3: DIOGELWCH Y GYMUNED/CREU AMGYLCHEDDAU DIOGEL

Bydd yr holl ddatblygiad newydd ac ailddatblygiad wedi ei lunio i hybu amgylchedd diogel a sicr ac i leihau'r cyfle i bobl droseddu. Bydd y datblygiad yn arbennig yn:

i. **Sicrhau'r oruchwyliaeth orau ar ardaloedd allai fod yn agored i droseddau megis mannau agored cyhoeddus, tir agored, mannau pario ceir a llwybrau troed;**
ii. **Sicrhau bod llwybrau, mynedfeydd a gofodau wedi eu diffinio'n dda sy'n darparu symudiad cyfleus heb gyfaddawdu diogelwch;**
iii. **Cadw gwahaniaeth amlwg rhwng mannau cyhoeddus a phreifat trwy ofod y gellir ei amddiffyn a ffiniau wedi eu diffinio'n dda;**
iv. **Darparu safon dda o oleuo mannau cyhoeddus a llwybrau gan leihau'r defnydd o ynni a llygriad goleuni; a**
v. **Bod wedi'i gynllunio gan ystyried rheolaeth a chynhaliaeth er mwyn atal troseddu yn y presennol a'r dyfodol.**

5.311 Nod y Polisi yma yw cyflawni safon gyson ac unffurf o ddiogelu drwy sicrhau cynllun ystyrlon heb amharu ar gymeriad na dengarwch yr ardal leol. Bydd ymgorffori ystyriaethau diogelwch i gynllun datblygiadau newydd ac ailddatblygiadau'n creu naws o berchnogaeth a chyfrifoldeb.

5.312 Mae diddymu trosedd drwy gynllunio'n cyfrannu at Bolisi KP5. Gallwch weld rhagor o fanylion am amcanion y Polisi yma ar www.securedbydesign.com

5.313 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o dan adran 17 y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn (1998) i ystyried yr angen am atal a rhwystro troseddu wrth wneud ei gyfrifoldebau i gyd, sy'n cynnwys cynllunio. O'i ddefnyddio'n sensitif, gall y system gynllunio fod yn ddylanwadol mewn cynhyrchu amgylcheddau gweithredol sydd wedi eu rheoli'n dda sy'n helpu i rwystro trosedd ac anrhefn drwy annog datblygwyr i

fabwysiadu cynlluniau ar gyfer datblygiad newydd sy'n rhoi ystyriaeth i ddiogelwch pobl ac eiddo. Dylai datblygiadau gael eu hannog i gynnwys egwyddorion ac arferion y Cynllun Gwobrwyo 'Secured by Design', ac adlewyrchu diogelwch y bobl a diogelwch yr eiddo ar yr un pryd.

5.314 Dylai unrhyw fesurau diogelwch neu ddyluniad barhau'n sensitif i amgylchiadau lleol a dylai eu graddfa a'u defnydd adlewyrchu cymeriad ac amwynder yr ardal. Dylid cael dull cytbwys o ddylunio sy'n ceisio cysoni ansawdd weledol y datblygiad gydag anghenion atal troseddu. Gellir gwneud datblygiadau'n ddiogel heb ddefnyddio gwifren bigog, rhwyllau, bariau a mathau hyll o ffensys a mesurau diogelwch sy'n andwyo ymddangosiad y lle, os ystyrir diogelwch a diogeledd ar gam cynnar yn y broses gynllunio.

5.315 Cyn cyflwyno cynigion manwl, anogir datblygwyr i geisio cyngor drwy gymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio gyda Swyddog Cynllunio Atal Trosedd Heddlu De Cymru ar ddiddymu troseddu drwy gynllunio, a dylid ystyried unrhyw argymhellion a dderbynnir mewn perthynas â chynigiad y datblygiad. Lle mae diddordebau arwyddocaol eraill (er enghraifft, gosodiad Adeiladau Rhestredig) rhaid cytuno ar gyfaddawd cytbwys. Anogir datblygwyr ymhellach i gyflwyno datganiadau mewn cydweithrediad â cheisiadau cynllunio sy'n pwysleisio ac yn dangos yn glir y mesurau arfaethedig a gymerwyd i ddiddymu troseddu drwy gynllunio.

5.316 Mewn achosion priodol, lle ystyrir atal troseddu neu ofn troseddu'n elfen faterol mewn datblygiad arfaethedig, gallai'r Cyngor ystyried gosod amodau diogelwch cymunedol neu geisio cyfraniadau datblygwyr drwy gytundebau cyfreithiol ar gyfer atal troseddau drwy gynllun amgylcheddol (CPTED), mentrau diogelwch cymunedol, gwell goleuadau stryd, rhoi gatiau ar lonau culion, darparu CCTV, gwelliannau tirlunio neu fesurau diogelwch angenrheidiol eraill. Mae hyn yn cyfateb â Pholisi KP7.

5.317 Mae ymosodiadau gan derfysgwyr yn y Deyrnas Unedig wedi dod yn bosibiliad go iawn mewn blynyddoedd diweddar, gan achosi bygythiad difrifol a real. O'r cychwyn un gyda chynnig datblygiad, dylid cyflwyno, drwy gynlluniau, fesurau i liniaru yn erbyn digwyddiad ac effeithiau ymosodiadau terfysgol. Er enghraifft, trwy amddiffyniad rhag gwydr yn hedfan a rheolaeth ar fynedfa i gerbydau mewn meysydd parcio tanddaearol a mannau allai fod yn risg uchel. Rhaid cydbwyso'r mesurau yma gydag egwyddorion dylunio da i ddiogelu rhag gwneud i rywle edrych fel "caer". Lle cynigir datblygiad mawr mewn lle sydd wedi'i ddiffinio gan y Swyddfa Gartref fel "lle gorlawn", dylai datganiad y cynllun sy'n dod gyda'r cais nodi'r mesurau a gymerir i ateb yr egwyddorion yma. Argymhellir bod cyngor yn cael ei geisio gan Gynghorydd Diogelwch Gwrth-derfysgaeth yn ystod y cam cynllunio (Cyfeiriwch at WECTU (Uned Gwrth Derfysgaeth ac Eithafiaeth Cymru) i gael rhagor o gyngor).

C4: AMDDIFFYN TIR AGORED

Ni fydd caniatâd i ddatblygiad ar ardaloedd o fannau agored heblaw:

i. **Na fyddai'n achosi neu'n gwaethygu diffyg lle agored yn unol â'r astudiaeth lle agored mwyaf diweddar; ac**
ii. **Nad oes gan y lle agored werth amwynder neu swyddogaethol arwyddocaol; ac**
iii. **Nad oes ansawdd sylweddol gan y lle agored; neu**
iv. **Mae'r datblygwyr yn gwneud darpariaeth gydadferol foddhaol; ac ymhob achos;**
v. **Nad oes gan y lle agored natur arwyddocaol neu bwysigrwydd cadwraeth hanesyddol.**

5.318 Nod y Polisi yma yw diogelu'r lle agored sydd â gwerth amwynder, amgylcheddol, cadwraeth neu swyddogaethol arwyddocaol. Mae'n berthnasol i bob darn o dir agored o fewn y Sir.

5.319 Bydd y Polisi'n helpu i amddiffyn y rhwydwaith cyfredol o fannau agored yng Nghaerdydd ac yn gweithio tuag at ddarparu Polisi KP13 ac amcanion y Cynllun Datblygu lleol sy'n ymwneud â chynnal a gwella rhwydwaith o fannau gwyrdd a choridorau.

5.320 Mae'r Polisi'n cyfateb â Chynllun Gofodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 16: Adloniant Chwaraeon a Thir Agored (2010) sy'n gofyn fod pob math o dir agored yn cael ei ddiogelu, yn enwedig lle mae o bwysigrwydd strategol drwy'r sir i gyd.

5.321 Bydd yr amrywiol fathau o le agored yng Nghaerdydd wedi eu rhestru a'u hesbonio'n fanwl yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Tir Agored Caerdydd. I bwrpasau'r polisi yma, mae tir gwyrdd gweithredol yn cynnwys tir sy'n gallu rhoi lle i ddefnyddiau hamdden ffurfiol a/neu anffurfiol yn cynnwys defnydd chwaraeon a chwarae plant.

5.322 Bydd y cynigion ar gyfer datblygiad ar ardaloedd o dir agored yn cael eu hasesu yn erbyn gofyniad lle gwyrdd gweithredol o 2.43 hectar i bob 1,000. Mae esboniad manylach o hyn o dan Bolisi C5.

5.323 Wrth asesu gwerth swyddogaethol ac amwynder ardal o dir agored, rhaid ystyried hefyd a yw'n cynnig swyddogaeth leol yn unig neu a oes ganddo bwysigrwydd mwy strategol drwy'r sir i gyd. Rhoddir amddiffyniad arbennig i le agored sydd â phwysigrwydd strategol drwy'r sir i gyd p'un a ydyw i bwrpasau bywyd gwyllt, amwynder neu'n swyddogaethol.

5.324 Bydd ansawdd darn o dir agored yn cael ei asesu mewn perthynas â materion megis :

- Hygyrchedd;
- Bioamrywiaeth;
- Cyfleusterau;
- Rheolaeth a chynhaliaeth;
- Cyfraniad at amwynder lleol;
- Cyfraniad i hamdden; a
- Gwerth strategol.

5.325 Os bydd cynnig datblygiad sy'n cynnwys colli tir agored yn gwaethygu'r prinder lle agored gweithredol yn lleol neu drwy'r sir i gyd, efallai y byddai darpariaeth gydadferol ar gyfer lle agored neu ddarpariaeth amgen o fudd cymunedol cyfartal yn dderbyniol. Bydd hyn wedi'i esbonio ymhellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Lle Agored.

5.326 Bydd priodoldeb lle agored cydadferol heu gyfleusterau amnewidiol wedi eu hasesu gan ystyried pwysigrwydd yr adnodd sydd i gael ei golli ac anghenion yr ardal leol. Dylai darpariaeth gydadferol:

- Gyfrannu at gyfarfod angenion y gymuned leol;
- Fod o leiaf o werth cyfartal i hwnnw sy'n cael ei golli;
- Fod yn rhesymol berthnasol i'r safle gwreiddiol i wasanaethu'r boblogaeth a effeithir gan y golled;
- Gael ei darparu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Lle Agored; a
- Chael ei chytuno rhwng y Cyngor a'r datblygwr.

5.327 Mae gan goridorau a rhwydweithiau o dir agored, megis y dyffrynnoedd afon, bwysigrwydd strategol yn nhermau adloniant, amwynder a bywyd gwyllt. Mae coridorau'r afonydd Elái, Taf, Rhymni a Nant Fawr (a bennwyd ar y Map Cynigion) yn adnodd arbennig o bwysig mewn cyd-destun dinesig a gwledig fel ei gilydd, yn cysylltu glan yr afon a'r ardal ddinesig gyda chefn gwlad. Mae amddiffyniad penodol o'r dyffrynoedd afonydd wedi'i nodi ym Mholisi EN4.

5.328 Mae nifer o ardaloedd o dir agored sydd â gwerth cadwraeth natur. Mae rhai ohonynt wedi eu dynodi'n ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, tra bo eraill yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at fioamrywiaeth. Mae gan rai ardaloedd bwysigrwydd cadwraeth hanesyddol hefyd. Ymysg y rhain mae Parciau a Gerddi Hanesyddol, tir o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth a thir sy'n darparu'r cefndir ar gyfer henebion neu weddillion archeolegol eraill.

5.329 Byddai gweithrediad polisïau a luniwyd i ddarparu ac amddiffyn lle agored cyhoeddus drwy Gaerdydd cyfan yn gweithio i wneud iawn am unrhyw gynnydd mewn pwysau hamdden ar Ardal Cadwraeth Arbennig Beech Woods Caerdydd, gan helpu felly i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yma'n cael effaith sylweddol ar y safle yma.

5.330 Bydd y polisi diogelu lle agored yn cael ei asesu bob blwyddyn yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae colli lle agored yn Ddangosydd Craidd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cael ei fonitro'n flynyddol, gan ffurfio rhan o'r Asesiad Lle Agored.

C5: Y DDARPARIAETH AR GYFER LLE AGORED, HAMDDEN AWYR AGORED, CHWARAEON A CHWARAE PLANT

Ceisir darpariaeth ar gyfer lle agored, hamdden awyr agored, chwarae plant a chwaraeon mewn cydweithrediad â'r holl ddatblygiadau preswyl newydd. Mae'r polisi yma wedi'i anelu at sicrhau darpariaeth neu welliant lle agored a chwaraeon a hamdden awyr agored priodol arall yn unol â'r holl ddatblygiadau preswyl newydd dros 8 uned a'r ddarpariaeth ar y safle o le agored gweithredol mewn cydweithrediad â'r holl ddatblygiadau preswyl newydd dros 14 uned. Mae'r maint priodol o le gwyrdd amlswyddogaethol wedi'i seilio ar leiafswm o 2.43 hectar o le agored gweithredol i bob 1,000 o'r boblogaeth a ragwelir. Bydd yr holl ddarpariaeth lle agored arall yn ychwanegol at ddarpariaeth y lle gwyrdd amlswyddogaethol.

5.331 Bydd y Polisi yma'n helpu i wella'r rhwydwaith presennol o le gwyrdd ac yn darparu cyfleoedd cynyddol ar gyfer adloniant iach a gweithgareddau hamdden yn unol ag amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer byw cynaliadwy. Mae gwella'r ddarpariaeth o le agored yn arbennig o bwysig mewn rhai ardaloedd o Dde Caerdydd lle nad oes gan y cymunedau gystal mynediad at ardaloedd o dir agored.

5.332 Darperir ym Mholisi Cynllunio Cymru ar gyfer caffael lle agored gweithredol a darpariaeth briodol ar gyfer chwaraeon drwy'r broses ddatblygu. Mae'n esbonio y gallai Awdurdodau Cynllunio Lleol fod yn gyfiawn wrth geisio Cytundebau Cynllunio Adran 106 i gyfrannu at gynnal cyfleusterau diogel ac atyniadol a thir agored, ac i gwrdd ag anghenion cymunedau newydd.

5.333 Mae'r Polisi yma'n berthnasol i'r holl ddatblygiadau tai arfaethedig newydd, y cynlluniau ailddatblygu, cyfnewidiadau a datblygiadau defnydd cymysg yn cynnwys tai, cartrefi lloches a llety i fyfyrwyr gyda mwy nag 8 uned.

5.334 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Lle Agored yn rhoi arweiniad manwl ar y ffordd y bydd darparu lle agored gweithredol, hamdden awyr agored, chwaraeon a chwarae plant mewn datblygiadau preswyl newydd yn cael eu hasesu a'u rheoli. Byddent yn esbonio bod maint y ddarpariaeth tir agored a gynhyrchir gan gynnig tai yn cael ei asesu mewn perthynas â'i fath a'i ddwysedd. Rhoddir ystyriaeth hefyd i argaeledd a digonolrwydd lle agored swyddogaethol cyfredol o fewn yr ardal o'i amgylch. Bydd y Cyngor felly'n ceisio sicrhau ystod o welliannau ar gyfer mannau agored hygyrch o ansawdd uchel, darpariaeth hamdden awyr agored a chwaraeon, fel y bo'n briodol i'r cynigiad safle a datblygiad penodol.

5.335 Gallai'r rhain gynwys un neu fwy o'r canlynol:

- Darparu cymaint o ddarpariaeth lle agored angenrheidiol ag sy'n bosibl, ar y safle neu ar safleoedd sy'n hygyrch iawn;
- Cyfraniad tuag at wella cyfleusterau lle agored cyfredol ar safleoedd sy'n hygyrch iawn;
- Gwelliannau i'r rhwydwaith o fannau agored a llwybrau hamdden; a
- Gwelliannau i'r tir cyhoeddus (yn unol â Pholisi KP5: Cynllun Cynaliadwy ac Ansawdd Uchel) a gwell mynediad cyhoeddus at ardaloedd y glannau.

5.336 Oblegid y prinder cyfleusterau hamdden a lle agored yng nghanol y ddinas a'r ardaloedd mewnol ac oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig i wella, gellir ceisio darpariaeth ar gyfer lle agored a/neu wella cysylltiadau gyda mannau agored gerllaw ar ddatblygiadau masnachol graddfa fawr yn unol â Pholisi KP7 ar Oblygiadau Cynllunio

5.337 Fel rheol gyffredinol, ceisir darpariaeth o lefel a safon foddhaol o le agored ar bob datblygiad preswyl newydd. I'r datblygiadau hynny o 14 annedd neu fwy, cyfrifir maint y lle agored ar y safle mewn perthynas â'r boblogaeth a ragwelir ar gyfer y datblygiad gan ddefnyddio'r safon isaf o 2.43 hectar o le agored gweithredol i bob 1,000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, bydd y safon yma'n cael ei weithredu'n hyblyg er mwyn cydnabod hyn:

- Mewn rhai amgylchiadau, gall darpariaeth cyfleusterau bob tywydd fod yn fwy effeithiol na lleiniau traddodiadol;
- Tueddiadau newidiol mewn hamdden, adloniant a chwaraeon a phwysigrwydd darparu cyfleusterau awyr agored a than do; a
- Gall fod yn anymarferol a/neu'n amhriodol weithiau i gyflawni darpariaeth mewn cyfatebiaeth dynn â'r safon ar safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen.

5.338 Dylid cynllunio mannau agored yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Caerdydd i greu lle agored wedi'i dirlunio sy'n cyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol, y gellir ei gynnal mewn cyflwr hyfyw ac sy'n cyfrannu at les ac

ymddangosiad yr amgylchedd. Gall mannau agored gweithredol gyflawni nifer o rolau yn cynnwys lleihau fandaliaeth, cynyddu preifatrwydd, darparu cynefinoedd bywyd gwyllt a lleihau ymyrraeth gan lygredd sŵn ac awyr.

5.339 Byddai gweithrediad polisïau sydd wedi eu llunio i ddarparu ac amddiffyn man agored cyhoeddus drwy Gaerdydd gyfan yn cydbwyso unrhyw gynnydd mewn pwysau hamdden ar Ardal Cadwraeth Arbennig Beech Woods Caerdydd, ac felly'n helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol yma effaith sylweddol ar y safle yma.

C6: IECHYD

Rhoddir blaenoraeth mewn datblygiadau newydd i ostwng anghydraddoldeb iechyd ac annog dulliau iach o fyw drwy:

i. **Bennu safleoedd ar gyfer cyfleusterau iechyd newydd, yn adlewyrchu dosbarthiad angen gofodol, gan sicrhau eu bod yn hygyrch a chanddynt y potensial i gael eu rhannu gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth; a**

ii. **Sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd adeiledig a ffisegol sy'n cefnogi rhyng-gysylltiad, dewisiadau teithio gweithredol, hybu dulliau iach o fyw a gwella diogelwch y ffordd.**

5.340 Nod y Polisi yma yw gwella iechyd poblogaeth Caerdydd drwy geisio sicrhau cyfleusterau iechyd newydd mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf, gan ofyn bod yr amgylchedd adeiledig yn meithrin dulliau iach o fyw, a sicrhau bod iechyd yn ystyriaeth allweddol mewn datblygiadau newydd.

5.341 Mae'r Polisi'n ceisio ymdrin ag anghydraddoldeb iechyd yng Nghaerdydd lle mae'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng rhai wardiau yn 12 mlynedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011). Mae'n rhoi mwy o fanylion am Bolisi Allweddol KP14 ar Iechyd ac mae'n helpu i weithio tuag at ddarparu amcanion y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ymwneud ag iechyd ac un o brif ganlyniadau strategol Strategaeth Partneriaeth Caerdydd: 'mae pobl yng Nghaerdydd yn iach'.

5.342 Mae'n cytuno gyda nod Polisi Cynllunio Cymru i ddarparu datblygiad cynaliadwy drwy sicrhau bod iechyd yn cael ei ystyried mewn datblygiadau newydd ac yn helpu nifer o amcanion Polisi Cynllunio Cymru am deithio a mynediad at gyfleusterau iach. Mae hefyd yn helpu i ddarparu nifer o amcanion yn ymwneud â dulliau iach o fyw, chwaraeon ac adloniant yn unol â Ein Dyfodol Iach (Llywodraeth Cymru 2009) a Chanlyniadau Iechyd Tecach i Bawb (Llywodraeth Cymru 2011).

5.343 Mae'r Polisi yma'n adlewyrchu'r ffaith fod 'ystyriaethau iechyd yn gallu bod yn ystyriaethau materol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio'. (Polisi Cynllunio Cymru 12.13.8). Mae effaith y datblygiad ar iechyd pobl yn elfen allweddol o ddatblygiad cynaliadwy a bydd ei ystyriaeth yn codi unrhyw faterion arwyddocaol y mae angen eu hystyried.

5.344 Cydnabyddir na fydd pob datblygiad newydd yn gallu pennu tir ar gyfer cyfleusterau iechyd newydd. Mae hyn yn dibynnu'n fawr iawn ar raddfa'r datblygiad a bydd yn cael ei ddefnyddio'n hyblyg o ganlyniad. Argymhellir y dylid cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol i gael rhagor o gyngor am y mater yma. Dogfennau perthnasol yw 'Law yn Llaw at Iechyd' (Llywodraeth Cymru 2012) a Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflenwi' (Llywodraeth Cymru 2010).

5.345 I gael disgrifiad o leoliadau priodol i ddarparu cyfleusterau iechyd, gwelwch bolisi C1 ar Gyfleusterau Cymunedol. Yn ogystal, cyfeirir yn y polisïau perthnasol at nifer o faterion eraill sy'n ymwneud ag effaith datblygiad newydd ar iechyd yn cynnwys cynllun, man agored/tyfu cymunedol a chludiant.

5.346 Bydd manylion pellach am y Polisi yma yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Iechyd.

C7: CYNLLUNIO I YSGOLION

Lle gwelwyd angen am gyfleusterau ysgol newydd a gwell o ganlyniad i ddatblygiad, bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau tuag at gost darpariaeth addysg ychwanegol. Bydd cyfraniadau a negodwyd yn cael eu cysylltu'n deg ac yn rhesymol o ran eu graddfa a'u math at y ddarpariaeth arfaethedig. Lle bo'n briodol, bydd angen darpariaeth ar y safle.
Dylai datblygiad addysg feithrin, gynradd, uwchradd a chweched dosbarth:

i. **Fod wedi'i gynllunio'n dda, yn cysylltu'n dda gydag amwynderau a gwasanaethau'r gymdogaeth ac yn hawdd eu cyrraedd gan foddau cludiant cynaliadwy; a**
ii. **Chynnwys, lle bo'n briodol, ddarpariaeth ar gyfer defnyddiau cymunedol priodol eraill yn ychwanegol at eu defnydd addysgol.**

5.347 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol fel awdurdod addysg lleol i sicrhau bod amrywiaeth a nifer ddigonol o leoedd ysgol ar lefel gynradd ac uwchradd, ar gael i gwrdd ag anghenion poblogaeth y Sir.

5.348 Er bod y galw a'r cyflenwad o fannau ysgol yn amrywio yn ôl yr ardal, rhagwelir na fydd gormodedd o leoedd ysgol yn gyffredinol wrth fynd i mewn i'r sector cynradd yn 2015, nac yn y sector uwchradd yn 2019. Mae hyn yn ystyried cynigion

buddsoddi cyfredol ysgolion a rhagolygon wedi eu seilio ar y gwasanaeth iechyd (meddygon teulu) a data cofrestri ysgol. Felly bydd angen y ddarpariaeth addysg gynradd ac uwchradd i wasanaethu disgyblion newydd a gynhyrchwyd o ganlyniad i ddatblygiadau tai tir llwyd a maes glas sy'n dod ymlaen yn ystod cyfnod y cynllun.

5.349 Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau ariannol (Gwelwch Bolisi KP7 Goblygiadau Cynllunio), tuag at gost darparu cyfleusterau ysgol gynradd a/neu uwchradd gwell neu ychwanegol gan ddatblygwyr sy'n cynnig datblygiadau tai a fyddai'n cynhyrchu gofyniad am leoedd ysgol na ellir eu cyflawni'n rhesymol gan ysgolion cyfredol oherwydd:

a. byddai mwy o alw am leoedd na'r capasiti sydd ar gael yn yr ysgol(ion) y cynigir datblygiad tai newydd o fewn eu dalgylch(oedd) a hynny o ganlyniad i'r datblygiad yma; a/neu

b. mae capasiti gormodol mewn ysgolion o'r fath i roi lle i rai neu i bob un o'r nifer a ragwelir o ddisgyblon a gynhyrchwyd gan y datblygiad arfaethedig ond mae angen buddsoddiad i wneud hyn yn gynaliadwy.

5.350 Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio darparu tir a/neu safleoedd, yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y datblygiad. Cyfeiriwch at Bolisi Allweddol KP6 Seilwaith Newydd.

5.351 Cydnabyddir na ellid rhoi lle mewn ysgolion cyfredol i'r disgyblion ychwanegol a gynhyrchir o ddyraniadau tai strategol (D-H). Mae'r Cyngor yn gofyn bod datblygwyr yn gosod safleoedd priodol o'r neilltu ac yn darparu cyfleusterau ysgol yng nghamau cyntaf y datblygiad wedi'i alinio gyda'r broses adeiladu, ac mae mathau ychwanegol o fynediad ar gael lle bo raid (210 o leoedd ysgol gynradd a darpariaeth feithrin, 150 o leoedd ysgol uwchradd a darpariaeth chweched dosbarth) ar ôl cyflawni pob 700 o anheddau.

5.352 Hefyd bydd angen ymdrin â darpariaeth ysgol mewn dalgylchoedd lle does dim neu lle mae ychydig iawn o gapasiti ar gael i ateb y galw ychwanegol sy'n debygol o godi o ddatblygiad tai ar dir a ddatblygwyd yn y gorffennol (yn cynnwys safleoedd strategol) neu safleoedd mewnlenwi eraill. Gydag eithriadau cyfyngedig ceisir cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr tuag at ddarparu ystafelloedd dosbarth newydd, yn unol â'r anghenion sy'n codi o'r datblygiad arfaethedig.

5.353 Os dyrennir cyfraniadau datblygwr dynodedig i'r Cyngor i ehangu'r ddarpariaeth gyfredol, bydd angen i gyflwyniad graddol y cyfraniadau dros y cyfnod adeiladu gyfateb gyda'r rheiny sydd wedi'u nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a byddent angen ystyriaeth ofalus i sicrhau bod cyflenwad lleoedd ysgol yn alinio gyda'r broses adeiladu a'r defnydd a wneir o anheddau. Bydd monitro'r defnydd a wneir o leoedd ysgol yn ystyriaeth allweddol wrth hysbysu anghenion y presennol a'r dyfodol.

5.354 Dylid cymryd cyfleoedd i rannu adeiladau a chyfleusterau ysgol, neu eu cydleoli ar safleoedd a rennir gydag ardaloedd Gwasanaethau eraill y Cyngor a gwasanaethau allanol dethol. Byddai hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r tir ac yn darparu adnodd integredig sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer y gymuned gyfan. Gallai'r cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau a rennir gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, cyfleusterau hamdden dan do, canolfannau chwarae, cyfleusterau addysg oedolion, cyfleusterau gofal plant integredig, cynefin naturiol cysylltiol, cyfleusterau gofal iechyd.

5.355 Yn dibynnu ar gyfyngiadau daearyddol, dylid cymryd cyfleoedd i archwilio meysydd chwarae/cyfleusterau ysgol a rennir gydag ysgolion eraill (e.e. Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd yn rhannu caeau) neu ddarpariaeth ysgol oedran barhaus 3-19.

5.356 Bydd arweiniad pellach am weithredu'r Polisi yma wedi'i nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

7. MWYNAU

M1: ADNODDAU A CHRONFEYDD CALCHFAEN MWYNOL

Bydd cronfeydd mwynau sydd â chaniatâd cynllunio wedi eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n atal eu hechdyniad yn:

i. **Chwarel Creigiau;**
ii. **Chwarel Taffs Well;**
iii. **Chwarel Ton Mawr; a**
iv. **Chwarel Blaengwynlais.**

Mae'r dewis Ardaloedd o adnoddau hysbys sy'n addas ar gyfer y gwaith Calchfaen yn y dyfodol wedi'i bennu fel estyniadau i:

v. **Chwarel Creigiau; a**
vi. **Chwarel Ton Mawr.**

5.357 Nod y Polisi yma yw amddiffyn cronfeydd ac adnoddau calchfaen mwynol a bennwyd o ffurfiau anghydnaws a datblygiad a allai achosi iddynt ddod i ben a'u hatal rhag cael eu gweithio, fel eu bod yn parhau ar gael i genedlaethau'r dyfodol.

5.358 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11 ac yn amcanu i amddiffyn cronfeydd mwynau cyfredol ac adnoddau posibl rhag datblygiad a fyddai'n atal eu hechdyniad yn y dyfodol. Mae'n cyfateb gydag arweiniad sydd i'w gael ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac un o egwyddorion allweddol hwn yw darparu adnoddau mwynol i ateb angenion cymdeithas a diogelu adnoddau rhag dod i ben.

5.359 Mae cronfeydd mwynau yn safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith cloddio. Mae gan Gaerdydd nifer o gronfeydd mwynau sydd i'w gweld ar y Map Cynigion. Mae'r rhain yn chwareli calchfaen sy'n weithredol ar hyn o bryd, neu'r rheiny sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer gweithio calchfaen. Mae Ardaloedd a Ffefrir o adnoddau hysbys yn safleoedd o fewn y Sir a ystyrir yn addas ar gyfer gwaith calchfaen yn y dyfodol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u pennu ar y Map Cynigion.

5.360 Mae datblygiad parhaol ar, neu'n agos at, gronfeydd mwynau neu adnoddau olygu bod y mwynau'n dod i ben neu fod eu hechdyniad yn cael ei rwystro yn y dyfodol. Bydd y cronfeydd a'r adnoddau a bennir wedi eu diogelu rhag mathau anghydnaws o ddatblygiad er mwyn atal hynny. Mae mathau anghydnaws o ddatblygiad yn cynnwys mewnlenwi cyn ei amser gyda gwastraff neu ddefnydd arall, a datblygiad adeiladu parhaol. Mae Polisi M4 ar Gysgodfeydd Mwynau yn

amddiffyn ardaloedd o'r fath ymhellach drwy ddiffinio cysgodfa o amgylch cronfeydd ac adnoddau, lle na fydd caniatâd i weithio mwynau na chael datblygiad tai neu ddatblygiad arall yr un mor sensitif.

M2: GORCHYMYN A FFEFRIR AM RYDDHAU ADNODDAU MWYNAU

Dewisir estyniad neu ddyfnhau gwaith mwynau cyfredol yn lle rhyddhau safleoedd newydd ac, heblaw am estyniadau ochrol Chwareli'r Creigiau a Thon Mawr y cyfeirir atynt ym Mholisi M1, dewisir dyfnhau dros estyniad ochrol. Caniateir i geisiadau ddyfnhau neu ymestyn gwaith mwynau lle gellir dangos bod:

i. **Gwelliannau amgylcheddol ar y safle y gellir eu cyfiawnhau gan ychwanegiad cronfeydd newydd, neu drwy ildio'r cronfeydd sy'n bodoli'n barod, neu;**
ii. **Ychwanegu cronfeydd newydd yn cadw gallu cynhyrchiol Caerdydd i gwrdd â'i ymrwymiadau dosraniad is-ranbarthol; neu**
iii. **bod manteision gweithredol mewn caniatáu cronfeydd pellach a fydd yn arwain at ddefnyddio'r adnodd yn fwy effeithiol;**
iv. **Dylid dangos hefyd na fydd agwedd o'r fath yn achosi niwed annerbyniol i'r amgylchedd, yn cynnwys ystyried effeithiau sy'n ymwneud â mynediad, sŵn, ansawdd yr awyr, tirlun ac effeithiau gweledol, ecoleg, adnoddau pridd, hydroleg a hydroddaeareg, dirgryniad ffrwydro a threftadaeth ddiwylliannol ac, yn achos Chwarel Creigiau, darperir amcanion Polisi M3 yn rhan o gais am ddyfnhau neu estyniad.**

5.361 Mae maint cronfa dir mwynau cyfredol Caerdydd yn golygu ei bod hi'n annhebygol y bydd angen rhoi mwy o ganiatâd i ryddhau adnoddau mwynau o fewn cyfnod y Cynllun. Mae Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Awst 2014) yn nodi, ar sail gwybodaeth gyfredol, bod gan Gaerdydd ormod o gronfeydd a ganiateir a does dim angen dyraniadau pellach. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi nad yw'r casgliadau yma'n cymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau a allai fod yn berthnasol i sicrhau cyflenwad digonol a pharhaus o agregau ar gyfer ffynonellau sydd wedi'u lleoli'n briodol, yn cynnwys y gallu technegol i gyfnewid un math o agreg am un arall, y gost berthnasol i'r amgylchedd o amnewid un math o agreg am un arall, yr effeithiau perthnasol ar yr amgylchedd o newid patrymau cyflenwad ac a ellir cynnal capasiti cynhyrchiad digonol i gwrdd â'r lefel ofynnol o gyflenwad. Pwrpas y Polisi yma nodi'r dull profi dilyniannol a fyddai'n cael ei ddefnyddio i arwain rhyddhad adnoddau mwynol yn y dyfodol, os bydd hyn yn angenrheidiol.

5.362 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11 ac yn hybu a chefnogi'r defnydd effeithiol o fwynau. Mae'r Polisi'n cytuno gyda chanllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cydnabod bod estyniadau i weithiau mwynau cyfredol yn aml yn fwy derbyniol yn gyffredinol na safleoedd maes glas newydd.

5.363 Yn gyffredinol, mae parhad chwarela ar safleoedd cyfredol yn fwy ffafriol na'r effaith fawr ar yr amgylchedd ac yn ariannol o symud y cynhyrchiad i safleoedd newydd. Yn ogystal, mae'n fwy ffafriol dyfnhau safleoedd na'u hymestyn yn ochrol oherwydd mae hynny'n lleihau'r darn o dir a glustnodir ar gyfer y gwaith ac yn sicrhau'r defnydd gorau o'r cronfeydd sydd yno'n barod. Ond, wrth benderfynu ar yr opsiwn orau bydd angen ystyried goblygiadau adferiad ac amgylcheddol posibl ac, am y rheswm hwnnw, gwneir eithriad ar gyfer chwarel Creigiau lle bydd amcanion Polisi M3 i gyfnewid cronfeydd am gronfeydd sy'n llai sensitif i'r amgylchedd yn cael eu cyflwyno yn rhan o gais am ymestyn neu ddyfnhau.

5.364 Cyfyngir ar oes unrhyw gronfeydd a ryddheir i alluogi i dechnoleg newydd a disgwyliadau amgylcheddol newydd gael eu hadlewyrchu, heb gyfaddawdu gallu gweithredwyr i amorteiddio eu buddsoddiad mewn gweithfeydd. Yn ogystal, ni fydd cronfeydd yn cael eu rhyddhau cyn eu hamser i osgoi anffrwythloni'r tir ac i sicrhau bod gweithredwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r safle presennol cyn symud i mewn i ardaloedd newydd. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod modd adfer yr hen safle'n gynharach.

5.365 Wrth benderfynu ar yr opsiwn gorau, bydd angen rhoi ystyriaeth i'r effaith bosibl ar yr amgylchedd, y dreftadaeth naturiol a'r dreftadaeth adeiledig.

M3: CAU CHWAREL A CHYFYNGIADAU ESTYNIADAU

Ceisir mesurau i atal rhagor o waith mwynau a, lle bo'n briodol, i sicrhau gwaith adferiad a gwaith tirlunio ar y cyfle cynharaf, ar y safleoedd a ganlyn:

i. **Chwarel Cefn Garw, Tongwynlais;**
ii. **Highland Park Brickworks, Trelái;**
iii. **West End Brickworks, Trelái; a**
iv. **Rhannau deheuol a gorllewinol o Chwarel Creigiau.**

5.366 Nod y Polisi yma yw cyflwyno mesurau i atal rhagor o echdynnu mwynau ar y safleoedd uchod, fel y gwelir ar y Map Cynigion, am nad yw gwaith mwynau bellach yn cael eu hystyried yn briodol yn y lleoliadau yma.

5.367 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11. Mae'n cyfateb gyda'r arweiniad sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n datgan bod yn rhaid i safleoedd anweithredol sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith yn y dyfodol ac a ystyrir yn annhebygol o gael eu gweithredu yn y dyfodol rhagweladwy, gael eu henwi yn y cynllun datblygu ac y dylent fod yn bwnc strategaeth addas.

5.368 Mae'r Polisi'n pennu tri safle mwynau ((i) hyd (ii) uchod) a rhannau o Chwarel Creigiau lle nad yw gweithio mwynau bellach yn cael ei ystyried yn briodol yn ôl safonau modern.

5.369 Mae Caerdydd yn cynnwys nifer o chwareli ar gyfer calchfaen neu dir- brics sydd heb gael eu gweithio am flynyddoedd lawer ac, mewn llawer o achosion, maent naill ai wedi ail dyfu llystyfiant yn naturiol neu maent wedi cael eu defnyddio i bwrpas arall. Er enghraifft, mae'r rhan o Waith Brics Trelái yng Nghaerdydd wedi'u cynnwys i raddau mawr gan Ffordd Gyswllt Elái. Er gwaethaf cyfnodau hirion o beidio cael eu defnyddio neu ddefnyddiau amgen o rai safleoedd, mae caniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn dal i fodoli a gallent gael eu hailgychwyn ar y safleoedd hyn. Mae'r safleoedd a bennwyd wedi cael eu hesgeuluso i raddau mawr gan y diwydiant mwynau ers blynyddoedd lawer. Yn ôl safonau amgylcheddol heddiw, nid ydynt bellach yn addas ar gyfer gwaith mwynau ac felly nid oes eu hangen i bwrpasau mwynau.

5.370 I gael gwared ag unrhyw amheuaeth dros ail weithio posibl ar y safleoedd a amlinellir yn (i) hyd (iv) uchod, defnyddir mesurau i atal rhagor o echdyniad a sicrhau gwaith adfer a thirlunio. Bydd mesurau yn cynnwys defnyddio Gorchmynion Gwahardd i sicrhau bod gwaith pellach yn gallu digwydd yn Chwarel Cefn Garw, Tongwynlais, Gwaith Brics Highland Park, Ely and West End Brickworks, Trelái a chau rhannau deheuol a gorllewinol o chwarel Creigiau drwy gytundeb cyfreithiol gyda pherchnogion y safle i ryddhau'r ardaloedd hyn ar gyfer ardal newydd sydd wedi'i nodi ym Mholisi M1 y Cynllun a'i bennu ar y Map Cynigion.

M4: PARTHAU CLUSTOGI MWYNAU

O fewn clustogfeydd mwynau ni chaniateir gwaith mwynau, tai na datblygiad sensitif arall.

5.371 Nod y Polisi yma yw darparu esboniad o'r clustogfeydd mwynau sydd wedi'u nodi ar y Map Cynigion. Pwrpas y clustogfeydd yw amddiffyn cronfeydd mwynau a bennwyd a'r adnoddau o ddatblygiad anghydnaws a allai ddod nhw i ben, a gostwng effaith chwarela drwy wahanu datblygiadau sensitif a gwaith mwynau.

5.372 Mae'r polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11 ac yn amcannu i amddiffyn cronfeydd mwynau ac adnoddau cyfredol rhag datblygiad a fyddai'n atal eu hechdyniad yn y dyfodol. Mae'r arweiniad a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn dangos y dylid diffinio clustogfeydd er mwyn darparu ardaloedd o amddiffyniad o amgylch gwaith mwynau arfaethedig ac a ganiateir. Mae MTAN1: Agregau'n dangos isafswm pellter gosodedig o 200m, ac na ddylid cymeradwyo unrhyw ddatblygiad sensitif newydd neu echdyniad mwynau o fewn clustogfeydd.

5.373 Mae clustogfeydd wedi eu tynnu o amgylch yr holl gronfeydd mwynau (safleoedd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith mwynau) ac adnoddau (safleoedd a benwyd fel rhai addas ar gyfer gwaith mwynau yn y dyfodol) sydd wedi eu dangos ar y Map Cynigion. Pwrpas y clustogfeydd yw amddiffyn cronfeydd mwynau a bennwyd ac adnoddau o ddatblygiad anghydnaws a allai ddod â nhw i ben, a sicrhau bod pellter gwahaniad rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro. Mae maint pob clustogfa'n briodol i effaith amgylcheddol y chwarel, yn arbennig effeithiau dirgryniad y llawr o weithgareddau ffrwydro.

5.374 Mae datblygiad sensitif yn cynnwys defnyddiau tir sy'n fwyaf agored i effaith niweidiol chwarela, megis tai, yssgolion ac ysbytai. Bydd y defnyddiau hyn wedi'u gwrthod o fewn clustogfeydd. Gallai rhai datblygiadau llai sensitif, lle gellid goddef safon is o amwynder, megis defnyddiau tir diwydiannol, swyddfeydd a datblygiadau sy'n ategol i'r gwaith mwynau, gael eu hystyried yn dderbyniol o fewn clustogfeydd. Mae clustogfeydd hefyd yn sicrhau bod effaith amgylcheddol chwarela ar drigolion yn cael ei leihau, yn arbennig lle mae gwaith mwynau a datblygiadau preswyl newydd wedi eu gwahanu.

5.375 Am na all mwynau ond gael eu gweithio lle maent yn codi, bydd mwy o bwysau i'r polisi yma na pholisïau sy'n ffafrio datblygiad sensitif i chwarelau a allai gael eu lleoli yn rhywle arall.

M5: ADFERIAD A THU HWNT – DEFNYDDIO GWAITH MWYNAU

Bydd cynigion ar gyfer gwaith mwynau neu ar gyfer adeiladau a gweithfeydd perthnasol ond yn cael eu caniatáu lle mae cynigion cadarn wedi eu cynnwys ar gyfer adfer y safle i gyflwr sy'n addas ar gyfer ôl-ofal priodol, lle bo'n berthnasol, drwy gynigion ôl-ofal digonol. Bydd angen cynigion ôl-ofal ac adferiad yn yr un modd pan adolygir rheolyddion cyfredol. Wrth lunio cynigion adfer, bydd gweithredwyr mwynau'n cael eu hannog i:

i. **Wneud gwaith adfer cynyddol;**
ii. **Gwneud defnydd buddiol o wastraff mwynau sydd wedi eu cynhyrchu gan weithrediadau mwynau;**
iii. **Ystyried a allai adferiad gyfrannu at dargedau cadwraeth natur sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol;**
iv. **Ni fydd defnyddiau newydd o gyn weithiau mwynau heblaw'r rheiny sy'n briodol i ardal wledig yn cael eu caniatáu heb gyfiawnhad arbennig. Bydd cynigion i wneud gwaith diogelwch mewn safleoedd segur neu adfail yn cael eu ffafrio.**

5.376 Nod y Polisi yma yw sicrhau bod yr holl gynigion ar gyfer gwaith mwynau neu ddatblygiad perthnasol yn dod gyda chynlluniau ar gyfer adferiad y safle a'i ôl-ddefnydd priodol, neu ôl-ofal lle bo'n briodol.

5.377 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11. Mae'r polisi'n cyfateb gydag amcanion sydd wedi eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a MTAN 1: Agregau sy'n amcannu i gyrraedd safon uchel o adferiad ac ôl-ofal ac yn darparu ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol pan fo gwaith mwynau wedi dod i ben.

5.378 Bydd y Polisi yma wedi'i ddefnyddio i osgoi adfeiliad ac ansicrwydd drwy ofyn i bob cais am waith mwynau, gan gynnwys adolygiadau o ganiatadau cyfredol, ddod gyda chynigion effeithiol i sicrhau adferiad ac ôl-ofal y safle unwaith y mae gwaith mwynau'n gorffen. Mae hyn yn ymwneud yn gyfartal â phlant ac adeiladau ategol ac i ddiwydiant eilaidd, y mae ei bresenoldeb fel arfer ond wedi'i gyfiawnhau gan bresenoldeb y safle gweithio mwynau. Mae'n hanfodol osgoi adfeiliad ac ansicrwydd unwaith y daw'r gwaith mwynau i ben, a sicrhau bod y safle'n cael ei adael mewn cyflwr diogel a defnyddiadwy a'i adfer i safon uchel sy'n addas ar gyfer ei ôl-ddefnydd y cytunwyd arno. Yn gyffredinol, bydd disgwyl i weithredwyr gytuno ar amcanion eang y cynllun adferiad ar y cychwyn, cadw'r amcanion hynny o dan adolygiad rheolaidd drwy gydol y gwaith a gweithredu'r cynllun o

hynny ymlaen. Bydd y dewis o ôl-ddefnydd yn dibynnu ar nifer o faterion yn cynnwys lleoliad, ffurf tir terfynol, argaeledd ac ansawdd y priddoedd neu ddefnyddiau adferiad eraill, a defnyddiau tir cyfagos.

5.379 Lle mae'r defnydd i gael ei adfer i ddefnydd amwynder neu amaethyddol, bydd angen cynigion ôl-ofal priodol. Mae caniatâd cynllunio ar wahân yn debygol o fod yn ofynnol ar gyfer unrhyw ôl-ofal heblaw amaethyddiaeth, coedwigaeth, cadwraeth natur neu ffurfiau arbennig o hamdden anffurfiol nad ydynt fel arfer yn gofyn caniatâd cynllunio.

5.380 Bydd disgwyl i gynigion ar gyfer chwareli newydd neu estyniadau mawr ddod gydag arolygon manwl o bridd a chynefin. Dylai rhaglenni cynhwysfawr ar gyfer stripio a storio uwchbridd, is-bridd, a chadwraeth defnyddiau eraill sy'n gwneud pridd, fod yn rhan o'r cynigion adferiad cychwynnol, y bydd disgwyl iddynt ddarparu ar gyfer adferiad cynyddol a graddol yr ardaloedd a weithiwyd allan.

5.381 Gall adferiad ddarparu cyfleoedd i greu a gwella safleoedd ar gyfer cadwraeth natur a chyfrannu at y targedau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

M6: ARDALOEDD AMDDIFFYN Y LANFA DYWOD

Bydd y glanfeydd tywod a welwch ar y Map Cynigion wedi'u hamddiffyn rhag datblygiad a fyddai'n amharu ar eu gallu i lanio tywod a graean wedi'i dreillio o'r môr i'r tir. Mae cynigion ar gyfer darparu a gwella adnoddau glanio a dosbarthu i agregau a dreillwyd o'r môr o fewn y glanfeydd tywod a welir ar y Map Cynigion yn cael eu ffafrio lle na fydd unrhyw niwed annerbyniol i'r amgylchedd.

5.382 Ar hyn o bryd mae ffynonellau morol yn cyflenwi'r mwyafrif o'r anghenion agregau mân ar gyfer adeiladu yng Nghaerdydd. Mae'r Polisi yma'n darparu fframwaith ar gyfer amddiffyn y glanfeydd cyfredol ac i wneud asesiad o'r ceisiadau am lanfeydd tywod a graean newydd neu rai wedi gwella a chyfleusterau perthnasol.

5.383 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11. Mae'r Polisi'n cytuno gyda'r arweiniad sydd i'w gael yn y Polisi Treillio Agregau Morol Interim (2004) sy'n dangos bod y defnydd o dywod a graean a dreilliwyd o'r môr yn mynd i barhau yn y dyfodol rhagweladwy lle mae hyn yn parhau'n gyson gydag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Mae'n cyfateb gyda'r Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2014) sy'n gofyn am ddiogelu glanfeydd presennol a rhai arfaethedig.

5.384 Er bod treillio morol y tu allan i reolaeth y Cyngor, mae'n angenrheidiol sicrhau bod glanfeydd cyfredol yn cael eu hamddiffyn a bod cyfleusterau glanio a dosbarthu priodol yn cael eu darparu i sicrhau bod y ffynhonnell bwysig hon o ddefnyddiau adeiladu'n parhau i fod ar gael. Hebddo, byddai'n rhaid i'r Sir wynebu mwy o ofynion ar y ffynonellau sail tir a mwy o fewnforion costus.

5.385 Mewn ymateb i bryderon am effeithiau tymor hir treillio ar erydiad yr arfordir, mae'r Polisi Treillio Agregau Morol Interim (2004) yn cynnig agwedd fwy gochelgar at gael gafael ar gyflenwadau ar gyfer agregau yn Ne Cymru. Er y gallai hynny arwain at newidiadau tymor hir mewn patrymau cyflenwi, yn y tymor byr mae'r patrwm presennol o gyflenwad yn debygol o barhau, ac mae felly'n syniad da i sicrhau bod y cyfleusterau sy'n galluogi'r lefelau presennol o gyflenwad i barhau ac i gyfleusterau newydd gael eu ffafrio.

5.386 Fel arfer, ar gyfer gweithredoedd sy'n cynnwys trosglwyddo mwynau mewn llongau, nid oes angen caniatâd cynllunio penodol o fewn ardal weithredol y porthladd. Ond, mae angen caniatâd fel arfer ar gyfer prosesau eilaidd, yn cynnwys gweithgynhyrchu neu drin cynhyrchion mwynol. Lle cyflwynir cynigion, byddent angen dangos effaith finimol ar yr amgylchedd. Lle mae cynigion yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gallai ceisiadau gael Asesiad o Effaith Amgylcheddol. Yn ogystal, bydd angen i gynigion ystyried SoDdGA Aber yr Afon Hafren/Ardal Cadwraeth Arbennig/ Ardal Gwarchodaeth Arbennig a safle Ramsar a, lle mae cynigion yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle rhyngwladol, bydd angen gwneud asesiad priodol o'r cynnig.

M7: DIOGELU TYWOD A GRAEAN, GLO AC ADNODDAU CALCHFAEN

Ni fydd datblygiadau'n cael eu caniatáu o fewn Ardaloedd Diogelu Tywod a Graean, Glo a Chalchfaen a welir ar y Map Cynigion a fyddai'n dod â'r adnoddau mwynau yma i ben yn barhaol heblaw:

i. **Bod yr ymgeisydd yn gallu dangos i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw'r mwynau perthnasol o unrhyw werth adnoddau neu werth adnoddau potensial; neu**

ii. **Gellir echdynnu'r mwynau'n foddhaol cyn i ddatblygiad anghydnaws ddigwydd; neu**

iii. **Mae'r datblygiad anghydnaws o natur dros dro a gellir ei gwblhau a'r safle ei adfer i gyflwr nad yw naill ai'n dod â'r adnodd i ben neu'n rhwystro echdyniad o fewn yr amserlen y mae'r mwynau'n debygol o fod eu hangen; neu**

iv. **Mae angen tra phwysig am ddatblygiad anghydnaws sy'n goresgyn yr angen am yr adnodd, yn cynnwys gofyniad am echdynu blaenorol os yw hynny'n berthnasol.**

5.387 Nod y Polisi yma yw sicrhau bod yr ardaloedd diogelu tywod a graean, glo a chalchfaen wedi eu hamddiffyn rhag datblygiad a fyddai'n achosi iddo ddod i ben ac felly ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol, os bydd angen yn codi am yr adnoddau hyn. I sicrhau hyn, mae'r Polisi'n nodi ystod o feini prawf yr asesir cynigion am ddatblygiad yn eu herbyn.

5.388 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP11 am ei fod yn amddiffyn adnoddau posibl rhag datblygiad. Mae'r Polisi'n cytuno gyda'r arweiniad sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n gofyn i Awdurdodau Cynllunio Mwynau ddiogelu mynediad at waddodion mwynau y bydd cymdeithas eu hangen efallai. Mae hefyd yn cytuno gyda MTAN1: Agregau sy'n nodi bod yn rhaid diogelu adnoddau tywod a graean ar gyfer eu defnydd potensial gan genedlaethau'r dyfodol mewn perthynas â'u hargaeledd rhanbarthol gweddol gyfyngedig a MPTAN2: Glo sy'n gofyn diogelu adnoddau mwynau.

Ardal Diogelu Tywod a Graean

5.389 Ar hyn o bryd, mae ffynonellau treillio morol yn darparu'r mwyafrif o'r agreg mân sy'n ofynnol i ateb anghenion adeiladu yng Nghaerdydd. Yn y tymor byr mae'r patrwm yma o gyflenwad yn annhebygol o newid yn sylweddol. Mewn perthynas â'r patrwm presennol o gyflenwad agreg wedi treillio, mae'n annhebygol iawn y bydd angen i adnoddau graean a thywod gael eu rhyddhau ar gyfer eu datblygu o fewn cyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd y patrwm cyfredol o gyflenwadau agreg wedi'u treillio o'r môr, mae'n rhaid i adnoddau tywod a graean o'r tir gael eu diogelu i'w defnyddio o bosib yn y dyfodol. Bydd y Polisi yma'n cael ei ddefnyddio i atal pob math o ddatblygiad parhaol yn yr ardal adnoddau tywod a graean sydd i'w weld ar y Map Cynigion. Ni allai'r tywod a graean sail tir ond gael ei weithio lle mae'n cael ei ganfod, felly mae'r Polisi yma'n cynrychioli strategaeth dymor hir i amddiffyn adnoddau sy'n bodoli'n barod, oherwydd gallent ddod yn adnodd strategol yn y dyfodol. Bydd y Polisi yma'n cario mwy o bwysau na pholisïau sy'n ffafrio datblygiad a allai gael ei leoli yn rhywle aralll.

Ardal Diogelu Glo

5.390 Nid yw'r cyflenwad ynni cyfredol yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i weithio adnoddau glo yng Nghaerdydd, ac mae'r sefyllfa yma'n hynod o annhebygol o newid yn y tymor byr. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd hi'n anghenrheidiol i ryddhau adnoddau glo i'w weithio er mwyn darparu ar gyfer anghenion ynni yng nghyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae'n syniad da i sicrhau bod yr adnoddau glo a bennit wedi eu diogelu rhag dod i ben er mwyn cynnal eu potensial i gael eu defnyddio yn y dyfodol, os daw hynny'n angenrheidiol.

5.391 Yn unol â'r arweiniad sydd wedi'i nodi yn MTAN2:Glo mae'r holl ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol o bwysigrwydd amgylcheddol a diwylliannol wedi eu heithrio o'r Ardal Diogelu Glo ac mae ffin 200 metr wedi'i gynnwys i amddiffyn lleoliad Henebion. Mae pob adnodd glo y tu allan i'r dynodiadau yma wedi eu pennu ar y Map Cynigion. Lle mae adnoddau glo a ddiogelir yn mynd y tu hwnt i ffiniau anheddiad diffiniedig, gwelir ardal 500m lle na fydd gwaith glo'n dderbyniol. Er bod yr ardal yma'n cynnwys adnoddau glo wedi'u diogelu, mae'n dangos yr ardal o dir lle na fydd echdyniad glo'n dderbyniol yn y dyfodol yn gyffredinol, yn amodol ar eithriadau ym mharagraff 49 o MTAN2: Glo. Mae rhagor o fanylion ym Mholisi M8: Ardaloedd lle nad yw Gwaith Glo'n Dderbyniol.

5.392 Ni all glo ond gael ei weithio lle ceir hyd iddo, felly mae'r Polisi yma'n cynrychioli strategaeth dymor hir i amddiffyn adnoddau presennol oherwydd gallent ddod yn adnodd strategol yn y dyfodol. Bydd mwy o bwysau i'r Polisi yma na pholisïau sy'n ffafrio datblygiad a allai gael ei leoli yn rhywle arall.

Calchfaen

5.393 Ar hyn o bryd mae cronfa dir ddigonol o gronfeydd calchfaen yn y Sir ar gyfer cyfnod y Cynllun ac, os na fydd y gronfa dir yn ddigonol, byddai'r ardaloedd adnoddau calchfaen sydd wedi'u pennu ym Mholisi M1 yn derbyn ystyriaeth cyn unrhyw rai o'r ardaloedd diogelu sydd i'w gweld ar y Map Cynigion. O ystyried hynny, ni fydd hi'n angenrheidiol rhyddhau unrhyw rai o'r ardaloedd a ddiogelir i weithio er mwyn darparu ar gyfer anghenion agregau dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae'n syniad da i sicrhau bod yr adnoddau calchfaen a bennwyd wedi eu hamddiffyn rhag dod i ben er mwyn cadw eu potensial i'w defnyddio yn y dyfodol, os daw hynny'n angenrheidiol.

5.394 Nid yw dynodi ardal yn lle wedi'i ddiogelu yn golygu bod cymeradwyaeth i waith tywod a graean, glo neu galchfaen yn yr ardal honno.

5.395 Yn ogystal â'r adnoddau sydd wedi eu hamlinellu uchod, mae Mapiau Diogelu Agregau Cymru'n pennu maint bychan o adnoddau Agreg Manyleb Uchel (HAS) Tywodfaen Categori 1 yng ngogledd orllewin eithriadol y Sir. Am fod yr ardal hon yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn yr Ardal Diogelu Glo sydd wedi'i amlinellu uchod nid yw wedi'i bennu ar wahân ar y Map Cynigion am ei fod wedi'i amddiffyn yn barod rhag diffrwythloni a'u diogelu ar gyfer y dyfodol, os bydd yr angen yn codi am yr adnoddau yma.

M8: ARDALOEDD LLE NA FYDD GWAITH GLO YN DDERBYNIOL

Ni fydd caniatâd i echdynnu glo o fewn yr Ardaloedd lle na fydd Gwaith Glo yn Dderbyniol fel y gwelir ar y Map Cynigion heblaw bod amgylchiadau eithriadol yn dangos bod ardal lai yn briodol.

5.396 Nod y Polisi yma yw amddiffyn amwynder ardaloedd preswyl cyfredol a dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol o bwysigrwydd diwyllianol ac amgylcheddol drwy sicrhau bod ardal briodol le nad yw gweithio glo yn dderbyniol yn cael ei chynnal rhwng ardaloedd preswyl a gwaith glo'r dyfodol a bod dynodiadau amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu diogelu. Mae'r Polisi yma'n cyfateb gyda'r arweiniad sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru a MTAN2: Glo.

5.397 Mae'r holl adnoddau glo y tu allan i ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol o bwysigrwydd amgylcheddol a diwyllianol hyd at ffiniau anheddiad wedi eu dynodi ar y Map Cynigion ac mae'r polisi'n dynodi'r darn o dir lle na fydd echdynnu glo'n dderbyniol yn y dyfodol yn gyffredinol drwy ddiffinio ardal o 500m y tu allan i ardaloedd preswyl cyfredol lle na fydd gwaith glo'n dderbyniol. Mae hyn yn cyfateb gydag arweiniad yn MTAN2:Glo sy'n nodi bod gwaith glo'n annerbyniol fel arfer o fewn 500 metr i anheddau heblaw bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli ac y dylid dangos ardal lle na fydd gwaith glo'n dderbyniol ar y Map Cynigion

5.398 Mae MTAN2:Glo yn nodi ffactorau a allai gyfiawnhau amgylchiadau eithriadol lle gallai ardal lai, lle na fydd gwaith glo'n dderbyniol, fod yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lle mae gwaith glo'n darparu'r ateb mwyaf effeithiol i atal risgiau iechyd a diogelwch sy'n codi o waith mwynau blaenorol;
- I adnewyddu'r tir a niweidiwyd gan weithiau glo bas neu wastraff y pwll, lle mae'n ymddangos mai echdynnu glo yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy;
- Lle byddai topograffeg, nodweddion naturiol megis coedwigoedd neu ddatblygiad sy'n bodoli'n barod, yn lleihau effeithiau'n sylweddol;
- Lle mae ffyrdd mawr neu reilffyrdd yn gorwedd rhwng yr anheddiad a'r ardal weithredol arfaethedig ac na fyddai gwaith glo'n peri effeithiau cronnol ac mewn-gyfuniad sylweddol;
- Lle nad yw mynegiant ar yr wyneb o'r gwaith tanddaearol yn cynnwys storio neu drin y dŵr neu fwynau'n sylweddol;
- Lle mae cynnig o arwyddocâd tra phwysig ar gyfer adfywiad, cyflogaeth ac economi yn yr ardal leol; neu
- Lle byddai'r echdynnu'n digwydd o flaen llaw o ddatblygiad parhaol arall, na ellir ei leoli yn rhesymol yn unrhyw le arall.

5.399 Yn unol ag arweiniad yn MTAN2:Glo lle mae eithriadau o'r fath yn cyfiawnhau gwaith ar yr wyneb o fewn 500m i anheddiad, dylid cyfyngu'r ardal waith i'r ardal honno sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer adferiad a dylid ceisio'r cydbwysedd gorau rhwng graddfa, dull o weithio ac amseriad camau unigol, y cyfleoedd ar gyfer adferiad cynnar ac ôl-ofal, ac oriau gweithio. I gyfiawnhau gweithio o fewn 200 metr i anheddiad bydd angen tystiolaeth gref o'r angen am adnewyddu, yn cynnwys gwerthuso opsiynau yn ofalus ynghyd â'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol ar yr anheddiad a effeithiwyd.

8. GWASTRAFF

W1: SAFLEOEDD AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF

Bydd caniatâd i gynigion am ddatblygiad cyfleusterau rheoli gwastraff lle:

i. **Mae angen dangosadwy wedi'i asesu yn erbyn gofynion rhanbarthol;**
ii. **Maent yn cydymffurfio gyda'r hierarchaeth gwastraff a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfarwyddiaeth Fframwaith Gwastraff Rhwydwaith Integredig a Digonol; yr Weithfa Briodol Agosaf; Hunanddigonedd a Diogelu Iechyd Dynol a'r Amgylchedd;**
iii. **Ni fyddent yn achosi niwed annerbyniol i'r amgylchedd, i'r dreftadaeth adeiledig neu i iechyd dynol;**
iv. **Maent yn cynnwys cynigion derbyniol ar gyfer adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd, yn cynnwys ôl-ddefnydd buddiol ac ôl-ddefnydd sgil-gynhyrchion;**
v. **Ni fyddent yn peryglu diogelwch awyrennol;**
vi. **Maent yn cynnwys cynigion derbyniol ar gyfer amddiffyn tir ffiniol a chyfagos rhag halogiad neu symudiad trwytholch a nwy tirlenwi;**
vii. **Nid ydynt wedi eu lleoli o fewn ardal sydd dan risg o lifogydd;**
viii. **Ni fyddent yn achosi llygredd golau, sŵn neu awyr, llwch, dirgrynu neu arogleuon annerbyniol nac yn denu plâu gormodol;**
ix. **Maent yn darparu dulliau diogel o fynediad i'r briffordd a digon o gyfleusterau troi a pharcio ar y safle; a**
x. **Chânt Asesiad Cynllunio Gwastraff sy'n cynnwys digon o wybodaeth i alluogi asesiad o'r cynnig.**

Bydd cyfleusterau ar gyfer symud, trin a throsglwyddo gwastraff yn cael ei annog yn gyffredinol tuag at ddefnydd cyfredol B2 o dir diwydiannol cyffredinol.

5.400 Pwrpas y Polisi yma yw darparu fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

5.401 Mae'r Polisi yma'n ehangu ar Bolisi KP12. Mae'n cyfateb gyda'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol i Gymru: Yn Gall gyda Gwastraff (2002); Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010); Y Cynllun Casgliadau, Seilwaith a Sectorau'r Farchnad (2012) a TAN 21: Gwastraff (2014).

5.402 Rhagwelir y bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno o fewn cyfnod y Cynllun ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Mae ceisiadau'n debygol o gynnwys gwaredu gwastraff, prosesu, ailgylchu a throsglwyddo gwastraff. Bydd asesiad o'r angen am gyfleusterau gwastraff yn erbyn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a gofynion capasiti a sefydlwyd drwy fonitro rhanbarthol, fel y mae wedi'i nodi yn TAN 21.

5.403 Mae'r 'hierarchaeth gwastraff' yn cefnogi agwedd ddilyniannol tuag at reoli gwastraff. Ar frig yr hierarchaeth mae atal gwastraff a'i ailddefnyddio, ac wedi hynny baratoad ar gyfer ei ailddefnyddio, ei ailgylchu, ei adfer ac yn olaf (h.y yr opsiwn lleiaf poblogaidd) cael gwared ohono.

5.404 Bydd cyfleusterau gwastraff yn cael eu hannog fel arfer tuag at ardaloedd diwydiannol cyffredinol cyfredol (dosbarth defnydd B2), heblaw bod modd dangos y gellid eu lleoli'n dderbyniol yn rhywle arall, neu bod asesiad y cynnig yn dangos y dylid defnyddio safonau lleoliadol llymach.

5.405 Mae Adolygiad 1af o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (2008) yn cynnwys Ardaloedd o Fapiau Chwilio y mae TAN 21 yn dangos eu bod yn parhau'n berthnasol i'w defnyddio i ganfod safleoedd potensial newydd ar gyfer mewnadeiladu a chyfleusterau adfer adnoddau/rheoli gwastraff awyr agored. Anogir datblygwyr i ddefnyddio'r argymhellion i helpu i ganfod safleoedd addas.

5.406 Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddod gydag Asesiad Cynllunio Gwastraff sy'n cynnwys digon o wybodaeth i alluogi asesiad o'r cais a'i gyfraniad tuag at gwrdd â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Dylai'r wybodaeth sydd i gael ei darparu gynnwys:

- Datganiad Polisi Gwastraff (cyfraniad i'r Cynllun Sector CIM, gofynion angen a lleoliadol, y galw, pennu marchnadoedd, y prinder cyfredol mewn gallu i drin gwastraff, ymgynghoriad)
- Amseriad (hyd y gweithgaredd, dyddiau ac oriau gweithredu);
- Mathau a maint y gwastraff sydd i gael ei reoli;
- Dyluniad, cynllun adeiladau a gweithfeydd;
- Amwynder a niwsans;
- Llygredd awyr
- Effeithiolrwydd ynni.

5.407 Mae manylion pellach i'w cael yn Atodiad B TAN 21 (2014). Lle bo'n briodol, dylai ceisiadau ddod gydag asesiad amgylcheddol ffurfiol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Wrth asesu cynigion o'r fath, fe wneir ymgynghoriad agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a bydd amodau'n gysylltiedig ag unrhyw ganiatadau a/neu gytundebau cyfreithiol a geisir i sicrhau rheolyddion ac amddiffyniad amgylcheddol digonol.

5.408 Bydd arweiniad pellach ar weithredu'r Polisi wedi'i nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Leoli Cyfleusterau Rheoli Gwastraff.

W2: DARPARIAETH AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF MEWN DATBLYGIAD

Lle bo'n briodol, ceisir darpariaeth ymhob datblygiad newydd i storio ac ailgylchu gwastraff a rheoli gwastraff mewn ffyrdd eraill.

5.409 Pwrpas y Polisi yma yw sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer rheoli gwastraff mewn datblygiadau newydd, er mwyn helpu'r Cyngor i gwrdd â'r targedau ailgylchu gwastraff heriol a osodwyd gan dargedau Ewropeaidd a chenedlaethol.

5.410 Mae'r Polisi'n cyfateb gyda TAN21: Gwastraff, y Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol i Gymru: Yn Gall am Wastraff (2002) a Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010).

5.411 Mae'r targedau sydd yn Yn Gall gyda Gwastraff (2002) yn golygu bod gofyn i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol wrth reoli gwastraff. Mae'n bwysig bod datblygiad newydd yn cael ei lunio i gynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff er mwyn annog gostwng gwastraff, ailgylchu, compostio a'i wahanu yn ei darddle. Bydd y Polisi yma'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod cyfleusterau storio a chasglu'n cael eu darparu ymhob datblygiad newydd priodol.

5.412 Y gofyniad cyffredinol i bob datblygiad fydd darparu:

- Cyfleusterau ailgylchu, storio, compostio a gwahanu gwastraff ar y safle;
- Cyfleusterau storio, gwahanu, compostio ac ailgylchu gwastraff cymunol ar gyfer datblygiadau mwy;
- Trefniadau mynediad ar gyfer staff a cherbydau sbwriel i bwrpasau casglu.

5.413 Dylai'r cyfleusterau a ddarperir fod yn ddiogel, hawdd ei gyrraedd ac nid yn or-amlwg. Bydd arweiniad manwl ar faterion megis y mathau o gyfleusterau sy'n ofynnol a'u cynllun i'w cael mewn Canllawiau Cynllunio Atodol

5 Polisïau Manwl

6 Monitro a Gweithredu

6 Monitro a Gweithredu

6.1 Monitro effaith polisïau cynllunio yw'r brif ffordd o asesu pa mor effeithiol yw gweithrediad y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r broses fonitro'n helpu i bennu'n bositif faterion a chwestiynau allweddol megis:

- Pa bolisïau sy'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus – h.y. pa mor effeithiol ydynt o ran penderfynu ceisiadau cynllunio ac o ran gwrthsefyll apeliadau.
- A yw canlyniadau'r polisïau'n cyfateb â'r hyn a fwriadwyd.
- Os nad yw polisïau'n gweithio'n dda, pa gamau gweithredu sydd eu hangen i ymdrin â nhw.
- Pa newidiadau i'r sail tystiolaeth sydd wedi digwydd neu sydd angen digwydd.
- Pa fylchau sydd i'w gweld y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ymdrin â nhw.
- A oes angen addasu polisïau mewn unrhyw ffordd neu gwblhau adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

6.2 Mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) i Lywodraeth Cymru erbyn Hydref 31ain bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol fel y mae wedi'i nodi yn Adran 37 y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygiad Lleol) 2005 (y Rheoliadau). Mae cael mecanwaith clir ar gyfer monitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn un o'r 'Profion o Gadernid' a ystyrir gan yr Arolygydd Cynllunio wrth Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol.

6.3 Mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol yn esbonio y dylai proses yr Adroddiad Monitro Blynyddol ymwneud â mwy na dim ond casglu data, ac y dylai hefyd ymwneud ag edrych ymlaen a chanolbwyntio ar weithredu, agwedd a allai dynnu sylw at faterion sydd angen sylw ac a fydd yn helpu i ffurfio'r sail ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

6.4 Gwneir adolygiad bob pedair blynedd o'r Cynllun Datblygu Lleol felly mae targed interim ar gyfer Hydref 2019. Ond, dydy adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ond yn debygol o fod yn ofynnol dan amgylchiadau penodol, er enghraifft lle mae deddfwriaeth neu arweiniad newydd wedi cael eu cyhoeddi, lle mae newidiadau sylweddol yn digwydd i ragolygon neu lle nad yw amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae'n gyfuniad o'r holl ffactorau hyn ynghyd â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a allai warantu ystyried gwneud adolygiad llawn neu rannol. Ni fyddai wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar p'un a ydyw targed unigol yn cael ei gyflawni ai peidio neu a oes gan bolisi ganlyniad penodol.

6.5 Mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod na ellir casglu data ar gyfer pob polisi yn y Cynllun; byddai'n arwain at ddogfen ddianghenraid o fawr a chymhleth. Mae'n awgrymu bod meysydd polisi allweddol yn cael eu monitro'n gyson er mwyn caniatáu i dueddiadau gael eu cydnabod. Lle bo'n bosibl, gwneir defnydd o'r wybodaeth bresennol sy'n cael ei chasglu.

6.6 Mae'n bwysig cydnabod bod y broses fonitro'n gallu bod yn dasg gymhleth, yn arbennig lle mae prinder data cyson neu os oes amheuaeth y gellir cysylltu canlyniad at bolisïau cynllun datblygiad yn gyfan gwbl. Efallai hefyd bod anawsterau mewn monitro effeithiau penodol ar sail flynyddol pan fo rhai newidiadau'n cymryd mwy o amser i ddigwydd. Felly, rhoddwyd sylw gofalus i gasglu'r maint cywir o ddata.

6.7 Mae cyfres o ddangosyddion wedi'u llunio a fydd yn gweithredu fel meincnod wrth fesur perfformiad. Bydd dangosyddion wedi eu nodi naill ai fel rhai 'Cyd-destunol', 'Craidd' neu 'Leol'.

- Dangosyddion Cyd-destunol – Mae'r rhain yn ddangosyddion eang sy'n helpu i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ar lefel strategol ac maent wedi'u llunio i roi darlun cyfan o'r ffordd mae Caerdydd gyfan yn perfformio.
- Dangosyddion Craidd - Mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (2006) yn nodi'r nifer o ddangosyddion canlyniad craidd a ystyrir yn hanfodol ar gyfer asesu gweithrediad polisi cenedlaethol.
- Dangosyddion Lleol – Mae'r Cyngor wedi pennu dangosyddion lleol sy'n fwy penodol i Gaerdydd ac y mae'n eu hystyried yn bwysig wrth fonitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol.

6.8 Mae'r holl ddangosyddion wedi'u cysylltu â thargedau monitro sy'n nodi'r sefyllfa y mae angen ei sicrhau er mwyn helpu i gyflawni Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Os nad yw targedau monitro'n cael eu cyflawni, cynhwysir pwyntiau sbardun i asesu i ba raddau y mae amgylchiadau wedi gwyro oddi wrth y targed. Bydd y pwyntiau sbarduno'n dangos a oes rhannau arbennig o'r Cynllun nad ydynt yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig. Os yw'r pwyntiau sbarduno yma'n cael eu gweithredu yna bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried pa gamau gweithredu sy'n angenrheidiol.

6.9 Wrth osod pwyntiau sbarduno, yr egwyddor sy'n cael ei mabwysiadu yw gosod pwyntiau gweithredu tynn yn hytrach nag adeiladu ffiniau llydan o ddarpariaeth sy'n llawer is neu uwch na'r targed sydd wedi'i seilio ar bolisïau'r Cynllun. Felly, lle mae pwyntiau sbarduno wedi eu seilio ar gyfraddau darparu rhifyddol, mae sbardun o 10% yn uwch neu'n is na'r targed sydd wedi'i fabwysiadu. Yn y ffordd yma mae gweithredu sbardun yn ein galluogi i ddeall y rhesymau cefndir ac i ystyried a oes modd gwneud unrhyw welliannau i weithrediad y Cynllun er mwyn ei wneud mor effeithiol ag sy'n bosibl.

6.10 I'r perwyl hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau tanategol tebygol am weithredu unrhyw bwyntiau sbarduno. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ni a yw rhesymau'n adlewyrchu ffactorau allanol neu dueddiadau cenedlaethol y tu allan i gwmpas effeithiolrwydd gweithrediad polisi'r Cynllun Datblygu Lleol i raddau mawr neu a allai'r rhesymau ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r Cynllun neu

ffactorau lleol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gellir ystyried ystod o gamau gweithredu cywiro priodol. Mae camau gweithredu o'r fath i'w gweld yn llawn a manylach isod.

6.11 Mae opsiynau ar gael i'r Cyngor mewn perthynas â phob dangosydd, targed monitro a phwynt sbarduno. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa sy'n gysylltiedig â phob dangosydd ac yn argymell ymateb priodol yn unol â'r tabl a ganlyn:

Parhau i Fonitro (Gwyrdd)
Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes angen eu hadolygu.
Mae Angen Hyfforddiant (Glas)
Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu fel y dylent a bod angen rhagor o hyfforddiant i'r swyddogion neu'r aelodau.
Mae Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Piws)
Lle mae'n bosib bod dangosyddion yn awgrymu bod angen darparu rhagor o arweiniad yn ogystal â'r rheiny sydd yn y Cynllun yn barod.
Rhagor o Waith Ymchwil (Melyn)
Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol mor effeithiol ag y dylent fod a bod angen rhagor o waith ymchwil ac archwilio.
Adolygu'r Polisi (Oren)
Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn methu o ran gweithredu'r strategaeth a bod angen gwneud adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil ac archwilio cyn cadarnhau penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.
Adolygu'r Cynllun (Coch)
Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn methu a bod angen gwneud adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen archwilio'r opsiwn yma i adolygu'r Cynllun yn llawn a gwneud y gwaith adolygu llawn yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.

7 Rhestr o Atodiadau

7 Rhestr o Atodiadau

Atodiad 1:	Rhestr o'r Polisïau Allweddol a Manwl
Atodiad 2:	Y Fframwaith Polisïau Rhanbarthol a Chenedlaethol
Atodiad 3:	Cyd-destun Caerdydd a'r Materion Allweddol
Atodiad 4:	Arweiniad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol
Atodiad 5:	Y Safleoedd sydd â mwy na 10 Annedd
Atodiad 6:	Ardaloedd Diogelu'r Asedau Treftadaeth
Atodiad 7:	Safleoedd Dynodedig
Atodiad 8:	Canolfannau Bro a Lleol
Atodiad 9:	Fframwaith Monitro
Atodiad 10:	Crynodeb o broses y Cynllun Datblygu Lleol
Atodiad 11:	Profion Hunanasesiad o Gadernid
Atodiad 12:	Rhestr o'r Dogfennau Cefnogol
Atodiad 13:	Rhestr o'r Sail Tystiolaeth
Atodiad 14:	Llyfryddiaeth

Atodiad 1: Rhestr o Bolisïau Manwl ac Allweddol

Atodiad 1: Rhestr o Bolisïau Manwl ac Allweddol

POLISÏAU ALLWEDDOL

- KP1: LEFEL Y TWF
- KP2: SAFLEOEDD STRATEGOL
- KP2 (A): ARDAL FENTER CANOL CAERDYDD A HWB TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL
- KP2 (B): CYN WAITH NWY, FERRY ROAD
- KP2 (C): GOGLEDD ORLLEWIN CAERDYDD
- KP2 (D & E): I'R GOGLEDD O GYFFORDD 33 YR M4 AC I'R DE O GREIGIAU
- KP2 (F): GOGLEDD DDWYRAIN CAERDYDD (GORLLEWIN O BONTPRENNAU)
- KP2 (G): I'R DWYRAIN O FFORDD GYSWLLT PONTPRENNAU
- KP2 (H): I'R DE O BARC BUSNES LLANEIRWG
- KP3 (A): LLETEM LAS
- KP3 (B): FFINIAU ANHEDDIAD
- KP4: DULL UWCHGYNLLUNIO
- KP5: ANSAWDD DA A DYLUNIO CYNALIADWY
- KP6: SEILWAITH NEWYDD
- KP7: RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO
- KP8: CLUDIANT CYNALIADWY
- KP9: YMATEB I ANGHENION ECONOMAIDD Y CAFWYD TYSTIOLAETH OHONYNT
- KP10: ARDALOEDD BUSNES Y CANOL A'R BAE
- KP11: AGREGAU CERRIG MÂL A MWYNAU ERAILL
- KP12: GWASTRAFF

- KP13: YMATEB I ANGHENION CYMDEITHASOL Y CAFWYD TYSTIOLAETH OHONYNT
- KP14: BYW'N IACH
- KP15: NEWID YN YR HINSAWDD
- KP16: SEILWAITH LAS
- KP17: TREFTADAETH ADEILEDIG
- KP18: ADNODDAU NATURIOL

POLISÏAU MANWL

TAI

- H1: SAFLEOEDD TAI AN-STRATEGOL
- H2: TROSI I DDEFNYDD PRESWYL
- H3: TAI FFORDDIADWY
- H4: NEWID DEFNYDD TIR NEU EIDDO PRESWYL
- H5: IS-RANNU NEU DROSI EIDDO PRESWYL
- H6: NEWID DEFNYDD NEU AILDDATBLYGU AT DDEFNYDD PRESWYL
- H7: SAFLEOEDD AR GYFER CARAFANNAU SIPSIWN A THEITHWYR

ECONOMI

- EC1: TIR CYFLOGAETH PRESENNOL
- EC2: DARPARU CYFLEUSTERAU CYFLENWOL I WEITHWYR MEWN DATBLYGIADAU BUSNES, DIWYDIANNOL A WARWS
- EC3: DEFNYDD ARALL O DIR AC EIDDO CYFLOGAETH
- EC4: DIOGELU SWYDDFEYDD YN ARDALOEDD BUSNES Y CANOL A'R BAE
- EC5: DATBLYGIAD GWESTAI

- EC6: SAFLE CYFLOGAETH AN-STRATEGOL
- EC7: CYNIGION CYFLOGAETH AR DIR NA NODIR AR GYFER DEFNYDD CYFLOGAETH

YR AMGYLCHEDD

Diogelu Cefn Gwlad

- EN1: DIOGELU CEFN GWLAD
- EN2: TROSI, ESTYNIADAU AC ADEILADAU NEWYDD YNG NGHEFN GWLAD

Yr Amgylchedd Naturiol

- EN3: DIOGELU TIRWEDD
- EN4: CORIDORAU AFONYDD
- EN5: SAFLEOEDD DYNODEDIG
- EN6: RHWYDWEITHIAU ECOLEGOL A NODWEDDION O BWYSIGRWYDD I FIOAMRYWIAETH
- EN7: CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU BLAENORIAETH
- EN8: COED, COETIROEDD A GWRYCHOEDD

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- EN9: CADWRAETH YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

Adnoddau naturiol

- EN10: DYLUNIO SENSITIF I DDŴR
- EN11: DIOGELU ADNODDAU DŴR

Ynni adnewyddadwy

- EN12: YNNI ADNEWYDDADWY A THECHNOLEGAU CARBON ISEL

Llygredd

- EN13: LLYGREDD AER, SŴN, GOLAU A HALOGIAD TIR

Perygl llifogydd

- EN14: PERYGL LLIFOGYDD

TRAFNIDIAETH

- T1: CERDDED A BEICIO
- T2: CORIDORAU BWS A THEITHIO CYFLYM STRTAEGOL
- T3: CYFNEWIDFEYDD TRAFNIDIAETH
- T4: HWB CANOLOG TRAFNIDIAETH
- T5: RHEOLI EFFEITHIAU TRAFNIDIAETH
- T6: EFFAITH AR RWYDWEITHIAU A GWASANAETHAU TRAFNIDIAETH
- T7: SEILWAITH TRAFNIDIAETH STRATEGOL
- T8: LLWYBRAU HAMDDEN STRATEGOL
- T9: RHWYDWAITH 'METRO' RHANBARTH DINAS CAERDYDD

MANWERTHU

- R1: HIERARCHAETH MANWERTHU
- R2: DATBLYGIAD YN YR ARDAL SIOPA GANOLOG
- R3: FFRYNTIADAU SIOPAU A WARCHODIR
- R4: CANOLFANNAU DOSBARTH
- R5: CANOLFANNAU LLEOL
- R6: DATBLYGIAD MANWERTHU (ALLAN O'R CANOL)

- R7: DARPARIAETH MANWERTHU MEWN SAFLEOEDD STRATEGOL
- R8: DEFNYDDIAU BWYD A DIOD

CYMUNED

- C1: CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL
- C2: DIOGELU CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL PRESENNOL
- C3: DIOGELWCH CYMUNEDOL / CREU AMGYLCHEDDAU DIOGEL
- C4: DIOGELU MANNAU AGORED
- C5: DARPARIAETH AR GYFER MANNAU AGORED, HAMDDEN AWYR AGORED, CHWARAE I BLANT A CHWARAEON
- C6: IECHYD
- C7: CYNLLUNIO AR GYFER YSGOLION

MWYNAU

- M1: ADNODDAU MWYNAU AC ADNODDAU MWYNAU WRTH GEFN CALCHFAEN
- M2: TREFN A FFEFRIR AR GYFER RHYDDHAU ADNODDAU MWYNAU
- M3: CAU CHWARELI A THERFYNAU ESTYNIADAU
- M4: CLUSTOGFEYDD MWYNAU
- M5: ADFER AC AR ÔL - DEFNYDDIO GWEITHFEYDD MWYNAU
- M6: ARDALOEDD DIOGELU TRAETHAU TYWOD
- M7: DIOGELU ADNODDAU TYWOD A GRAEAN, GLO A CHALCHFAEN
- M8: ARDALOEDD LLE NA FYDD GWEITHFEYDD GLO YN DDERBYNIOL

GWASTRAFF

- W1: SAFLEOEDD AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF
- W2: DARPARIAETH AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF SY'N CAEL EU DATBLYGU

Atodiad 1: Rhestr o Bolisïau Manwl ac Allweddol

Atodiad 2: Fframwaith Polisi Cenedlaethol a Rhanbarthol

Atodiad 2: Fframwaith Polisi Cenedlaethol a Rhanbarthol

Cyflwyniad

A2.1 Mae'n rhaid i CDLl Caerdydd ystyried polisïau a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â Chymru, y ddinas-ranbarth a pholisïau cymeradwy eraill sy'n ymwneud â'r ardal leol.

Deddfwriaeth a chanllawiau CDLl

A2.2 Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru baratoi CDLl ar gyfer ei ardal. Gelwir hyn yn system 'a arweinir gan gynllun' ac ynghyd â'r cynlluniau, strategaethau a pholisïau perthnasol eraill, mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio yng Nghaerdydd. Mae'r brif ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol sy'n ymwneud â CDLlau fel a ganlyn:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Cynllun Datblygu Lleol ac, wrth wneud hynny, ystyried ei Strategaeth Gymunedol a pholisi cenedlaethol, yn cynnwys Cynllun Gofodol Cymru (CGC);
- Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005- yn amlinellu manylion sut y bydd y system CDLl yn cael ei gweithredu. Mae hyn yn cynnwys yr angen i CDLlau roi sylw i Strategaeth Wastraff Cymru, Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Strategaethau Tai Lleol; a
- Paratowyd canllawiau ychwanegol ar y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys:
    - Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005)
    - Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (2006)
    - Cynllunio eich Cymuned: Canllawiau Cynlluniau Datblygu Lleol (2006)
    - Canllawiau i archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol (2006)

Fframwaith polisi cenedlaethol

A2.3 Nodir polisïau defnydd tir cenedlaethol Llywodraeth Cymru ym **Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5, Tachwedd 2012)** a **Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001).** Ategir y rhain gan Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi sut y gall y system gynllunio defnydd tir helpu i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru o:

- Datblygu Cynaliadwy - diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Adeiladu economi ddeinamig a datblygedig - cefnogi adfywio economaidd, creu cyfoeth a swyddi o ansawdd da;

- Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol - datblygu cymdeithas gynhwysol lle mae gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial; a
- Cyfle Cyfartal - hyrwyddo diwylliant lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal yn realiti.

A2.4 Mae Pennod 2 o Bolisi Cynllunio Cymru yn rhoi gwybodaeth bellach ar gwmpas y Cynllun Datblygu.

A2.5 **Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru (diweddariad 2008) -** mae'n darparu fframwaith strategol i lywio polisi'r dyfodol ac ymyriadau polisi ledled Cymru, y tu hwnt i gwmpas rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol. Mae'r Cynllun Gofodol yn gosod Caerdydd yng nghanol y De-ddwyrain – 'Rhwydwaith y Brifddinas' - ardal o Gymru, sydd â gweledigaeth fel a ganlyn: 'Ardal arloesol a medrus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel – yn rhyngwladol, ac eto'n gadarn Gymreig. Bydd yn cystadlu'n rhyngwladol drwy gynyddu ei gweleded byd-eang drwy gysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r arfordir a chyda'r DU ac Ewrop, gan helpu i ledaenu ffyniant yn yr ardal ac o fudd i rannau eraill o Gymru.

A2.6 Mae'r Cynllun Gofodol yn cydnabod ei bod yn bwysig i Gymru yn ei chyfanrwydd fod Caerdydd yn dod yn arwyddocaol yn rhyngwladol ac, er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r ddinas fod yn ganolbwynt rhwydwaith trefol cydlynol a llwyddiannus yn ne ddwyrain Cymru. Nodir trafnidiaeth integredig fel rhywbeth hanfodol i ardal weithio'n effeithiol yn y ffordd hon; a chyflawni hyn mewn ffyrdd sy'n lleihau dibyniaeth ar geir preifat, drwy well cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus.

A2.7 O berthnasedd penodol, mae'r Cynllun Gofodol hefyd yn nodi:

- Bydd Ardal Arfordirol y Ddinas yn gweithredu fel dinas-ranbarth rwydweithiol, ar raddfa i wireddu ei photensial rhyngwladol, ei rôl genedlaethol a lleihau anghydraddoldebau;
- Mae llwyddiant Ardal Arfordirol y Ddinas yn dibynnu ar Gaerdydd yn datblygu ei swyddogaethau cyfalaf, ynghyd â rolau cryf ac unigryw trefi a dinasoedd eraill;
- Y flaenoriaeth gyffredinol yw gwneud gwell defnydd o seilwaith trafnidiaeth bresennol yr ardal i ddarparu mynediad mwy cynaliadwy at swyddi a gwasanaethau;
- Dylid rheoli'r pwysau i ddarparu mwy o dai a chyflogaeth er mwyn ffitio i mewn yn gydnaws â chadwraeth y tirlun, yr amgylchedd a chryfder cymunedol yr ardal hon; a
- Dylai twf sylweddol o dai yn y parth arfordirol hefyd fod yn gydnaws ag iechyd y marchnadoedd tai ym Mlaenau'r Cymoedd a'r Coridor Cysylltiadau.

A2.8 Mae'r **Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)** yn amlinellu strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru, gan nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Diben y Strategaeth

yw darparu fframwaith ar gyfer sicrhau amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn fiolegol amrywiol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru. Dymuna Llywodraeth Cymru weld yr amgylchedd yn ffynnu ac yn cyfrannu at les economaidd a lles cymdeithasol ac iechyd holl bobl Cymru.

A2.9 Mae **Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned (2009)** yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy a'r flaenoriaeth mae'n ei roi i ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn yn adeiladu ar ddyletswydd gyfreithiol Llywodraeth Cymru i sicrhau datblygu cynaliadwy ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yng Nghymru ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy.

A2.10 **Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010)** yw Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd. Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer gwneud Cymru 'yn un o'r llefydd gorau yn y byd i fyw ac i weithio'. Mae'r strategaeth yn amlinellu blaenoriaethau canlynol Llywodraeth Cymru, sef; buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel; gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes; ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau; annog arloesedd a thargedu cymorth ar gyfer busnes.

A2.11 **Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008)** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth. Mae'n nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penodol. Nodir pum maes allweddol ar gyfer cynnydd:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill;
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus a gwell integreiddio rhwng moddau;
- Gwella cysylltiadau a mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol ledled Cymru a chysylltiadau sy’n strategol bwysig i Gymru gyfan;
- Gwella cysylltiadau rhyngwladol; ac
- Cynyddu diogelwch a diogeledd.

A2.12 Mae'r **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (2010)** yn nodi'n fanwl sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn adeiladu ar gynlluniau blaenorol, gan ychwanegu ac integreiddio cludiant cyhoeddus a chymunedol, cerdded a beicio fel bod buddsoddiadau yn helpu i gyflawni Cymru'n Un. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn gorwedd gyfochrog â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth gyflenwi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth gwasanaethau ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol yn ceisio cryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau lleol a gwella mynediad i wasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg.

Cyd-destun Polisi Rhanbarthol

A2.13 Paratowyd y **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) (2010)** gan y consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol, Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Sewta), sy'n cynnwys o 10 awdurdod lleol yn cynnwys Caerdydd a rhanddeiliaid trafnidiaeth eraill. Cymeradwywyd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Sewta gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2010. O dan ddarpariaethau Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn disodli'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a gynhyrchwyd yn flaenorol gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r CTRh gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol Cynllun Gofodol Cymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ystyriaeth berthnasol wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfyniadau ar ddefnydd tir lle ceir dimensiwn trafnidiaeth.

A2.14 Mae'r CTRh Sewta yn nodi gweledigaeth o, "system drafnidiaeth fodern, hygyrch, integredig a chynaliadwy ar gyfer de ddwyrain Cymru sy'n cynyddu cyfle, yn hyrwyddo ffyniant i bawb ac yn gwarchod yr amgylchedd; lle mae cerdded, beicio, cludiant cyhoeddus a nwyddau cynaliadwy yn rhoi dewisiadau teithio amgen go iawn". Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r CTRh yn nodi ystod o amcanion strategol, polisïau, a gweithredoedd, ynghyd â rhaglen dreigl bum mlynedd o gynlluniau i ddatblygu a gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth.

A2.15 Mae rheoli'r galw am deithio mewn car preifat, gan wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol ac annog defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a gweithgar yn themâu allweddol y CTRh a fydd yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer gwelliannau i drafnidiaeth ar lefel ranbarthol a lleol ar draws y rhanbarth.

A2.16 Mae'r CTRh yn cydnabod y berthynas hollbwysig rhwng defnydd tir a darpariaeth trafnidiaeth a sut mae'r naill yn effeithio ar y llall. Yn unol â chanllawiau CTRh Llywodraeth Cymru, mae'n hyrwyddo proses o rannu gwybodaeth, meddwl cydgysylltiedig ac integreiddio i sefydlu cysondeb rhwng y CTRh a'r CDLlau ar draws rhanbarth de ddwyrain Cymru. Mae angen i'r rhyngweithio gofleidio'r CDLl ac elfennau Rheoli Datblygu o gynllunio defnydd tir.

A2.17 Mae **Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, Adolygiad Cyntaf (RWP) (2008)** yn darparu fframwaith defnydd tir er mwyn hwyluso datblygiad rhwydwaith integredig o gyfleusterau i drin a gwaredu gwastraff yn ne ddwyrain Cymru mewn modd sy'n rhoi ystyriaeth i Strategaeth Wastraff Cymru, yn bodloni'r safonau amgylcheddol modern ac yn cwrdd â thargedau a bennir gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chenedlaethol. Roedd y ddogfen yn destun i'r Adolygiad 1af, a chymeradwywyd ei chynnwys gan awdurdodau cyfansoddol de ddwyrain Cymru yn cynnwys Caerdydd ym mis Gorffennaf 2008. Mae'r Adolygiad yn nodi Strategaeth Wastraff Ranbarthol yn dangos y cymysgedd dewisol o reoli

gwastraff/technolegau adfer adnoddau a chapasiti ar gyfer rheoli sgil-gynhyrchion yr holl ffrydiau gwastraff a reolir, ac elfen ofodol sy'n llywio lleoliad cyfleusterau newydd. Wrth nodi lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff newydd, bydd polisïau gwastraff y Cynllun Datblygu Lleol yn cynorthwyo i ddatblygu rhwydwaith integredig o gyfleusterau i drin a gwaredu gwastraff mewn ffyrdd a fydd yn bodloni safonau amgylcheddol modern. Ffurfiwyd grŵp o awdurdodau (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) drwy'r Prosiect Gwyrdd i fynd i'r afael â'r mater.

A2.18 Paratowyd y **Datganiad Technegol Rhanbarthol (Adolygiad 1af) (RTS) (2014)** mewn ymateb i Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN1), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth, 2004**.** Prif amcan hwn yw ceisio sicrhau cyflenwad a reolir yn gynaliadwy o agregau sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu, trwy daro'r cydbwysedd gorau rhwng costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw, paratowyd yr RTS gan ymgynghorwyr ar ran Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru a Gogledd Cymru (RAWP) i ddarparu sail strategol ar gyfer cyflenwi agregau i'r CDLlau yn rhanbarth de Cymru tan 2036. Fel y bo'n briodol, disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol wedyn gynnwys dyraniadau ar gyfer darpariaeth agregau yn eu hardal fel rhan o broses y CDLl. Cafodd yr RTS ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau cyfansoddol yn cynnwys Caerdydd ym mis Awst 2014.1.19 Y prif argymhellion sy'n deillio o'r RTS i Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd ymdrin â nhw'n effeithiol yw:

- Cadarnhad bod y cronfeydd agregau presennol sydd â chaniatâd cynllunio yn ddigonol i gwrdd â gofynion 10 mlynedd banc tir MTAN1;
- Yr angen i ddiogelu glanfeydd treillio morol o fewn Dociau Caerdydd; ac
- Yr angen i ddiogelu ar gyfer defnydd posibl gan genedlaethau'r dyfodol yr un bloc adnodd tywod a graean posibl o fewn Caerdydd.

Atodiad 3: Cyd-destun Caerdydd a’r Materion Allweddol

Atodiad 3: Cyd-destun Caerdydd a’r Materion Allweddol

Cyflwyniad

A3.1 Mae'n bwysig bod y Cynllun yn cael ei lywio gan wybodaeth berthnasol am Gaerdydd. Gwnaed gwaith helaeth ar ddatblygu sail dystiolaeth gynhwysfawr a chadarn. Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r materion allweddol a nodwyd yn dilyn dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd. Ceir rhagor o wybodaeth fanwl a data technegol yn y dogfennau ategol sy'n cyd-fynd â’r ddogfen hon.

Cyd-destun Caerdydd

A3.2 Mae'r sir oddeutu 143 o gilometrau sgwâr, a dyma'r ardal drefol fwyaf yng Nghymru. Mae tua 53% o'r sir yn drefol gyda'r 47% sy'n weddill yn gefn gwlad a dyffrynnoedd afonydd strategol sy'n cwmpasu patrwm amrywiol o dirweddau ac ystod eang o adnoddau.

A3.3 Caerdydd yw’r gyrrwr allweddol yn economi’r ddinas-ranbarth yn ne ddwyrain Cymru, sydd â phoblogaeth o 1.4 miliwn. Mae hefyd yn brifddinas Cymru a chartref i’r Llywodraeth Genedlaethol sy'n cryfhau ymhellach swyddogaeth bwysig Caerdydd yn genedlaethol. Atgyfnerthir y rôl hon drwy ei hystod ardderchog o gyfleusterau manwerthu, diwylliannol, addysg bellach a chwaraeon.

A3.4 Mae CDLlau awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) de-ddwyrain Cymru wedi symud ymlaen ar wahanol amserlenni, gyda phedwar o'r 10 ACLl wedi mabwysiadu CDLl, ond gyda'r mwyafrif yn dal wrthi’n ei baratoi. Crynhoir y sefyllfa bresennol yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Cynnydd CDLl awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru a lefelau cyffredinol o dwf (ar adeg Cynllun Adnau)

Awdurdod lleol	Cam paratoi	Cyfnod y Cynllun	Lefel gyffredinol y twf (anheddau a gynigir)
Blaenau Gwent	Mabwysiadwyd	2006-21	3,500
Pen-y-bont ar Ogwr	Adnau	2006-21	9,000
Caerffili	Mabwysiadwyd	2006-21	8,625
Merthyr Tudful	Mabwysiadwyd	2006-21	3,800
Mynwy	Adnau	2011-21	4,000
Casnewydd	Adnau	2011-26	8,750

Awdurdod lleol	Cam paratoi	Cyfnod y Cynllun	Lefel gyffredinol y twf (anheddau a gynigir)
Rhondda Cynon Taff	Mabwysiadwyd	2006-21	14,385
Torfaen	Adnau	2006-21	5,000
Vale of Glamorgan	Adnau	2011-26	9,950

A3.5 Er mwyn cynorthwyo'r CDLl, wrth gwrdd â'r profion cadernid mewn perthynas â materion traws-ffiniol a chydweddoldeb â CDLlau a baratowyd gan awdurdodau cyfagos, sefydlwyd Gweithgor ym mis Tachwedd 2011, a oedd yn cynnwys y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol yn ne ddwyrain Cymru a sefydliadau cyfranogol eraill yng Ngrŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG). Hefyd gwahoddwyd Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru (SEWEF) ac Awdurdod Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta) i gymryd rhan. Pwrpas y gweithgor oedd trafod goblygiadau trawsffiniol y materion a oedd yn dod i'r amlwg yn y broses o baratoi'r CDLl.

Tueddiadau a Materion Cymdeithasol Allweddol

A3.6 Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf poblog yng Nghymru, gyda 345,400 o bobl yn byw yn y sir yn 2011 (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2012) - dros 11% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae tua 1.4 miliwn o bobl yn byw o fewn taith 45 munud i'r ddinas. Cynyddodd **poblogaeth** Caerdydd yn gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf (o tua 2,400 o bobl y flwyddyn), ond yn llawer cyflymach ers 2001 (tua 3,500 y flwyddyn). Dengys amcanestyniadau Llywodraeth Cymru y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghaerdydd yn cynyddu'n sylweddol o 37% rhwng 2008 a 2026, o 136,741 i 187,302 o gartrefi. Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cael ei yrru yn rhannol gan fewnfudo (ymfudo net rhyngwladol yn arbennig), yn rhannol gan gynnydd naturiol yn y boblogaeth (genedigaethau llai marwolaethau), ac yn rhannol gan ostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd, gyda dros dri chwarter y twf yn aelwydydd un a dau berson.

A3.7 Dros y blynyddoedd diwethaf codwyd cyfran uchel o **dai** newydd ar dir llwyd. Mae hyn wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu llawer o fflatiau a than-ddarpariaeth gymharol o ran tai i deuluoedd. Ar gyfartaledd, cafodd tua 1,476 o anheddau newydd eu hadeiladu bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf. O'r rhain roedd 14% yn fforddiadwy (213 y flwyddyn). Roedd 68% (1,001) y flwyddyn yn fflatiau. Bu llawer o'r datblygiad hwn yng nghanol y ddinas ac ardal y bae, a bu'n gymorth i adfywio'r ardaloedd hyn a darparu cyfleoedd o

ansawdd uchel ar gyfer bywyd trefol. Dangosir hyn gan y ffaith bod 94% o'r tai a gwblhawyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf wedi bod ar dir llwyd, o’u cymharu â 6% ar safleoedd tir glas.

A3.8 Mae fforddiadwyedd tai - yn arbennig tai i deuluoedd - yn parhau i fod yn fater a fydd yn hawlio sylw. Ar hyn o bryd (Ebrill 2013) mae 9,710 ar y rhestr gyfunol aros tai; mae 545 o deuluoedd mewn llety dros dro. Dyma ffeithiau sy’n helpu i nodi maint yr angen am **dai fforddiadwy**. Mae diweddariad Asesiad Marchnad Dai Leol Caerdydd (LHMA Gorffennaf 2013) yn dangos, yn seiliedig ar fformiwla Llywodraeth Cymru, bod angen 3,989 o anheddau fforddiadwy yng Nghaerdydd ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd nesaf i ddelio ag angen. Cydnabyddir yn llawn bwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd darparu ystod a dewis o gartrefi, yn arbennig tai fforddiadwy, ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, "Papur Gwyn ar gyfer Bywyd a Chymunedau Gwell" (Mai 2012).

A3.9 Mae dau safle **Sipsiwn a Theithwyr** yng Nghaerdydd (Rover Way a Shirenewton) sy'n darparu cyfanswm o 80 o leiniau. Mae’r boblogaeth ar y safleoedd hyn yn tyfu ac mae galw am safleoedd newydd. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gwrdd â'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007). Canfu'r astudiaeth ddiweddaraf yn 2013 bod angen, hyd at 2026, am 108 o leiniau ychwanegol, ynghyd â 10 llain dros dro.

A3.10 O'i chymharu â Chymru a'r DU, mae gan Gaerdydd ganran uwch o boblogaeth yn y grwpiau oedran 15-39 oed ond mae canran is mewn grwpiau oedran o 40 i fyny. Mae effaith poblogaeth y **myfyrwyr** yn arbennig o arwyddocaol. Yn ôl y data diweddaraf ar gyfer 2010-11, roedd poblogaeth breswyl gynyddol y myfyrwyr yn 37,400, oddeutu 10.8% o gyfanswm poblogaeth y ddinas (Awdurdod Ystadegol Addysg Uwch 2012 ac Ystadegau Gwladol).

A3.11 Nid yw **iechyd** poblogaeth Caerdydd yn sylweddol wahanol i gyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae’r pennawd hwn yn cuddio amrywiadau mawr mewn statws iechyd rhwng ardaloedd cyfoethog a thlawd. Ceir rhaniad gogledd-de ar draws Caerdydd, gyda gwahaniaeth mewn disgwyliad oes o bron i 12 mlynedd rhwng y wardiau tlotaf a mwyaf cefnog (Beth sy'n Bwysig Caerdydd, Prif Asesiad Anghenion 2010 http://www.cardiffproudcapital.co.uk). Felly mae anghydraddoldeb iechyd – sef gwahaniaeth y gellir ei osgoi rhwng y poblogaethau lleiaf a mwyaf breintiedig - yn amlwg mewn rhannau o'r boblogaeth. Mae’r cyfleoedd ar gyfer iechyd yn llai yn yr ardaloedd difreintiedig a chanlyniadau iechyd fel marwoldeb cardiofasgwlaidd yn waeth.

A3.12 Yng Nghaerdydd, yr achosion pennaf o farwolaethau ymhlith pobl iau na 75 oed yw canser, clefyd cylchredol a chlefyd anadlol. Gellir atal llawer o gyflyrau cronig drwy sicrhau bod yr amgylchedd yn gwella iechyd, a drwy fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Fodd bynnag, mae dros hanner oedolion Caerdydd dros eu pwysau yn

glinigol neu'n ordew, dim ond chwarter (25%) o oedolion sy'n cwrdd a'r canllawiau gweithgarwch corfforol a argymhellir, sef yn gwneud o leiaf 30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol ar bum niwrnod neu fwy yr wythnos (yr isaf ar draws awdurdodau lleol Cymru) a 35% o oedolion sy'n bwyta'r 5 dogn o ffrwythau a llysiau a argymhellir bob dydd (Arolwg Iechyd Cymru 2011 - http://gov.wales/docs/statistics/2012/120919healthsurvey2011en.pdf).

A3.13 Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol, ynghyd â ffordd o fyw, yn cyfrannu at wella iechyd. Mae cerdded a beicio, mynediad i fannau agored wedi'u cynnal yn dda ar gyfer gweithgaredd corfforol a thyfu bwyd yn ogystal â mynediad hawdd at gyfleusterau gofal iechyd trwy deithio egnïol yn effeithio ar iechyd y boblogaeth. Y rhain yw'r camau i gyflawni a chynnal pwysau iach, diogelu iechyd meddwl a lleihau lefelau straen. Mae gan Gaerdydd gyfoeth o fannau agored ac mae cyfraddau cerdded a beicio i'r gwaith/ysgol ac ar gyfer hamdden yn cynyddu; mae cyfle i ddiogelu a gwella'r asedau hyn er mwyn gwella iechyd.

A3.14 Awgryma ystadegau cyfrifiad 2011 bod gan 16.2% o boblogaeth Caerdydd o leiaf un neu fwy o sgiliau yn yr iaith Gymraeg (gallu i ddarllen, ysgrifennu a/neu ddeall Cymraeg) a 11.1% o boblogaeth y Sir yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 19.0%. Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol rhwng cyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws y cymunedau yng Nghymru, yn amrywio o dan 8% i dros 65%.

A3.15 Cymeradwyodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Cyngor Caerdydd 2009-2012 ym mis Gorffennaf 2009. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghaerdydd.

A3.16 Mae **diogelwch cymunedol** yn un o'r prif faterion sy'n codi dro ar ôl tro yn Arolygon Holi Caerdydd. Rhwng 2010 a 2011, roedd gan Gaerdydd y gyfradd droseddu gofnodedig ail uchaf yng Nghymru, sef 50 y cant yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru. Mae'r troseddau hyn yn cynnwys trais yn erbyn y person, byrgleriaeth, cerbydau a lladrata o fathau eraill a difrod troseddol. Fodd bynnag, mae cyfanswm nifer y troseddau cofnodedig yng Nghaerdydd wedi gostwng dros yr wyth mlynedd diwethaf (gyda rhai amrywiadau) ac mae bellach yn llai na dwy ran o dair o'r ffigwr wyth mlynedd yn ôl. Cafwyd gostyngiad o 12% yng nghyfanswm y troseddau rhwng 2009/2010 a 2010/2011 (Ystadegau'r Swyddfa Gartref).

A3.17 Er bod Caerdydd yn gyffredinol yn ddinas ffyniannus sy'n cynnig bywyd o ansawdd uchel i breswylwyr, mae **amddifadedd** (yn nhermau tai, amgylchedd ffisegol, incwm o gyflogaeth, cyflawniadau addysgol, iechyd) yn dal i fod yn fater pwysig sy'n haeddu sylw. O'r 10% ACEI mwyaf difreintiedig (Ardal Gynnyrch Ehangach

Haen Is) yng Nghymru, mae 15.8% ohonynt yng Nghaerdydd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011). Rhannau o Drelái, Butetown a Sblot yw'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd.

A3.18 Mae 9.5% o boblogaeth Caerdydd yn byw yn y 10% ACEI mwyaf difreintiedig o ran iechyd (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yng Nghymru (h.y. y rhai â graddfa o 1-190). Ond mae'r gyfran hon yn amrywio'n fawr ar draws yr ardaloedd cymdogaeth. Yn Ne Orllewin Caerdydd (23.2%) y ceir y gyfran uchaf o drigolion sy’n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hyn, wedyn Dinas a De Caerdydd (19.0%) a De Ddwyrain Caerdydd (14.6%). Mewn cyferbyniad, nid oes yr un ardal o’r math hwn yng Ngorllewin Caerdydd (0.0%), a dim ond 1.5% o boblogaeth Gogledd Caerdydd sy’n byw o fewn yr ACEI hyn. I Ddwyrain Caerdydd, y ffigwr yw 8.0%.

A3.19 Wrth edrych ar y rheini sy'n byw yn y 20% ACEI mwyaf difreintiedig o ran iechyd yng Nghymru (h.y. y rhai â graddfa o 1-380), gellir gweld bod 21.7% o gyfanswm poblogaeth Caerdydd yn byw yn yr ardaloedd hyn. Hefyd daw’r gwahaniaethau ar draws ardaloedd cymdogaeth y ddinas yn fwy amlwg. Mae mwy na dwy ran o bump (43.9%) o boblogaeth De-orllewin Caerdydd yn byw yn yr ACEI hyn, tra bod gan Ddwyrain Caerdydd (38.2%), De Ddwyrain Caerdydd (29.9%) a Dinas & De Caerdydd (24.0%) hefyd â chyfrannau uwch na chyfartaledd Caerdydd. Mewn cyferbyniad, dim ond 5.5% o drigolion Gogledd Caerdydd a 7.3% o drigolion Gorllewin Caerdydd sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran iechyd.

A3.20 Mae 15.5% o boblogaeth Caerdydd yn perthyn i **leiafrifoedd ethnig** sy’n weddol debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (14.0%) ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (4.4%) gyda dwysedd uwch o grwpiau ethnig yn Grangetown, Butetown, Glan-yr-Afon Adamsdown a Phlasnewydd nag mewn mannau eraill (ONS 2011).

A3.21 O ran **addysg, hyfforddiant a'r sail sgiliau**, mae’r gyfran o boblogaeth oedran gweithio Caerdydd sydd heb unrhyw gymwysterau wedi aros o gwmpas 13% yn y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae Caerdydd yn perfformio'n arbennig o dda o ran sgiliau lefel-uchel gyda 39.8% o bobl 16 i 64 oed gydag NVQ lefel 4 neu gyfwerth, gan roi Caerdydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (29.3%) a chyfartaledd y DU (32.7%) (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2011). Yn ogystal, mae 39% o weithlu Caerdydd wedi’u haddysgu i NVQ lefel 4 neu uwch o'i gymharu â Chymru (29%) a'r DU (33%) (Arolwg Poblogaeth Blynyddol Ionawr 2011); yma ceir adlewyrchiad o'r pedair prifysgol yn y ddinas. Fodd bynnag, megis mewn ardaloedd eraill yn y DU, mae'n bwysig cydnabod y cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol isel ac amddifadedd.

Tueddiadau a Materion Economaidd Allweddol

A3.22 Mae economi Caerdydd yn gryf a chadarn yn gyffredinol, gan adlewyrchu ei statws fel Prifddinas Cymru, sedd Llywodraeth Cymru a hi yw canolfan ranbarthol a'r sbardun economaidd i economi ehangach de ddwyrain Cymru, gan gyfrif am 32% o gyfanswm y gyflogaeth yn ne ddwyrain Cymru. Mae'r patrymau cymudo i mewn i Gaerdydd yn dangos pwysigrwydd y ddinas i'r **economi ranbarthol** ac mae Cynllun Gofodol a Rhaglen Adnewyddu Economi Cymru yn cydnabod bod cynnal perfformiad Caerdydd yn hanfodol i les economaidd y rhanbarth a Chymru'n gyffredinol.

A3.23 Mae **gweithlu cyflogedig** Caerdydd yn 188,977 (Cofrestr Busnes Swyddi Gweithwyr ac Arolwg Cyflogaeth 2012, ONS) gyda 40% yn cymudo i'r ddinas yn ddyddiol – mae 88% yn cael eu cyflogi yn y sector gwasanaeth, 6% mewn adeiladu a 6% mewn gweithgynhyrchu. Mae Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn fesur economaidd o werth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal. Yn 2009 cynhyrchodd Caerdydd a Bro Morgannwg £9,615 miliwn - 22% o GYC Cymru. Roedd GYC y pen yng Nghaerdydd a'r Fro yn £20,864 yn 2009 - yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU (ONS 2011). Roedd diweithdra yng Nghaerdydd yn 4.5% ym mis Mawrth 2013 (10,617) (Cyfrif Hawlwyr, ONS). Rhwng 2001 a 2009, cynyddodd cyflogaeth yng Nghaerdydd o 16% o'i gymharu â thwf cyffredinol o 4% yn rhanbarth y de ddwyrain ehangach (Ffynhonnell: Dilysu Marchnad Lafur Caerdydd a Senarios Cyflogaeth DTZ, Mehefin 2011). Mae'r dirwasgiad economaidd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at golled net o tua 4,733 o swyddi yng Nghaerdydd rhwng 2008 a 2010 (Ffynhonnell: Cofrestr Busnesau ONS a'r Arolwg Cyflogaeth).

A3.24 Un her allweddol i'r CDLl yw cynllunio ar gyfer yr economi a diwallu'r angen am **swyddi yn y dyfodol** yn y ddinas ac yn rhanbarth ehangach de ddwyrain Cymru trwy sicrhau cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am dir cyflogaeth a pharhau i ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi. Mae'r sectorau twf tebygol yn y dyfodol yng Nghaerdydd dros gyfnod y cynllun yn cynnwys sectorau arbenigol yn ymwneud â TGCh, ynni a'r amgylchedd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, y diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Mae'n hanfodol bod lleoliad, maint a natur y tir cyflogaeth a ddyrannwyd ac a ddiogelir yn sicrhau bod Caerdydd yn cyflawni ei photensial economaidd a hefyd yn sicrhau llwyddiant rhanbarth de ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, dynodiad Ardal Fenter Canol Caerdydd yn 2012, a roddodd hwb yr oedd ei fawr angen i'r cyflenwad o stoc swyddfa Gradd A ar gyfer y ddinas.

A3.25 Gellir crynhoi'r defnydd o **dir cyflogaeth** am y cyfnod Gorffennaf 2001-Gorffennaf 2010 fel a ganlyn. Y defnydd cyfartalog ar gyfer swyddfeydd (B1a) oedd 28,200 metr sgwâr y flwyddyn. Y defnydd cyfartalog yn achos tir oedd 8.1 hectar y flwyddyn i ddiwydiannau a warysau (B1b/c, B2 a B8) (Asesiad Astudiaeth o'r

Galw am Dir Cyflogaeth Caerdydd, DTZ, Mehefin 2011). Ar hyn o bryd mae’r cyflenwad diwydiannol yn cynnwys 69.7 hectar tra bod y cyflenwad swyddfa yn cynnwys 426,971 metr sgwâr (Dadansoddiad Bwlch Astudiaeth Tir Cyflogaeth Caerdydd, Hardisty Jones Associates, Ebrill 2012.

A3.26 Mae cyfanswm stoc **diwydiannol** Caerdydd tua 19.2 miliwn troedfedd sgwâr gyda 43% yn stoc warysau, gyda'r gweddill yn darparu lle diwydiannol mwy traddodiadol. Fodd bynnag, mae ansawdd y stoc wedi datblygu’n broblem fawr - 6.1% yn unig ohoni’n llai na phum mlwydd oed. Mae llawer o'r adeiladau sydd yn y stoc bresennol yn cyrraedd diwedd eu hoes yn ymarferol, ac ychydig o arwynebedd llawr newydd sydd ar gael i fodloni'r gwasanaethau gwybodaeth a thechnoleg newydd sy'n dod i'r amlwg – y rhai sy'n gyrru’r galw am adeiladau diwydiannol o safon uchel, yn hytrach na'r eiddo hen, mwy o faint. Mae’r tir diwydiant a warysau cyffredinol, i raddau helaeth, i'r dwyrain o'r ddinas, naill ai’n agos neu yn yr arc ddeheuol o amddifadedd lle mae rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae’r lleoliadau strategol allweddol yn cynnwys Ocean Park, Sblot, Parc Busnes Capital a Pharc Corfforaethol Gwynllŵg. Mae ardal Heol Penarth/ Lecwydd hefyd yn parhau i gyflawni swyddogaeth gyflogaeth bwysig, gyda chysylltiadau da i dde a gorllewin y ddinas. Fel lleoliad dosbarthu, mae lleoliad Caerdydd ym mhen gorllewinol prif echel trafnidiaeth y DU yn golygu ei bod yn cael trafferth cystadlu yn erbyn lleoliadau i'r dwyrain ohoni (Casnewydd, Cas-gwent, Bryste) yng nghyswllt swyddogaethau trafnidiaeth a dosbarthu mawr.

A3.27 O ran y **cyflenwad swyddfeydd**, mae canol y ddinas ac Ardal Fusnes y Bae yn parhau i fod yn brif leoliadau. Y rhain hefyd yw'r rhai mwyaf hygyrch yn y ddinas, o ran cludiant cyhoeddus ac ar gyfer y rhai sy'n cymudo i mewn i'r ddinas. Mae twf y tu allan i’r canol wedi canolbwyntio yn Green Meadow Spring, Coryton, Porth Caerdydd, Pontprennau, a Pharc Busnes Llaneirwg. Ymdriniwyd â phrinder gofod swyddfa Gradd A i ryw raddau gyda datblygiad Callaghan Square, Fusion Point a Caspian Point. Fodd bynnag, o'r 1.5 miliwn troedfedd sgwâr o ofod swyddfa sydd ar gael yng Nghaerdydd dim ond 7% sydd yn radd A (Archwiliad Cyflenwad DTZ, 2011).

A3.28 Canol dinas Caerdydd yw prif ganolfan **siopa** de ddwyrain Cymru a dros y 3 blynedd diwethaf (2009 i 2011) cafodd ei rhestru fel y 6ed ganolfan fanwerthu uchaf yn y DU (rhestr Experian). Mae Canolfannau Rhanbarthol a Lleol yn darparu cyfleusterau lleol pwysig i'r gymuned leol. Yr un pryd maent yn arbennig o agored i gystadleuaeth o’r tu allan i’r canol ac i newid mewn arferion siopa. O ganlyniad, mae ystod ac ansawdd y ddarpariaeth manwerthu o dan bwysau mewn sawl canolfan. Bu gostyngiad o 4% yn nhermau arwynebedd llawr manwerthu net rhwng 2005 a 2008.

A3.29 Bu adfywio **Bae Caerdydd** yn llwyddiant mawr a chafwyd yno brosiectau ailddatblygu a seilwaith mawr dros y ddau ddegawd diwethaf. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol a welwyd, mae nifer o safleoedd yn dal i ddisgwyl am gamau

Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA/ARhAA)

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gorfodi awdurdodau lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn yr ardaloedd yn erbyn safonau ac amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Os nad yw amcanion ansawdd aer y DU yn cael eu bodloni ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu heffeithio mae'n ofynnol iddynt ddatgan ARhAA.

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

Safle a nodwyd dan Gyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd ar Adar Gwyllt i ddiogelu rhywogaethau adar o bwysigrwydd rhyngwladol.

Ardaloedd Menter

Ardal a ddynodwyd yn arbennig lle mae busnesau yn cael nifer o fanteision a chymhellion megis credydau treth incwm, ad-daliadau treth ar offer a chredydau treth eiddo. Yn ei hanfod, mae'r ardal fenter yn fodd o dargedu adfywio economaidd ar ardal ddaearyddol benodol. Mae creu ardal fenter yn annog buddsoddi ac yn hybu twf economaidd yn yr ardal honno.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)

Mae hwn yn ddull o sicrhau cyfraniadau cyffredinol gan ddatblygwyr. Deddfwyd ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol fel rhan o Ddeddf Cynllunio 2008. Dilynwyd hyn gan Reoliadau Gweithredu, a daeth yr Ardoll Seilwaith Cymunedol i rym yng Nghymru a Lloegr ar 6 Ebrill 2010.

Arfarniad Cynaliadwyedd Cwmpasu

Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), gan gynnwys effeithiau cynaliadwyedd ac opsiynau sydd angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad AC.

Arfarniad Cynaliadwyedd (SA/AC)

Offeryn i arfarnu polisïau a chynigion i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae Adran S62(6) y Ddeddf yn gorfodi pob Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnal Asesiad o Gynaliadwyedd y Cynllun. Mae’r math hwn o AC yn ymgorffori gofynion Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae’r defnydd o’r term hwn yn y Cynllun yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni nodir fel arall.

Datblygu cynaliadwy

Datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Arfarniad o Gymeriad Ardal Gadwraeth

Dogfen gyhoeddedig yn diffinio'r budd pensaernïol neu hanesyddol arbennig sy'n cyfiawnhau dynodi’r ardal.

Argaeledd Tir ar gyfer Tai (HLA)

Cyfanswm y tir sydd wedi ei neilltuo ar gyfer defnydd preswyl a heb ei ddatblygu.

Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA/AAS)

Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae Asesiad o’r fath yn un o ofynion Cyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC sy’n asesu effeithiau posibl Cynllun Datblygu Lleol ar un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd (safleoedd Natura 2000). Dylai’r asesiad ddod i gasgliad o ran p’un a fyddai cynnig neu bolisi yn y Cynllun Datblygu yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle dan sylw.

Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)

Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi'r CDLl.

Bioamrywiaeth

Term a ddefnyddir i ddisgrifio amrywiaeth bywyd ar y ddaear, yn cynnwys yr amrywiaeth eang o ecosystemau ac organebau byw, anifeiliaid, planhigion, eu cynefinoedd a’u genynnau.

Buddiannau cynllunio

Y manteision neu’r mesurau diogelu, yn aml er budd y gymuned, a ddaw yn sgil rhwymedigaeth gynllunio fel rhan o gymeradwyo cais cynllunio, a ddarperir ar draul y datblygwr fel arfer. Er enghraifft, tai fforddiadwy, cyfleusterau cymunedol neu fesurau lliniaru.

Cadernid

Er mwyn cael ei ystyried yn gadarn, rhaid i Gynllun Datblygu Lleol fod yn gyfiawn (yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy a’r strategaeth fwyaf effeithiol) ac yn effeithiol (cyfiawnadwy, hyblyg ac yn bosibl ei fonitro). Mae deg prawf cadernid a nodwyd mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a’r Arolygiaeth Gynllunio, a chaiff y Cynllun ei fonitro yn eu herbyn.

Cam cyfranogiad

Y cyfnod sy’n rhagflaenu’r Cynllun Datblygu Lleol cyn adnau, pryd y bydd rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cael cyfle i ddylanwadu ar gynnwys materion, opsiynau a pholisïau o ran twf a datblygiad yn y dyfodol.

Cam cyn-adnau

Y cyfnod o baratoi Opsiynau strategol a Strategaeth a Ffefrir y CDLl.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

Gall y Canllawiau Cynllunio Atodol ymdrin ag amrywiaeth o faterion, yn thematig a safle-benodol, a darparu rhagor o fanylion am bolisïau a chynigion mewn cynllun datblygu.

CDLl Adnau

Drafft llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n mynd drwy gyfnod ymgynghori ffurfiol.

Coridor trafnidiaeth

Ardal o dir lle'r adeiladwyd o leiaf un brif linell ar gyfer trafnidiaeth, (ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi ayb). Yn aml, adeiledir llinellau cludiant newydd ochr yn ochr â'r rhai presennol er mwyn lleihau'r ardal sy'n cael ei llygru.

Cyflwyno

Y cam ffurfiol pryd y cyflwynir y CDLl i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n annibynnol gan arolygydd cynllunio a benodwyd gan y llywodraeth.

Cymuned

Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu diddordebau cyffredin

Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs)

NVQs yw'r dyfarniadau sy'n seiliedig ar waith a gyflawnir trwy asesu a hyfforddiant.

Cynllun Gofodol Cymru (CGC)

Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru dan adran 60 y Ddeddf, sy'n nodi fframwaith strategol i lywio datblygiadau ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, p'un a ydynt yn ymwneud â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol neu beidio. Dan Adran 62 (5) (b) y Ddeddf mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi CDLl.

Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS/CCC)

Mae'r CCC yn nodi sut y mae'r ACLl yn bwriadu cynnwys cyrff ymgynghori a'r cyhoedd yn y gwaith o baratoi'r CDLl. Cyflwynir y CCC i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflenwi am gytundeb.

Atodiad 10: Crynodeb o’r broses CDLI

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Y cynllun datblygu statudol a gofynnol i ardal pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir ydyw sy’n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn gynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol. Dylai’r Cynllun gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau i’w defnyddio ar draws yr ardal ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a pholisïau a chynigion ar gyfer ardaloedd allweddol o newid a diogelu lle y bo’n ofynnol.

Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (CDLIC)

Dogfen canllawiau polisi cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar baratoi Cynlluniau Datblygu LleolCytundeb CyflenwiDogfen sy’n cynnwys amserlen yr awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer paratoi’r Cynllun ynghyd a’r Strategaeth Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i’w chymeradwyo.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (UKBAP)

Dyma ymateb y llywodraeth i’r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a lofnodwyd yn 1992. Ers 2009, mae 1,150 o rywogaethau a 65 o gynefinoedd wedi eu nodi fel rhai sydd angen cadwraeth a mwy o warchodaeth, ac mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn ymdrin â’r rhain.

Cynllun Datblygu Unedol (CDU)

Cynllun a baratowyd o dan y system ffurfio cynllun blaenorol a gyrhaeddodd y cyfnod Adnau yng Nghaerdydd.

Cytundeb Adran 106

Cytundeb cyfreithiol dan adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae cytundebau adran 106 yn gytundebau cyfreithiol rhwng awdurdod cynllunio a datblygwr, neu’n rwymedigaethau unochrog a gynigir gan ddatblygwr, sy’n sicrhau y cyflawnir gwaith ychwanegol penodol sy’n ymwneud â datblygiad.

Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta)

Consortiwm yw Sewta a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2003 gan ddeg awdurdod yn ne ddwyrain Cymru i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus a rhai materion trafnidiaeth eraill. Mae Sewta yn gweithio mewn cysylltiad agos â phartneriaid sy'n cynrychioli gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus a defnyddwyr. (http://sewta.net/).

Cynllun Mabwysiedig

Y fersiwn derfynol, gyfreithlon o’r Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd yn statudol.

Cynllun teithio

Mae cynllun teithio yn becyn o gamau gweithredu a gynlluniwyd gan weithle, ysgol neu sefydliad arall i annog opsiynau teithio diogel, iach a chynaliadwy. Drwy leihau teithio mewn ceir, gall Cynlluniau Teithio wella iechyd a lles, gallant ryddhau lle parcio ceir, a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned a'r amgylchedd.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a baratowyd gan Sewta.

Datblygiad

Datblygiad, yn ôl diffiniad cyfraith cynllunio, yw ‘carrying out of building, engineering, mining or other operations in, on, over or under land. (Adran 55 Deddf Cynllunio 1990 fel y’i diwygiwyd).

Datblygu Fesul Cam

Datblygu safle’n raddol dros gyfnod o amser yn hytrach na’r cyfan gyda’i gilydd.

Datganiad Technegol Rhanbarthol

(RTS) Cynhyrchir yr RTS gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru ac mae’n nodi’r cynllun rhanbarthol ar gyfer darpariaeth agregau yn ne Cymru ac mae’n un o ofynion y Nodyn Cyngor Technegol ar Agregau Mwynau (MTAN1).

Datganiadau o Ddiddordeb

Sylwadau ar y cynllun datblygu, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer newid, cynnwys neu gael gwared ar bolisïau neu safleoedd datblygu.**Defnydd cymysg**Datblygiadau neu gynigion sy’n cynnwys mwy nag un math o ddefnydd tir ar safle unigol.

Diagram allweddol

Dehongliad drwy ddiagram o strategaeth ofodol y CDLl.

Dogfennau cynigion Cyn Adnau

Mae'r rhain yn cynnwys gweledigaeth, opsiynau strategol, strategaeth a ffefrir, polisïau allweddol, ac adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru (SEWEF)

Mae'r Fforwm yn bartneriaeth ranbarthol sy’n dwyn ynghyd ddeg awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, y sector preifat, prifysgolion a'r trydydd sector i drafod ac ymdrin â materion economaidd rhanbarthol de ddwyrain Cymru (http://www.sewales-econforum.co.uk/home).

Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG)

Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys swyddogion a chynrychiolaeth wleidyddol o'r deg awdurdod lleol yn ardal De-ddwyrain Cymru. Prif nod y Grŵp yw cyfarfod i drafod materion rhanbarthol a darparu rhyngwyneb rhwng strategaeth Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau datblygu awdurdodau unigol.**Gwaelodlin**Disgrifiad o gyflwr presennol ardal ac y gelir mesur newid yn seiliedig arno.

Gwarchodfa Natur Leol (GNL)

Cynefinoedd anstatudol o arwyddocâd lleol a ddynodwyd gan awdurdodau lleol lle rhoddir anogaeth i ddiogelu a hybu dealltwriaeth y cyhoedd o gadwraeth natur.

Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP)

Mae SWRAWP yn weithgor technegol gydag aelodaeth o blith swyddogion yr 18 o Awdurdodau Cynllunio Mwynau yn Ne Cymru, cynrychiolwyr y Gymdeithas Cynnyrch Chwareli, Cymdeithas Agregau Prydain, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Cuddy Demolition, Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru ac Arolwg Daearegol Prydain (http://www.swrawpwales.org.uk/).

Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)

Mae hwn yn fesur, mewn economeg, o werth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu sector o’r economi.

Hap-Safle

Safle nad yw wedi ei ddyrannu'n benodol ar gyfer datblygu mewn cynllun datblygu, ond sydd yn annisgwyl yn dod ar gael ar gyfer datblygu yn ystod oes y cynllun. Cyfeirir at y rhan fwyaf o "safleoedd ar hap" yng nghyd-destun tai.

Heneb Gofrestredig

Henebion pwysig yn genedlaethol, fel arfer gweddillion archeolegol, sy'n mwynhau mwy o amddiffyniad yn erbyn datblygiad amhriodol trwy Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979.

Hwb trafnidiaeth

Man lle mae teithwyr a chargo'n cael eu cyfnewid rhwng cerbydau neu rhwng dulliau trafnidiaeth. Mae Hybiau Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cynnwys gorsafoedd trên, gorsafoedd cludo cyflym, arosfannau bysiau, arhosfan tram, meysydd awyr a slipffyrdd fferi.

LANDMAP

LANDMAP yw'r system wybodaeth genedlaethol, a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt, ar gyfer ystyried y dirwedd wrth wneud penderfyniadau. (http://landmap.ccw.gov.uk/).

Lliniaru

Mesurau i osgoi, i leihau, neu i'w gosod yn erbyn effeithiau andwyol sylweddol.

Mabwysiadu

Cadarnhad terfynol o statws cynllun datblygu gan awdurdod cynllunio lleol.

Mannau agored

Mae pob lle o werth cyhoeddus, gan gynnwys ardaloedd cyhoeddus wedi'u tirlunio, caeau chwarae, parciau a mannau chwarae, a hefyd ardaloedd dyfrog megis afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr, yn gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, neu gallant hefyd weithredu fel amwynder gweledol a hafan i fywyd gwyllt

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mesur swyddogol o amddifadedd mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'n fesur cymharol o grynodiadau o amddifadedd ar lefel ardal fach. Edrychir ar faterion megis incwm, tai, cyflogaeth, mynediad i wasanaethau, iechyd, yr amgylchedd, addysg a diogelwch cymunedol.

Newid yn yr hinsawdd

Newidiadau tymor hir mewn tymheredd, dyddodiad, gwynt a phob agwedd arall ar hinsawdd y Ddaear. Yn cael ei ystyried yn aml fel canlyniad i weithgaredd dynol a defnydd o danwydd ffosil.

Nodyn Cyngor Technegol Agregau Mwynau (MTAN1)

Cyhoeddwyd hwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2004. Mae MTAN1 yn gosod amcan cyffredinol sy'n ceisio sicrhau cyflenwad agregau a reolir yn gynaliadwy (sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu), gan sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol

Nodiadau Cyngor Technegol (TANS/NCTau)

Dogfennau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ychwanegu at Bolisi Cynllunio Cymru; ynddynt ceir canllawiau technegol manwl i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar faterion cynllunio penodol. Dylid eu cymryd i ystyriaeth gan ACLlau yn y broses o baratoi’r cynllun datblygu.

Panel dinasyddion

Mae'r Panel Dinasyddion yn cynnwys sampl cynrychioliadol o dros 1,000 o drigolion lleol o bob rhan o Gaerdydd sydd wedi cytuno i roi eu barn ar nifer o bynciau ymgynghori drwy gydol y flwyddyn. Mae aelodau'r panel yn rhannu eu safbwyntiau drwy gwblhau arolygon ac yn achlysurol cymerant ran mewn gweithgareddau eraill fel grwpiau ffocws, gweithdai neu fforymau.

Rhestru lleol (neu Adeilad o Bwysigrwydd Lleol)

Adeilad pwysig yn lleol a werthfawrogir am ei gyfraniad at olygfa leol, neu oherwydd sefyllfaoedd hanesyddol lleol ond ddim yn teilyngu statws adeilad rhestredig.

Sail dystiolaeth

Y wybodaeth a’r data a gesglir gan yr ACLl i gyfiawnhau ‘cadernid’ y dull polisi a amlinellir yn y CDLl, gan gynnwys nodweddion ffisegol, economaidd a chymdeithasol ardal.

Safleoedd Ymgeisiol

Mae'r Llawlyfr CDLl (Llywodraeth Cymru 2006) yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu â datblygwyr a pherchnogion tir ar gam casglu tystiolaeth y broses CDLl i gael gwybodaeth am safleoedd datblygu posibl a allai gael eu cynnwys yn y cynllun. Yn unol â hynny, ym mis Tachwedd 2010, rhoddodd y Cyngor wahoddiad ffurfiol i ddatblygwyr, tirfeddianwyr, asiantau, adrannau'r Cyngor ac eraill oedd a diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y dymunent iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu datblygu neu eu hailddefnyddio trwy'r CDLl, ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, gwastraff, trafnidiaeth (e.e. safleoedd parcio a theithio), mannau agored a defnydd cymunedol arall.

Seilwaith

Mae seilwaith yn cynnwys gwasanaethau megis ffyrdd, cyfleusterau trafnidiaeth, cyflenwadau dŵr, carthffosiaeth a chyfleusterau trin dŵr gwastraff cysylltiedig, cyfleusterau rheoli gwastraff, cyflenwadau ynni (trydan a nwy), rhwydweithiau dosbarthu a seilwaith telathrebu. Mae seilwaith meddal yn cynnwys TGCh a thelathrebu.

Strategaeth Gymunedol

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi'r rhain, gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw swyddfa weithredol Awdurdod Ystadegau'r DU, adran anweinidogol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Tai fforddiadwy

Tai, p'un ai ar rent, perchenogaeth a rennir neu brynu'n gyfan gwbl, a ddarperir am gost yr ystyrir ei bod yn fforddiadwy mewn perthynas ag incwm cyfartalog neu incwm llai na chyfartalog, neu mewn perthynas â phrisiau tai ar y farchnad gyffredinol.

Tir/safle cyflogaeth

Tir a ddefnyddir i ddibenion cyflogaeth gan un neu fwy o'r canlynol: swyddfeydd, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu.

Tir/safle tir glas

Tir nad yw wedi ei ddatblygu'n flaenorol, fel arfer tir amaethyddol, glaswelltir neu rostir.

Tir/Safle Tir Llwyd

Tir sydd, neu oedd yn arfer bod, â strwythur parhaol arno (ac eithrio adeiladau amaeth neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cwrtil datblygiadau, adeiladau amddiffyn a thir a ddefnyddir i gloddio mwynau a gwaredu gwastraff lle nad oes darpariaeth ar gyfer adfer wedi ei wneud.

Trafnidiaeth gynaliadwy

Yn aml yn golygu cerdded, beicio a defnydd y cyhoedd o drafnidiaeth (a 'rhannu ceir' mewn rhai amgylchiadau), sy'n cael ei ystyried yn llai niweidiol i'r amgylchedd ac yn cyfrannu llai at dagfeydd traffig na theithiau car un-person.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi ei pholisïau defnydd tir cenedlaethol mewn gwahanol feysydd cynllunio.

Map cynigion

Un elfen o'r Cynllun Datblygu Lleol, yn dangos y lleoliad cynigion ar fap sylfaen yr Arolwg Ordnans.

Atodiad 10: Crynodeb o'r broses CDLI

Prosiect Gwyrdd

Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg. Mae gwastraff dinesig cyfunol y pum awdurdod yn cyfrif am 40% o gyfanswm gwastraff trefol Cymru. Mae'r Prosiect Gwyrdd wedi ymrwymo i edrych am yr ateb amgylcheddol, cost effeithiol ac ymarferol gorau ar gyfer gwastraff ar ôl macsimeiddio ailgylchu a chompostio ym mhob ardal (http://www.caerphilly.gov.uk/prosiectgwyrdd/cymraeg/croeso.html).

Rhanddeiliaid

Buddiannau y mae'r CDLI (a/neu yr AAS) yn cael effaith uniongyrchol arnynt – y cysylltiad yn bennaf drwy gyrff cynrychioliadol.

Rhywogaethau a Warchodir

Rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddfau a Rheoliadau penodol.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Safle a nodwyd dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) fel ardal o ddiddordeb arbennig oherwydd ei fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu nodweddion ffisiograffigol.

Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC/SoBCN)

Safleoedd lleol pwysig o ran cadwraeth natur a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio. (Gweler hefyd Gwarchodfa Natur Leol).

Safleoedd Ramsar

Safleoedd a ddynodwyd dan Gonfensiwn Ramsar i ddiogelu gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol, yn enwedig fel cynefinoedd adar dŵr.

Sylwadau

Sylwadau yn cefnogi, neu'n gwrthwynebu, y Cynllun Datblygu Lleol Adnau.

Uwch Gynllunio

Wrth gynllunio defnydd tir, cynllun gan endid llywodraethol ar gyfer y defnydd cyffredinol o ardal benodol, gan gynnwys ei dyraniad ar gyfer defnydd preswyl neu weithgynhyrchu ac effeithiau amgylcheddol cyfatebol.

Ymgynghoriad

Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol, ar gyfres o bynciau penodol neu ar ddogfen ddrafft.

Ymrwymiadau (neu ddatblygiad yr ymrwymwyd iddo)

Yr holl dir sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol neu sydd wedi ei ddyrannu mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd ar gyfer datblygiad (yn enwedig datblygiad preswyl).

Ymrwymiadau a Chytundebau Cynllunio

Cytundebau cyfreithiol rhwng awdurdod cynllunio a datblygwr, neu ymrwymiadau a gynigir yn unochrog gan ddatblygwr, sy'n sicrhau y gwneir gwaith ychwanegol penodol sy'n gysylltiedig â datblygiad. Er enghraifft, darparu priffyrdd. Gelwir y rhain weithiau'n gytundebau "Adran 106".

Atodiad 10: Crynodeb o’r broses CDLI

Atodiad 11: Profion Hunanasesu Cadernid

Atodiad 11: Profion Hunanasesu Cadernid

A11.1 Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei CDLl, rhaid iddo gael ei osod ar adnau i'r cyhoedd ei archwilio a chyflwyno sylwadau, ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio gan arolygydd annibynnol. Mae'n rhaid i'r arolygydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) benderfynu a yw'r cynllun yn sylfaenol gadarn, o ystyried y deg prawf cadernid a nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio Canllaw i Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol, Arolygiaeth Gynllunio Cymru, 2007.

A11.2 Noda'r tabl canlynol y deg prawf cadernid, ac asesiad y Cyngor o'i gynnydd hyd yma o ran bodloni pob un ohonynt.

Profion Gweithdrefnol		

P1	**Mae wedi ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi gan gynnwys y Strategaeth Cynnwys Cymunedau**	Mae'r Cytundeb Cyflenwi (CC) yn cynnwys amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLl a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS) sy'n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu at baratoi'r CDLl a'i Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Cymeradwywyd CC Caerdydd yn wreiddiol gan y Cyngor ar 23ain Medi 2010 a'i gytuno gyda LIC ar 15fed Hydref 2010. Cedwir y CC dan adolygiad parhaus. Ar 5ed Rhagfyr 2011, cytunodd LIC ar ddiwygiadau i'r amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r cynllun. Roedd yr ymgynghori ar y Cynllun Adnau ym mis Hydref 2013 yn cyd-fynd yn llwyr â'r amserlen a fabwysiadwyd. Yn ogystal, dylid nodi y cydymffurfiwyd â gofynion gweithdrefnol Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) wrth baratoi'r cynllun.Yn unol â'r CC, ymgysylltodd y Cyngor ag ystod eang o grwpiau, sefydliadau a'r cyhoedd i gynorthwyo i ddatblygu consensws ar gynhyrchu strategaethau ac opsiynau eraill, ynghyd â nodi materion allweddol. Roedd mesurau penodol a gynhaliwyd yn cynnwys:
		
		• Gwahoddiad i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol - Rhagfyr 2010: Anfonwyd gwahoddiadau i ddatblygwyr, tirfeddianwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y dymunent iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu datblygu neu eu hailddefnyddio drwy'r CDLl. Yn ogystal, rhoddwyd hysbysiad yn y South Wales Echo ac fe'i rhoddwyd ar wefan y Cyngor;
		• Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu'r AC/AAS - Tachwedd/Rhagfyr 2011;
		• Ymgynghoriad ar y weledigaeth ac amcanion - Tachwedd/Rhagfyr 2010: Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi gweledigaeth ac amcanion y CDLl, cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori ac ymgysylltu helaeth. Roedd hwn yn cynnwys:
		
		  ○ Cynhadledd Ymgynghorai Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 25ain Tachwedd 2010:
		  ○ 4 Cynhadledd Ymgynghorai Cyhoeddus a gynhaliwyd mewn lleoliadau o amgylch y ddinas;
		  ○ Rhoi holiadur yn Llais y Ddinas ym mis Tachwedd;
		  ○ Holiadur ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor;
		  ○ Holiadur post 'Holi Caerdydd' ar hap i 5,000 o gartrefi;

Profion Gweithdrefnol		
		○ Holiadur Panel Dinasyddion i 1,000 o gartrefi; ac ○ Ymatebion e-bost i'r wefan a chyhoeddusrwydd arall. • Ymgynghoriad ar opsiynau strategol a safleoedd - Mai/Mehefin 2011: Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar opsiynau a safleoedd strategol rhwng 9fed Mai a 10fed Mehefin 2011. Yn ystod y cyfnod hwn, gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid roi eu barn ar gyfres o opsiynau twf strategol ar gyfer tai a chyflogaeth ac ar safleoedd ymgeisiol a roddwyd gerbron gan ddatblygwyr a thirfeddianwyr i sicrhau'r twf hwn. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys: ○ Cynhadledd Ymgynghorai Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2011: ○ 13 Cynhadledd Ymgynghorai Cyhoeddus a gynhaliwyd mewn lleoliadau o amgylch y ddinas; ○ Cyhoeddusrwydd yn Llais y Ddinas ○ Ffurflen sylwadau ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor; ○ Holiadur Panel Dinasyddion i 1,000 o gartrefi; ac ○ Ymatebion e-bost i'r wefan a chyhoeddusrwydd arall. Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir - Tachwedd/Rhagfyr 2012. Yn unol â Rheoliad 15 y Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad 6 wythnos ar y Strategaeth a Ffefrir a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol rhwng 1af Tachwedd a 14eg Rhagfyr 2012. Yn ystod y cyfnod hwn, gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid roi eu barn ar sut y bwriada'r Strategaeth a Ffefrir ymdrin â'r materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar y ddinas, a sut y bodlonir anghenion datblygu, gan gynnwys y lleoliadau bras arfaethedig ar gyfer tai newydd, cyflogaeth a gofynion strategol eraill. • Cynhadledd Ymgynghorai Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2012; • 4 Cynhadledd Ymgynghorai Cyhoeddus a gynhaliwyd mewn lleoliadau o amgylch y ddinas; • 14 arddangosfa 'galw heibio' ledled y ddinas; • Cyhoeddusrwydd yn Llais y Ddinas; • Ffurflen sylwadau ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor; • Holiadur Panel Dinasyddion i 1,000 o gartrefi; ac • Ymatebion e-bost i'r wefan a chyhoeddusrwydd arall.. • Ymgynghoriad ar egwyddorion Uwchgynllunio - Mawrth 2013. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn ystod mis Mawrth 2013 er mwyn ceisio adborth gan randdeiliaid, datblygwyr ac aelodau'r cyhoedd ar Ddull Uwchgynllunio'r CDLl. • Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy baratoi gwahanol strategaethau lleol a rhanbarthol - parhaus; • Trefniadau ymgynghori ar y Cynllun Adnau: Pan gyhoeddir y Cynllun Adnau, bydd trefniadau ymgynghori helaeth wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys

Profion Gweithdrefnol		
		y cyfleuster ar gyfer sylwadau ar-lein gan ddefnyddio system 'Objective Publishing', arddangosfeydd cyhoeddus, tudalen ganol wedi'i mewnosod yn Llais y Ddinas a gaiff ei ddosbarthu i bob tŷ yng Nghaerdydd, cynhyrchu taflen hawdd ei defnyddio sy'n rhoi crynodeb annhechnegol o'r CDLl a sut i wneud sylwadau, a bydd dogfennau perthnasol ar gael ar y wefan.
P2	**Mae'r cynllun a'i bolisïau wedi bod yn destun Arfarniad O Gynaliadwyedd gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol**	Yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori, mabwysiadwyd yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) CDLl Caerdydd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2011. Paratowyd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ym mis Hydref 2012 i gyd-fynd â'r Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir ac aseswyd y Strategaeth a Ffefrir yn erbyn Amcanion Cynaliadwyedd a nodwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu'r AC/AAS. Paratowyd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Llawn a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori fel rhan o gynigion Adnau y Cyngor. Mae'n nodi asesiad o'r Cynllun Adnau yn erbyn Amcanion Cynaliadwyedd a nodwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r AC/AAS. Cynhaliwyd gwaith yr AoG/AAS yn fewnol gan ddefnyddio ei Uned Datblygu Cynaliadwy, a defnyddiwyd Ymgynghorwyr Cynaliadwyedd Levett-Therivel i sicrhau ansawdd y gwaith a wnaed (proses a chynnwys), ac i roi cyngor ar gamau allweddol gan gynnwys sut i gydymffurfio â Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Profion Cysondeb		
C1	**Mae'n gynllun defnydd tir sydd wedi ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ag ardaloedd cyfagos**	Mae'r Cynllun Adnau yn ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill. Mae Adran 2 y Cynllun yn nodi'n benodol y fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y paratowyd y cynllun oddi mewn iddo. Mae'r Cynllun Adnau hefyd yn ystyried cynlluniau awdurdodau cyfagos, sef Cynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Casnewydd a Bro Morgannwg a Chynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Mae Atodiad Technegol 1 yr Adroddiad Cwmpasu AoG/ AAS yn cynnwys adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni ar bob lefel o lywodraeth (Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) a ystyriwyd wrth gynnal AoG/ AAS y Strategaeth a Ffefrir. Mae Strategaeth y Cynllun Adnau yn nodi ac yn ystyried yr agweddau hynny sydd o bwys. Mae'r Cynllun Adnau yn ystyried polisi cenedlaethol a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n rhoi Caerdydd yng nghanol ardal De-ddwyrain Cymru – 'Rhwydwaith y Brifddinas'. Yn hyn o beth mae'r cynllun yn cydnabod ei bod yn bwysig i Gymru yn ei chyfanrwydd fod Caerdydd yn dod yn arwyddocaol yn rhyngwladol ac er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r Ddinas fod yn ffocws rhwydwaith trefol cydlynol

Profion Cysondeb		
		a llwyddiannus yn Ne-Ddwyrain Cymru. Er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn gweithredu yn y modd hwn, mae'r Cynllun yn cydnabod ei bod yn bwysig darparu ateb trafnidiaeth integredig ar gyfer y rhanbarth sy'n gysylltiedig â chydbwysedd priodol o ddatblygiad ledled y rhanbarth.
C2	**Mae'n ystyried polisi cenedlaethol**	Mae'r Cynllun Adnau yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae Adran 2 y Strategaeth a Ffefrir yn nodi prif elfennau'r polisi cenedlaethol y mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth iddynt wrth ei baratoi. Mae Atodiad Technegol 1 yr Adroddiad Cwmpasu AoG/AAS yn cynnwys adolygiad o'r holl gynlluniau, polisïau a rhaglenni cenedlaethol a ystyriwyd wrth gynnal AoG/AAS o'r Cynllun. Mae'r Cynllun Adnau yn ystyried yr agweddau hynny o bolisi cenedlaethol sydd o bwys.
C3	**Mae'n ystyried Cynllun Gofodol Cymru**	Ystyrir bod y Cynllun Adnau yn gyson â Chynllun Gofodol Cymru. Mae Adran 2 y CDLl yn cyfeirio'n benodol at Bobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru. Mae'r Cynllun Adnau yn adlewyrchu gweledigaeth, strategaeth, cynigion a chamau gweithredu'r Cynllun Gofodol ar gyfer Caerdydd ac Ardal De-Ddwyrain Cymru (Rhwydwaith y Brifddinas). Bydd lefel y twf mewn swyddi a thai a gynigir yn y cynllun, ynghyd â gwelliannau trafnidiaeth, yn helpu i wireddu gweledigaeth y Cynllun Gofodol o osod Caerdydd yng nghanol ardal De-ddwyrain Cymru – 'Rhwydwaith y Brifddinas', gan helpu i ledaenu ffyniant yn yr ardal a rhoi budd i rannau eraill o Gymru.
C4	**Mae'n ystyried y Strategaeth Gymunedol**	Mae'r Cynllun Adnau yn rhoi ystyriaeth lawn i Strategaeth Gymunedol y Cyngor. Mae adran 3 (Gweledigaeth ac Amcanion) y Cynllun yn cyfeirio'n uniongyrchol at Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig' 2010-2020, ac mae Adran 3 a'r Cynllun yn adeiladu arno. Yn benodol, mae gweledigaeth y Strategaeth a Ffefrir yn seiliedig ar y weledigaeth economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer Caerdydd fel y nodir yn y Strategaeth. Mae'r gweledigaethau lefel uchel hyn wedi eu trosi i flaenoriaethau gofodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth a darparu'r cyd-destun ar gyfer yr amcanion ac is-amcanion strategol sydd wrth wraidd y cynllun. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi ffyrdd o gyflawni'r amcanion hyn.

Profion Cydlyniad ac Effeithiolrwydd		
CE1	**Mae'r cynllun yn nodi strategaeth gydlynol y mae ei bolisïau a'i ddyraniadau yn**	Mae Adran 4 y Cynllun Adnau yn amlinellu Strategaeth gydlynol sy'n llifo o'r materion allweddol a nodwyd drwy adolygiad o'r fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys Cynllun Gofodol Cymru a'r Strategaeth Gymunedol, a'r sail dystiolaeth.

Profion Cydlyniad ac Effeithiolrwydd		
	deillio'n rhesymol ohoni a lle bo materion trawsffiniol yn berthnasol, mae'n gydnaws â'r cynlluniau datblygu a baratowyd gan awdurdodau cyfagos	Mae'r strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y gwaith a wnaed ar y lefel ranbarthol gydag awdurdodau lleol cyfagos ar grwpiau ac astudiaethau ardal y cynllun gofodol. Cynhwysa hyn argymhellion y Gweithgor Cydweithio, y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r broses hon yn sicrhau bod materion traws-ffiniol ar gyfer y Strategaeth Cynllun Adnau yn gyson â'r cynlluniau datblygu a baratowyd gan awdurdodau cyfagos. Yn benodol, ystyrir bod y Strategaeth gyffredinol a lefel y twf a gynigir â'r cydbwysedd iawn o ran y sail dystiolaeth a hefyd o ran ystyriaeth o gyfrifoldebau rhanbarthol ehangach Caerdydd i fabwysiadu dull sy'n parhau i ganiatáu i awdurdodau eraill gyflawni eu hamcanion, a'r rhai a amlinellwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru.
CE2	**Mae'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau yn realistig ac yn briodol ac maent wedi ystyried y dewisiadau amgen perthnasol ac yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn**	Ystyrir bod y Cynllun Adnau yn realistig ac yn briodol ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau amgen rhesymol (yn unol â Rheoliadau AAS). Ystyriwyd llu o opsiynau a dewisiadau eraill fel rhan o'r broses AoG/ AAS. Mae'r Cynllun Adnau yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn a chredadwy ac mae'n tynnu ar y sail dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys y cyd-destun polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae adran Materion allweddol y Cynllun Adnau yn nodi'r rhagdybiaethau a chefndir y seiliwyd polisïau a chynigion y Cynllun arnynt. Cefnogir y Cynllun Adnau gan dystiolaeth o'r sail dystiolaeth a phapurau technegol cefndirol. Hefyd mae Atodiad Technegol 2 Adroddiad Cwmpasu AoG/AAS yn cynnwys adolygiad o'r sail dystiolaeth a ystyriwyd wrth ymgymryd ag AoG/ AAS y Cynllun Adnau. Mae'r broses o baratoi hefyd wedi bod yn un gyfranogol, gyda safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol yn cael eu profi drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a Phanel Dinasyddion y Cyngor. Mae'r broses helaeth o gasglu tystiolaeth berthnasol wedi dangos nad yw bob amser yn bosibl cyrraedd consensws llwyr ar yr holl faterion, ac mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gall gwahanol ffynonellau tystiolaeth bwyntio tuag at gasgliadau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Adnau wedi cymryd ystyriaeth lawn o'r holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael a ble y gwnaed dyfarniadau, nodwyd y rhesymu llawn yn y ddogfen ynghyd a gwybodaeth gefnogol i ddangos sut mae'r casgliadau yn realistig ac yn briodol ar ôl ystyried y sail dystiolaeth.
CE3	**Mae mecanweithiau clir ar gyfer gweithredu a monitro**	Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r prif fecanwaith ar gyfer mesur gweithrediad polisïau y CDLl. Nodir y dull cyffredinol yn Atodiad 8 y Cynllun Adnau.

Profion Cydlyniad ac Effeithiolrwydd		
CE4	**Mae'n rhesymol hyblyg i'w alluogi i ddelio ag amgylchiadau sy'n newid**	Dyluniwyd y Cynllun Adnau yn benodol i ddarparu fframwaith polisi hyblyg. Ystyrir ei fod yn ddigon hyblyg i ddelio â newidiadau annisgwyl mewn amgylchiadau ac mae wedi cael ei baratoi yn ystod cyfnod sydd wedi gweld newidiadau economaidd, a thrwy hynny sydd wedi caniatáu ystyriaeth o hyblygrwydd yr ymateb polisi. Yn olaf, mae'r AMB yn darparu mecanwaith allweddol i fonitro cyflenwi'r CDLl. Defnyddir hyn i asesu a yw adolygiad yn angenrheidiol pan fo newid mewn amgylchiadau.

Atodiad 11: Profion Hunanasesu Cadernid

Atodiad 12: Rhestr o Ddogfennau Cefnogol

Atodiad 12: Rhestr o Ddogfennau Cefnogol

Papurau ac Asesiadau Technegol Cefndirol

1. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 1 Poblogaeth a Thai – Medi 2013
2. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 2 Astudiaeth Capasiti Trefol – Medi 2013
3. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 3 Llain Las – Medi 2013
4. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 4 Economaidd – Medi 2013
5. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 5 Trafnidiaeth – Medi 2013
6. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 6 Cynllun Seilwaith – Medi 2013
7. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 7 Canolfannau Ardal a Lleol
8. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 8 City Centre Asesiad Ffryntiadau Siopau a Warchodir – Medi 2013
9. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 9 Mwynau – Medi 2013
10. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Papur Technegol Cefndirol Rhif 10 Gwastraff – Medi 2013
11. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Adroddiad Cynaliadwyedd Terfynol - Medi 2013
12. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Medi 2013
13. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Adroddiad Asesu Effaith ar Iechyd – Medi 2013
14. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Adroddiad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb – Medi 2013
15. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol – Medi 2013
16. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Fframwaith Uwchgynllunio – Egwyddorion Cyffredinol, Fframwaith Strategol a Safleoedd Fframweithiau penodol ar gyfer safleoedd mwy – Medi 2013
17. Cynllun Datblygu Lleol Adnau Caerdydd 2006-2026 Crynodeb o weithio traws ffiniol – Medi 2013

Astudiaethau Sail Dystiolaeth

18. Adroddiad Edge Analytics ar Ragolygon Poblogaeth ac Aelwydydd
19. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

20. Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy
21. Asesiad o Anghenion Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr
22. Asesiad Astudiaeth o Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
23. Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
24. Dogfennau Ategol Astudiaeth Tirwedd: Adolygiad o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (Chwefror 2008), Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Awst 2008)
25. Asesiad o Ynni Adnewyddadwy

Atodiad 12: Rhestr o Ddogfennau Cefnogol

Atodiad 13: Rhestr o’r Sail Dystiolaeth

Atodiad 13: Rhestr o'r Sail Dystiolaeth

Testun	Teitl	Awdur	Dyddiad
Tai a Phoblogaeth	• Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd	ORS	Ebr-13
	• Astudiaeth Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr neu Bobl Sioeau Teithio	Peter Brett Associates	Gorff-13
	• Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy	Peter Brett Associates	Awst-13
	• Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd Amcanestyniadau Poblogaeth a Thai Adroddiad Cam 1	Edge Analytics	Maw-11
	• Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd Amcanestyniadau Poblogaeth a Thai Adroddiad Cam 2	Edge Analytics	Meh-11
	• Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Caerdydd – Diweddaru'r Dystiolaeth	Edge Analytics	Meh-13
	• Amserlen Monitro Tai Caerdydd	CSC	Maw-13
	• Diweddariad ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	HDH Planning and Development	Gorff -13
Yr Economi a Chyflogaeth	• Astudiaeth Tir Cyflogaeth Caerdydd Cam 1: Archwiliad o Gyflenwad	DTZ	Ebr-11
	• Diweddariad ar Astudiaeth Tir Cyflogaeth Caerdydd Cam 2: Asesu Gofynion y Dyfodol	DTZ	Meh-11
	• Gwerthusiadau Ardal Strategol	Savills	Meh-11
	• Tir Cyflogaeth Caerdydd a'r Strategaeth Eiddo Masnachol	GVA Grimley	Maw-09
	• Monitro banc tiroedd Tir Busnes a Diwydiannol	CSC	Gorff-11
	• Monitro Datblygu Swyddfeydd Dosbarth Busnes	CSC	Gorff-11
	• Astudiaeth Tir Cyflogaeth ac Eiddo Caerdydd Cam 3: Dadansoddiad Bwlch	Hardisty Jones Associates	Ebr-12
	• Bwletin Economaidd Rhifyn 18 Hydref 2010	CSC	Hydref 2010
	• Ystadegau Diweithdra Misol	Canolfan Ymchwil Caerdydd	Yn mynd ymlaen
Manwerthu	• Arolwg Arwynebedd Llawr Canolfannau Ardal a Lleol	Colliers	Medi-08
	• Siopau Manwerthu Tu Allan i Gaerdydd	CSC	Ion-11
	• Astudiaeth Capasiti Manwerthu	Colliers	Maw-09
	• Diweddariad Astudiaeth Capasiti Manwerthu Cyfrol 1: Adroddiad Ymgynghorwyr	Colliers	Maw-11

Testun	Teitl	Awdur	Dyddiad
Bioamrywiaeth	• Cronfa Ddata Biolegol Caerdydd	CSC	Yn mynd ymlaen
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	• Adroddiad Sgrinio	CSC	Hyd-12
Tirwedd	• Astudiaeth Tirwedd Caerdydd 1999	CSC	1999
	• Astudiaeth Tirwedd Caerdydd 2007	CSC	2007
	• Astudiaeth Adolygiad o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd	CSC	2008
Cadwraeth a Dylunio	• Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth	CSC	Yn mynd ymlaen
Llifogydd & Risg llifogydd	• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Caerdydd: Adroddiad Cam 1 (Astudiaeth Cwmpasu)	Atkins	Meh-09
	• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Caerdydd: Cam 2 Rhan 1	Atkins	Tach-11
	• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Caerdydd: Cam 2 Rhan 2	Atkins	Gorff-11
	• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Caerdydd: Cam 3	Atkins	Awst-12
	• Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Caerdydd: - Adroddiad Atodiad	Atkins	Oct-11
Mannau agored	• Arolwg Mannau Agored Caerdydd 2009	CCC	Medi-09
	• Arolwg Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch Caerdydd 2008	CCC	Maw-08
Ynni adnewyddadwy	• Asesiad Ynni Adnewyddadwy	CCC	Awst 13
Rhanbarthol	• Cynllunio Strategol ar gyfer Rhanbarth Dinas Caerdydd	Roger Tym & Partners	Hyd-11

Atodiad 13: Rhestr o’r Sail Dystiolaeth

Testun	Teitl	Awdur	Dyddiad
	• Adroddiad Canfyddiadau	Grŵp Cydweithio CDLl Caerdydd	Ebr-12

Atodiad 14: Llyfryddiaeth

Atodiad 14: Llyfryddiaeth

• Adroddiad STEAM 2010	Cyngor Caerdydd
• Arolygon Llif Traffig Blynyddol Caerdydd	Cyngor Caerdydd
• Arolygon Defnydd Blynyddol Caerdydd 2010	Cyngor Caerdydd
• Arolygon Holi Caerdydd: Rhwng 2010 a 2012	Cyngor Caerdydd
• 'Beth sy'n Bwysig' Y Strategaeth Ddeng Mlynedd (2010-2020)	Cyngor Caerdydd
• Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2009/28/EC: Hybu'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy	UE
• Trosedd Cymru a Chaerdydd 2009 - 2011	Swyddfa Gartref
• Cofrestr Busnes Swyddi Gweithwyr ac Arolwg Cyflogaeth 2012	ONS
• Ystadegau GYC, ONS 2011	ONS
• Cyfrifiadau Hawlwyr	ONS
• Amcanestyniadau twf poblogaeth ac aelwydydd	ONS
• Canllawiau i Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol 2006	Arolygiaeth gynllunio
• Cynhesu? : Dadansoddiad o Gynlluniau a Strategaethau Carbon Isel ar gyfer Dinasoedd y DU 2011	RICS
• Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, Adolygiad Cyntaf (RWP) (2008)	Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (SEWRWG)
• Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) (2010)	Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTA)
• Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau De Cymru (2008)	Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP)
• Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2011	Llywodraeth Cymru
• Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru 2005	Llywodraeth Cymru
• Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 2006	Llywodraeth Cymru
• Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 4) 2011	Llywodraeth Cymru
• Polisi Cynllunio Mwynau Cymru 2011	Llywodraeth Cymru
• Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru 2008	Llywodraeth Cymru
• Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006	Llywodraeth Cymru
• Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned 2009	Llywodraeth Cymru
• Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd 2010	Llywodraeth Cymru
• Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008	Llywodraeth Cymru
• Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2010	Llywodraeth Cymru
• Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN1) 2004	Llywodraeth Cymru

• Arolwg Iechyd Cymru 2010	Llywodraeth Cymru
• Cylchlythyr 30/2007 - Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr	Llywodraeth Cymru
• Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011	Llywodraeth Cymru

Atodiad 14: Llyfryddiaeth

Cynllunio Strategol
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

CARDIFF
CAERDYDD